# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 05/11/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
Questions to the Counsel General

Datganiad: Purfa Murco, Aberdaugleddau
Statement: Murco Refinery, Milford Haven

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad
Questions to the Assembly Commission

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Anghymhwyso Person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
The Constitutional and Legislative Affairs Committee Report on the Inquiry into Disqualification from Membership of the National Assembly for Wales

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cronfa Triniaethau Canser
Welsh Conservatives Debate: Cancer Treatments Fund

Dadl Plaid Cymru: Yr Economi
Plaid Cymru Debate: The Economy

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Gwella Bywydau Pobl Hŷn
Short Debate: Improving the Lives of Older People


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order, order. The National Assembly is in session.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Questions to the Minister for Health and Social Services

### Gofal Iechyd Meddwl

### Mental Health Care

13:30 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o hygyrchedd gofal iechyd meddwl i blant a'r glasoed? OAQ(4)0502(HSS)*

*1. What assessment has the Minister made of the accessibility of mental health care for children and adolescents? OAQ(4)0502(HSS)*

13:30 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Mae gofal arbenigol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl difrifol a chymhleth yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth iechyd meddwl i blant a'r glasoed. Mae gofal iechyd meddwl hefyd ar gael mewn ysgolion, ac ym maes gofal sylfaenol. Mae ymateb i les emosiynol pobl ifanc yn gyfrifoldeb ar bob gwasanaeth y mae'r bobl ifanc yn dod i gysylltiad ag ef.

Thank you for the question. Specialist care is for children and young people with serious and complex mental health needs is provided by the child and adolescent mental health services. Mental health care is also available in schools, and in primary care. Responding to the emotional wellbeing of young people is the responsibility of each service that the young people come into contact with it.

13:30 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch am yr ateb, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi bod yn ymchwilio i'r pwnc hwn, ac rydw i wedi gweld, wrth gwrs, yr holl dystiolaeth honno. Mae gennyf ddau bryder mawr ar hyn o bryd ynglŷn â gofal iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn gyntaf, cyfeirir pobl ymlaen at wasanaeth arbenigol y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed heb fod triniaeth ddigonol ar y lefel gynradd gan feddyg teulu neu, fel yr ydych newydd sôn amdano, ysgolion, neu beth bynnag. Yn ail, mae presgripsiynau yn cael eu rhoi ar gyfer pethau megis anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, a rhai pethau eraill, heb fod ymgais i ymdrin â'r cyflyrau mewn ffordd amgen. A ydych yn rhannu'r pryderon hyn, a beth ydych yn ei wneud i fynd i'r afael â'r mater?

Thank you for that response, Minister. You will know that the Children, Young People and Education Committee has been conducting an inquiry into this topic, and I have seen, of course, all that evidence. I have two major concerns at present about mental health care for children and young people. First, people are referred to a specialist child and adolescent mental health service without adequate treatment at the primary level by GPs or, as you have just mentioned, schools or whatever. Secondly, prescriptions are provided for things such as attention deficit hyperactivity disorder, and some other things, without an attempt to deal with the conditions in an alternative way. Do you share these concerns, and what are you doing to tackle them?

13:31 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I thank Simon Thomas for that supplementary question? I say to him that I share both of his anxieties. There has been a 103% increase in referrals to CAMHS in a four-year period. What that says to me is that the service is not being used in the way for which it was intended, and that there are young people whose needs ought to be, and can be, effectively attended to at lower levels of intervention than that specialist and mental health service is best placed to provide.

A gaf fi ddiolch i Simon Thomas am y cwestiwn atodol? Rwy'n dweud wrtho fy mod yn rhannu ei bryderon. Mae cynnydd o 103% wedi bod yn yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) mewn cyfnod o bedair blynedd. Mae hynny'n dweud wrthyf nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio yn y modd y'i bwriadwyd a bod yna bobl ifanc y dylai ac y gallai eu hanghenion gael sylw effeithiol ar lefelau is o ymyrraeth na'r lefel arbenigol y mae'r gwasanaeth iechyd meddwl yn ei ddarparu orau.

Now, there are a range of things that are there in order to provide that different level of service. Over 20% of the people presenting themselves to the Aneurin Bevan local primary care mental health service—the new service—over the summer were under the age of 18. So, that new primary care service is being used by children and young people. We have put £4.5 million into the revenue support grant to support school counselling, as recently as April 2013, and the mental health first aid for young people programme is intended to strengthen the ability of that wide range of professionals who come into contact with young people who are experiencing troubled times in their lives.

Yn awr, ceir amryw o bethau sydd yno er mwyn darparu'r lefel wahanol honno o wasanaeth. Roedd dros 20% o'r bobl a drodd at wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol lleol Aneurin Bevan—y gwasanaeth newydd—dros yr haf yn iau na 18 oed. Felly, mae'r gwasanaeth gofal sylfaenol newydd hwn yn cael ei ddefnyddio gan blant a phobl ifanc. Rhoesom £4.5 miliwn tuag at y grant cynnal refeniw i gefnogi cwnsela mewn ysgolion mor ddiweddar ag Ebrill 2013, a bwriedir i'r rhaglen cymorth cyntaf iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc gryfhau gallu'r ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phobl ifanc sy'n dioddef cyfnodau cythryblus yn eu bywydau.

Now, we need to do more, and we need to strengthen that further. We also need to get the message across, I think, to those many professionals who work with young people, that discharging your obligation to young people facing troubled times in their lives is not met by making a referral to somebody else. There are things that you are able, and ought, to do, and strengthening your ability to do it is part of our purpose.

Yn awr, mae angen i ni wneud mwy, ac mae angen i ni gryfhau hynny ymhellach. Hefyd, mae angen i ni gyfleu'r neges, rwy'n meddwl, i'r nifer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc, nad ydych yn cyflawni eich dyletswydd i bobl ifanc sy'n wynebu cyfnodau cythryblus yn eu bywydau drwy eu cyfeirio at rywun arall. Mae pethau y gallwch, ac y dylech, eu gwneud ac mae cryfhau eich gallu i wneud hynny yn rhan o'n pwrpas.

I am concerned as well at the second point that Simon Thomas raised—the level of prescribing for people who have mental health conditions at a very young age. I believe that the children's committee may want to take a particular look at that issue, and I think that that would be a very valuable piece of work, if it was able to undertake it.

Rwyf hefyd yn bryderus ynglŷn â'r ail bwynt a gododd Simon Thomas—lefel presgripsiynu ar gyfer pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl yn ifanc iawn. Rwy'n credu efallai y bydd y pwyllgor plant yn awyddus i edrych yn benodol ar y mater hwnnw ac rwy'n credu y byddai'n waith gwerthfawr iawn pe bai'n gallu gwneud hynny.

13:33 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, I thank you for those answers to Simon Thomas. He has highlighted the issues that the Children, Young People and Education Committee actually identified, and you have also, in your response to that committee, indicated some funding for talking therapies. What area are we going to promote further, because that is an area where, not just for young people, but for older people as well, there is a shortage of cognitive-based therapies, in which we can allow people to talk? Again in your letter, you identified inappropriate referrals to the specialised unit, but many of these are where this type of approach can be beneficial. So, how are we going to develop that approach across Wales, on a wider basis?

Weinidog, diolch i chi am eich atebion i Simon Thomas. Mae wedi tynnu sylw at y materion y nododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn gwirionedd, ac rydych chi hefyd, yn eich ymateb i'r pwyllgor hwnnw, wedi nodi peth cyllid ar gyfer therapïau siarad. Pa faes rydym am ei hyrwyddo ymhellach, oherwydd mae hwnnw'n faes lle mae prinder o therapïau gwybyddol y gallwn adael i bobl siarad ynddynt, nid ar gyfer pobl ifanc yn unig, ond i bobl hŷn yn ogystal? Unwaith eto yn eich llythyr, rydych wedi nodi atgyfeiriadau amhriodol i'r uned arbenigol ond mae llawer o'r rhain yn sefyllfaoedd lle y gall y math hwn o ddull fod yn fuddiol. Felly, sut ydym yn mynd i ddatblygu'r dull hwnnw ledled Cymru, ar sail ehangach?

13:34 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thanks to David Rees for that question. We have been able to provide £650,000 new investment in the provision of psychological therapies in this financial year. That is to support services for all ages, and they quite certainly do include services for young people who would otherwise—as Simon Thomas suggested—be prescribed medication, in medically driven services. We have now had the therapy plans in from all the health boards and have agreed them all, and we are confident that the money that we have provided will be put to good use for the purpose that David Rees has identified.

Diolch i David Rees am y cwestiwn. Rydym wedi gallu darparu £650,000 o fuddsoddiad newydd yn y ddarpariaeth o therapïau seicolegol yn y flwyddyn ariannol hon. Mae hynny i gefnogi gwasanaethau ar gyfer pob oedran, gan gynnwys gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn sicr a fyddai fel arall—fel yr awgrymodd Simon Thomas—yn cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn drwy'r gwasanaethau meddygol. Rydym bellach wedi cael y cynlluniau therapi gan yr holl fyrddau iechyd ac wedi cytuno arnynt oll, ac rydym yn hyderus y gwneir defnydd da o'r arian rydym wedi'i ddarparu at y diben y mae David Rees wedi'i nodi.

13:35 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, I wonder if you could provide us with an update on the work of Public Health Wales and Swansea University, I think it was, in developing a tool to measure the effectiveness of the various interventions in mental health care for children and young people.

Weinidog, tybed a allwch roi diweddariad i ni ar waith Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe, rwy'n credu, i ddatblygu adnodd i fesur effeithiolrwydd y gwahanol ymyriadau ym maes gofal iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.

13:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Public Health Wales is leading that piece of work. It is looking at a range of different interventions that have been developed over the years in the public health field, including those in the field of mental health. She is absolutely right to point to the fact that, in this field, as in too many others, we are very well supplied with information about inputs and outputs and less well supplied than we need to be with evidence of outcomes and impacts from all the work that goes on. That is the focus of the work that Public Health Wales is leading on. I think that it will be very valuable to us in making decisions in the future as to where investment is best made in order to secure the outcomes for young people that we are seeking.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arwain y gwaith. Mae'n edrych ar ystod o wahanol ymyriadau a ddatblygwyd dros y blynyddoedd ym maes iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai ym maes iechyd meddwl. Mae hi'n llygad ei lle i dynnu sylw at y ffaith ein bod, yn y maes hwn, fel mewn gormod o rai eraill, yn cael llawer iawn o wybodaeth am fewnbynnau ac allbynnau ac yn cael llai o dystiolaeth nag y dylem am ganlyniadau ac effeithiau'r holl waith sy'n digwydd. Dyna ffocws y gwaith y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei arwain. Rwy'n credu y bydd yn werthfawr iawn i ni wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol o ran dewis y pethau gorau i fuddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau'r canlyniadau rydym yn ceisio eu cael ar gyfer y bobl ifanc.

## Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau yn Ynys Môn

## Out-of-Hours Services in Anglesey

13:36 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau y tu allan i oriau yn Ynys Môn? OAQ(4)0511(HSS)*

*2. Will the Minister make a statement on out-of-hours services in Anglesey? OAQ(4)0511(HSS)*

13:36

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you for the question. Health boards are responsible for providing out-of-hours services for their population. Each health board needs to ensure that its out-of-hours service is safe and sustainable. This should be clearly articulated in the integrated three-year plan that Betsi Cadwaladr University Local Health Board is developing.

Diolch am y cwestiwn. Mae'r byrddau iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau y tu allan i oriau ar gyfer eu poblogaeth. Mae angen i bob bwrdd iechyd sicrhau bod ei wasanaeth y tu allan i oriau yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Dylai hyn gael ei fynegi'n glir yn y cynllun tair blynedd integredig y mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei ddatblygu.

Senedd.tv
Fideo Video

13:36

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr i'r Dirprwy Weinidog. Mae'r sefyllfa o ran diffyg meddygon teulu y tu allan i oriau yn fy etholaeth yn argyfyngus. Derbyniais lythyr yn ddiweddar gan un wraig oedrannus a oedd wedi gorfod aros 15 awr a mwy am ymweliad gan feddyg dros y Sul. A yw'r Dirprwy Weinidog yn ymwybodol nad oes un meddyg teulu ar alwad yn Ynys Môn dros y Sul? A yw'r Dirprwy Weinidog yn sylweddoli mai dim ond un meddyg sy'n gallu ymweld â chartrefi pobl, nid yn unig yn Ynys Môn ond hefyd mewn rhan helaeth o Wynedd, dros y Sul? A yw'r Dirprwy Weinidog yn meddwl bod y lefel honno o wasanaeth yn dderbyniol a pha gynlluniau sydd ganddo i fynd i'r afael â'r broblem?

I thank the Deputy Minister. The situation in terms of a shortage of out-of-hours GPs in my constituency is critical. I received a letter recently from an elderly lady who had to wait 15 hours and more for a doctor's visit over the weekend. Is the Deputy Minister aware that there is not one GP on call in Anglesey over the weekend? Does the Deputy Minister realise that there is only one doctor who can make home visits, not only in Anglesey but also in a large part of Gwynedd, at the weekend? Does the Deputy Minister think that that level of service is acceptable and what plans does he have to tackle the problem?

Senedd.tv
Fideo Video

13:37

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

I thank the Member for the supplementary question. If he wants to write to me on the individual case that he raises, I would be happy to look at that and to discuss with the health board what the reason is and how it intends to respond to that as a challenge going forward. The model that Anglesey runs relies on an advanced nurse practitioner service dealing with a range of the calls that initially come in. Feedback from patients has been positive about their experience. If you look at the overall responses, about 40% of the calls to the out-of-hours service are dealt with by telephone advice, which is a good thing. About 14% of the calls result in a home call and the rest come in to a centre. The model that Anglesey runs has GP support that is available in a centre. If that access, in this particular case, was not there, that is not the model that the health board is running on the island of Anglesey. However, we need to look at the out-of-hours service as a medical service for the patient and not simply a GP service. It is about having the access to appropriate medical support and advice and getting the person to the right clinician at the right time. So, I would not accept that the service has to rely solely on GPs running the services. It is about having proper access to a range of medical practitioners and who is that first person. I am quite satisfied that having an advanced nurse practitioner as the initial point of contact is an appropriate model to run.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn atodol. Os yw'n dymuno ysgrifennu ataf ynghylch yr achos unigol y mae'n cyfeirio ato, buaswn yn hapus i edrych ar hynny ac i drafod gyda'r bwrdd iechyd beth yw'r rheswm a sut y mae'n bwriadu ymateb i hynny fel her wrth symud ymlaen. Mae'r model y mae Ynys Môn yn ei weithredu yn dibynnu ar wasanaeth uwch-ymarferydd nyrsio sy'n ymwneud ag ystod o'r galwadau a ddaw i mewn yn y lle cyntaf. Mae adborth gan gleifion sy'n sôn am eu profiad wedi bod yn gadarnhaol. Os edrychwch ar yr ymatebion yn gyffredinol, mae tua 40% o'r galwadau i'r gwasanaeth y tu allan i oriau yn cael eu trin drwy gyngor dros y ffôn, sy'n beth da. Mae tua 14% o'r galwadau'n arwain at ymweliad â'r cartref ac mae'r gweddill yn mynd i un o'r canolfannau. Mae'r model y mae Ynys Môn yn ei weithredu yn cael cefnogaeth meddygon teulu yn y ganolfan. Os nad oedd mynediad o'r fath ar gael yn yr achos penodol hwn, nid dyna'r model y mae'r bwrdd iechyd yn ei weithredu ar Ynys Môn. Fodd bynnag, mae angen i ni edrych ar y gwasanaeth y tu allan i oriau fel gwasanaeth meddygol ar gyfer y claf ac nid gwasanaeth meddygon teulu yn unig. Mae'n ymwneud â chael mynediad at gymorth a chyngor meddygol priodol a sicrhau bod y person yn cyrraedd y clinigydd cywir ar yr amser cywir. Felly, ni fyddwn yn derbyn bod rhaid i'r gwasanaeth ddibynnu'n llwyr ar feddygon teulu i redeg y gwasanaethau. Mae'n ymwneud â chael mynediad priodol at ystod o ymarferwyr meddygol a phwy yw'r person cyntaf hwnnw. Rwy'n eithaf bodlon fod cael uwch-ymarferydd nyrsio fel y pwynt cyswllt cyntaf yn fodel priodol i'w weithredu.

Senedd.tv
Fideo Video

13:39 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While the UK Government has launched a pilot scheme for surgeries in nine areas to bid for money to open from 8 a.m. to 8 p.m., seven days a week, Members who attended the 3 June briefing event in the Assembly by British Medical Association Cymru Wales and the north Wales local medical committee will have heard that patient/GP ratios in north Wales have risen to 3,800:1—double the safety rate normally recognised by the Welsh Government and health providers. How will this impact on out-of-hours services in Anglesey and more widely across the region? What urgent action is being taken to prioritise remedies to address this?

Er bod Llywodraeth y DU wedi lansio cynllun peilot i feddygfeydd mewn naw ardal wneud cais am arian i agor o 8am hyd 8pm, saith diwrnod yr wythnos, bydd yr Aelodau a fynychodd y digwyddiad briffio ar 3 Mehefin yn y Cynulliad gan Gymdeithas Feddygol Prydain (Cymru) a phwyllgor meddygol lleol Gogledd Cymru wedi clywed bod cymarebau claf/meddyg teulu yn y gogledd wedi codi i 3,800:1—dwbl y gyfradd ddiogelwch a gydnabyddir fel arfer gan Lywodraeth Cymru a darparwyr iechyd. Sut y bydd hyn yn effeithio ar wasanaethau y tu allan i oriau yn Ynys Môn ac yn fwy eang ar draws y rhanbarth? Pa gamau brys sy'n cael eu cymryd i flaenoriaethu atebion i fynd i'r afael â hyn?

13:39 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, I refer back to the response that I have just given to the Member for Ynys Môn. The model that is being run on the island of Anglesey has an initial point of contact to an advanced nurse practitioner. That is an entirely appropriate model to run for people to have access to out-of-hours medical support and advice. I do not see a reason to want to change or interfere with that model. It is, of course, entirely appropriate that that nurse-practitioner service has the support of other medical practitioners as appropriate, and that may be for the GP service that should be available to them at all points in the out-of-hours service. So, I would not accept that the figures that he has quoted show that this is a service that is not being run in an appropriate way that puts the needs of the patient, and the needs of a patient in an out-of-hours-context service, first, and I am quite satisfied that this is an appropriate use of resource.

Unwaith eto, rwy'n cyfeirio'n ôl at yr ateb rwyf newydd ei roi i'r Aelod dros Ynys Môn. Mae gan y model sy'n cael ei weithredu ar Ynys Môn bwynt cyswllt cychwynnol at uwch-ymarferydd nyrsio. Mae'n fodel cwbl briodol i'w weithredu i bobl gael cymorth a chyngor meddygol y tu allan i oriau. Nid wyf yn gweld rheswm dros fod eisiau newid neu ymyrryd â'r model hwn. Mae'n hollol briodol, wrth gwrs, fod y gwasanaeth ymarferydd nyrsio yn cael cefnogaeth ymarferwyr meddygol eraill fel y bo'n briodol, ac efallai y bydd hynny'n dod gan y gwasanaeth meddyg teulu a ddylai fod ar gael iddynt ar bob pwynt yn y gwasanaeth y tu allan i oriau. Felly, ni fyddwn yn derbyn bod y ffigurau y mae wedi'u dyfynnu'n dangos bod hwn yn wasanaeth nad yw'n cael ei redeg mewn ffordd briodol sy'n rhoi anghenion y claf, ac anghenion claf yng nghyd-destun y gwasanaeth y tu allan i oriau, yn gyntaf, ac rwy'n eithaf bodlon fod hyn yn ddefnydd priodol o adnoddau.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call the party spokespeople to question the Minister. The Welsh Conservatives' spokesperson, Darren Millar.

Galwaf yn awr ar lefarwyr y pleidiau i holi cwestiynau i'r Gweinidog. Llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.

13:40 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Minister, today has been an historic moment for the Assembly. A petition signed by some 98,000 people has been presented on the Senedd steps, calling for equality in access to cancer drugs between England and Wales. What is your response to their request?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, mae heddiw wedi bod yn foment hanesyddol i'r Cynulliad. Cafodd deiseb wedi'i llofnodi gan tua 98,000 o bobl ei chyflwyno ar risiau'r Senedd yn galw am gydraddoldeb o ran mynediad at gyffuriau canser rhwng Cymru a Lloegr. Beth yw eich ymateb i'w cais?

13:41 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government has no intention of introducing a cancer drugs fund in Wales, for a series of very good reasons, which have been extensively rehearsed here. It is a scheme that is not ethical, it lacks clinical support, it is unpopular with the public and would deliver a lesser service to cancer patients in Wales.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad i gyflwyno cronfa gyffuriau canser yng Nghymru am nifer o resymau da iawn sydd wedi cael eu hadrodd yn helaeth yma. Nid yw'n gynllun moesegol, ychydig o gefnogaeth glinigol sydd iddo, mae'n amhoblogaidd ymhlith y cyhoedd a byddai'n darparu llai o wasanaeth ar gyfer cleifion canser yng Nghymru.

13:41 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the petition is in this box in front of me here. It is signed by 98,000 people. I think that that shows that it is a very popular demand among members of the public, not just in Wales, but around the UK, who see the obvious injustice that is being done to Welsh patients. It is popular; it is popular among those patients who have had the drugs denied to them that their clinicians want to be able to treat them with. Do you accept that many among the 55,000 people who have been granted access to drugs in England, are indeed securing better clinical outcomes as a direct result of their access to a cancer drugs fund in England?

Weinidog, mae'r ddeiseb yn y blwch hwn o fy mlaen. Mae wedi cael ei llofnodi gan 98,000 o bobl. Credaf fod hynny'n dangos ei bod yn alwad boblogaidd iawn ymhlith y cyhoedd, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled y Deyrnas Unedig, sy'n gweld yr anghyfiawnder amlwg i gleifion yng Nghymru. Mae'n boblogaidd; mae'n boblogaidd ymhlith y cleifion hynny sydd heb gael y cyffuriau y mae eu clinigwyr eisiau gallu eu defnyddio i'w trin. A ydych yn derbyn bod llawer o blith y 55,000 o bobl sydd wedi cael mynediad at gyffuriau yn Lloegr, yn wir yn cael canlyniadau clinigol gwell o ganlyniad uniongyrchol i'w mynediad at gronfa gyffuriau canser yn Lloegr?

13:42 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would rather rely on the chair of the cancer drugs fund in England, who wrote to Simon Stevens, the chief executive of NHS England at the end of August to say that there were drugs being prescribed by the cancer drugs fund that were neither effective nor cost-effective. I do not agree with what Darren Millar has said. Neither his visual aids nor his hectoring tone persuade me. [Laughter.]

Byddai'n well gennyf ddibynnu ar gadeirydd y gronfa gyffuriau canser yn Lloegr a ysgrifennodd at Simon Stevens, prif weithredwr NHS Lloegr, ddiwedd mis Awst i ddweud bod cyffuriau'n cael eu presgripsiynu gan y gronfa gyffuriau canser nad oedd yn effeithiol nac yn gosteffeithiol. Nid wyf yn cytuno â'r hyn y mae Darren Millar wedi'i ddweud. Nid yw ei gymhorthion gweledol na'i dôn sarrug yn fy mherswadio i. [Chwerthin.]

13:42 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You may think that this is an amusing matter, and so might the people on the Government benches. I do not. I happen to think that this is an injustice. You will be aware, Minister, that, yesterday, the Assembly was visited by Rosemary Greenslade, who is now benefiting from a drug that she was initially denied, and subsequently, only through shaming the health board in which she lives, was given access to a drug, many months later than she would otherwise have been. She is responding well to that drug, as is Ann Wilkinson, who has been on the steps of the Senedd today. Why do you not meet with those patients and why do you refuse to attend the presentation of petitions that are calling upon you to take action on this important matter?

Efallai eich bod yn meddwl bod hwn yn fater doniol ac efallai fod y bobl ar feinciau'r Llywodraeth yn meddwl hynny hefyd. Nid wyf i'n meddwl hynny. Rwy'n digwydd credu ei fod yn anghyfiawn. Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, fod Rosemary Greenslade wedi ymweld â'r Cynulliad ddoe, dynes sydd bellach yn cael budd o gyffur a gafodd ei wrthod iddi i ddechrau, ac ar ôl hynny, dim ond drwy godi cywilydd ar y bwrdd iechyd yn ei hardal y cafodd fynediad at gyffur, sawl mis yn hwyrach nag y byddai wedi'i gael fel arall. Mae hi'n ymateb yn dda i'r cyffur hwnnw, fel y mae Ann Wilkinson, sydd wedi bod ar risiau'r Senedd heddiw. Pam na wnewch chi gyfarfod â'r cleifion hynny a pham rydych chi'n gwrthod mynychu cyflwyniad y deisebau sy'n galw arnoch i weithredu ar y mater pwysig hwn?

Let me assure Darren Millar that I have never found him amusing nor do I agree with him that decisions in the Welsh NHS are made on the basis of shame; they are made on the basis of clinical representation and proper decision-making. People who will benefit from drugs get those drugs. More than half of the applications to the individual patient funding request process result in that drug being made available. We have a system that is fair to all patients, that is clinically driven and that provides good outcomes at a cost-effective price; that is the right way to do things.

Gadewch i mi sicrhau Darren Millar nad wyf i erioed wedi'i weld ef yn ddoniol ac nid wyf yn cytuno ag ef fod penderfyniadau GIG Cymru yn cael eu gwneud ar sail cywilydd; maent yn cael eu gwneud ar sail sylwadau clinigol a phenderfyniadau priodol. Bydd y bobl a fydd yn elwa o gyffuriau yn cael y cyffuriau hynny. Mae mwy na hanner y ceisiadau i'r broses ceisiadau cyllido cleifion unigol yn arwain at sicrhau bod y cyffur hwnnw ar gael. Mae gennym system sy'n deg i bob claf, system o dan arweiniad clinigwyr ac sy'n sicrhau canlyniadau da am bris costeffeithiol; dyna'r ffordd gywir i wneud pethau.

13:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now, the Welsh Liberal Democrats' Kirsty Williams.

Yn awr, Kirsty Williams ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, was the tripartite meeting held between the Welsh Government, the Wales Audit Office and Health Inspectorate Wales last Friday to discuss the situation at Betsi Cadwaladr health board a regular, planned meeting, or was it a special meeting? If it was a special one, could you outline what triggers caused that meeting to be held?

Weinidog, a oedd y cyfarfod triphlyg a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru ddydd Gwener diwethaf i drafod y sefyllfa ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn gyfarfod arferol, wedi'i drefnu, neu a oedd yn gyfarfod arbennig? Os oedd yn un arbennig, a allech amlinellu beth oedd yr ysgogiad i gynnal y cyfarfod?

13:44 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Kirsty Williams will be aware, I am sure, that as a result of events at Betsi Cadwaladr last year, the WAO, HIW and the Welsh Government got together to agree a protocol through which intervention in the affairs of any local health board could be properly navigated. What we found from our previous experience was is that while all the different levers were available, there was insufficient certainty about which organisation was possessed with what power and how that power would be exercised. So, a protocol is drawn up. Part of the protocol is that those three organisations meet together twice a year to review the status of all health boards in Wales. There is a possibility in between those meetings for further meetings to be arranged. The meeting that took place last Friday was a meeting within the protocol. It looked at the current state of intervention in Betsi Cadwaladr and it made a recommendation that Welsh Government has agreed.

O ganlyniad i ddigwyddiadau yn Betsi Cadwaladr y llynedd, rwy'n siŵr y bydd Kirsty Williams yn ymwybodol fod Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Llywodraeth Cymru wedi dod at ei gilydd i gytuno ar brotocol lle y gellid mynd ati'n briodol i lywio ymyrraeth ym materion unrhyw fwrdd iechyd lleol. Yr hyn a welsom o'n profiad blaenorol oedd hyn: er bod pob un o'r gwahanol ysgogiadau ar gael, nid oedd digon o sicrwydd ynghylch pa bŵer oedd gan ba sefydliad a sut y byddai pŵer o'r fath yn cael ei ddefnyddio. Felly, mae protocol wedi cael ei lunio. Rhan o'r protocol yw bod y tri sefydliad yn cyfarfod â'i gilydd ddwywaith y flwyddyn i adolygu statws pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Byddai modd trefnu cyfarfodydd pellach rhwng y cyfarfodydd hynny. Roedd y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener diwethaf yn gyfarfod o fewn y protocol. Edrychodd ar y sefyllfa bresennol o ran ymyrryd yn Betsi Cadwaladr a gwnaeth argymhelliad y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno arno.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In going forward, Minister, you have set out plans for escalation and de-escalation, following performance at Betsi Cadwaladr, and those plans will be discussed. Is it your intention to make those plans that will either necessitate escalation to special measures or de-escalation, public?

Wrth symud ymlaen, Weinidog, rydych wedi nodi cynlluniau ar gyfer trosglwyddo i lefel uwch a throsglwyddo o lefel uwch yn dilyn perfformiad yn Betsi Cadwaladr a bydd y cynlluniau hynny'n cael eu trafod. Ai eich bwriad yw cyhoeddi'r cynlluniau hynny a fydd naill ai'n golygu bod angen trosglwyddo i fesurau arbennig neu drosglwyddo o lefel uwch?

13:46 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Kirsty Williams makes an important point about the protocol, that it involves steps to de-escalate as well as to put people up the level of escalation. I might, Dirprwy Lywydd, correct an impression that was given on the floor yesterday that Betsi Cadwaladr is now at the extreme end of the escalation framework—it is not; it is at the third stage. There are four stages altogether. As we work with the health board and as we provide it with the extra assistance that we think that it needs in order to address three particular issues that were of concern to Health Inspectorate Wales, the Wales Audit Office and ourselves, I am sure that we will be happy to make that information available.

Mae Kirsty Williams yn gwneud pwynt pwysig am y protocol, ei fod yn cynnwys camau i drosglwyddo o lefel uwch yn ogystal ag i lefel uwch. Ddirprwy Lywydd, carwn gywiro'r argraff a roddwyd ar y llawr ddoe fod Betsi Cadwaladr bellach ar ben eithaf y fframwaith trosglwyddo i lefel uwch—nid yw hynny'n wir; mae ar y trydydd cam. Mae pedwar cam i gyd. Wrth i ni weithio gyda'r bwrdd iechyd a darparu'r cymorth ychwanegol y credwn sydd ei angen arno i fynd i'r afael â thri mater penodol a oedd yn peri pryder i Arolygiaeth Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a ni ein hunain, rwy'n sicr y byddwn yn hapus i ddarparu'r wybodaeth honno.

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am sure that you would agree that Betsi Cadwaladr university health board is facing severe challenges in managing its waiting times for diagnostic tests and also its referral-to-treatment times. What will the targeted intervention that your Government is now stating it intends to carry out look like for patients and staff in that region?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod bwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr yn wynebu heriau difrifol wrth reoli ei amserau aros ar gyfer profion diagnostig a hefyd ei amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Pa ffurf fydd ar yr ymyrraeth wedi'i thargedu y mae eich Llywodraeth yn awr yn datgan ei bod yn bwriadu ei chyflawni o safbwynt cleifion a staff yn y rhanbarth?

13:47 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Again, Dirprwy Lywydd, I could maybe put on record the three particular issues that the enhanced level of intervention will address. It will address the budgetary-control issues at that health board. I have been very taken aback by the health board's sudden increase in its estimate of its need to spend money in this financial year. It is not acceptable to me that it should suddenly tell me that it needs nearly £35 million more than it had told me originally that it would need in a single month. That will be part of the intervention. It is not acceptable to me that capital controls over some of its major projects have been found to be wanting and we will be give it extra assistance to make sure that it is properly able to manage major sums of investment that the Welsh Government is providing to it. The third aspect of intervention is not on waiting times, as was implied here yesterday, but in the field of mental health. Members here will have read about some of the issues that Betsi Cadwaladr faces in providing proper mental health services and the longer history of dispute between clinicians across that board as to the best way in which mental health services are to be provided. Those are the three things that extra intervention will focus on and those are the three things that we will work on to make sure that the local population gets the service that it requires.

Unwaith eto, Ddirprwy Lywydd, efallai y caf i gofnodi tri mater penodol y bydd y lefel uwch o ymyrraeth yn mynd i'r afael â hwy. Bydd yn mynd i'r afael â'r materion rheoli cyllideb yn y bwrdd iechyd. Rwyf wedi cael fy synnu gan y cynnydd sydyn yn amcangyfrif y bwrdd iechyd o'i anghenion gwario arian yn y flwyddyn ariannol hon. Nid yw'n dderbyniol i mi ei fod yn dweud wrthyf yn sydyn bod angen bron i £35 miliwn yn fwy nag y dywedodd yn wreiddiol y byddai ei angen mewn un mis. Bydd hynny'n rhan o'r ymyrraeth. Nid yw'n dderbyniol i mi fod rheolaethau cyfalaf dros rai o'i brosiectau mawr i'w gweld yn ddiffygiol a byddwn yn rhoi cymorth ychwanegol i wneud yn siŵr ei fod yn gwbl abl i reoli symiau mawr o fuddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar ei gyfer. Nid ymwneud ag amseroedd aros y mae'r drydedd agwedd ar ymyrraeth fel yr awgrymwyd yma ddoe, ond â maes iechyd meddwl. Bydd Aelodau yma wedi darllen am rai o'r materion y mae Betsi Cadwaladr yn eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl priodol a'r hanes hir o anghydfod rhwng clinigwyr ar draws y bwrdd o ran y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl. Dyna'r tri pheth y bydd ymyrraeth ychwanegol yn canolbwyntio arnynt a dyna'r tri pheth y byddwn yn gweithio arnynt i wneud yn siŵr fod y boblogaeth leol yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arni.

13:48 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, fe fyddwch chi'n gwybod bod yr amserau aros ar gyfer MRI 'scans' lawer yn hirach yng Nghymru nag ydynt yn Lloegr a'r Alban. Bythefnos yn ôl yn y Siambr yma, fe geisiodd y Prif Weinidog esbonio hynny drwy ddweud fod yna gynnydd mewn galw. Mae eich ystadegau chi'n dangos bod cynnydd o 33% mewn galw yng Nghymru, ond bod cynnydd o 40% mewn galw yn Lloegr a chynnydd o 60% mewn galw dros y flwyddyn ddiwethaf yn yr Alban. Nid cynnydd mewn galw felly sy'n esbonio'r gwahaniaeth yn yr amserau hir yma yn yr ystadegau. Beth felly, yn eich barn chi, sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr amser hir o ddisgwyl am MRI 'scans' yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a'r Alban?

Minister, you will know that the waiting times for MRI scans are much longer in Wales than they are in England and Scotland. A fortnight ago in this Chamber, the First Minister tried to explain that by saying that there was an increase in demand. Your statistics show that there is an increase of 33% in the demand in Wales, but an increase of 40% in demand in England and an increase of 60% in demand over the past year in Scotland. It is not an increase in demand, therefore, that explains that difference in these waiting times in the statistics. So, what, in your opinion, is the explanation for the difference in the waiting times for MRI scans in Wales as compared to England and Scotland?

13:49 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I believe that there are three things that we have to do in order to tackle the position that Elin Jones has outlined. I do think that it is right that we look at demand as well as supply. There is no doubt that MRI scans are sometimes used for purposes that give very little clinical benefit. There is some very good advice emerging now from royal colleges, not just in this country, but elsewhere as well, that make it clear that inappropriate use of MRI scans actually causes more harm than it provides benefit to patients. It is right that we are confident that MRI scans are used only in circumstances where the gain is likely to be greater to the patient than any potential disbenefit. So, there is work to be done there.

Credaf fod tri pheth y mae'n rhaid i ni ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa y mae Elin Jones wedi'i hamlinellu. Rwy'n credu ei bod hi'n iawn i ni edrych ar y galw yn ogystal â'r cyflenwad. Nid oes amheuaeth bod sganiau MRI yn cael eu defnyddio weithiau at ddibenion nad ydynt yn cynnig fawr o fudd clinigol. Mae rhywfaint o gyngor da iawn yn dod i'r amlwg yn awr o'r colegau brenhinol, nid yn y wlad hon yn unig ond mewn mannau eraill hefyd, sy'n ei gwneud yn glir bod defnydd amhriodol o sganiau MRI mewn gwirionedd yn achosi mwy o ddrwg nag o fudd i gleifion. Mae'n iawn i ni allu bod yn hyderus na chaiff sganiau MRI eu defnyddio heblaw mewn amgylchiadau lle mae'r budd yn debygol o fod yn fwy i'r claf nag unrhyw anfantais bosibl. Felly, mae gwaith i'w wneud yno.

We need to look at the pattern of use of MRI scanners that we currently have in the Welsh NHS. I have seen the preliminary results of a piece of work mapping where every MRI scanner is in Wales, the hours that it is open, and the number of patients that it sees within those opening hours. You could make a plausible argument to say that we could be doing an awful lot more with the capacity that we already have, if that capacity was better organised. Therefore, the second strand is to make better use of what we already have. Then, there is a third strand, which is that some MRI scanners are reaching the latter part of their usable life; they will need replacement. The Welsh Government, through the Minister for finance, has made money available for that purpose and we will look selectively to invest in new diagnostic equipment where we are confident that that will provide a quicker and better service for patients.

Mae angen i ni edrych ar batrwm y defnydd o sganwyr MRI ar hyn o bryd yn y GIG yng Nghymru. Rwyf wedi gweld canlyniadau rhagarweiniol gwaith sy'n mapio ble mae pob sganiwr MRI yng Nghymru, yr oriau y mae ar agor, a nifer y cleifion y mae'n eu gweld yn ystod yr oriau agor. Gallech gynnig dadl deg i ddweud y gallem fod yn gwneud llawer iawn mwy gyda'r capasiti sydd gennym yn barod, pe bai'r capasiti hwnnw wedi'i drefnu'n well. Felly, yr ail elfen yw gwneud gwell defnydd o'r hyn sydd gennym yn barod. Yna, ceir trydedd elfen, sef bod rhai sganwyr MRI yn cyrraedd pen draw eu hoes ddefnyddiol; mae angen rhai newydd yn eu lle. Mae Llywodraeth Cymru, drwy gyfrwng y Gweinidog cyllid, wedi sicrhau bod arian ar gael at y diben hwnnw a byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer buddsoddi mewn offer diagnostig newydd lle rydym yn hyderus y bydd hynny'n darparu gwasanaeth cyflymach a gwell i gleifion.

13:51

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, yn ogystal ag MRI 'scans', mae'r amserau aros am CT 'scans' hefyd yn hirach yng Nghymru nag yn Lloegr a'r Alban. Mae'n fis hybu ymwybyddiaeth o ganser y pancreas, ac mae 'access' brys i CT 'scan' yn hollbwysig i ddiagnosis o ganser y pancreas. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno cynllun: os yw GP yn amau bod canser y pancreas ar unigolyn, mae llwybr brys uniongyrchol i CT 'scan' yn deillio allan o hynny. A ydych chi'n barod i edrych ar y model yn yr Alban er mwyn sicrhau 'access' brys i CT 'scan'?

Minister, in addition to MRI scans, the waiting times for CT scans are also longer in Wales than in England and Scotland. It is pancreatic cancer awareness month, and urgent access to a CT scan is crucially important for the diagnosis of pancreatic cancer. The Scottish Government has introduced a scheme whereby, if a GP suspects that an individual has pancreatic cancer, an urgent direct route to a CT scan comes from that. Are you willing to look at the model in Scotland to ensure urgent access to CT scans?

13:51

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, mae hynny'n ddiddorol ac rwy'n hollol hapus i edrych mewn i beth maen nhw'n ei wneud yn yr Alban. Os ydym ni'n gallu dysgu gwersi o'r hyn maen nhw'n ei wneud yno a fydd yn ein helpu ni i'w wneud yn well yma yng Nghymru, wrth gwrs rwy'n fodlon edrych mewn i'r hyn mae'r Aelod wedi ei ddweud. Yn gyffredinol, wrth gwrs, yn y 'pathway' sydd gyda ni o 31 a 62 diwrnod, mae 'diagnostics' wedi eu cynnwys fel rhan o'r 'pathway' hwnnw. Rydym yn gwybod ein bod yn gwneud lot yn well yng Nghymru nag y maen nhw'n ei wneud yn Lloegr.

Of course, that is interesting and I am very happy to look at what they are doing in Scotland. However, if we can learn lessons from what they are doing there that will help us to do better here in Wales, of course I would be more than happy to look into the issues raised by the Member. Generally speaking, of course, in the pathway that we have of 31 and 62 days, diagnostics are included as part of that pathway. We know that we are doing far better in Wales than they are doing in England.

13:52

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe glywodd nifer ohonom ni a oedd yn y digwyddiad hybu ymwybyddiaeth o ganser y pancreas, yma yn y Cynulliad amser cinio, fod 5% o farwolaethau Cymru o ganser 'nawr yn farwolaethau o ganser y pancreas. A gaf ofyn i chi felly gadarnhau eich bod chi, fel Llywodraeth, yn edrych i greu 'pathway' clir sydd ag adnoddau digonol o gwmpas diagnosis, yn deillio o ymwybyddiaeth GPs, ac hefyd ar gyfer y systemau cefnogi sydd yno ar gyfer triniaeth a llawdriniaeth, yn benodol ar gyfer canser y pancreas?

A number of us who attended the pancreatic cancer awareness event, here at the Assembly at lunch time, heard that 5% of cancer deaths in Wales are now deaths from pancreatic cancer. May I ask you therefore to confirm that you, as a Government, are looking to create a clear pathway that has sufficient resources around diagnosis, following from awareness among GPs, and also for the support systems that are there for treatment and surgery, specifically for pancreatic cancer?

13:53 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

What I am prepared to say to the Member, certainly, is this: I am prepared to put the ideas that she has outlined this afternoon to the people who give me the best possible clinical advice here in Wales. If they think that there is merit in some of the ideas that have been discussed here in the Assembly this afternoon, I will be very happy to look at that. I do not think that it would be right for me, without having received that advice, to make a particular commitment to a particular type of cancer, without making sure that I have received the necessary and expert advice that would guide me in that.

Yr hyn rwy'n sicr yn barod i'w ddweud wrth yr Aelod yw hyn: rwy'n barod i roi'r syniadau y mae wedi sôn amdanynt y prynhawn yma gerbron y bobl sy'n rhoi'r cyngor clinigol gorau posibl i mi yma yng Nghymru. Os ydynt yn credu bod rhinwedd yn rhai o'r syniadau a drafodwyd yma yn y Cynulliad y prynhawn yma, byddaf yn hapus iawn i edrych ar hynny. Heb y cyngor hwnnw, nid wyf yn meddwl y byddai'n iawn i mi wneud ymrwymiad penodol i fath penodol o ganser, heb wneud yn siŵr fy mod wedi cael y cyngor angenrheidiol ac arbenigol a fyddai'n fy arwain yn hynny o beth.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Questions 3, 6 and 8 will be grouped.

Bydd cwestiynau 3, 6 ac 8 yn cael eu grwpio.

Senedd.tv Fideo Video

### Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru

### Mid Wales Healthcare Study Report

13:53 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gan Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru? OAQ(4)0498(HSS)*

*3. Will the Minister make a statement on the Welsh Institute for Health and Social Care's Mid Wales Healthcare Study Report? OAQ(4)0498(HSS)*

Senedd.tv Fideo Video

**Elin Jones** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau nesaf yn dilyn cyhoeddi adroddiad Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru ar 23 Hydref? OAQ(4)0500(HSS)*

*6. Will the Minister outline what actions will be taken following the publication of the Mid Wales Healthcare Study report on 23 October? OAQ(4)0500(HSS)*

**Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwersi i ofal iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru sy'n deillio o astudiaeth yr Athro Marcus Longley? OAQ(4)0503(HSS)*

*8. Will the Minister make a statement on the lessons learnt in relation to healthcare in Mid and West Wales following the study undertaken by Professor Marcus Longley? OAQ(4)0503(HSS)*

13:54 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

I thank Russell George for his question. I welcome the report. I think that it provides a comprehensive analysis of the issues and opportunities for the future provision of healthcare for people living in mid Wales. Within the Welsh Government, we are considering our detailed response to it, and I look to key stakeholders to work together to do the same.

Diolch i Russell George am ei gwestiwn. Rwy'n croesawu'r adroddiad. Rwy'n credu ei fod yn cynnig dadansoddiad cynhwysfawr o'r materion a'r cyfleoedd ar gyfer darparu gofal iechyd yn y dyfodol i bobl sy'n byw yng nghanolbarth Cymru. Yn Llywodraeth Cymru, rydym yn ystyried ein hymateb manwl i iddo, ac rwy'n gofyn i randdeiliaid allweddol gydweithio i wneud yr un peth.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for your response. I am pleased that you welcome the report. The report states that Bronglais General Hospital should be at the heart of future healthcare services in mid Wales. The report largely reflects my views and the views of my constituents, especially those living in the areas of Llanidloes and Machynlleth. What action will the Welsh Government take to establish a joint governance mechanism between the three health boards to secure Bronglais's future? Can you give us an indication of when you might be in a position to accept the recommendations?

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Rwy'n falch eich bod yn croesawu'r adroddiad. Mae'r adroddiad yn nodi y dylai Ysbyty Cyffredinol Bronglais fod yn ganolog i wasanaethau gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru yn y dyfodol. I raddau helaeth, mae'r adroddiad yn adlewyrchu fy safbwyntiau a barn fy etholwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw yn ardaloedd Llanidloes a Machynlleth. Pa gamau a roddir ar waith gan Lywodraeth Cymru i sefydlu peirianwaith llywodraethu ar y cyd rhwng y tri bwrdd iechyd i sicrhau dyfodol Bronglais? A allwch roi syniad i ni pryd y gallech fod mewn sefyllfa i dderbyn yr argymhellion?

Senedd.tv Fideo Video

13:55

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Russell George for that follow-up question. I thank him for his expression of support for some of the key conclusions that the report draws. I am very glad to see it and to be able to publish it. I was persuaded of the need to commission it by views that were put to me by key local clinicians, and I think that the report has stood up to the challenge that they laid down to design a positive and successful future for Bronglais, as the hub for services provided in mid Wales.

Diolch i Russell George am y cwestiwn dilynol. Diolch iddo am fynegi ei gefnogaeth i rai o'r casgliadau allweddol y daw'r adroddiad iddynt. Rwy'n falch iawn o'i weld ac o allu ei gyhoeddi. Cefais fy argyhoeddi o'r angen i'w gomisiynu gan safbwyntiau a gefais gan glinigwyr lleol allweddol a chredaf fod yr adroddiad wedi ymateb i'r her a osodwyd ganddynt i lunio dyfodol cadarnhaol a llwyddiannus ar gyfer Bronglais fel canolfan i ddarparu gwasanaethau yng nghanolbarth Cymru.

Russell George refers specifically to the first recommendation that the report makes, which is to establish this joint group, bringing together Hywel Dda, Powys and Betsi Cadwaladr health boards, together with the Welsh Ambulance Services NHS Trust. It proposes an independent chair and a senior membership for that group in order to, at the highest level, ensure that there is proper planning for the health needs of that population that is shared across those health boards.

Mae Russell George yn cyfeirio'n benodol at argymhelliad cyntaf yr adroddiad sef sefydlu'r grŵp ar y cyd a dod â byrddau iechyd Hywel Dda, Powys a Betsi Cadwaladr at ei gilydd, ynghyd ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae'n argymell y dylai'r grŵp gael cadeirydd annibynnol ac uwch aelodau er mwyn sicrhau bod cynlluniau priodol ar y lefel uchaf ar gyfer anghenion iechyd y boblogaeth yn cael eu rhannu ar draws y byrddau iechyd.

The recommendation is to health boards themselves, but I wrote to all the relevant health boards on the day that the report was published, saying to them that I see substantial merit in that recommendation, that I want their boards to discuss it and that I want them to reply to me before Christmas with their views of it, in order that we can find a rapid way of taking that particular proposal forward.

Mae'r argymhelliad ar gyfer y byrddau iechyd eu hunain, ond ysgrifennais at bob bwrdd iechyd perthnasol ar y diwrnod y cyhoeddwyd yr adroddiad, yn dweud wrthynt fy mod yn gweld cryn rinwedd yn yr argymhelliad, fy mod am i'w byrddau ei drafod a dod ag ateb i mi cyn y Nadolig gyda'u barn amdano, er mwyn i ni ddod o hyd i ffordd gyflym o symud yr argymhelliad penodol hwn yn ei flaen.

13:56

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, a gaf i ddiolch i chi yn gyntaf am gomisiynu adroddiad Longley yn y lle cyntaf? Mae'r adroddiad wir yn ddadansoddiad manwl o realiti'r sefyllfa o gynnal gwasanaeth iechyd mewn ardal wledig. Mae iddo hefyd argymhellion o sylwedd. Gweithredu ar y rheiny yw'r cam nesaf. A gaf i ofyn i chi'n benodol iawn ynglŷn â rôl cadeirydd annibynnol i weithredu'r camau nesaf? Rwy'n credu y byddai cadeirydd annibynnol o'r byrddau iechyd, wedi'i apwyntio gennych chi, yn gyfraniad pwysig iawn i sicrhau momentwm ar gyfer y gwaith hwn sydd mor bwysig ar gyfer cleifion a'r boblogaeth yn gyffredinol mewn ardal wledig.

Minister, may I thank you first of all for commissioning the Longley report in the first place? The report is a detailed analysis of the reality of maintaining a health service in a rural area. It also makes some substantial recommendations. Implementing those is the next step. May I ask you very specifically about the role of an independent chair to take the next steps forward? I think that an independent chair of the health boards, appointed by you, would be an important contribution to ensure momentum now for this work, which is so crucially important for patients and the population in general in a rural area.

13:57

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I entirely agree with Elin Jones on that point. I have discussed it directly with Marcus Longley, as the main author of the report. He was very clear in his advice to me that an independent chair—someone who is able to command the confidence of the different groups that have come together to contribute to the report—will be essential in carrying that forward. She will know—and I thank her for the work that I know she has contributed in the background, in helping Marcus and his team to do their work, by making sure that the different interest groups have played a constructive part in the preparation of the report—that finding the right person who is able to command the confidence of a wide range of groups, some of which have lost confidence in the future of that hospital, is very important. We will need to think hard in order to make sure that we secure the services of someone who is genuinely able to take that forward.

Cytunaf yn llwyr ag Elin Jones ar y pwynt hwnnw. Rwyf wedi trafod y mater yn uniongyrchol gyda Marcus Longley, fel prif awdur yr adroddiad. Roedd yn glir iawn yn ei gyngor i mi y bydd cadeirydd annibynnol—rhywun sy'n gallu ennyn hyder y gwahanol grwpiau a ddaeth at ei gilydd i gyfrannu at yr adroddiad—yn hanfodol er mwyn symud hyn yn ei flaen. Bydd hi'n gwybod—a diolch iddi am y gwaith y gwn iddi ei wneud yn y cefndir i helpu Marcus a'i dîm gyda'u gwaith drwy sicrhau bod y gwahanol grwpiau diddordeb yn chwarae rhan adeiladol wrth baratoi'r adroddiad—pa mor bwysig yw dod o hyd i'r person iawn sy'n gallu ennyn hyder ystod eang o grwpiau, er y bydd rhai ohonynt wedi colli hyder yn nyfodol yr ysbyty. Bydd angen i ni feddwl yn galed er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau gwasanaethau rhywun sy'n gallu bwrw ymlaen â hynny mewn gwirionedd.

13:58

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome the report also. If the key recommendations of the report, some of which have been discussed here, are acted upon and supported by Welsh Government and the local health boards, it will mean an end to that biannual marching up and down of Penglais hill, which I am familiar with and which Elin Jones is familiar with, in support of Bronglais hospital. This does give the opportunity to overcome that lack of confidence that many local people have expressed over the years.

Rwy'n croesawu'r adroddiad yn fawr hefyd. Os bydd argymhellion allweddol yr adroddiad y trafodwyd rhai ohonynt yma yn cael eu gweithredu a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd lleol, bydd yn rhoi diwedd ar y gorymdeithio i fyny ac i lawr rhiw Penglais bob dwy flynedd y deuthum i ac Elin Jones yn gyfarwydd â'i wneud i gefnogi Ysbyty Bronglais. Mae hyn yn rhoi cyfle i oresgyn y diffyg hyder y mae llawer o bobl leol wedi'i fynegi dros y blynyddoedd.

My discussions with Hywel Dda health board have also made it clear, however, that it sees an opportunity to strengthen the hospital now, in repatriating some of the GP referrals that happen in north Powys. I am not talking about specialist referrals; I am talking about day-to-day referrals that are, at the moment, going across the border into England, which will actually be further away from Powys with the reorganisation in England, and are now able to come back, perhaps, to strengthen Bronglais hospital. Is that something that you would expect the health boards, in their work together, to be looking at, Minister, in order to ensure that this hospital does not just have the policies in place, but also has the practical numbers coming through the doors to support such a hospital that is vital for mid Wales?

Mae fy nhrafodaethau gyda bwrdd iechyd Hywel Dda hefyd wedi ei gwneud yn glir, fodd bynnag, ei fod yn gweld cyfle i gryfhau'r ysbyty yn awr, drwy ddod â rhai o'r atgyfeiriadau gan feddygon teulu sy'n digwydd yng ngogledd Powys yn ôl yn lleol. Nid wyf yn sôn am atgyfeiriadau arbenigol; sôn rydw i am atgyfeiriadau o ddydd i ddydd sy'n mynd dros y ffin i Loegr ar hyn o bryd ac a fydd mewn gwirionedd ymhellach i ffwrdd o Bowys gyda'r ad-drefnu yn Lloegr, ac a all ddod yn ôl yn awr, efallai, i gryfhau Ysbyty Bronglais. A yw hynny'n rhywbeth y byddech yn disgwyl i'r byrddau iechyd edrych arno yn eu gwaith gyda'i gilydd, Weinidog, er mwyn sicrhau nid yn unig bod y polisïau ar waith yn yr ysbyty ond bod ganddo hefyd nifer ymarferol o bobl yn dod drwy'r drysau i gefnogi ysbyty o'r fath sy'n hanfodol ar gyfer canolbarth Cymru?

13:59

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That is a very important point that Simon Thomas makes. It is rehearsed in some detail in the pages of the report. There are ways in which the flow of patients to Bronglais hospital can be increased. You read some of the patient stories in the report, of people being sent many, many miles away on long and difficult journeys, who then spend literally minutes seeing someone and who have tests that could equally easily have been done at Bronglais. The report says that there are ways of repatriating that work to Bronglais itself, to strengthen it and its future. It does talk about north Powys and whether patient flows could be reorganised there.

Dyna bwynt pwysig iawn a wnaeth Simon Thomas. Mae'n cael ei adrodd yn fanwl ar dudalennau'r adroddiad. Mae yna ffyrdd o gynyddu llif cleifion i ysbyty Bronglais. Rydych yn darllen rhai o hanesion cleifion yn yr adroddiad am bobl yn cael eu gyrru filltiroedd lawer i ffwrdd ar deithiau hir ac anodd, yna'n treulio munudau'n llythrennol yn gweld rhywun neu gael profion a allai fod yr un mor hawdd i'w gwneud ym Mronglais. Mae'r adroddiad yn dweud bod ffyrdd o ddod â'r gwaith hwn yn ôl i Fronglais er mwyn ei gryfhau a chadarnhau ei ddyfodol. Mae'n sôn am ogledd Powys ac a ellid ad-drefnu llif cleifion yno.

Could I just say this, though, to Simon Thomas, because I think that he will understand the strength of what the report says here? What I think that the report says is this: there is a strong future for Bronglais hospital, provided that all those who have an interest in it are prepared to seize that opportunity and to seize it positively, whether that it is the health board, whether it is clinicians who work at the hospital, whether it is the primary care community that provides patients who use those services, or whether, indeed, it is patients themselves. Everybody needs to regard the report as a positive prospectus for that hospital, and to be prepared to commit themselves to helping to create that future. Nobody will create it for them. They all have to take that responsibility to make a contribution. Then, the prospectus that the report laid out can become a reality.

A gaf fi ddweud hyn wrth Simon Thomas, oherwydd credaf y bydd yn deall cryfder yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud yma? Dyma rwy'n ei gredu y mae'r adroddiad yn ei ddweud: mae dyfodol cadarn i Ysbyty Bronglais, cyhyd â bod pawb sydd â diddordeb ynddo—y bwrdd iechyd, y clinigwyr sy'n gweithio yn yr ysbyty, y gymuned gofal sylfaenol sy'n darparu cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny, neu'n wir, y cleifion eu hunain—yn barod i fachu'r cyfle hwnnw a'i fachu'n gadarnhaol. Mae angen i bawb ystyried yr adroddiad fel prosbectws cadarnhaol ar gyfer yr ysbyty ac i fod yn barod i ymrwymo i helpu i greu'r dyfodol hwnnw. Ni fydd neb yn ei greu ar eu rhan. Rhaid iddynt oll ysgwyddo'r cyfrifoldeb i wneud cyfraniad. Yna, gellir gwireddu'r prosbectws a osodwyd yn yr adroddiad.

14:01

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for everything that you have said so far. It is reassuring. However, according to the report, Betsi Cadwaladr health board told Professor Longley, in relation to Ffestiniog Memorial Hospital:

Diolch i chi am bopeth rydych wedi ei ddweud hyd yn hyn, Weinidog. Mae'n galonogol. Fodd bynnag, yn ôl yr adroddiad, dywedodd bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wrth yr Athro Longley mewn perthynas ag Ysbyty Coffa Ffestiniog:

'The precise pattern of services in this hospital is currently being reviewed.'

'Mae union batrwm y gwasanaethau yn yr ysbyty hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.'

My question is: have you had any discussions regarding that review with the health board? Also, given the recent announcement that the two remaining GPs will be leaving in January, do you know whether the health board will be looking again at primary care facilities in the Blaenau Ffestiniog area?

Fy nghwestiwn yw: a ydych wedi cael trafodaethau gyda'r bwrdd iechyd ynghylch yr adolygiad? Hefyd, o ystyried y cyhoeddiad diweddar y bydd y ddau feddyg teulu sydd ar ôl yn gadael ym mis Ionawr, a ydych chi'n gwybod a fydd y bwrdd iechyd yn edrych eto ar gyfleusterau gofal sylfaenol yn ardal Blaenau Ffestiniog?

14:02

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Joyce Watson for that question. Earlier in the summer, I met with the group that is responsible for designing the future of Canolfan Goffa Ffestiniog. It included local councillors, as well as clinicians, patients and others. I was very encouraged that they had been willing to come together. It has been a painful process, in some ways, trying to design the right services at Blaenau Ffestiniog. However, they came in a very united way and they were able to show advanced ideas for how services at that new facility will be provided. One of the things that they emphasised to me was that, by having a modern building with a range of facilities that are not possible in the current way that things are provided there, they feel that that will allow them to attract students who are studying to become GPs, and will make it more attractive for staff to come to work in that area. The health board is well aware of the challenge that it faces in providing those services. It has assured patients that there will continue to be a primary care service at the town. I expect it to continue to work with the local population to secure not just the service that it has had in the past, but a service that will go on serving it well well into the future.

Diolch i Joyce Watson am y cwestiwn. Yn gynharach yn yr haf, cyfarfûm â'r grŵp sy'n gyfrifol am gynllunio dyfodol Canolfan Goffa Ffestiniog. Roedd yn cynnwys cynghorwyr lleol, yn ogystal â chlinigwyr, cleifion ac eraill. Cefais fy nghalonogi'n fawr gan y ffaith eu bod yn barod i ddod at ei gilydd. Mae ceisio cynllunio'r gwasanaethau iawn ym Mlaenau Ffestiniog wedi bod yn broses boenus mewn rhai ffyrdd. Fodd bynnag, roedd y grŵp yn gweithio mewn ffordd unedig iawn ac yn gallu dangos syniadau o safon uchel ar gyfer sut y bydd gwasanaethau yn y cyfleuster newydd yn cael eu darparu. Un o'r pethau a bwysleisiwyd oedd bod adeilad modern gydag ystod o gyfleusterau nad ydynt yn bosibl yn y ffordd bresennol o ddarparu gwasanaethau yno yn eu galluogi i ddenu myfyrwyr sy'n astudio i ddod yn feddygon teulu a'i wneud yn fwy deniadol i staff ddod i weithio yn yr ardal. Mae'r bwrdd iechyd yn ymwybodol iawn o'r her sy'n ei wynebu wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae wedi sicrhau cleifion y bydd gwasanaeth gofal sylfaenol yn parhau yn y dref. Rwy'n disgwyl iddo barhau i weithio gyda'r boblogaeth leol i sicrhau nid yn unig y gwasanaeth y mae wedi'i gael yn y gorffennol, ond gwasanaeth a fydd yn parhau i'w gwasanaethu'n dda ymhell i'r dyfodol.

14:03

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the report shows that Powys has a far lower number of emergency hospital admissions than the Welsh average. In fact, if that was replicated across Wales, perhaps we would not see some of the problems in the health service that we are seeing. Part of the reason for that, I believe, is the strong commitment of local GPs and community teams to treat people either at home or in the community hospitals that my constituents have fought tooth and nail to retain within the system. The report says that it is now time for a reinvigoration of community hospitals and community services. What leadership will the Welsh Government provide in ensuring that there is indeed a new vision for what community services and community hospitals can do for the Welsh NHS?

Weinidog, dengys yr adroddiad fod gan Bowys nifer llawer is o dderbyniadau brys i'r ysbyty na chyfartaledd Cymru. Yn wir, pe bai hynny'n cael ei ailadrodd ar draws Cymru, efallai na fyddem yn gweld rhai o'r problemau rydym yn eu profi yn y gwasanaeth iechyd. Rwyf o'r farn mai rhan o'r rheswm am hynny yw ymrwymiad cryf meddygon teulu lleol a thimau cymunedol i drin pobl naill ai gartref neu yn yr ysbytai cymuned y mae fy etholwyr wedi ymladd i'r eithaf i'w cadw o fewn y system. Mae'r adroddiad yn dweud ei bod yn awr yn bryd ailfywiogi ysbytai cymunedol a gwasanaethau cymunedol. Pa arweiniad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i sicrhau bod yna'n wir weledigaeth newydd ar gyfer yr hyn y gall gwasanaethau cymunedol ac ysbytai cymuned ei wneud dros GIG Cymru?

14:04 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

I agree with Kirsty Williams that there is a lot for other parts of Wales to learn from the way that primary and community services are provided in Powys: because you are such a long distance, in some parts of Powys, away from a DGH, actually primary and community services get on and provide things that, in other places, people would default to a major hospital for, and the report is very positive about the way that those services are provided. Kirsty Williams may know that, tomorrow, I hope to publish a national primary care plan for Wales. This will be the first time that we have had such a national plan for some considerable time. It will outline those ways in which Welsh Government is able to provide leadership in this area, it will outline those things that health boards and primary care practitioners themselves are able to provide, and it will draw in many ways on the good experience that is there to be learned from in Powys.

Rwy'n cytuno â Kirsty Williams fod llawer y gall rhannau eraill o Gymru ei ddysgu o'r ffordd y mae gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn cael eu darparu ym Mhowys: am eich bod mor bell i ffwrdd o Ysbyty Cyffredinol Dosbarth mewn rhai rhannau o Bowys, mae gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn bwrw iddi i ddarparu pethau y byddai pobl mewn mannau eraill yn mynd i ysbyty mawr ar eu cyfer fel mater o drefn ac mae'r adroddiad yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu. Efallai fod Kirsty Williams yn gwybod fy mod yn gobeithio cyhoeddi cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol ar gyfer Cymru yfory. Hwn fydd y tro cyntaf i ni gael cynllun cenedlaethol o'r fath ers cryn dipyn o amser. Bydd yn amlinellu ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad yn y maes hwn, bydd yn amlinellu'r pethau y gall byrddau iechyd ac ymarferwyr gofal sylfaenol eu hunain eu darparu a bydd yn pwyso mewn sawl ffordd ar y profiad da sydd i'w ddysgu gan Bowys.

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Weinidog, a ydych yn gweld unrhyw effaith ar ysbytai Glangwili a Thywysog Philip yn dilyn ymateb Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i'r adroddiad hwn?

Minister, do you see any effect on Glangwili and Prince Philip hospitals following the response of Hywel Dda Local Health Board to this report?

Senedd.tv
Fideo Video

14:05 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Wel, rwy'n meddwl bod hi'n rhy gynnar i dynnu gwersi am unrhyw le penodol y tu fas i Fronglais o'r adroddiad. Fodd bynnag, mae Keith Davies yn iawn i ddweud bod yr adroddiad yn tynnu sylw at yr hyn sy'n mynd ymlaen yn Llanelli a'r berthynas rhwng yr hyn y mae'n ei ddweud am y canolbarth a'r gwasanaethau eraill y mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn eu darparu. Yn dilyn yr adroddiad, rwy'n siŵr y bydd y bwrdd iechyd lleol eisiau tynnu i mewn i'r sgwrs bobl sy'n gweithio ledled bwrdd iechyd Hywel Dda, nid dim ond pobl sy'n gweithio yng Ngheredigion a'r canolbarth.

Well, I think it is too early to draw any conclusions about any specific hospital other than Bronglais from the report. However, Keith Davies is right to say that the report does highlight what is happening in Llanelli and the relationship between what it says about mid Wales and the other services provided by the Hywel Dda Local Health Board. Following the report, I am sure that the local health board will want to draw into the conversation people who are working throughout the Hywel Dda health board area, not just those people who are working in Ceredigion and mid Wales.

Senedd.tv
Fideo Video

## Gwasanaethau Acíwt yn Ardal Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr

## Acute Services in the Betsi Cadwaladr Local Health Board Area

14:06 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau acíwt yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0499(HSS)*

*4. Will the Minister make a statement on acute services in the Betsi Cadwaladr University Health Board area? OAQ(4)0499(HSS)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:06 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Thank you for the question. Acute services are a key priority for the Welsh Government. I expect health boards to provide safe, sustainable and high-quality care in the most appropriate setting.

Diolch am y cwestiwn. Mae gwasanaethau aciwt yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rwy'n disgwyl i fyrddau iechyd ddarparu gofal o ansawdd uchel yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn y lleoliad mwyaf priodol.

Senedd.tv
Fideo Video

14:06 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr. A ydych yn cydnabod mai'r barn feddygol yw y dylai trigolion fyw o fewn taith awr o ganolfan trawma ac uned achosion brys ac, os felly, bod sicrhau gwasanaeth o'r fath ym Mangor yn gwbl angenrheidiol i wasanaethu poblogaeth y gogledd-orllewin yn ddiogel?

Thank you very much. Do you acknowledge that medical opinion is that residents should live within an hour's journey from a trauma centre and accident and emergency unit and, if so, that ensuring such a service in Bangor is crucial to serving the population of north-west Wales safely?

Senedd.tv
Fideo Video

14:07 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for the follow-up question. The challenge of running hospital-based services, not just in north Wales, but across Wales, is one that this Chamber has considered on a number of occasions, as has the health committee in a number of iterations as well. The challenge is how we provide access to the best possible care for our populations. It goes back, thinking about all of the debates that we have had here, to access to good-quality care—that is the point—rather than access to local care. We want care to be as local as possible, as long as it is of the right quality and is in a sustainable format. The health board, in terms of developing acute services right across Betsi Cadwaladr, will need to properly consider how it provides a pattern of services that is properly sustainable. It also involves a conversation with the clinical community and, of course, the public.

Diolch am y cwestiwn dilynol. Mae'r her o redeg gwasanaethau ysbytai, nid yng ngogledd Cymru'n unig ond ar draws Cymru, yn un y mae'r Siambr hon wedi ei hystyried ar nifer o achlysuron, fel y gwnaeth y pwyllgor iechyd mewn amryw o ffyrdd hefyd. Yr her yw sut y gallwn ddarparu mynediad at y gofal gorau posibl ar gyfer ein pobl. Wrth feddwl am yr holl ddadleuon a gawsom yma, mater o fynediad at ofal o ansawdd da yw hyn—dyna'r pwynt—yn hytrach na mynediad at ofal lleol. Rydym am i ofal fod mor lleol ag y bo modd, ar yr amod ei fod o'r ansawdd iawn ac yn gynaliadwy. O ran datblygu gwasanaethau aciwt ar draws Betsi Cadwaladr, bydd angen i'r bwrdd iechyd ystyried yn iawn sut y mae'n darparu patrwm o wasanaethau sy'n wirioneddol gynaliadwy. Mae hefyd yn cynnwys trafod gyda'r gymuned glinigol, a'r cyhoedd wrth gwrs.

When we look at ensuring that there is appropriate access to services in terms of travelling time, there is a wider concern and challenge for the performance of patient transport services and what the ambulance service provides, not just as a patient transport service in itself, but in terms of providing a clinical response and, in turn, how quickly treatment is delivered to the patient on arrival and whether that patient then goes to the right centre for the right form of treatment. We can see that, for example, in the way that stroke care is now delivered on the expectation that patients will be delivered not into an emergency unit, but into an appropriate specialist centre when they get there—to an appropriate ward. So, this is not simply about travelling time; it is about ensuring that people get to the right centre for the right treatment.

Pan edrychwn ar sicrhau bod mynediad priodol at wasanaethau o ran amser teithio, mae yna bryder a her ehangach ynghylch perfformiad gwasanaethau cludo cleifion a'r hyn y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei ddarparu, nid fel gwasanaeth cludo cleifion ynddo'i hun yn unig, ond o ran darparu ymateb clinigol a pha mor gyflym y caiff triniaeth ei darparu i'r claf ar ôl cyrraedd, ac a yw'r claf hwnnw wedyn yn mynd i'r ganolfan iawn i gael y math cywir o driniaeth. Gallwn weld hynny yn y ffordd y caiff gofal strôc ei ddarparu yn awr gan ddisgwyl y bydd cleifion yn cael eu cludo, nid i uned achosion brys, ond i ganolfan arbenigol briodol pan fyddant yn cyrraedd yno—i ward addas. Felly, nid ymwneud yn unig ag amser teithio y mae hyn; mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn cyrraedd y ganolfan iawn i gael y driniaeth gywir.

14:08 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We know that acute services can come under extra pressure during the winter period. So, Deputy Minister, what action is being taken by the Welsh NHS in north Wales to ensure that, by working with their partners in local government and housing, we maximise the effort to prevent people, especially older and vulnerable patients, from needing admission into acute hospitals?

Gwyddom y gall gwasanaethau aciwt ddod o dan bwysau ychwanegol dros y gaeaf. Felly, Ddirprwy Weinidog, pa gamau y mae'r GIG yng Nghymru yn y gogledd yn eu cymryd i sicrhau ein bod, drwy weithio gyda'n partneriaid llywodraeth leol a thai, yn gwneud yr ymdrech orau i sicrhau na fydd angen i bobl, yn enwedig cleifion hŷn ac agored i niwed, gael eu derbyn i ysbytai acíwt?

14:09 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Sandy Mewies, for the question. You make an important point about how we ensure that people are treated and then discharged into an appropriate setting. There is also the first challenge of how we prevent people from going into hospital who do not need to go there. There is good practice on Anglesey, where there is a partnership between the health service and social care that is looking more and more at how you treat people who are at risk of needing hospital care to try to ensure that you minimise that risk so that they do not need to go into a hospital setting in the first place. I am interested in taking a closer look at the model that exists on Anglesey to see whether that could and should be rolled out across other parts of north Wales in the first instance.

Diolch i chi am y cwestiwn, Sandy Mewies. Rydych yn gwneud pwynt pwysig am y ffordd rydym yn sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yna'u rhyddhau i leoliad priodol. Hefyd, mae'r her gyntaf o sut rydym yn atal pobl nad oes angen iddynt fynd i'r ysbyty rhag mynd yno. Mae arfer da i'w weld ar Ynys Môn, lle ceir partneriaeth rhwng y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol sy'n edrych fwyfwy ar sut rydych yn trin pobl sydd mewn perygl o fod angen gofal ysbyty er mwyn ceisio sicrhau eich bod yn lleihau'r risg hwnnw fel nad oes angen iddynt fynd i ysbyty yn y lle cyntaf. Mae gennyf ddiddordeb mewn edrych yn agosach ar y model sy'n bodoli ar Ynys Môn i weld a allai ac a ddylai gael ei gyflwyno ar draws rhannau eraill o ogledd Cymru yn gyntaf.

I am encouraged by the winter planning meetings that the Minister has had in every part of Wales, and I opened the winter planning forum recently. It is really encouraging to see the developing relationship between local authorities and health boards to recognise the specific pressures of winter, but more and more to recognise that those pressures are more and more year-round pressures. The relationship between local authorities and health boards has to be something that is on a consistent, persistent, year-round basis, and not simply an event that takes places in three months around winter. So, I am encouraged about models that can ensure that patients receive a better quality of care, but the objective for all of us must be to ensure that those models are provided on a consistent basis, year-round, and that we have a consistent, high-quality level of care delivered, whether it is in social care or in the health service.

Rwyf wedi fy nghalonogi gan gyfarfodydd cynllunio'r gaeaf y mae'r Gweinidog wedi'u cael ym mhob rhan o Gymru, ac agorais fforwm gynllunio'r gaeaf yn ddiweddar. Mae'n galonogol iawn gweld y berthynas sy'n datblygu rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gydnabod pwysau penodol y gaeaf, ond fwyfwy i gydnabod bod y pwysau hynny'n mynd yn bwysau cynyddol drwy gydol y flwyddyn. Rhaid i'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod yn gyson, yn barhaus, a thrwy gydol y flwyddyn, nid yn rhywbeth sy'n digwydd am dri mis adeg y gaeaf yn unig. Felly, cefais fy nghalonogi gan fodelau a all sicrhau bod cleifion yn cael gofal o ansawdd gwell, ond y nod i bob un ohonom fydd sicrhau bod y modelau hynny'n cael eu darparu'n gyson drwy gydol y flwyddyn a'n bod yn sicrhau gofal o ansawdd uchel cyson, boed hynny mewn gofal cymdeithasol neu yn y gwasanaeth iechyd.

### Trefniadau Mynediad yn Ysbyty Glan Clwyd

### Access Arrangements at Glan Clwyd Hospital

14:11 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drefniadau mynediad yn Ysbyty Glan Clwyd? OAQ(4)0512(HSS)*

*5. Will the Minister make a statement on access arrangements at Glan Clwyd Hospital? OAQ(4)0512(HSS)*

14:11 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. The Welsh Government has made a substantial investment to ensure that Glan Clwyd Hospital can go on providing access to necessary services for patients. I was very pleased to join the Member for the Vale of Clwyd at the formal opening of the new emergency quadrant at the hospital last week, a quadrant that will ensure that access to emergency services for Glan Clwyd patients can go on being improved.

Diolch am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol i sicrhau y gall Ysbyty Glan Clwyd barhau i ddarparu mynediad at wasanaethau angenrheidiol i gleifion. Roeddwn yn falch iawn o ymuno â'r Aelod dros Ddyffryn Clwyd yn agoriad ffurfiol y cwadrant brys newydd yn yr ysbyty yr wythnos diwethaf, cwadrant a fydd yn sicrhau bod modd parhau i wella mynediad cleifion Glan Clwyd at wasanaethau brys.

14:11 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that, Minister. I was delighted to join you as well at that event, and it was a delight as well because I managed to drive into the car park and find a space straight away, which proved to me that the park-and-ride scheme, which has just been introduced, was working—I was going to use it but I got delayed, before any asks why I do not practice what I preach. I was, but I did not get there in time. May I say that I am grateful to you and to your colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, for working together to allow the park-and-ride scheme to take place using the former Hotpoint site, which is just up the road from the hospital? That can only be a temporary solution, though, and we realise that. There will need to be a more sustainable way of looking at how we look to people who want to use the hospital. May I ask what you plans you have, or what discussions you have had, with the health board around what we can do to sustain what I think is quite a good system?

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Roeddwn yn falch iawn o ymuno â chi yn y digwyddiad hwnnw, ac roedd yn bleser hefyd am fy wedi gallu gyrru i mewn i'r maes parcio a dod o hyd i le ar unwaith, a oedd yn profi i mi fod y cynllun parcio a theithio sydd newydd gael ei gyflwyno, yn gweithio—roeddwn yn mynd i'w ddefnyddio, ond cefais fy atal, cyn i unrhyw un ofyn pam nad wyf yn gwneud yr hyn rwy'n ei bregethu. Roeddwn i'n mynd i wneud ond methais â chyrraedd mewn pryd. A gaf fi ddweud fy mod yn ddiolchgar i chi ac i'ch cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, am gydweithio i ganiatáu i'r cynllun parcio a theithio ddigwydd gan ddefnyddio'r hen safle Hotpoint sydd ychydig i fyny'r ffordd o'r ysbyty? Ni all fod yn ddim mwy nag ateb dros dro, er hynny, ac rydym yn sylweddoli hynny. Bydd angen ffordd fwy cynaliadwy o edrych ar yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan y bobl sydd eisiau defnyddio'r ysbyty. A gaf fi ofyn pa gynlluniau sydd gennych, neu pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r bwrdd iechyd ynglŷn â beth y gallwn ei wneud i gynnal yr hyn rwy'n ei ystyried yn system eithaf da?

14:12 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Ann Jones for that. I did have a very direct conversation with the chair of the health board, Dr Peter Higson, because he had arrived from the park-and-ride service himself to join us both at that opening ceremony. He told me that it has got off to a very good start, that there is capacity for it to do more and that the heath board is looking to encourage more staff and patients to use it. It is a free facility available to patients, staff and visitors. Provided that it can be demonstrated to be doing the good job that it has started, I know that the health board is very keen to use that model to find a way of allowing it to continue—possibly not at the current location, but to take the basic idea and to re-apply it because of the way it is able to ease pressure on parking at a very pressurised site.

Diolch i Ann Jones. Cefais sgwrs uniongyrchol iawn gyda chadeirydd y bwrdd iechyd, Dr Peter Higson, am ei fod wedi cyrraedd o'r gwasanaeth parcio a theithio ei hun i ymuno â ni yn y seremoni agoriadol. Dywedodd wrthyf ei fod wedi dechrau'n dda iawn, bod lle iddo wneud mwy a bod y bwrdd iechyd yn ceisio annog mwy o staff a chleifion i'w ddefnyddio. Mae'n gyfleuster rhad ac am ddim sydd ar gael i gleifion, staff ac ymwelwyr. Ar yr amod y gellir dangos ei fod yn gwneud y gwaith da y mae wedi dechrau ei wneud, gwn fod y bwrdd iechyd yn awyddus iawn i ddefnyddio'r model i ddod o hyd i ffordd o'i alluogi i barhau—er nad yn ei leoliad presennol o bosibl, ond i gymryd y syniad sylfaenol a'i ailgymhwyso oherwydd y ffordd y mae'n gallu lleddfu pwysau parcio mewn safle dan bwysau mawr.

**Arolygu Annibynnol**

**Independent Inspection**

14:13 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl arolygu annibynnol yn GIG Cymru? OAQ(4)0504(HSS)*

*7. Will the Minister make a statement on the role of independent inspection in the Welsh NHS? OAQ(4)0504(HSS)*

14:13 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Darren Millar for that. Independent inspection of the NHS in Wales, led by Healthcare Inspectorate Wales, provides an important element in the overall assurance systems in place for monitoring the quality and safety of healthcare services. In June I announced a review of that function. That work is nearing completion.

Diolch i Darren Millar. Mae arolygu annibynnol yn GIG Cymru, dan arweiniad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn darparu elfen bwysig yn y systemau sicrwydd cyffredinol sydd ar waith ar gyfer monitro ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Ym mis Mehefin cyhoeddais adolygiad o'r swyddogaeth honno. Mae'r gwaith hwnnw bron â bod wedi'i gwblhau.

14:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that response, Minister. Of course, it is not just Healthcare Inspectorate Wales that helps to provide assurances about the quality of services; there is a myriad of other ways that health boards can do that too, including using the wealth of resource across Wales that we have in our community health councils. What role do you envisage for community health councils in the arrangements for independent inspections, and will you congratulate the North Wales Community Health Council on the positive engagement that it has with its health board in trying to ensure that it can provide assurances about services in that region?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Wrth gwrs, nid Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn unig sy'n helpu i roi sicrwydd am ansawdd gwasanaethau; mae myrdd o ffyrdd eraill y gall byrddau iechyd wneud hynny, yn cynnwys defnyddio'r adnoddau lluosog sydd gennym yn ein cynghorau iechyd cymuned ar draws Cymru. Pa rôl a ragwelwch fydd gan gynghorau iechyd cymuned yn y trefniadau ar gyfer arolygiadau annibynnol, ac a wnewch chi longyfarch Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru ar ei ymgysylltiad cadarnhaol â'i fwrdd iechyd wrth geisio sicrhau y gall ddarparu sicrwydd am wasanaethau yn y rhanbarth?

14:14 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Darren Millar for that question. He is absolutely right to point to the fact that HIW is only one strand in a far wider system of independent inspection that we have of the Welsh health service. Community health councils are a very important part of that. We have retained them in Wales—they do not exist in other parts of the United Kingdom—and they play a very valuable role. I know that the CHC in north Wales has made a particular effort over the last 12 months or so to step up the number of visits it makes to hospitals and other sites that CHCs are able to visit. In some ways, its programme is an example to other CHCs in Wales of what can be achieved by what is, in the end, volunteer effort, provided that it is well organised and led. It is very important that CHCs have a proper relationship with their local health boards. It is right that they are a bit of grit in the system, but if they are to be effective they also have to have proper working relationships as well.

Diolch i Darren Millar am y cwestiwn. Mae'n hollol gywir i dynnu sylw at y ffaith mai dim ond un edefyn mewn system lawer ehangach o arolygu annibynnol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yw AGIC. Mae'r cynghorau iechyd cymuned yn rhan bwysig iawn o hynny. Rydym wedi eu cadw yng Nghymru—nid ydynt yn bodoli yn y rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig—ac maent yn chwarae rhan werthfawr iawn. Gwn fod y CIC yng ngogledd Cymru wedi gwneud ymdrech arbennig dros y 12 mis diwethaf i gynyddu nifer ei ymweliadau ag ysbytai a safleoedd eraill y mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn gallu ymweld â hwy. Mewn rhai ffyrdd, mae ei raglen yn enghraifft i Gynghorau Iechyd Cymuned eraill yng Nghymru o beth y gellir ei gyflawni drwy'r hyn sydd, yn y pen draw, yn ymdrech wirfoddol, cyhyd â'i bod yn cael ei threfnu a'i harwain yn dda. Mae'n bwysig iawn fod gan gynghorau iechyd cymuned berthynas briodol â'u byrddau iechyd lleol. Mae'n iawn eu bod yn amharu rhywfaint ar lif y system, ond os ydynt i fod yn effeithiol rhaid iddynt hefyd gael perthynas waith briodol hefyd.

14:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

## Questions to the Counsel General

### Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

### Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill

14:15 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyfeirio'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) at y Goruchaf Lys? OAQ(4)0070(CG)*

*1. Will the Counsel General provide an update on the referral of the Recovery of Medical Costs for Asbestos Diseases (Wales) Bill to the Supreme Court? OAQ(4)0070(CG)*

14:16 **Theodore Huckle**

Senedd.tv Fideo Video

*Y Cwnsler Cyffredinol / The Counsel General*

Good afternoon, everyone. The judgment in the matter is awaited. We have not received any indication from the Supreme Court as to when the judgment will be delivered.

Prynhawn da, bawb. Rydym yn disgwyl y dyfarniad ar y mater. Nid ydym wedi cael unrhyw awgrym gan y Goruchaf Lys ynglŷn â phryd y bydd y dyfarniad yn cael ei gyflwyno

14:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n diolch am yr ateb hwnnw—un yr oeddwn yn ei ddisgwyl, wrth gwrs. Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos i mi fod y Bil hwn wedi cymryd llawer mwy o amser i benderfynu yn ei gylch na'r ddau Fil arall sydd wedi bod gerbron y Goruchaf Lys. A oes rheswm penodol am hynny? A oes angen gwneud unrhyw beth ychwanegol o ran adnoddau ar gyfer y Goruchaf Lys, neu unrhyw beth arall er mwyn hwyluso'r broses? Mae'n ymddangos i mi nad yw hyn yn argoeli'n dda iawn ar gyfer deddfu pellach gan y lle hwn.

I am grateful for that response—one that I was expecting, of course. Having said that, it appears to me that it has taken far longer to reach a decision on this Bill than on the other two Bills that have been before the Supreme Court. Is there a specific reason for that? Is there a need for anything additional to be done in terms of resources for the Supreme Court, or anything else to facilitate this process? It appears to me that this does not bode particularly well as regards further legislation from this place.

14:16 **Theodore Huckle**

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If I may I put it in this way, relationships with the Supreme Court, both the ones that I have personally and the one that the Welsh Government has, have been very good. We were very pleased with the first reference—the Local Government Byelaws (Wales) Bill—and how quickly that was done. It is certainly right and I am conscious that the current one was the subject of a reference by me at the end of last year, so it is getting towards the anniversary. That is not ideal. This is legislation that we are talking about. I think that what contributed to the delay on this occasion was a perceived benefit, it is right to say—that is, a benefit perceived within the Supreme Court—in linking together in some way the consideration of this reference with the previous one, namely the Agricultural Sector (Wales) Bill. I am still not clear in my own mind how that benefit was derived or expressed, but I think that the Supreme Court, if I may put it this way, was keen to try to address issues broadly in order to avoid the need for further references to have to take place. So, I hope that that is the right way of looking at it. Nevertheless, it is certainly right to say that the Government is disappointed that it is taking so long to reach the judgment in this second case. I know that there was a large gap in the summer, if I can put it that way, because there was a substantial recess for all concerned, including the Supreme Court, if I may put it that way. I am hopeful that we will get a result very shortly, but, as I say, I cannot say when that will be. I have it in mind to raise the issue of the speed at which references are determined, because the whole point of references like this is to produce a very rapid result to a question that is holding up the effectiveness of legislation.

Os caf ei roi fel hyn, mae fy mherthynas i'n bersonol a pherthynas Llywodraeth Cymru â'r Goruchaf Lys wedi bod yn dda iawn. Roeddem yn hapus iawn â'r cyfeiriad cyntaf—Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)—a pha mor gyflym y gwnaed hynny. Mae'n sicr yn iawn ac rwy'n ymwybodol fod yr un presennol yn destun cyfeiriad gennyf ar ddiwedd y llynedd, felly mae'n tynnu tuag at flwyddyn. Nid yw hynny'n ddelfrydol. Sôn am ddeddfwriaeth rydym ni. Credaf fod yr hyn a gyfrannodd at yr oedi ar yr achlysur hwn yn fudd canfyddedig, mae'n iawn dweud—hynny yw, budd canfyddedig o fewn y Goruchaf Lys—o ran cydgysylltu mewn rhyw ffordd yr ystyriaeth o'r cyfeiriad hwn â'r un blaenorol, sef Bil y Sector Amaethyddiaeth (Cymru). Rwy'n dal yn ansicr sut y cafodd y budd hwnnw ei sicrhau na'i fynegi, ond credaf fod y Goruchaf Lys, os caf ei roi fel hyn, yn awyddus i geisio mynd i'r afael â materion yn fras er mwyn osgoi'r angen am gyfeiriadau pellach. Felly, rwy'n gobeithio mai dyna'r ffordd gywir o edrych ar bethau. Serch hynny, mae'n sicr yn gywir i ddweud bod y Llywodraeth yn siomedig ei fod yn cymryd cymaint o amser i roi dyfarniad yn yr ail achos hwn. Gwn fod bwlch hir dros yr haf, o'i roi felly, oherwydd bod toriad sylweddol i bawb dan sylw, yn cynnwys y Goruchaf Lys, os caf ei roi felly. Rwy'n obeithiol y cawn ganlyniad yn fuan iawn, ond fel rwy'n dweud, ni allaf ddweud pryd y bydd hynny. Rwyf awydd codi mater cyflymder y broses o benderfynu ar gyfeiriadau am mai holl bwynt cyfeiriadau fel hyn yw cynhyrchu canlyniad cyflym iawn i gwestiwn sy'n llyffetheirio effeithiolrwydd deddfwriaeth.

### Etholiadau

### Elections

14:18 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*2. Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r modd y cynhelir etholiadau yng Nghymru? OAQ(4)0071(CG)*

*2. What representations has the Counsel General made in relation to the conduct of elections in Wales? OAQ(4)0071(CG)*

14:18 **Theodore Huckle**

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have made no recent representations on this matter.

Nid wyf wedi gwneud unrhyw sylwadau diweddar ar y mater hwn.

14:18 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Gwnsler. A dweud y gwir, yr hyn sydd gennyf mewn golwg heddiw o ran y cwestiwn hwn yw'r drafodaeth a gawn yn nes ymlaen y prynhawn yma ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn ag ethol Aelodau i'r lle hwn. Byddwch yn gwybod am ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw, sy'n derbyn yn fras yr egwyddor, ond sy'n cwestiynu rhai o'r cynigion penodol. Y cwestiwn ehangach yw ei bod yn ymddangos nad yw'n bosibl newid y gyfraith cyn yr etholiadau nesaf i'r lle hwn yn 2016, gan arwain at rywfaint o ddryswch, o bosibl, o ran pwy sy'n cael sefyll i gael eu hethol i'r Cynulliad a'r sawl nad yw'n cael sefyll. Yn awr, yn wir, yr egwyddor yw y dylai pawb gael sefyll os yw'n bosibl, ac y dylech wedyn ddelio â'r mater o ddatgan buddiant neu wrthdaro buddiannau ac ati. Felly, a oes modd i'r Llywodraeth ailedrych ar y sefyllfa hon i weld a oes modd cyflymu'r broses, a chael yr etholiadau gorau posibl yn etholiadau nesaf y Cynulliad?

Thank you, Counsel. To be honest, what I had in mind in terms of this question was the debate that we will be having a little later on regarding the Constitutional and Legislative Affairs Committee report on the election of Members to this place. You will be aware of the Government's response to that report, which accepts the general principle but questions some of the more specific proposals. The broader question is that it appears that it is not possible to change the law in time for the next Assembly elections in 2016, leading to some confusion, possibly, as to who can stand for election to the Assembly and who is disqualified from standing. At the moment, the principle is that everyone should be able to stand if possible, and you should then deal with the issue of declarations of interest or conflicts of interest and so on. So, is it possible for the Government to review the situation to see whether we can speed up the process, and have the best possible elections at the next Assembly elections?

14:20

## Theodore Huckle

Senedd.tv Fideo Video

I am happy to pass on that request insofar as it is necessary, but, as you have already noted, the First Minister himself will be dealing with related matters in the debate to follow. It seems more likely to me that progress will be made via that mechanism than by asking me to try to do something about it.

Rwy'n hapus i drosglwyddo'r cais hwnnw os oes ei angen, ond fel rydych eisoes wedi nodi, bydd y Prif Weinidog ei hun yn delio â materion cysylltiedig yn y ddadl sydd i ddilyn. Mae'n ymddangos yn fwy tebygol i mi y bydd modd symud ymlaen drwy'r drefn honno na thrwy ofyn i mi geisio gwneud rhywbeth am y peth.

14:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Counsel General.

Diolch, Gwnsler Cyffredinol.

# Datganiad: Purfa Murco, Aberdaugleddau

# Statement: Murco Refinery, Milford Haven

Y

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Rwy'n galw ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

14:20

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Thank you, Deputy Presiding Officer. Members will wish to note that efforts by Murphy Oil Corporation to sell the Milford refinery as a going concern to a third party have unfortunately proved unsuccessful, following the collapse of negotiations with the Klesch Group. This is a deeply unsettling time for the company, its employees, their families and the wider community in Pembrokeshire. The Milford Haven refinery has been integral to the fabric of the oil and gas infrastructure in Wales and the Welsh economy for many years, providing for a significant number of high-value, high-skilled employment opportunities.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Bydd yr Aelodau am nodi bod ymdrechion gan Murphy Oil Corporation i werthu purfa Aberdaugleddau fel busnes byw i drydydd parti wedi bod yn aflwyddiannus, yn anffodus, yn dilyn methiant y trafodaethau â Grŵp Klesch. Mae hwn yn gyfnod ansefydlog iawn i'r cwmni, ei weithwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn Sir Benfro. Mae purfa Aberdaugleddau wedi bod yn rhan annatod o wead y seilwaith olew a nwy yng Nghymru ac economi Cymru ers blynyddoedd lawer, gan ddarparu nifer sylweddol o gyfleoedd gwaith medrus o werth uchel.

Since 2010, we have been working with Murphy Oil Corporation to maximise the chance of a sale of the refinery as a going concern to a potential third party investor, following a decision by the board to exit the refining sector in the UK. We have been working with the UK Government to support this deal between Murphy oil and the Klesch Group. While the detail of that support is obviously commercially confidential, I can assure Members that every possible route has been explored to make this deal happen.

Ers 2010, rydym wedi bod yn gweithio gyda Murphy Oil Corporation i fanteisio i'r eithaf ar y gobaith o werthu'r burfa fel busnes byw i fuddsoddwr trydydd parti posibl yn dilyn penderfyniad gan y bwrdd i adael y sector puro olew yn y DU. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gefnogi'r cytundeb hwn rhwng Murphy Oil a Grŵp Klesch. Er bod manylion y gefnogaeth honno yn amlwg yn gyfrinach fasnachol, gallaf sicrhau'r Aelodau bod pob llwybr posibl wedi cael ei archwilio i sicrhau bod y cytundeb hwn yn digwydd.

I understand that Murphy Oil Corporation will now proceed to convert the site into an oil import terminal, which is likely to result in a number of redundancies at the site. We will all continue to work tirelessly with the company management to maximise the opportunities for employment at the site, ensure the ongoing viability of the terminal, and assist to find a new owner for the operation. We will, of course, be assisting any of the workforce facing redundancy with ReAct support and advice, and we will continue to work with the company and third party partners to explore all options for maintaining the high-value, highly skilled jobs in the area.

Deallaf y bydd Murphy Oil Corporation yn symud ymlaen yn awr i drawsnewid y safle'n derfynell fewnforio olew sy'n debygol o arwain at nifer o ddiswyddiadau ar y safle. Byddwn i gyd yn parhau i weithio'n ddiflino gyda rheolwyr y cwmni i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwaith ar y safle, sicrhau hyfywedd parhaus y derfynell, a chynorthwyo i ddod o hyd i berchennog newydd ar gyfer y gwaith. Wrth gwrs, byddwn yn rhoi cymorth a chyngor ReAct i gynorthwyo unrhyw rai o'r gweithlu sy'n wynebu colli eu swyddi a byddwn yn parhau i weithio gyda'r cwmni a phartneriaid trydydd parti i archwilio pob opsiwn ar gyfer cynnal swyddi medrus o werth uchel yn yr ardal .

In April, I established the Murco taskforce to marshal support from high-level stakeholders to support the company, and I have therefore asked the Murco refinery taskforce to continue that work to maximise the opportunities for employment at the site. As a Government, we are determined to do all that we can to support the employer, its workforce and those in the local supply chain. I am therefore strengthening the presence of Business Wales in the area to ensure that we provide support and advice for those local businesses that are affected by the closure to explore new markets, and for those wishing to set up business.

Ym mis Ebrill, sefydlais dasglu Murco i drefnu cymorth gan randdeiliaid lefel uchel i gefnogi'r cwmni ac felly rwyf wedi gofyn i dasglu purfa Murco barhau â'r gwaith hwnnw er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwaith ar y safle. Fel Llywodraeth, rydym yn benderfynol o wneud popeth a allwn i gefnogi'r cyflogwr, ei weithlu a'r rhai yn y gadwyn gyflenwi leol. Felly, rwy'n cryfhau presenoldeb Busnes Cymru yn yr ardal i sicrhau ein bod yn darparu cymorth a chyngor er mwyn i fusnesau lleol sy'n cael eu heffeithio gan y cau allu archwilio marchnadoedd newydd, ac ar gyfer rhai sydd am sefydlu busnesau.

14:22

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for her statement this afternoon. Of course, I rise with a very heavy heart to respond to this statement. I am sure that Members will all agree that this is a very bleak day for the people of Pembrokeshire, and this latest news will surely be a huge blow not only to the Pembrokeshire economy, but to the Welsh economy, as well.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Wrth gwrs, rwy'n codi gyda chalon drom iawn i ymateb i'r datganiad. Rwy'n sicr y bydd yr Aelodau i gyd yn cytuno bod hwn yn ddiwrnod llwm iawn i bobl Sir Benfro a bydd y newyddion diweddaraf yn bendant yn ergyd enfawr, nid yn unig i economi sir Benfro, ond i economi Cymru hefyd.

I do understand and recognise that both the UK and Welsh Governments worked together on this, but, unfortunately, their efforts were unsuccessful. In light of these circumstances, perhaps the Minister could tell us at what point the Welsh Government was aware that the sale of the refinery would not be going through. How long has the Welsh Government known that the deal would not go ahead?

Rwy'n deall ac yn cydnabod bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio ar hyn ond yn anffodus roedd eu hymdrechion yn aflwyddiannus. Dan yr amgylchiadau hyn, efallai y gallai'r Gweinidog ddweud wrthym ar ba bwynt y daeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol na fyddai gwerthiant y burfa yn digwydd. Ers faint y mae Llywodraeth Cymru yn gwybod na fyddai'r gwerthiant yn mynd yn ei flaen?

It is, of course, imperative that every effort be made and that both Governments continue to work together to look for other potential buyers in order to secure the site. Given that the current sale will not be going ahead—and I appreciate that there are commercial sensitivities in these matters—can the Minister tell us what discussions she has had with other potential buyers for Murco?

Wrth gwrs, mae'n hanfodol fod pob ymdrech yn cael ei gwneud a bod y ddwy Lywodraeth yn parhau i weithio gyda'i gilydd i edrych am brynwyr posibl eraill er mwyn diogelu'r safle. O gofio na fydd y gwerthiant presennol yn mynd yn ei flaen—ac rwy'n gwerthfawrogi bod yna sensitifrwydd masnachol ynglŷn â'r materion hyn—a all y Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda phrynwyr eraill posibl ar gyfer Murco?

Of course, this is particularly devastating news for the refinery workers and their families, who, in the run-up to Christmas, are now facing a period of uncertainty over their employment. I note in today's statement that the refinery taskforce will be maximising the opportunities for employment, but perhaps the Minister could outline what specific support will be made available through this particular taskforce.

Wrth gwrs, dyma newyddion sy'n arbennig o ddinistriol i weithwyr y burfa a'u teuluoedd a fydd, yn y cyfnod cyn y Nadolig, yn awr yn wynebu cyfnod o ansicrwydd ynglŷn â'u gwaith. Rwy'n sylwi yn y datganiad heddiw y bydd tasglu'r burfa yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd gwaith ond efallai y gallai'r Gweinidog amlinellu pa gymorth penodol fydd yn dod ar gael drwy'r tasglu penodol hwn.

We are talking about a refinery that employs around 400 skilled workers and even more indirectly employed in the local area. So, the future employment of these workers is of the utmost importance. I welcome the fact that ReAct support will be made available to the workforce, but I would be grateful if the Minister could tell us what other training opportunities will be made available to these workers given the specific nature of their work.

Rydym yn sôn am burfa sy'n cyflogi tua 400 o weithwyr medrus a hyd yn oed mwy o bobl sy'n cael eu cyflogi'n anuniongyrchol yn yr ardal leol. Felly, mae cyflogaeth y gweithwyr hyn yn y dyfodol o'r pwys mwyaf. Croesawaf y ffaith y bydd cymorth ReAct ar gael i'r gweithlu ond byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ddweud wrthym pa gyfleoedd hyfforddi eraill a fydd ar gael i'r gweithwyr hyn o ystyried natur benodol eu gwaith.

I understand that Murco has said that it has made the decision to turn the refinery into a storage and distribution site. In light of this announcement, it would be good to know what discussions the Welsh Government has already had with the trade unions representing the refinery workers.

Deallaf fod Murco wedi dweud ei fod wedi penderfynu troi'r burfa'n safle storio a dosbarthu. Yn sgil y cyhoeddiad hwn, byddai'n dda gwybod pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u cael gyda'r undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr y burfa.

Brian Kelly of Murphy Oil Corporation has said that macroeconomic conditions in the refinery business in Europe as a whole have been a factor in the outcome. It is essential that the Welsh Government is proactively working with refinery businesses to fully understand the macroeconomic pressures on them. Therefore, in light of Mr Kelly's comments, perhaps the Minister could outline what steps the Welsh Government has recently taken to help mitigate the effect of these particular macroeconomic conditions. Indeed, given its close proximity to Murco, what discussions has the Welsh Government had with Valero Energy Corporation, for example, which will also be facing the same macroeconomics conditions?

Mae Brian Kelly o Murphy Oil Corporation wedi dweud bod amodau macroeconomaidd y busnes puro olew yn Ewrop yn gyffredinol wedi bod yn ffactor yn y canlyniad. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n rhagweithiol gyda busnesau puro olew i ddeall y pwysau macroeconomaidd arnynt yn llawn. Felly, yng ngoleuni sylwadau Mr Kelly, efallai y gallai'r Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd yn ddiweddar i helpu i liniaru effaith yr amodau macroeconomaidd penodol hyn. Yn wir, o ystyried ei hagosrwydd at Murco, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Valero Energy Corporation, er enghraifft, a fydd hefyd yn wynebu'r un amodau macroeconomaidd?

The Minister will be aware that this news will have an effect on the refinery supply chain, which includes a number of local businesses, and she has made reference to this in her statement today. Indeed, we know that the refinery supports hundreds of other jobs in the local area. In the circumstances, what discussions has the Welsh Government had with companies within the refinery supply chain to ensure that they are protected as much as possible? There are real concerns that this news will hit businesses within the supply chain very hard indeed. I know that both the UK and Welsh Governments have done a lot in this area, and they must continue to do all that they can to mitigate the effects of a potential closure on other businesses. I welcome the Minister's commitment to strengthen Business Wales's presence in the area, which will, of course, provide support and advice locally, but perhaps the Minister could provide a bit more detail on exactly what she means by 'strengthening'. Will Business Wales have a physical presence in the local area, and, if so, from when?

Bydd y Gweinidog yn ymwybodol y bydd y newyddion hwn yn effeithio ar gadwyn gyflenwi'r burfa, sy'n cynnwys nifer o fusnesau lleol, ac mae hi wedi cyfeirio at hyn yn ei datganiad heddiw. Yn wir, rydym yn gwybod bod y burfa'n cefnogi cannoedd o swyddi eraill yn yr ardal leol. O dan yr amgylchiadau hyn, pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda chwmnïau cadwyn gyflenwi'r burfa er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu cymaint ag y bo modd? Mae yna bryderon gwirioneddol y bydd y newyddion yn taro busnesau o fewn y gadwyn gyflenwi yn galed iawn. Gwn fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer yn y maes hwn ac mae'n rhaid iddynt barhau i wneud popeth o fewn eu gallu i liniaru effeithiau posibl y cau ar fusnesau eraill. Croesawaf ymrwymiad y Gweinidog i gryfhau presenoldeb Busnes Cymru yn yr ardal, a fydd, wrth gwrs, yn darparu cymorth a chyngor yn lleol, ond efallai y gallai'r Gweinidog roi ychydig mwy o fanylion am beth yn union y mae'n ei olygu wrth 'cryfhau'. A fydd gan Busnes Cymru bresenoldeb ffisegol yn yr ardal leol, ac os felly, pryd fydd hynny'n cychwyn?

Therefore, in closing, Deputy Presiding Officer, the recent news regarding the collapse of the sale of the Murco refinery is a bitter blow to the economy of west Wales and, indeed, for the energy sector as a whole, given that this is one of only seven refineries in the UK. There are some very real fears that the local economy will take years to recover from this, and so, this afternoon, the people of Pembrokeshire deserve nothing more than cast-iron guarantees from the Welsh Government that it will do all that it can not only to support the refinery workers but to protect the local economy as well. Therefore, I thank the Minister once again for her statement, and I look forward to hearing more about the support that the Welsh Government will be offering the local community in Milford Haven in due course.

Felly, wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, mae'r newyddion diweddar am y methiant i werthu purfa Murco yn ergyd chwerw i economi gorllewin Cymru ac yn wir, i'r sector ynni yn ei gyfanrwydd, o ystyried mai dim ond un o ddim ond saith purfa yn y DU yw hon. Mae yna rai pryderon real iawn y bydd hi'n cymryd blynyddoedd i'r economi leol wella o hyn, ac felly, y prynhawn yma, mae pobl Sir Benfro yn sicr yn haeddu sicrwydd cadarn gan Lywodraeth Cymru y bydd yn gwneud popeth yn ei gallu nid yn unig yn i gefnogi gweithwyr y burfa, ond i amddiffyn yr economi leol hefyd. Felly rwy'n diolch i'r Gweinidog unwaith eto am ei datganiad ac edrychaf ymlaen at glywed mwy am y gefnogaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chynnig i'r gymuned leol yn Aberdaugleddau maes o law.

14:28

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I reply with a heavy heart as well, because I think that we were all hopeful that we could have done a deal, that it could have been undertaken, and that those jobs could have been saved within the area.

Rwy'n ateb gyda chalon drom hefyd oherwydd credaf ein bod i gyd wedi gobeithio y gallem fod wedi dod i gytundeb, y gallai fod wedi cael ei wneud ac y gallai'r swyddi hynny fod wedi'u hachub yn yr ardal.

In terms of the UK Government and the Welsh Government, we have been intimately involved with all the discussions regarding the sale of the refinery to the Klesch Group. We have worked tirelessly, I have to say. When I was in Japan last week, there were calls ongoing on this particular issue. I have been discussing with Jenny Randerson, who has been giving me support from the Wales Office on this particular matter. I have spoken to UK Government Ministers. Right up to the line when this decision was being taken, we were trying to establish whether there was anything more that we could do to assist. I can assure you that it went down to the wire.

O ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, buom yn ymwneud yn agos â'r holl drafodaethau ynglŷn â gwerthiant y burfa i Grŵp Klesch. Buom yn gweithio'n ddiflino, rhaid i mi ddweud. Pan oeddwn yn Japan yr wythnos diwethaf, cafwyd galwadau ffôn parhaus ar y mater penodol hwn. Bûm yn trafod gyda Jenny Randerson, a roddodd gefnogaeth i mi o Swyddfa Cymru ar y mater. Siaredais â Gweinidogion Llywodraeth y DU. Hyd at yr adeg pan gafodd y penderfyniad ei wneud, roeddem yn ceisio sefydlu a oedd unrhyw beth arall y gallem ei wneud i helpu. Gallaf eich sicrhau ein bod wedi mynd mor bell ag y gallem.

We were obviously aware of deadlines, and deadlines could not be passed. We were aware that the deadline for settlement on this deal was last Friday. However, even at that juncture, we were asking whether there could be an extension or further discussion, and that is the way that we have dealt with it. I have to say that Murphy Oil has dealt in a very straightforward manner with me and the representatives of the UK Government on these particular matters.

Roeddem yn amlwg yn ymwybodol o derfynau amser ac roedd yn rhaid cadw at y terfynau amser hynny. Roeddem yn ymwybodol mai'r dyddiad ar gyfer setlo'r cytundeb oedd dydd Gwener diwethaf. Fodd bynnag, hyd yn oed bryd hynny, roeddem yn gofyn a ellid cael estyniad neu drafodaeth bellach a dyna'r ffordd rydym wedi ymdrin â'r mater. Mae'n rhaid i mi ddweud bod Murphy Oil wedi delio'n ddidrafferth iawn â mi a chynrychiolwyr Llywodraeth y DU ar y materion penodol hyn.

I think that it is very difficult in terms of looking to the future, but I have not given up hope about potential buyers. There have been some informal discussions this morning about what further interest there might be, and I have asked my officials to pursue that vigorously before any decision is taken about how to deal with the plant and everything. I will not give any false hopes on this, but we will certainly pursue everything, and I know that I have the support of the UK Government as well in pursuing every avenue that we can to see whether we can do something about the jobs in that particular area.

Rwy'n credu ei bod yn anodd iawn o ran edrych at y dyfodol ond nid wyf wedi rhoi'r gorau i obeithio am brynwyr posibl. Cafwyd rhai trafodaethau anffurfiol y bore yma am y diddordeb pellach a allai fod ac rwyf wedi gofyn i fy swyddogion fynd ar drywydd hynny'n egnïol cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â sut i ddelio â'r burfa a phopeth. Nid wyf am roi unrhyw obaith ffug ar hyn ond byddwn yn sicr yn mynd ar drywydd popeth a gwn fy mod yn cael cefnogaeth Llywodraeth y DU yn ogystal wrth ddilyn pob trywydd a allwn i weld a oes modd i ni wneud rhywbeth am y swyddi yn yr ardal.

In terms of the taskforce, it will be meeting next Tuesday morning, and I will be chairing that meeting. I will be ensuring that my colleague, Julie James, is involved for the discussions on the skills agenda, because I think that there is an issue about how we can get skilled people perhaps skilled into other skills, so that we can find them jobs in the jobs market. It is very important to look at what training opportunities are available.

O ran y tasglu, bydd yn cyfarfod fore dydd Mawrth nesaf a byddaf yn cadeirio'r cyfarfod hwnnw. Byddaf yn sicrhau bod fy nghydweithiwr, Julie James, yn rhan o'r trafodaethau ar yr agenda sgiliau oherwydd credaf fod yna fater yn codi ynglŷn â sut y gallwn hyfforddi pobl fedrus mewn sgiliau eraill efallai, fel y gallwn ddod o hyd i swyddi iddynt yn y farchnad swyddi. Mae'n bwysig iawn edrych ar ba gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael.

In terms of the trade unions, because of the plans for what Murco intends to do, I have been with the regional secretary of Unite today discussing the very issues around that. It is very keen—because it is currently involved in the taskforce—to continue its involvement, and obviously it wants to take with it the workers in terms of what we can do to help and assist. So, there will be a full dialogue on these issues.

O ran yr undebau llafur, oherwydd y cynlluniau ar gyfer yr hyn y mae Murco yn bwriadu ei wneud, bûm yn trafod yr union faterion hynny gydag ysgrifennydd rhanbarthol Unite heddiw. Mae'r undeb yn awyddus iawn—oherwydd ei fod ar hyn o bryd yn rhan o'r tasglu—i barhau â'i gyfranogiad ac yn amlwg, mae eisiau cefnogaeth y gweithwyr o ran yr hyn y gallwn ei wneud i helpu a chynorthwyo. Felly, bydd trafodaeth lawn ar y materion hyn.

You are absolutely correct to say that the global market conditions for refining are exceptionally difficult. We have regular discussions with Valero, I can assure you, about any help and assistance that we might be able to give as a Government. Valero is also a good company in terms of the dialogue that it engages in with us in the Welsh Government, and, of course, locally, with the local authority as well; it is aware of its needs, and everything.

Rydych yn hollol gywir i ddweud bod cyflwr y farchnad fyd-eang ym maes puro olew yn eithriadol o anodd. Gallaf eich sicrhau ein bod yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Valero ynglŷn ag unrhyw help a chymorth y gallem ei roi fel Llywodraeth. Mae Valero hefyd yn gwmni da o ran y ddeialog y mae'n ei chael gyda ni yn Llywodraeth Cymru ac yn lleol wrth gwrs, gyda'r awdurdod lleol; mae'n ymwybodol o'i anghenion, a phopeth.

The supply chain issues are the issues that do really worry me, in terms of what business will be impacted upon. I will be taking the advice of the taskforce in this area, but officials will already be drawing up a list of who we will need to speak to and what we need to undertake.

Materion y gadwyn gyflenwi yw'r rhai sy'n fy mhoeni mewn gwirionedd o ran pa fusnes fydd yn cael ei effeithio. Byddaf yn cymryd cyngor y tasglu ar hyn o beth ond bydd swyddogion eisoes yn llunio rhestr o bwy y bydd angen i ni siarad â hwy a beth sydd angen i ni ei wneud.

In terms of Business Wales, we are giving them that additional support. I think that you make a valid point about a physical presence on that, and I shall certainly take that matter up, because, sometimes, I think that it might be important for somebody to know that there is somebody in the high street that they can go and see, rather than just being a phone call or an e-mail away. I think that that is quite important in these difficult times.

O ran Busnes Cymru, rydym yn rhoi'r cymorth ychwanegol hwnnw iddynt. Credaf eich bod wedi gwneud pwynt dilys am bresenoldeb ffisegol yn hynny o beth a byddaf yn sicr yn codi'r mater hwnnw, oherwydd weithiau rwy'n meddwl y gallai fod yn bwysig i rywun wybod bod rhywun ar y stryd fawr y gallant fynd i'w gweld, yn hytrach na bod yn ddim ond galwad ffôn neu e-bost i ffwrdd. Credaf fod hynny'n eithaf pwysig ar yr adeg anodd hon.

So, I would be more than happy to formally update the Assembly next week, probably in the form of a written statement, after the taskforce meeting, indicating what further measures the Government intends to take. However, this is a very sad day for Pembrokeshire, and a sad day in terms of the Welsh economy, because we do regard that area as particularly strategic, in terms of refining and everything. I think that all we can say now is that I think that all our hearts go out to the people who are involved in this, and see what we can best do as a Government. I trust that we will have a united approach across the Chamber on these matters.

Felly, byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ffurfiol i'r Cynulliad yr wythnos nesaf, ar ffurf datganiad ysgrifenedig yn ôl pob tebyg, ar ôl cyfarfod y tasglu, yn nodi pa fesurau pellach y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd. Fodd bynnag, mae hwn yn ddiwrnod trist iawn i Sir Benfro ac yn ddiwrnod trist o ran economi Cymru gan ein bod yn ystyried yr ardal yn arbennig o strategol o ran puro olew a phopeth. Credaf mai'r oll y gallwn ei ddweud yn awr yw fy mod yn credu bod calon pawb ohonom gyda'r bobl sy'n rhan o hyn a gweld beth yw'r peth gorau i ni ei wneud fel Llywodraeth. Hyderaf y bydd gennym agwedd unedig ar draws y Siambr ar y materion hyn.

14:32

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, I think that all our sympathies must go to the families affected by this decision. This is a huge hole punched in the Pembrokeshire economy and, as the Minister just said, in the strategic economy of Wales, and the UK actually as well, because there is a reliance on these facilities, which are now, of course, not available within the UK, and so we are even more reliant on imports and other organisations to deal with this. There are 350 extremely well paid jobs, which I know the First Minister has accepted in the past are key to the Pembrokeshire economy, as well as the supply chain jobs, which the Minister referred to.

Yn wir, rwy'n meddwl bod yn rhaid i'n cydymdeimlad ni oll fynd at y teuluoedd yr effeithir arnynt gan y penderfyniad hwn. Mae hwn yn dwll mawr yn economi sir Benfro ac fel y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud, yn economi strategol Cymru, a'r DU mewn gwirionedd hefyd, oherwydd bod dibyniaeth ar y cyfleusterau hyn nad ydynt i'w cael bellach yn y DU ac felly rydym hyd yn oed yn fwy dibynnol ar fewnforion a sefydliadau eraill i ddelio â hyn. Mae yna 350 o swyddi sy'n talu'n dda iawn, y gwn fod y Prif Weinidog wedi derbyn yn y gorffennol eu bod yn allweddol i economi Sir Benfro, yn ogystal â swyddi'r gadwyn gyflenwi, y cyfeiriodd y Gweinidog atynt.

May I first ask the Minister about the retail arm of this business? I know that it has already been sold off, and it is a profitable part of the business, but the retail arm is also a network that supports many small businesses throughout west Wales. The change of the refinery to a distribution and storage depot may have an impact on that retail arm, so I would like to know what discussions are ongoing about ensuring that that retail network remains in place; I know that it is in separate ownership now. What understanding does the Minister have of the decision of Klesch to pursue the Tata Steel long products purchase? It seems to me that Klesch went after a bigger fish to fry, if you like, and has left this particular issue in abeyance. I very much regret the inability to meet the deadlines and to reach agreement by those deadlines. However, she did hold out a glimmer of hope that there may be a possibility of other interest in this site. There have been discussions in the past of management-led and worker-led buy-outs—they may be too late for that, but is that something that can be at least re-examined within the new taskforce process?

A gaf fi ofyn i'r Gweinidog yn gyntaf am gangen fanwerthu'r busnes hwn? Gwn ei fod eisoes wedi'i werthu, ac yn rhan broffidiol o'r busnes, ond mae'r gangen fanwerthu hefyd yn rhwydwaith sy'n cefnogi llawer o fusnesau bach ledled gorllewin Cymru. Efallai y bydd newid y burfa'n ddepo dosbarthu a storio yn cael effaith ar y gangen fanwerthu, felly hoffwn wybod pa drafodaethau sydd ar y gweill ynglŷn â sicrhau bod y rhwydwaith manwerthu yn parhau yn ei le; gwn ei fod mewn perchnogaeth ar wahân erbyn hyn. Pa ddealltwriaeth sydd gan y Gweinidog ynghylch penderfyniad Klesch i fynd ar drywydd pryniant cynhyrchion Tata Steel? Mae'n ymddangos i mi fod Klesch wedi mynd ar ôl materion mwy o faint, os hoffwch, ac wedi gadael y mater penodol hwn heb ei ddatrys. Rwy'n gresynu'n fawr iawn yr anallu i gwrdd â'r terfynau amser ac i ddod i gytundeb erbyn y terfynau amser hynny. Fodd bynnag, roedd hi'n cynnig llygedyn o obaith y gallai fod posibilrwydd o ddiddordeb arall yn y safle hwn. Cafwyd trafodaethau yn y gorffennol ynghylch pryniant wedi'i arwain gan y rheolwyr a'r gweithwyr—efallai eu bod yn rhy hwyr i hynny ond a yw'n rhywbeth y gellir o leiaf ailedrych arno fel rhan o broses newydd y tasglu?

I very much welcome the fact that the taskforce is continuing. May I suggest to the Minister, however, that it needs to be beefed up? I am glad that you are chairing it, Minister; that is a good start, because it now has a different job. It has got a different task of regeneration and rebuilding, and re-establishing some of those supply chains and networks and training—a job that, for the next 18 months to two years, needs to be very focused on filling the gap that this decision has led to in Pembrokeshire. Whereas the Haven looks at the long-term strategic building-up of the economy in the area, this is a short-term issue of regeneration, and I hope that the taskforce will get all the tools necessary. I very much agree that a presence on the high street, as it were, will help at least with the confidence of local people to know that Welsh Government is there, working hard.

Croesawaf yn fawr iawn y ffaith bod y tasglu yn parhau. A gaf fi awgrymu i'r Gweinidog, fodd bynnag, fod angen iddo gael ei wneud yn gryfach? Rwy'n falch eich bod yn ei gadeirio, Weinidog; mae hynny'n ddechrau da, gan fod ganddo orchwyl wahanol bellach. Mae ganddo dasg wahanol i adfywio ac ailadeiladu, ac ailsefydlu rhai o'r cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau a hyfforddiant—gwaith sy'n rhaid ei ganolbwyntio'n fanwl dros y 18 mis i ddwy flynedd nesaf ar gau'r bwlch y mae'r penderfyniad hwn wedi arwain ato yn Sir Benfro. Er bod y Daugleddau yn edrych ar adeiladu'r economi yn yr ardal yn strategol yn y tymor hir, mater o adfywio yn y tymor byr yw hwn a gobeithio y bydd y tasglu'n cael yr holl adnoddau angenrheidiol. Cytunaf yn llwyr y bydd presenoldeb ar y stryd fawr, fel petai, yn helpu o ran rhoi hyder i bobl o leiaf i wybod bod Llywodraeth Cymru yno, yn gweithio'n galed.

Have you had any initial discussions with the UK Government about its own programmes that might be available to Pembrokeshire, because maybe it is not just Welsh Government money that should go in there ,but support from the UK Government as well and access to EU funds, as this is a key strategic loss in our economy. It may be an opportunity to build something there. Whereas we all recognise that, in the long term, energy interests in Wales must coalesce around the energy that we have and own ourselves because that is the most sustainable in the long-term future, this short-term reliance that we all have in the economy on oil and imports will continue. It will continue now in Pembrokeshire because of the local development plan and everything else that is going on there. However, do we have the ability to work closely with potential investors in that area to build on the skills that are already available? It is not just that these were very high-paid jobs; these were extremely skilled jobs. To lose those skills from our economy and from Wales means that we will not be able to rebuild an energy sector in Wales either. It is an extremely important piece of work. I wish you all the luck, Minister, and I will give you my full support, but our thoughts and sympathies must be with many of these families today.

A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth y DU am ei rhaglenni a allai fod ar gael i Sir Benfro, oherwydd efallai nad arian Llywodraeth Cymru yn unig a ddylai fynd i mewn ond cefnogaeth Llywodraeth y DU yn ogystal â defnydd o gronfeydd yr UE, gan fod hon yn golled strategol allweddol i'n heconomi. Gall fod yn gyfle i adeiladu rhywbeth yno. Er ein bod i gyd yn cydnabod bod yn rhaid i fuddiannau ynni yng Nghymru yn y tymor hir gyfuno o amgylch yr ynni sydd gennym ac sy'n eiddo i ni ein hunain gan mai dyna sy'n fwyaf cynaliadwy i'r dyfodol hirdymor, bydd dibyniaeth fyrdymor pawb ohonom yn yr economi ar olew a mewnforion yn parhau. Bydd yn parhau yn awr yn Sir Benfro oherwydd y cynllun datblygu lleol a phopeth arall sy'n mynd ymlaen yno. Fodd bynnag, a yw'r gallu gennym i weithio'n agos gyda buddsoddwyr posibl yn yr ardal i adeiladu ar y sgiliau sydd ar gael yn barod? Nid dim ond y ffaith fod y rhain yn swyddi a dalai'n dda iawn; roeddent yn swyddi medrus dros ben. Mae colli'r sgiliau hyn o'n heconomi ac o Gymru yn golygu na fyddwn yn gallu ailadeiladu sector ynni yng Nghymru chwaith. Mae'n waith hynod o bwysig. Pob lwc i chi, Weinidog, a byddaf yn rhoi fy nghefnogaeth lawn i chi, ond mae'n rhaid i'n meddyliau a'n cydymdeimlad fod gyda llawer o'r teuluoedd hyn heddiw.

14:36

## Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Simon Thomas for the support of Plaid Cymru on what is an exceptionally difficult issue for us as a Government, but not as difficult as for the individuals that this is going to impact on. It is important for us to recognise that there are many issues around this, with one being the retail arm being sold off. He makes some valid points on that particular issue and how we will deal with the storage depot issue. These are issues that will be under discussion. As far as I am aware, the Klesch Group was negotiating up to the end. Therefore, I cannot possibly comment on what other deals the Klesch Group might be doing elsewhere in the UK. In terms of other issues, we think that there are a couple. They are commercial concerns but, obviously, I do not rule anything out or in with regard to how we might be able to assist in anything to do with the refinery. However, I think that it is highly unlikely that we will see an immediate management buy-out or workers co-operative there. Time is not necessarily on our side to develop ideas like that.

Diolch i Simon Thomas am gefnogaeth Plaid Cymru ar yr hyn sy'n fater eithriadol o anodd i ni fel Llywodraeth ond nid yw mor anodd ag y mae i'r unigolion sy'n mynd i gael eu heffeithio gan hyn. Mae'n bwysig i ni gydnabod bod llawer o faterion yn codi o hyn, ac un ohonynt yw gwerthu'r gangen fanwerthu. Mae'n gwneud pwyntiau dilys ar y mater penodol hwnnw a sut y byddwn yn delio â mater y depo storio. Mae'r rhain yn faterion a fydd yn cael eu trafod. Cyn belled ag y gwn i, roedd Grŵp Klesch yn trafod hyd at y diwedd. Felly, ni allaf roi sylwadau ar gytundebau eraill y gallai Grŵp Klesch fod yn eu trafod mewn mannau eraill yn y DU. O ran materion eraill, rydym yn credu bod yna gwpl yn codi. Pryderon masnachol ydynt ond yn amlwg, nid wyf yn diystyru unrhyw beth o ran sut y gallwn gynorthwyo gydag unrhyw beth i'w wneud â'r burfa. Fodd bynnag, credaf ei bod yn annhebygol iawn y gwelwn reolwyr yn prynu'r cwmni neu gwmni cydweithredol y gweithwyr yno gyda hyn. Nid yw amser o reidrwydd o'n plaid o ran datblygu syniadau fel hynny.

I will be looking at the membership of the taskforce. I will be enhancing the membership of the taskforce to ensure that we have all the relevant skills to look at what is a short- term project, because the Haven enterprise zone can deal with the long-term issues around the haven. I think it is very important that the taskforce has key individuals who can make a difference in discussions. We will certainly carry on our discussions with the UK Government, because we have had very good discussions with it about the importance of the site and what further work we can do. I know that my colleague, Jane Hutt, would help in any way she could with support from any European Union funds in that area. I am more than happy to cover all those further points when I update the Assembly.

Byddaf yn edrych ar aelodaeth y tasglu. Byddaf yn gwella aelodaeth y tasglu er mwyn sicrhau bod gennym yr holl sgiliau perthnasol i edrych ar yr hyn sy'n brosiect byrdymor oherwydd gall ardal fenter y Daugleddau ymdrin â'r materion hirdymor sy'n ymwneud â'r aber. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn fod gan y tasglu unigolion allweddol a all wneud gwahaniaeth mewn trafodaethau. Byddwn yn sicr yn parhau â'n trafodaethau â Llywodraeth y DU gan ein bod wedi cael trafodaethau da iawn â hi am bwysigrwydd y safle a pha waith pellach y gallwn ei wneud. Gwn y byddai fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, yn helpu mewn unrhyw ffordd y gall gyda chymorth o gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn yr ardal. Rwy'n fwy na pharod i ymdrin â'r holl bwyntiau pellach hynny pan fyddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad.

14:37

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for her statement. Like everybody here I am extremely sorry that the news is so bad, and really bad for all of those people who are going to lose their jobs and for their families. I have a few follow-up questions, and I do not really want to go through everything that has already been said. The Murphy Oil Corporation has said that is has no choice now but to use the site solely for storage and distribution. Minister, have you been party to those negotiations and are you now convinced that there is no longer any prospect of retaining refinery operations at that site? I understand that Murphy Oil looks after its stakeholders' interests. That is its job. I fully understand and support the fact that you and the UK Government have done your very best to look after the interests of those people who work in that Pembrokeshire refinery. The company has said that this particular deal is dead in the water, and you, Minister, have suggested that there is a slim—and it is very slim—opportunity that there might be other buyers out there. Of course, when we talk about this asset, we talk about it as a commercial asset, but it is also an asset of vital importance nationally. It is integral to the energy security of this country. My deep concern—and I am sure that it is shared right around the Chamber—is that once the process of decommissioning starts, there will be no coming back from that. I want to ask you, Minister, whether you feel that there has been full exploration of any chance whatsoever of retaining any refinery operations at that site, even if those are slightly diminished? Is there any way to delay a future programme to dismantle the site's refinery capacity?

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad. Fel pawb yma, rwy'n hynod o flin fod y newyddion mor ddrwg ac yn wael iawn i bawb o'r bobl hynny sy'n mynd i golli eu gwaith a'u teuluoedd. Mae gennyf ychydig o gwestiynau dilynol ac nid wyf wir eisiau mynd drwy bopeth a ddywedwyd eisoes. Mae Murphy Oil Corporation wedi dweud nad oes ganddo ddewis yn awr ond defnyddio'r safle ar gyfer storio a dosbarthu yn unig. Weinidog, a ydych wedi bod yn rhan o'r trafodaethau hynny ac a ydych yn awr yn argyhoeddedig nad oes bellach unrhyw obaith o gadw gweithrediadau puro olew ar y safle? Deallaf fod Murphy Oil yn gofalu am fuddiannau ei randdeiliaid. Dyna ei waith. Rwy'n deall ac yn cefnogi'r ffaith eich bod chi a Llywodraeth y DU wedi gwneud eich gorau glas i edrych ar ôl buddiannau'r bobl sy'n gweithio yn y burfa yn Sir Benfro. Mae'r cwmni wedi dweud nad oes dim y gellir ei wneud am y penderfyniad penodol hwn, ac rydych chi, Weinidog, wedi awgrymu bod gobaith bach—ac mae'n fach iawn—y gallai fod prynwyr eraill allan yno. Wrth gwrs, pan fyddwn yn sôn am yr ased hwn, rydym yn sôn amdano fel ased masnachol, ond mae hefyd yn ased hanfodol bwysig yn genedlaethol. Mae'n rhan annatod o'r broses o ddiogelu ynni'r wlad hon. Fy mhryder mawr—ac rwy'n siŵr bod aelodau ar draws y Siambr yn ei rannu—yw na fydd modd dod yn ôl o hynny wedi i'r broses ddatgomisiynu ddechrau. Rwyf am ofyn i chi, Weinidog, a ydych yn teimlo fod y posibilrwydd o gadw gweithrediadau puro olew ar y safle hwnnw, wedi'i archwilio'n llawn hyd yn oed pe baent ychydig yn llai o faint? A oes unrhyw ffordd o oedi rhaglen yn y dyfodol i ddatgymalu capasiti puro olew'r safle?

Finally, in terms of support for the workforce, I very much welcome the solid commitment that you have made this afternoon, Minister. I know that this will be an incredibly bewildering and stressful time for employees and also for the many businesses that in one way or another rely on the refinery for their future. I am sure, Minister, that you will give assurances yet again, as you have already, that the people are not just left to find support and advice for themselves and that they will be aided and supported through the process as their needs arise. As part of the taskforce's ongoing work, I am really pleased to see that you are going to strengthen that taskforce so that it can now, as has already been mentioned, look at the wider job that it will probably have to do in the very near future.

Yn olaf, o ran cymorth i'r gweithlu, rwy'n croesawu'n fawr yr ymrwymiad cadarn a wnaethoch y prynhawn yma, Weinidog. Gwn y bydd hwn yn gyfnod hynod o ddryslyd a llawn straen i weithwyr a hefyd i'r nifer o fusnesau sy'n dibynnu ar y burfa mewn un ffordd neu'r llall ar gyfer eu dyfodol. Rwy'n siŵr, Weinidog, y byddwch yn rhoi sicrwydd unwaith eto, fel rydych eisoes wedi'i wneud, nad yw'r bobl yn cael eu gadael i ddod o hyd i gymorth a chyngor drostynt eu hunain ac y cânt gymorth a chefnogaeth drwy'r broses yn ôl eu hangen. Fel rhan o waith parhaus y tasglu, rwy'n falch iawn o weld eich bod yn mynd i gryfhau'r tasglu hwnnw er mwyn iddo edrych yn awr, fel y crybwyllwyd eisoes, ar y gwaith ehangach y bydd yn rhaid iddo ei wneud yn y dyfodol agos iawn yn ôl pob tebyg.

14:41 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much indeed for those comments. It is important for us to recognise that UK fuel supplies are resilient and that there will be no shortage of fuel as a result of the closure of the Milford Haven refinery. I think that I need to tell motorists and travellers that this afternoon in light of some of your comments. I also make it clear that the support that we will be giving to those facing redundancy will obviously be redundancy information services; help with CVs and use of digital media and everything that we continue to do. The Business Wales presence will probably be in Pembroke Dock in terms of enhancement of what we are going to do within that area.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich sylwadau. Mae'n bwysig i ni gydnabod bod cyflenwadau tanwydd y DU yn gadarn ac na fydd prinder tanwydd o ganlyniad i gau purfa Aberdaugleddau. Credaf fod angen i mi ddweud hynny wrth fodurwyr a theithwyr y prynhawn yma yng ngoleuni rhai o'ch sylwadau. Rwyf hefyd yn ei gwneud yn glir mai gwasanaethau gwybodaeth yn sgîl colli gwaith yw'r cymorth y byddwn yn ei roi i'r rhai sy'n wynebu cael eu diswyddo; cymorth gyda llunio CV a defnyddio cyfryngau digidol a phopeth rydym yn parhau i wneud. Mae'n debyg mai yn Noc Penfro y bydd presenoldeb Busnes Cymru o ran gwella'r hyn rydym yn mynd i'w wneud yn yr ardal honno.

May I also say that I think that I have made absolutely clear the position on the relationship between Murphy Oil and what has happened with Klesch? We have to recognise that there was a window of opportunity; there were deadlines in place and, at the end of the day, I have to say that Murphy Oil has dealt with this in a very straightforward and honest manner in all its deliberations and discussions with us. I am aware that if there was any slim chance of anything coming forward in terms of the future of the refinery, I could put a call straight into Murphy Oil today and it would accept a call and we could see what could be done. We do have that type of relationship, but we have to recognise that this has been an ongoing process since 2010 in terms of wanting to divest itself of this particular business.

A gaf fi ddweud hefyd fy mod yn credu i mi wneud y sefyllfa'n gwbl glir o ran y berthynas rhwng Murphy Oil a'r hyn sydd wedi digwydd gyda Klesch? Mae'n rhaid i ni gydnabod bod yna gyfle wedi bod; roedd terfynau amser yn eu lle ac ar ddiwedd y dydd, rhaid i mi ddweud bod Murphy Oil wedi delio â hyn mewn ffordd uniongyrchol a gonest iawn yn eu holl drafodaethau â ni. Pe bai unrhyw obaith bach i'w weld o ran dyfodol y burfa, rwy'n ymwybodol y gallwn ffonio Murphy Oil yn syth heddiw a byddai'n derbyn yr alwad a gallem weld beth y gellid ei wneud. Dyna'r math o berthynas sydd gennym, ond mae'n rhaid i ni gydnabod bod hon wedi bod yn broses barhaus ers 2010 o ran bod eisiau cael y maen i'r wal ar y busnes penodol hwn.

However, the important thing that we have to recognise is the responsibility that we have to look at the skills that are in that workforce; how those skills can be utilised in other businesses and how they can be enhanced, and there is also the wider point that Simon Thomas made, which is how that helps us in terms of our energy industry and what skills there are to go into the wider energy industry.

Fodd bynnag, y peth pwysig y mae'n rhaid i ni ei gydnabod yw'r cyfrifoldeb sydd gennym i edrych ar y sgiliau'r gweithlu; sut y gellir defnyddio'r sgiliau hynny mewn busnesau eraill a sut y gellir eu gwella, a hefyd mae'r pwynt ehangach a wnaeth Simon Thomas, sef sut y mae hynny'n ein helpu o ran ein diwydiant ynni a pha sgiliau sydd ar gael i fynd i mewn i'r diwydiant ynni ehangach.

So, I think that it is important for us to recognise that there is a task of work to be undertaken. The taskforce will have its first meeting on Tuesday. It will obviously have ideas, and I say to Members here that if they have any particular issues that they want to be looked at within that taskforce, my door is open to those ideas because it is very important that we take a united approach on this. This will be a real test of our ability to do something in a situation like this—for us as a Government, and for all of us. The impact of this closure is not just in Pembrokeshire; it filters all the way across Wales. So, it is important that we carry on with the work that we are undertaking and that we look for further opportunities for jobs in that area. We must also ensure that the resources that are required are made available.

Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni gydnabod bod yna waith i'w wneud. Bydd y tasglu yn cyfarfod am y tro cyntaf ddydd Mawrth. Yn amlwg, bydd ganddo syniadau, ac rwy'n dweud wrth yr Aelodau yma, os oes ganddynt unrhyw faterion penodol y maent am i'r tasglu edrych arnynt, mae fy nrws yn agored i'r syniadau hynny am ei bod yn bwysig iawn i ni fabwysiadu ymagwedd unedig ar hyn. Bydd yn brawf gwirioneddol ar ein gallu i wneud rhywbeth mewn sefyllfa fel hon—i ni fel Llywodraeth ac i bob un ohonom. Nid yn Sir Benfro yn unig y gwelir effaith y cau; mae'n treiddio'r holl ffordd ar draws Cymru. Felly mae'n bwysig ein bod yn parhau â'r gwaith rydym yn ei wneud a'n bod yn edrych am ragor o gyfleoedd am swyddi yn yr ardal honno. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod yr adnoddau sydd eu hangen ar gael i ni.

14:44 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister very much for her comprehensive and candid statement today, and for the tone in which she delivered it. I associate myself with the remarks of other Members around the Chamber about quite what a blow this is not just for the Pembrokeshire economy, but for the wider Welsh economy, and our thoughts go out to the staff and their families. However, we are also aware, as the Minister has stated clearly, that there is a much wider supply chain issue that we need to be aware of. It has been, as she said, a long and painful process for all involved, and it is really reassuring, at least, to know that there has been a seamless approach from the Welsh Government, the UK Government and the other agencies that are involved in this. Simon Thomas was correct to flag up the importance that this development has for our energy security in the future. When the Minister addressed the opening meeting of the cross-party group on energy, she emphasised the importance of keeping our transport networks moving and keeping the lights on. That is something that we always need to be aware of in this context.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am ei datganiad cynhwysfawr a gonest heddiw ac am y ffordd y mae wedi'i gyflwyno. Cysylltaf fy hun â sylwadau Aelodau eraill yn y Siambr ynglŷn â chymaint o ergyd yw hon, nid yw hyn yn unig i economi Sir Benfro, ond i economi ehangach Cymru, ac mae ein meddyliau gyda'r staff a'u teuluoedd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol, fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddatgan yn glir, fod yna fater llawer ehangach ynglŷn â'r gadwyn gyflenwi sydd angen i ni fod yn ymwybodol ohono. Fel y dywedodd, mae wedi bod yn broses hir a phoenus i bawb dan sylw ac mae'n wirioneddol galonogol gwybod o leiaf fod Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac asiantaethau eraill wedi mynd ati mewn modd cydgysylltiedig i ymdrin â hyn . Roedd Simon Thomas yn gywir i dynnu sylw at bwysigrwydd y datblygiad hwn i'r broses o ddiogelu ein hynni yn y dyfodol. Pan anerchodd y Gweinidog gyfarfod agoriadol y grŵp trawsbleidiol ar ynni, pwysleisiodd pa mor bwysig yw cadw ein rhwydweithiau trafnidiaeth i symud a'r goleuadau ymlaen. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohono bob amser yn y cyd-destun hwn.

Back in the spring, the First Minister did indicate in the Chamber that there were, at that time at least, multiple bids that could be considered for the refinery. I hope, Minister, that you feel that there is still some room for optimism, although clearly it is not a bright glow at this time, because the Secretary of State has indicated that, in his view, we are near the end of the road. However, if there are bidders out there, you have indicated a readiness to move heaven and earth to take things forward. Minister, could you expand a little further on what you see as the specific role of the taskforce that you will be chairing in this regard, because of the impact on the wider area? We know, for example, that the average salary at the refinery was something of the order of £50,000 and other Members have commented about the degree of skill that has accumulated in this site. Just in 2012, when a similar refinery closed in Essex, it was estimated that approximately £0.5 billion was stripped out of the local economy and that obviously is key.

Yn ôl yn y gwanwyn, dynododd y Prif Weinidog yn y Siambr fod cynigion lluosog, ar y pryd o leiaf, y gellid eu hystyried ar gyfer y burfa. Rwy'n gobeithio, Weinidog, eich bod yn teimlo bod yna'n dal i fod rhywfaint o obaith, er nad yw'n obaith disglair ar hyn o bryd, mae'n amlwg, gan fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi ei fod o'r farn ein bod yn agos at ben draw'r ffordd. Fodd bynnag, os oes cynigwyr allan yno, rydych wedi nodi parodrwydd i wneud popeth yn eich gallu i symud pethau yn eu blaen. Weinidog, a allech ymhelaethu ychydig ar yr hyn rydych yn ystyried yw rôl benodol y tasglu y byddwch yn ei gadeirio yn hyn o beth, oherwydd yr effaith ar yr ardal ehangach? Gwyddom, er enghraifft, fod cyflog cyfartalog y burfa rywbeth yn debyg i £50,000 ac mae Aelodau eraill wedi gwneud sylwadau ynghylch graddau'r sgiliau sydd wedi cronni ar y safle hwn. Mor ddiweddar â 2012, pan gaewyd purfa debyg yn Essex, amcangyfrifwyd bod oddeutu £0.5 biliwn wedi'i dynnu allan o'r economi leol ac mae hynny, mae'n amlwg, yn allweddol.

One final issue that I would like to have some further clarification on is the role that you envisage for Business Wales and also what engagement you anticipate with Pembrokeshire College and also with the local authority, Pembrokeshire County Council, to bring these matters to a successful conclusion.

Un mater olaf yr hoffwn gael rhywfaint o eglurhad pellach arno yw'r rôl a ragwelwch ar gyfer Busnes Cymru a hefyd, pa ymgysylltiad a ragwelwch gyda Choleg Sir Benfro a'r awdurdod lleol, Cyngor Sir Penfro, ar gyfer dwyn y materion hyn i ben yn llwyddiannus.

14:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your comments. You were quite right about the possible economic impact on this area when you drew comparisons with what happened with the closure of an oil refinery elsewhere. We are talking about highly skilled jobs and very well paid jobs that go into the local economy. So, in terms of the taskforce, I expect it to look in detail at, and have discussions with my colleague Julie James about, the skills that are there, the retraining that can take place and also what businesses, currently in that area and further up, are looking for the type of skilled personnel who might be let go when the refinery closes. There is an awful lot of work for the taskforce to look at in that particular area. Also, on some of the individuals who worked there, what other skills do they have? Do they want self-employment or do they want to do something else? Can we link them into other companies? There is a tremendous amount of work that the taskforce will have to put some thought into over the coming weeks so that we can then deliver a programme in that particular area.

Diolch yn fawr am eich sylwadau. Roeddech yn llygad eich lle ynglŷn â'r effaith economaidd bosibl ar yr ardal wrth gymharu â'r hyn a ddigwyddodd adeg cau purfa olew mewn man arall. Rydym yn sôn am swyddi medrus a swyddi sy'n talu'n dda iawn sy'n mynd i mewn i'r economi leol. Felly, o ran y tasglu, rwy'n disgwyl iddo edrych yn fanwl ar y sgiliau sydd yno, yr ailhyfforddi a all ddigwydd a hefyd, pa fusnesau yn yr ardal ar hyn o bryd ac yn uwch i fyny sy'n edrych am y math o weithwyr medrus a allai fod yn cael eu diswyddo pan fydd y burfa'n cau, a chael trafodaethau gyda fy nghyd-Aelod, Julie James ynghylch y materion hyn. Mae yna lawer iawn o waith i'r tasglu edrych arno yn yr ardal. Hefyd, o ran rhai o'r unigolion a oedd yn gweithio yno, pa sgiliau eraill sydd ganddynt? A ydynt am weithio'n hunangyflogedig neu a ydynt am wneud rhywbeth arall? A allwn ni eu cysylltu â chwmnïau eraill? Mae llawer iawn o waith y bydd yn rhaid i'r tasglu ei ystyried dros yr wythnosau nesaf er mwyn i ni allu cyflwyno rhaglen yn yr ardal dan sylw.

In terms of Business Wales, I will expect it to be very proactive in that area. I think that it will have to be there, on the high street, so that people can go in to talk about the issues and be taken through them in a proper manner. I will obviously look at budget issues with regard to how I can help in assisting with that particular area.

O ran Busnes Cymru, byddaf yn disgwyl iddo fod yn rhagweithiol iawn yn yr ardal. Credaf y bydd yn rhaid iddo fod yno, ar y stryd fawr, fel y gall pobl fynd i mewn i siarad am y materion a'u trafod mewn modd priodol. Yn amlwg, byddaf yn edrych ar faterion cyllidebol o ran sut y gallaf helpu yn hynny o beth.

For me, the key issue is getting a rounded approach that will involve the local authority and Pembrokeshire College, because it is very important that all partners play the roles that they are able to, as we tackle this most difficult issue. However, as I have indicated, I will be providing an update, following the first taskforce meeting.

I mi, y mater allweddol yw sicrhau dull cyflawn o weithredu a fydd yn cynnwys yr awdurdod lleol a Choleg Sir Benfro, gan ei bod yn bwysig iawn i'r holl bartneriaid chwarae'r rhannau a allant wrth i ni fynd i'r afael â'r mater eithriadol o anodd hwn. Fodd bynnag, fel y dywedais, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod cyntaf y tasglu.

14:48 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I join with what other Members have said? However, from the beginning with this particular task, there was always a note of particular realism. It was known as an intensive industry with enormous competition, and those of you who will have noticed the reduction in the price of west Texas light in the last few months will know that it was becoming increasingly difficult for this refinery even to compete in the smaller market of which it was a part.

A gaf fi ategu'r hyn y mae Aelodau eraill wedi'i ddweud? Fodd bynnag, o'r dechrau gyda'r dasg arbennig hon, roedd yna bob amser naws o realaeth benodol. Câi ei ystyried yn ddiwydiant dwys gyda chystadleuaeth enfawr a bydd y rhai ohonoch a fydd wedi sylwi ar y gostyngiad ym mhris west Texas light dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn gwybod ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd i'r burfa hon gystadlu hyd yn oed yn y farchnad lai o faint yr oedd yn rhan ohoni.

I pay tribute, in particular, to the Minister and her officials for the way that they have carried out their task as best they can. I also pay tribute to local Members and particularly to the Secretary of State, who has worked tirelessly with the United Kingdom Government to try to bring this idea of a successful transmission to fruition. We knew that it was very difficult from the beginning. I would ask the Minister in terms of what she identifies today—. I certainly pledge our support on this side of the Chamber. It is hopeful that when the South Hook Gas power station comes online—a little bit in the future—that power station must surely be borne in mind in terms of retaining these important skills. I would ask the Minister to report back as and when she can. However, as other Members have said, this is a sad day for that particular part of west Wales, which we already know is one of the poorest regions in Europe. We would ask all of those agencies that possibly can to aid us to recover from this devastating blow.

Rwy'n canmol y Gweinidog, yn arbennig, a'i swyddogion am y ffordd y maent wedi cyflawni eu tasg hyd eithaf eu gallu. Talaf deyrnged hefyd i Aelodau lleol ac yn arbennig i'r Ysgrifennydd Gwladol sydd wedi gweithio'n ddiflino gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i geisio gwireddu'r syniad o drosglwyddiad llwyddiannus. Gwyddom ei bod yn orchwyl anodd iawn o'r dechrau. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog o ran yr hyn mae hi'n ei nodi heddiw—. Rwy'n sicr yn addo ein cefnogaeth ar yr ochr hon i'r Siambr. Pan ddaw gorsaf bŵer nwy South Hook yn weithredol—beth amser yn y dyfodol—mae'n sicr y dylid cofio am yr orsaf bŵer honno o ran cadw'r sgiliau pwysig hyn. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog adrodd yn ôl pan fydd hi'n gallu gwneud hynny. Fodd bynnag, fel y soniodd Aelodau eraill, mae hwn yn ddiwrnod trist i'r rhan neilltuol hon o orllewin Cymru y gwyddom eisoes ei bod ymhlith y rhanbarthau tlotaf yn Ewrop. Byddem yn gofyn i bob asiantaeth a all ein cynorthwyo i ddod dros y fath ergyd drom i wneud hynny.

14:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that the Chair of the Enterprise and Business Committee makes excellent points about the impact economically, in terms of what is happening with crude oil, the value, and everything, but he also makes a positive point about South Hook in the future, if these matters do arise. I will certainly bear all those points in mind in discussions with the taskforce.

Credaf fod Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn gwneud pwyntiau rhagorol am yr effaith economaidd o ran yr hyn sy'n digwydd gydag olew crai, ei werth, a phopeth, ond mae hefyd yn gwneud pwynt cadarnhaol am South Hook yn y dyfodol, os yw'r materion hyn yn codi. Byddaf yn sicr yn cadw pob un o'r pwyntiau hyn mewn cof wrth drafod gyda'r tasglu.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 14:50.*

*Peter Black took the Chair at 14:50.*

14:50

## Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

## Questions to the Assembly Commission

Senedd.tv Fideo Video

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

As no questions have been tabled, we will move to the next item.

Gan nad oes unrhyw gwestiynau wedi'u cyflwyno, symudwn at yr eitem nesaf.

14:50

## Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Anghymhwyso Person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

## The Constitutional and Legislative Affairs Committee Report on the Inquiry into Disqualification from Membership of the National Assembly for Wales

Senedd.tv Fideo Video

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding, to move the motion.

Rwy'n galw ar David Melding, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Deddfwriaethol, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5610 David Melding

Motion NDM5610 David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i Anghymhwyso Person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gafodd ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Gorffennaf 2014.

Notes the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on its inquiry into the Disqualification of Membership from the National Assembly for Wales, which was laid in the Table Office on 30 July 2014.

14:50 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

The events that followed the 2011 Assembly election are well known to us and they obviously formed the background to this report. In January 2014—earlier this year—the First Minister asked the committee to consider carrying out an inquiry into the rules pertaining to disqualification from membership of the National Assembly. We were pleased to agree to carry out the inquiry, and we reported in July and made 21 recommendations.

Mae'r digwyddiadau a ddilynodd etholiad y Cynulliad yn 2011 yn gyfarwydd i ni ac roeddent yn amlwg yn ffurfio cefndir i'r adroddiad hwn. Ym mis Ionawr 2014—yn gynharach eleni—gofynnodd Prif Weinidog Cymru i'r pwyllgor ystyried cynnal ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol. Roeddem yn falch o gytuno i gynnal yr ymchwiliad a chyflwynwyd adroddiad gennym ym mis Gorffennaf a oedd yn gwneud 21 o argymhellion.

May I put on record my gratitude to all who provided the evidence, both written and oral, and helped us to reach our conclusions? This is not an uncomplicated area, and we were very grateful for the advice that we received. It was clear from the evidence, however, that there needs to be reform of the legislative framework surrounding disqualification from membership of this body, a review of the National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2010, and a revision of that Order for future elections. We made recommendations to deal with both of these issues and I will concentrate on these this afternoon. However, before I do that, and get into the detail, I want to stress the broader principles.

A gaf fi gofnodi fy niolch i bawb a ddarparodd y dystiolaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, ac a'n cynorthwyodd i ffurfio ein casgliadau? Nid yw hwn yn faes syml ac rydym yn ddiolchgar iawn am y cyngor a gawsom. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth, fodd bynnag, fod yn rhaid diwygio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r corff hwn, adolygu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010 a diwygio'r Gorchymyn hwnnw ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Gwnaethom argymhellion i ymdrin â'r materion hyn a byddaf yn canolbwyntio ar y rhain y prynhawn yma. Fodd bynnag, cyn i mi wneud hynny a throi at y manylion, rwyf am bwysleisio'r egwyddorion ehangach.

Promoting democratic participation and the right to stand for elected office must be at the heart of any principles that underpin the rules governing disqualification from being an Assembly Member. This was a theme that we heard constantly during our evidence. We agreed with those who suggested that any disqualifications must be restricted to a minimum, as well as being proportionate. We believe that more citizens are likely to consider standing for election if the rules are clear, easily explained and accessible. Reflecting all these points, we recommended five general principles, and we believe that these, or ones similar to them, should inform any revision in this area. We list them in recommendation 1 of our report. We took these principles into account in reaching our conclusions on suggested changes to the legislative framework and to the 2010 Order.

Rhaid i hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll am swydd etholedig fod yn ganolog i'r egwyddorion sy'n ategu'r rheolau ar gyfer anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad. Roedd hon yn thema a glywsom yn gyson yn ystod ein tystiolaeth. Roeddem yn cytuno â'r rhai a awgrymodd y dylid cael cyn lleied â phosibl o anghymwysiadau ac y dylent fod yn gymesur hefyd. Credwn fod mwy o ddinasyddion yn debygol o ystyried sefyll etholiad os yw'r rheolau'n glir, yn hawdd eu hegluro ac yn hygyrch. Gan adlewyrchu'r holl bwyntiau hyn, argymellasom bum egwyddor gyffredinol a chredwn y dylai'r rhain, neu rai tebyg iddynt, lywio unrhyw ddiwygio a wneir yn y maes. Rydym yn eu rhestru yn argymhelliad 1 ein hadroddiad. Ystyriwyd yr egwyddorion hyn gennym wrth i ni ddod i gasgliad ar y newidiadau a awgrymwyd i'r fframwaith deddfwriaethol ac i Orchymyn 2010.

I now turn to those matters. Let me look at the legislative framework first. We found that there are complications between the part of the Government of Wales Act 2006 that deals with disqualification and the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007, which deals with aspects of electoral law. Currently, the disqualification from becoming an Assembly Member becomes relevant when a candidate is nominated for election. At this point, according to the 2007 Order, a candidate should not be part of, or a member of, any organisation specified under the 2006 Act and the relevant disqualification Order made under it. However, in this regard, the 2007 Order effectively pre-empts the Act, which states that disqualification takes effect when Members are elected.

Trof yn awr at y materion hynny. Gadewch i mi edrych ar y fframwaith deddfwriaethol yn gyntaf. Canfuom fod yna gymhlethdodau rhwng y rhan o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymdrin ag anghymhwyso a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, sy'n ymdrin ag agweddau ar gyfraith etholiadol. Ar hyn o bryd, mae'r anghymhwysiad rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad yn dod yn berthnasol pan fydd ymgeisydd yn cael ei enwebu i'w ethol. Ar y pwynt hwn, yn ôl Gorchymyn 2007, ni ddylai ymgeisydd fod yn rhan nac yn aelod o unrhyw sefydliad a nodwyd o dan Ddeddf 2006 a'r Gorchymyn anghymhwyso perthnasol a wnaed o dan y ddeddf honno. Fodd bynnag, yn hyn o beth, mae Gorchymyn 2007 i bob pwrpas yn mynd o flaen y Ddeddf, sy'n datgan y daw anghymhwysiad i rym pan fydd Aelodau'n cael eu hethol.

The committee made two recommendations to overcome these problems. The first is recommendation 2. First, we said that disqualification should generally take effect on taking the oath or affirmation of allegiance as an Assembly Member. The committee considered this to be a significant change that would ensure that as many people as possible have the opportunity to stand for election as an Assembly Member, in particular because they would not have to give up their employment to do so. This change should be effected by a change to the Government of Wales Act 2006. Such a change is outside the legislative competence of the National Assembly and is a matter for the UK Government and the UK Parliament. We felt that the change to the 2006 Act could be achieved in one of two ways: by requiring Assembly Members to resign a disqualifying post before taking the oath or affirmation of allegiance, or by deeming an Assembly Member to have resigned from a disqualifying post on being elected.

Gwnaeth y pwyllgor ddau argymhelliad i oresgyn y problemau hyn. Y cyntaf yw argymhelliad 2. Yn gyntaf, dywedasom y dylai anghymhwysiad yn gyffredinol ddod i rym wrth gymryd y llw neu'r cadarnhad o deyrngarwch fel Aelod Cynulliad. Roedd y pwyllgor yn ystyried bod hyn yn newid arwyddocaol a fyddai'n sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael cyfle i sefyll etholiad i ddod yn Aelodau Cynulliad, yn enwedig am na fyddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i'w swydd i wneud hynny. Dylai'r newid hwn ddod i rym drwy newid i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae newid o'r fath y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol ac yn fater i Lywodraeth y DU a Senedd y DU. Teimlem y gallai'r newid i Ddeddf 2006 gael ei gyflawni mewn un o ddwy ffordd: drwy ei gwneud yn ofynnol i Aelodau Cynulliad ymddiswyddo o swydd a fyddai'n eu hanghymhwyso cyn cymryd y llw neu'r cadarnhad o deyrngarwch neu drwy bennu bod Aelod Cynulliad wedi ymddiswyddo o swydd a fyddai'n eu hanghymhwyso wrth gael eu hethol.

We were conscious, however, that we may not have heard all viewpoints on how these recommendations could best be delivered. Given the importance of the issue, we felt that it should be inquired into further. In reaching this view, we were mindful that there would be little time to undertake this investigation and put in place primary legislation before the next Assembly general election in 2016. We therefore recommended that the Law Commission investigate and report on this issue, potentially as part of a wider review across all UK legislatures. This would enable the UK Government to consider putting appropriate primary legislation in place in time for the Assembly general election in 2021. I note that the Welsh Government feels that this particular direction of travel is probably not appropriate. I know that I would like to hear why that is the case. However, in any event, we hope that that change is achieved in the future in the legislative framework.

Roeddem yn ymwybodol, fodd bynnag, efallai nad ydym wedi clywed yr holl safbwyntiau ar sut orau i gyflawni'r argymhellion hyn. O ystyried pwysigrwydd y mater, teimlem y dylid edrych i mewn i'r mater ymhellach. Wrth ddod i'r casgliad hwn, roeddem yn ymwybodol mai ychydig o amser a fyddai ar gael i gynnal yr ymchwiliad hwn a rhoi deddfwriaeth sylfaenol ar waith cyn etholiad cyffredinol nesaf y Cynulliad yn 2016. Argymellasom felly y dylai Comisiwn y Gyfraith ymchwilio i'r mater a chyflwyno adroddiad, o bosibl fel rhan o adolygiad ehangach ar draws pob un o ddeddfwrfeydd y DU. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth y DU i ystyried rhoi deddfwriaeth sylfaenol briodol ar waith mewn pryd ar gyfer etholiad cyffredinol y Cynulliad yn 2021. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn teimlo nad yw'r cyfeiriad penodol hwn yn briodol yn ôl pob tebyg. Gwn y byddwn i'n hoffi clywed pam. Er hynny, beth bynnag sy'n digwydd, gobeithiwn y bydd y newid yn cael ei gyflawni yn y dyfodol yn y fframwaith deddfwriaethol.

I now move to recommendation 3. Secondly, and consistent with our recommendation to amend the 2006 Act, we also recommend that election rules should no longer require candidates, when accepting nomination, to declare that, to the best of their knowledge and belief, they do not hold a disqualifying office. Again, this is outside the legislative competence of the National Assembly, and the powers of Welsh Ministers. It is a change that would need to be made by the UK Government.

Symudaf yn awr at argymhelliad 3. Yn ail, ac yn gyson â'n hargymhelliad i ddiwygio Deddf 2006, rydym hefyd yn argymell na ddylai rheolau etholiad fynnu bellach bod ymgeiswyr, wrth dderbyn enwebiad, yn datgan nad ydynt, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, yn dal swydd anghymwys. Unwaith eto, mae hyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol a phwerau Gweinidogion Cymru. Mae'n newid y byddai angen i Lywodraeth y DU ei wneud.

I will now look at the 2010 Order and the changes that we have suggested to it. We concluded that an Order-making power should be retained, but that the Order should be restructured to deal with two categories of persons to be disqualified. We believe that persons in category 1 are those who should be disqualified from nomination because of the nature of their role, such as for reasons of political impartiality, their role in the electoral process, or because their posts are created by statute. So, they would be disqualified from nomination. Category 2 persons would be those who should be disqualified having been elected but only upon taking the oath or affirmation of allegiance.

Edrychaf yn awr ar Orchymyn 2010 a'r newidiadau rydym wedi'u hawgrymu iddo. Daethom i'r casgliad y dylid cadw pŵer i wneud Gorchymyn, ond y dylai'r Gorchymyn gael ei ailstrwythuro i ymdrin â dau gategori o bersonau i'w hanghymhwyso. Credwn mai'r bobl yng nghategori 1 yw'r rhai a ddylai gael eu hanghymhwyso rhag cael eu henwebu oherwydd natur eu rôl, er enghraifft am resymau o amhleidioldeb gwleidyddol, eu rôl yn y broses etholiadol neu oherwydd bod eu swyddi wedi'u creu drwy statud. Felly, byddent yn cael eu hanghymhwyso rhag cael eu henwebu. Pobl Categori 2 fyddai'r rhai y dylid eu hanghymhwyso ar ôl cael eu hethol ond dim ond wrth gymryd y llw neu'r cadarnhad o deyrngarwch.

However, given the requirements of the Government of Wales Act, we made recommendations for Orders in 2016 and, in anticipation of future primary legislation, for the Assembly election in 2021. They are contained in recommendations 10 and 11.

Fodd bynnag, o ystyried gofynion Deddf Llywodraeth Cymru, gwnaethom argymhellion ar gyfer Gorchmynion yn 2016 a chan ragweld deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol, ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021. Maent wedi'u cynnwys yn argymhellion 10 a 11.

The committee did not feel that it was in a position to list definitively the public bodies and officeholders that should be the subject of future disqualification Orders. In our view the Welsh Government is better placed to be aware of those that need to be considered for inclusion in such a list. Nevertheless, we provided an indication of those that we believe should be included in the 2016 Order. Two further recommendations reflect our two categories. These are in recommendations 12 and 13.

Nid oedd y pwyllgor yn teimlo ei fod mewn sefyllfa i lunio rhestr ddiffiniol o'r cyrff cyhoeddus a'r deiliaid swyddi a ddylai fod yn destun Gorchmynion anghymhwyso yn y dyfodol. Yn ein barn ni mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i fod yn ymwybodol o'r rhai sydd angen eu hystyried ar gyfer eu cynnwys ar restr o'r fath. Serch hynny, rhoesom syniad o'r rhai y credwn y dylid eu cynnwys yng Ngorchymyn 2016. Mae dau argymhelliad pellach yn adlewyrchu ein dau gategori, ac mae'r rhain i'w gweld yn argymhellion 12 a 13.

I note the Welsh Government's response that current Order-making powers, in its view, do not permit the approach that we have proposed for changes to the Order for the 2016 elections, and that the Welsh Government also has some other concerns regarding the particulars that are implied in these recommendations, but that the principle is broadly accepted. I look forward to hearing the Government's reasons for these reservations in the debate that follows.

Nodaf ymateb Llywodraeth Cymru nad yw o'r farn fod pwerau cyfredol i wneud Gorchmynion yn caniatáu'r dull rydym wedi'i argymell o sicrhau newidiadau i'r Gorchymyn ar gyfer etholiadau 2016, a bod gan Lywodraeth Cymru rai pryderon eraill hefyd ynglŷn â'r manylion sy'n ymhlyg yn yr argymhellion hyn, ond bod yr egwyddor yn cael ei derbyn yn gyffredinol. Edrychaf ymlaen at glywed rhesymau'r Llywodraeth dros yr amheuon hyn yn y ddadl sy'n dilyn.

14:59

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r adroddiad wedi'i osod yn glir gan Gadeirydd y pwyllgor, felly canolbwyntiaf ar gwpl o sylwadau rwyf am eu pwysleisio. Yn gyntaf, yr egwyddor y dylai pawb gael sefyll i fod yn Aelod o Senedd Cymru. Rwy'n meddwl bod honno'n egwyddor hollbwysig, a dylem ond eithrio ychydig iawn o bobl na chânt wneud hynny am resymau amlwg iawn—er enghraifft, eu bod yn gomisiynydd o ryw fath neu eu bod yn Archwilydd Cyffredinol Cymru neu rywbeth tebyg. Oni bai am hynny, dylem groesawu pawb i sefyll. Mater arall, wrth gwrs, yw, os ydynt yn dod yn Aelod o'r lle hwn, a oes ganddynt fuddiannau sy'n eu gwneud yn anghymwys i fod yn Aelod ac a ddylent ddiosg y buddiannau hynny yn fuan ar ôl, neu ar adeg, eu hethol.

The report has been laid very clearly by the committee Chair, so I will concentrate on a couple of comments that I want to emphasise. First is this principle that everyone should be able to stand to be a Member of the Parliament of Wales. I think that that is a crucially important principle, and we should only exclude a small number of people who would be unable to do so for very clear reasons—for example, if they are a commissioner of some sort, or if they are the Auditor General for Wales or something similar. Apart from that, we should welcome everyone to stand. It is another matter, of course, if they become an Assembly Member, whether they have interests that disqualify them from being a Member, and whether they should put those interests aside as soon as possible or on being elected.

Rwy'n meddwl mai ar hynny y mae'r pwyllgor wedi canolbwyntio, er mwyn gyrru'r neges bod sefyll mewn etholiad yn rhywbeth normal y dylai pawb ystyried ei wneud, boed ar gyfer bod yn llywodraethwr, yn gynghorydd tref neu sir, neu i fod yn aelod o senedd genedlaethol fel sydd gennym ni yn y fan hon. Y mwyaf y gallwn dorri i lawr y waliau o gwmpas y syniad hwn bod gwleidyddion yn bobl abnormal ac nid yn bersonau cyffredin, y mwyaf, efallai, y gallwn ni gael trafodaeth agored ynglŷn â phwrpas gwleidyddiaeth, pwrpas democratiaeth a phwrpas y Senedd ac Aelodau o'r Senedd.

I think that it is on that point that the committee has focused, to drive the message that standing for election is a normal thing that everyone should consider doing, be it an election to be a governor, a town or county councillor, or to be a member of a national parliament as we have here. The more that we can break down the walls around the idea that politicians are abnormal and are not normal people, the better the chances of having an open discussion about the purpose of politics, the purpose of democracy and the purpose of the Senedd and Members of the Senedd.

Mae ymateb y Llywodraeth bach yn llugoer ar y pwynt hwn; rwy'n meddwl ei bod yn dal yn awyddus i eithrio pobl rhag hyd yn oed sefyll etholiad i'r Cynulliad. Rwy'n gobeithio y bydd modd ailedrych ar hynny wrth inni drafod dau beth cwbl wahanol, ac mae'r Cadeirydd wedi gosod y peth allan yn glir iawn, sef bod gennym Orchymyn Llywodraeth sy'n anghymwyso pobl rhag sefyll mewn etholiad i'r lle hwn, a bod gennym restr yn y Ddeddf gynradd, sef Deddf Llywodraeth Cymru 2006, o bobl sydd hefyd yn anghymwys i sefyll fel ymgeiswyr i'r Senedd. Mae angen dod â'r ddau hyn at ei gilydd. Mae angen un rhestr mewn un lle sy'n esbonio pwy sy'n cael sefyll a phwy sy'n cael bod yn Aelod ac sy'n esbonio, os ydych yn cael sefyll, ond os nad ydych yn cael dal gafael ar eich buddiannau ar ôl cael eich ethol, beth sydd yn rhaid i chi ei wneud yn sgîl hynny. Nid ydym eisiau bod yn yr un sefyllfa yr oeddem ynddi bedair blynedd yn ôl, pan oedd yn rhaid penderfynu ar sail pleidlais pwy oedd yn Aelod o'r lle hwn. Eiddo'r bobl mewn pleidlais mewn etholaethau ac yn y rhanbarthau yw hynny, nid eiddo'r lle hwn. Dylem osgoi hynny ar bob cyfrif.

The response of the Government is slightly lukewarm on this point; I think that it is still eager to except people from even standing for election to the Assembly. I hope that there will be a way to relook at that as we discuss two things that are entirely different, and the Chair has set things out very clearly, that we have a Government Order that disqualifies people from standing for election to this place, and we have a list in the primary legislation, the Government of Wales Act 2006, of people who are also disqualified from standing as candidates for this place. We need to draw those two things together. There needs to be one list in one place that explains who can stand and who can be a Member, and that explains, if you can stand, but if you are not allowed to maintain your interests after you have been elected, what you have to do as a result of that. We do not want to be in the situation that we were in four years ago, when we had to decide on the basis of a vote who is a Member of this place. That is the right of the people who vote in constituencies and regions, not the right of this place. We should avoid that at all costs.

Felly, mae ymateb y Llywodraeth ar y ddau beth hwn bach yn gymysg, yn fy marn i, oherwydd nid yw'n manteisio ar y cyfle i allu, ar ôl ethol Llywodraeth newydd, neu hyd yn oed yn y Bil presennol sydd gerbron Tŷ'r Arglwyddi, datrys y sefyllfa hon a chael ffordd newydd o gael un Gorchymyn sydd yn glir iawn ynglŷn â phwy sy'n cael sefyll neu beidio.

The response of the Government on these two things is slightly mixed, in my opinion, because it has not taken advantage of the opportunity, following the election of a new Government, or even the Bill that is currently before the House of Lords, to clear up this situation and to find a new way of having one Order that is very clear about who may stand and who may not.

Mae gennyf ddau bwynt i'w crybwyll i orffen. Mae sôn yn adroddiad y pwyllgor am ba fath o swyddi eraill y gallwch eu dal mewn senedd neu awdurdodau eraill a bod yn Aelod o'r lle hwn. Un mater, wrth gwrs, yw bod yn gynghorydd sir. Wrth inni ddatblygu, gyda'r Gweinidog newydd, mewn i system o gynghorau mwy rhanbarthol—ac y bydd gennych lywodraeth ranbarthol, i bob pwrpas, o dan Lywodraeth genedlaethol—rwyf o'r farn ei bod yn anghymwys i fod yn gynghorydd sir, neu ranbarth, os liciwch chi, mewn awdurdod mawr ac wedyn dod i'r man hwn a bod yn Aelod Cynulliad hefyd. Rwyf wedi laru ar Aelodau yma yn gofyn i Weinidogion i ymyrryd yn y sir y maent yn byw ynddi pan maent yn gynghorwyr sir ac yn cynrychioli'r awdurdod hwnnw. Mae angen dod â'r drefn honno i ben. Mae angen i bobl fod yn aelod o un lle lle caiff penderfyniadau democrataidd eu gwneud, ac i beidio ceisio chwarae'r ffon ddwybig yn yr ystyr hwnnw. Yn yr un ffordd, nid wyf yn meddwl, os ydym yn mynd i senedd lawn â phwerau a gedwir, bod modd i Aelod yn y lle hwn fod yn aelod o senedd arall ychwaith. Rhaid inni edrych ar sut allwn unioni'r sefyllfa honno.

I have two points to mention before concluding. There is mention in the committee's report of what kinds of other positions you may hold in a parliament or other authorities and be a Member of this place. One matter, of course, is being a county councillor. As we develop, with the new Minister, into a system of more regional councils—and you will have regional government, to all intents and purposes, under a national Government—I am of the opinion that it is unsuitable to be a county councillor, or a regional councillor, if you like, in a large authority and then come here and be an Assembly Member too. I am tired of Members in this place asking Ministers to intervene in the county where they live when they are county councillors and they represent that authority. That has to come to an end. People should be members of one place where democratic decisions are made, and not try to have it both ways. In the same way, I do not think, if we move to a full parliament with reserved powers, that it should be possible for a Member of this place to be a member of another parliament either. We must look at how we can rectify that situation.

Mae'r ddau beth yna at ei gilydd yn mynd i greu sefyllfa lle mae'n glir pwy sy'n cael sefyll mewn etholiad Cynulliad a phwy sy'n cael meddu ar fuddiannau neu ddiddordebau eraill fel Aelod Cynulliad, ac fe fydd yn dod yn fwy clir ac yn fwy agored, felly, bod gennym ddemocratiaeth fyw y gall pawb gyfrannu ati. Dyma yw beth yw 'gwneud selsig', fel sy'n cael ei ddweud, ac fel y dywedodd Bismarck—rhywbeth nad yw'n bleserus iawn i wrando arno neu ei wylio, efallai, ond rhywbeth sy'n hollbwysig i gael y sefyllfa'n iawn er mwyn i bawb cael sefyll mewn etholiad yma yng Nghymru.

Those two things together are going to create a situation where it is clear who can stand for election to the Assembly and who can hold external interests as Assembly Members, and it will become more clear and transparent, therefore, that we have a living democracy to which everyone can contribute. That is what is considered 'making sausages', as is often said, and as Bismarck said—something that is not very pleasant to listen to or to watch, maybe, but something that is crucial to getting the situation right so that everyone can stand for election here in Wales.

15:04 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I begin by saying that the Welsh Liberal Democrat group welcomes very much the commissioning of the report by the Constitutional and Legislative Affairs Committee into the issue of disqualification from the Assembly? I would like to congratulate the Chair and the members of that committee on what I regard to be an excellent report.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud bod grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu'n fawr iawn yr adroddiad a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar fater anghymhwyso personau o'r Cynulliad? Hoffwn longyfarch y Cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor ar yr hyn rwy'n ei ystyried yn adroddiad ardderchog.

The events of the summer of 2011 ignited a debate about the whole nature of the disqualification system, to say nothing about what it did for my stress levels and my expenditure on hair dye products ever since. [Laughter.] Now, I do not disagree with the notion that there are bodies that Assembly Members should not be members of. The potential conflicts of interest that could arise are often clear and easy to understand. However, there are two particular points that jump out at me. We need to ensure that our democracy is as accessible as possible. It was one of the things that we were determined to pursue when this institution was established in 1999. Part of that has got to mean that we make the process of standing to become an Assembly Member as simple and as transparent as possible. I would argue that when people who are regularly engaged in Welsh politics, such as the older persons' commissioner and the chief executive of Natural Resources Wales, express some confusion over the issue of who can and cannot stand to be an Assembly Member, the system that we have at present is simply too confusing.

Mae digwyddiadau haf 2011 wedi cynnau dadl am holl natur y system anghymhwyso, heb sôn am yr hyn a wnaeth i fy lefelau straen a fy ngwariant ar gynnyrch lliwio gwallt byth ers hynny. [Chwerthin.] Yn awr, nid wyf yn anghytuno â'r syniad fod rhai cyrff na ddylai Aelodau'r Cynulliad fod yn aelodau ohonynt. Mae'r gwrthdaro buddiannau posibl a allai godi yn aml yn glir ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, mae dau bwynt penodol sy'n mynnu fy sylw. Mae angen i ni sicrhau bod ein democratiaeth mor hygyrch ag y bo modd. Roedd yn un o'r pethau roeddem yn benderfynol o fynd ar eu hôl pan sefydlwyd y sefydliad hwn ym 1999. Rhaid i ran o hynny olygu ein bod yn gwneud y broses o sefyll i fod yn Aelod Cynulliad mor syml ac mor dryloyw â phosibl. Pan fydd pobl sy'n cymryd rhan yn rheolaidd yng ngwleidyddiaeth Cymru, megis y comisiynydd pobl hŷn a phrif weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, yn mynegi peth dryswch ynglŷn â phwy all a phwy na all sefyll i fod yn Aelod o'r Cynulliad, byddwn yn dadlau'n syml fod y system sydd gennym ar hyn o bryd yn rhy ddryslyd.

That leads me on to the time at which a disqualification would come into effect. As I have said, I do not disagree with the principle. That is not in question here. However, in what other profession are you expected, by law, to resign from your current job before you know the outcome of the interview for your new job? It is absolutely right that, once candidates take the oath and are officially Assembly Members, they need to cease being members of any body that might conflict with their role as an Assembly Member. However, to force people to resign on nomination is, I believe, unfair. More importantly, it could dissuade people from taking part in the democratic process and standing to be Assembly Members in the first place.

Mae hynny'n fy arwain at ba bryd y byddai anghymhwysiad yn dod i rym. Fel y dywedais, nid wyf yn anghytuno â'r egwyddor. Nid yw hynny o dan sylw yma. Fodd bynnag, ym mha broffesiwn arall y mae disgwyl i chi, yn ôl y gyfraith, i ymddiswyddo o'ch swydd bresennol cyn i chi wybod canlyniad y cyfweliad ar gyfer eich swydd newydd? Pan fydd ymgeiswyr yn cymryd y llw ac yn Aelodau Cynulliad swyddogol, mae'n gwbl iawn fod angen iddynt roi'r gorau i fod yn aelodau o unrhyw gorff a allai wrthdaro â'u rôl fel Aelod Cynulliad. Fodd bynnag, credaf fod gorfodi pobl i ymddiswyddo wrth gael eu henwebu yn annheg. Yn bwysicach, gallai anghymell pobl rhag cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd a sefyll i ddod yn Aelodau Cynulliad yn y lle cyntaf.

In terms of double-jobbing, I also welcome the recommendation that an independent panel will look at this issue. However, personally, I think—and Simon Thomas has just said it—that we need to trust the electorate to decide who sits in what Chamber. They need to ultimately decide if someone is performing effectively as their Assembly Member, as their county councillor, or, indeed, as both. I look forward to hearing what the independent panel will say on this issue.

O ran cyflawni dwy swydd, rwyf hefyd yn croesawu'r argymhelliad y bydd panel annibynnol yn edrych ar y mater hwn. Fodd bynnag, yn bersonol, rwy'n credu—ac mae Simon Thomas newydd ei ddweud—fod angen i ni ymddiried yn yr etholwyr i benderfynu pwy sy'n eistedd ym mha Siambr. Yn y pen draw, mae angen iddynt hwy benderfynu a yw rhywun yn perfformio'n effeithiol fel eu Haelod Cynulliad, fel eu cynghorydd sir neu'n wir fel y ddau. Edrychaf ymlaen at glywed beth fydd y panel annibynnol yn ei ddweud ar y mater hwn.

15:07 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Nid wyf am siarad am y gorffennol, nag am y presennol, nag amdanaf fi fy hun, ond rwyf yn ddiolchgar i'r pwyllgor am ei sylwadau yn gyffredinol. Rydw i am siarad am gwestiwn allweddol bwysig i'n trafodaethau i gyd, sef ymhle y mae'r penderfyniadau hyn yn mynd i gael eu gwneud at y dyfodol. Gwendid y sefyllfa yr ydym ynddi yw nad ydym, fel Cynulliad Cenedlaethol, eto'n gyfrifol am ein cyfansoddiad ein hunain. Nid ydym eto'n gyfrifol am ein trefniadau aelodaeth—dim ond yn rhannol, felly; ein strwythur mewnol—dim ond yn rhannol, felly; pwerau a dyletswyddau Aelodau a swyddogion—eto, dim ond yn rhannol, felly; ac yn sicr, nid ydym yn gyfrifol am y system etholiadau ac nid oes gennym unrhyw reolaeth wirioneddol dros ddyfodol ein cyfansoddiad.

I am not going to refer to the past, or the present, or my own situation, but I am grateful to the committee for its comments generally. I want to discuss a crucially important issue to all our discussions, as to where these decisions should be made in future. The weakness of the situation that we find ourselves in is that we, as a National Assembly, are not yet for our own constitution. We are not yet responsible for our own membership arrangements—only partially so; our internal structure—again, it is only partially that we are responsible; the powers and responsibilities of Members and officials—again, it is only partial responsibility; and certainly, we are not responsible for the system of elections and we do not have any real and meaningful control over the future of our constitution.

Dyna pam fy mod i wedi pwyso yn ystod dadl yr ail Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig, lle'r wyf ar hyn o bryd yn troi i fyny i drafod materion mae a wnelo nhw â datganoli, ond dim llawer arall—. Rwyf wedi bod yn dadlau yn y dadleuon hynny bod yr amser wedi dod, mewn egwyddor, i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddatgan ei bod yn briodol i ddatganoli grym o fewn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n ddigon hawdd gwneud hyn. Rwyf wedi cynnig gwelliant unwaith, ac rwy'n gobeithio gwneud hynny eto yr wythnos nesaf, ac y byddaf yn gwneud hynny eto mewn pythefnos arall os oes angen. Yn Atodlen 7, o dan y pwnc 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru', dylem roi i'r Cynulliad hwn yr un pwerau dros ei gyfansoddiad ei hun a'i drefniadau etholiadol ei hun ag sydd gyda ni dros lywodraeth leol yng Nghymru. Ni fedraf weld sut y gall unrhyw un sydd yn credu mewn unrhyw fath o ddemocratiaeth effeithiol beidio â gweld nad yw'r egwyddor honno yn dal. Dyna pam rydw i'n meddwl bod tystiolaeth a gyflwynwyd, a'r dull o weithredu gan y pwyllgor hwn, wedi dangos—yn fy marn i beth bynnag, ac i unrhyw sylwebydd gwleidyddol diduedd —ein bod ni'n gwbl abl i ddelio â threfniadau ein cyfansoddiad ein hunain, ein bod yn gwbl abl i gymryd ystyriaeth fanwl a chymryd tystiolaeth, ac i ddefnyddio tystiolaeth i gyrraedd barn glir.

That is why I pressed, during the debate in the second House of the UK Parliament, where I do occasionally turn up to discuss issues that are related to devolution, although I do not discuss much else—. I have been arguing in those debates that the time has now come, in principle, for the UK Government to state that it is appropriate to devolve powers within the Government of Wales Act 2006. It is easily done. I have proposed an amendment once, and I hope to do so again next week, and I will do it again a fortnight later if need be. In Schedule 7, under the subject 'National Assembly for Wales, we should give to this Assembly the same powers over its own constitution and its own electoral arrangements as we have over local government in Wales. I cannot see how anyone who believes in any sort of effective democracy could not understand that that principle holds water. That is why I believe that the evidence presented, and the way in which the committee has worked, has demonstrated—in my view, anyway, and to any unbiased political commentator—that we are perfectly able to deal with the arrangements for our own constitution, that we are perfectly able to give careful consideration and to take evidence and to use evidence to reach a clear conclusion.

Ar ben hynny, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig derbyn yr egwyddor sydd yn ein cyfansoddiad ni yn barod, sef bod newidiadau sylweddol yn ein cyfansoddiad yn gorfod dibynnu ar fwyafrif cyflawn; hynny yw, mwyafrif o fwy na dwy ran o dair o'r Aelodau Cynulliad yn pleidleisio. Mae hynny gyda ni, wedi ei osod yn glir iawn yn ein trefniadaeth, ein gweithdrefnau a'n Rheolau Sefydlog. Rwy'n meddwl ei bod hi'n bryd bellach i ni ddadlau'r ddadl hon a'i dadlau hi'n glir.

On top of that, I think that it is important to accept the principle that is already found in our constitution, namely that significant changes to our constitution require a supermajority; that is, a majority of more than two-thirds of Assembly Members voting. We already have that, set out very clearly in our arrangements, our procedures and our Standing Orders. I think it is now time for us to make this case and to make it strongly.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn gallu rhoi arweiniad—rwy'n ei alw yn Brif Weinidog, oherwydd yn fy llyfr i dim ond un Prif Weinidog sydd; Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yw'r llall. Dim ond un Prif Weinidog sydd, a Phrif Weinidog Cymru yw hwnnw. Fodd bynnag, cyn belled ag y mae sefyllfa Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn y cwestiwn, mae'n gwrthod gweld bod y ddadl hon, y dylem gael rheolaeth dros ein trefniadaeth gyfansoddiadol ein hunain, yn ddadl sylfaenol mewn democratiaeth. Rwy'n gwybod, oherwydd fy mod wedi trafod y mater efo fo ar y llawr yn fan hyn a hefyd y tu fas i'r lle hwn, fod arweinydd yr wrthblaid yn cytuno â hyn. Rwy'n gobeithio, felly, y gall ein Prif Weinidog ni ddatgan yn glir yma'r prynhawn yma ei fod o blaid gweld datganoli'r holl rym dros drefniadau etholiadol y lle hwn, yn yr un modd ag y mae gyda ni'r grym dros drefniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru, ac ar ôl iddo wneud hynny, y gwelwn ymateb adeiladol oddi wrth y ddwy blaid arall sy'n cael eu cynrychioli yn y glymblaid yn San Steffan.

Therefore, I hope that the First Minister will be able to provide guidance—and I call him 'Prif Weinidog', because in my book there is only one 'Prif Weinidog'; the other is the Prime Minister of the UK. There is only one 'Prif Weinidog' and that is the 'Prif Weinidog' of Wales. However, as far as the position of the UK Government is concerned, it refuses to see that this argument, that we should have control over our own constitutional arrangements, is a fundamental element of a democracy. I know, because I have discussed it with him on the floor here and also outwith this place, that the leader of the opposition agrees with me on this. I hope, therefore, that our First Minister can state clearly here this afternoon that he is in favour of seeing the devolution of all powers over electoral arrangements to this place, in the same way as we have powers over the electoral arrangements of local government in Wales, and once he has done that, that we will see a constructive response from the other two parties that are represented in the coalition at Westminster.

15:11

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the First Minister to speak—Carwyn Jones.

Galwaf ar y Prif Weinidog i siarad—Carwyn Jones.

15:11

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I thank, first of all, the committee for the work that it has carried out on this issue. The report itself is a comprehensive report with, of course, 21 well-informed recommendations. I think that what the committee did was to take on the much needed task of stripping back to the basic principles—and the five principles have already been mentioned—of how we balance the paramount importance of democratic participation and the right to stand in elections with the need, in some cases, for impartiality and, of course, the need to avoid conflicts of interest. What I think the committee's work has shown is that the current statutory framework is not fit for purpose in the longer term. We cannot continue to treat those whose offices demand complete impartiality on the one hand and those whose roles might result in a conflict of interest if elected on the other in the same way.

Diolch yn gyntaf oll i'r pwyllgor am y gwaith y mae wedi'i wneud ar y mater hwn. Mae'r adroddiad ei hun yn un cynhwysfawr gydag 21 o argymhellion gwybodus. Credaf mai'r hyn a wnaeth y pwyllgor oedd ymgymryd â'r dasg fawr ei hangen o ddechrau gyda'r egwyddorion sylfaenol—ac mae'r pum egwyddor eisoes wedi cael eu crybwyll—ynglŷn â sut rydym yn sicrhau cydbwysedd rhwng pwysigrwydd eithaf cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll mewn etholiadau a'r angen, mewn rhai achosion, i fod yn ddiduedd ac wrth gwrs, yr angen i osgoi gwrthdaro buddiannau. Yr hyn rwy'n meddwl y mae gwaith y pwyllgor wedi'i ddangos yw nad yw'r fframwaith statudol presennol yn addas i'r diben yn y tymor hwy. Ni allwn barhau i drin y rhai y mae eu swyddi'n galw am ddidueddrwydd llwyr ar y naill law a'r rhai y gallai eu swyddogaethau arwain at wrthdaro buddiannau pe caent eu hethol ar y llaw arall yn yr un modd.

We agree, as a Government, with the overall thrust of the report and we will work with the UK Government ahead of the 2021 elections with a view to achieving the two-category approach that is recommended by the committee. However, we also have to look at what is viable for the next disqualification Order for the next election. Under the current Order-making powers, the disqualification Order will disqualify all of those listed in it from membership of the Assembly. There is no scope at the moment to define two different categories.

Rydym yn cytuno, fel Llywodraeth, â byrdwn cyffredinol yr adroddiad a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU cyn etholiadau 2021 gyda'r bwriad o gyflawni'r dull dau gategori sy'n cael ei argymell gan y pwyllgor. Fodd bynnag, mae angen i ni edrych hefyd ar yr hyn sy'n bosibl ar gyfer y Gorchymyn anghymhwyso nesaf ar gyfer yr etholiad nesaf. O dan y pwerau i wneud Gorchmynion ar hyn o bryd, bydd y Gorchymyn anghymhwyso yn anghymhwyso pob un o'r rhai a restrir ynddo rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad. Nid oes lle ar hyn o bryd i ddiffinio dau gategori gwahanol.

We know that the effect of the Secretary of State's representation of the people Order under section 13 of the Government of Wales Act 2006 is that those listed in the disqualification Order will have to declare that they have given up their offices when they are nominated as candidates. It is wholly unfair, I think, to treat people in that way. It is unfair to ask those whose roles would only result in a conflict of interest if and when they are elected to have to give up their job beforehand and have to live on their savings. There seems to be no sense to me for that to happen. If we are going to avoid conflicts of interest, yes, there are some roles where that conflict would be there to begin with, but there are others where the conflict only becomes apparent when somebody takes the oath, and they can ensure that they rid themselves of that conflict once they are elected. This applies particularly, but not exclusively, to members of staff of local authorities and other public sector organisations. We intend, therefore, to keep the list of disqualifying offices as short as possible, but, of course, we will consult on the draft Order and take account of respondees' views before putting it before the Assembly for approval.

Rydym yn gwybod mai effaith Gorchymyn cynrychiolaeth y bobl yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yw y bydd yn rhaid i'r rhai a restrir yn y Gorchymyn anghymhwyso ddatgan eu bod wedi rhoi'r gorau i'w swyddi pan gânt eu henwebu'n ymgeiswyr . Mae'n gwbl annheg, rwy'n credu, i drin pobl yn y ffordd hon. Mae'n annheg gofyn i'r rhai y byddai eu swyddogaethau yn arwain at wrthdaro buddiannau os a phan gânt eu hethol i roi'r gorau i'w swydd ymlaen llaw a byw ar eu cynilion. Mae'n ymddangos i mi nad oes unrhyw synnwyr yn hynny. Os ydym yn mynd i osgoi gwrthdaro buddiannau, oes, mae rhai swyddi lle y byddai gwrthdaro o'r fath yno i ddechrau ond mae yna swyddi eraill lle na ddaw gwrthdaro'n amlwg nes y bydd rhywun yn cymryd y llw a nes y gallant sicrhau eu bod yn cael gwared ar y gwrthdaro pan gânt eu hethol. Mae hyn yn berthnasol yn arbennig, er nad yn unig, i aelodau o staff awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. Ein bwriad, felly, yw cadw'r rhestr o swyddi sy'n anghymhwyso mor fyr ag y bo modd ond wrth gwrs, byddwn yn ymgynghori ar y Gorchymyn drafft ac yn ystyried barn ymatebwyr cyn ei roi gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo.

In terms of the next steps, we intend to consult on the draft Order early in the new year. We anticipate then that the draft Order will be put to the Assembly for approval in late spring and submitted to the Privy Council to be made before the summer recess. We will pursue with the Privy Council office the recommendation that the Order be made bilingually. As some offices are disqualified under section 16 of GOWA and will not be listed in the disqualification Order itself, we will also work as necessary with the Electoral Commission to produce a comprehensive non-statutory list of all of the disqualifying provisions of which we are aware—in both languages, to make sure that they are both accurate—from whatever source and, of course, make that information publicly available to parties and potential candidates.

O ran y camau nesaf, rydym yn bwriadu ymgynghori ar y Gorchymyn drafft yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Rydym yn rhagweld wedyn y bydd y Gorchymyn drafft yn cael ei roi gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo ddiwedd y gwanwyn a'i gyflwyno i'r Cyfrin Gyngor i'w roi mewn grym cyn toriad yr haf. Gyda swyddfa'r Cyfrin Gyngor, byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhelliad y dylai'r Gorchymyn gael ei wneud yn ddwyieithog. Gan fod rhai swyddi yn cael eu hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ac am nad ydynt yn cael eu rhestru yn y Gorchymyn anghymhwyso ei hun, byddwn hefyd yn gweithio yn ôl yr angen gyda'r Comisiwn Etholiadol i gynhyrchu rhestr anstatudol gynhwysfawr o'r holl ddarpariaethau anghymhwyso rydym yn ymwybodol ohonynt—yn y ddwy iaith, er mwyn sicrhau bod y ddwy'n gywir—o ba ffynhonnell bynnag ac wrth gwrs, yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi i'r pleidiau ac ymgeiswyr posibl.

I think that it is right to say that it is not seemly that the Assembly has been called upon in the past to decide who should be able to sit here as an Assembly Member. The leader of the Liberal Democrats has made mention of this. She mentioned the hair products that she has had to buy. She can see that I have not bothered over the years—it seems to have been a good career move, anyway, from my point of view. However, she is right—it was uncomfortable for us as an institution to have to do that.

Rwy'n credu ei bod yn iawn i ddweud nad yw'n iawn fod gofyn i'r Cynulliad benderfynu yn y gorffennol pwy ddylai allu eistedd yma fel Aelod Cynulliad. Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol wedi sôn am hyn. Soniodd am y cynnyrch gwallt y bu'n rhaid iddi eu prynu. Mae hi'n gallu gweld nad wyf wedi trafferthu dros y blynyddoedd—mae'n ymddangos ei fod wedi gwneud lles i fy ngyrfa beth bynnag o fy safbwynt i. Fodd bynnag, mae hi'n iawn—roedd yn anghyfforddus i ni fel sefydliad orfod gwneud hynny.

On the issue of double-jobbing—

Ar fater dwy swydd—

I droi at yr hyn a ddywedodd Simon Thomas, mae'n iawn, yn fy marn i, i ddweud na ddylai rhywun fod yn gynghorydd sir—ond dywedodd ef o dan unrhyw system newydd—ac yn Aelod Cynulliad. Nid wyf yn gweld bod yn rhaid ail-drefnu llywodraeth leol i hynny ddigwydd, ond, o ran yr egwyddor, rwy'n cytuno â hynny.

To turn to Simon Thomas's comments, I think he is right to say that someone should not be a county councillor—but he said under any new system—and an Assembly Member. I do not think that we need reorganisation of local government for that to happen, but, in principle, I agree with that.

I understand that the Leader of the Welsh Liberal Democrats made a different point, but, if we are saying that it is not possible to be a Member of Parliament and an Assembly Member at the same time, logically we have to say that it is not possible to be an Assembly Member and a remunerated councillor at the same time. It seems to me that that makes perfect sense, even to the extent where it is quite possible for somebody—practically, this is unlikely—to hold the position of Minister for local government while at the same time being a councillor in a particular authority, giving rise to an obvious problem in terms of a potential conflict of interest. That has to be removed, inevitably. [Interruption.] I can guarantee the Assembly that the Minister has no plans to stand in the next council elections, I suspect. However, that is the reality of it—although these things are theoretical, the fact that they exist at all must be wrong, and the opportunity for a conflict to be there must be removed.

Deallaf fod Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gwneud pwynt gwahanol, ond os ydym yn dweud nad yw'n bosibl bod yn Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad ar yr un pryd, yn rhesymegol mae'n rhaid i ni ddweud nad yw'n bosibl bod yn Aelod Cynulliad ac yn gynghorydd am dâl ar yr un pryd. Mae'n ymddangos i mi fod hynny'n gwneud synnwyr perffaith, hyd yn oed i'r graddau lle y mae'n eithaf posibl i rywun—yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol—ddal swydd Gweinidog Llywodraeth Leol a bod yn gynghorydd mewn awdurdod penodol ar yr un pryd, gan arwain at broblem amlwg o ran gwrthdaro buddiannau posibl. Rhaid dileu hynny, yn bendant. [Torri ar draws.] Gallaf sicrhau'r Cynulliad fy mod yn amau bod gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i sefyll yn etholiadau'r cyngor y tro nesaf. Fodd bynnag, dyna realiti pethau—er mai damcaniaethol yw'r pethau hyn, rhaid bod y ffaith eu bod yn bodoli o gwbl yn anghywir a rhaid cael gwared ar y perygl o wrthdaro.

I droi yn olaf at yr hyn a ddywedodd Dafydd Elis-Thomas, rwy'n cytuno'n llwyr ag ef mai ni fel Cynulliad ddylai reoli pwy sy'n gallu eistedd yn y fan hon a'n system etholiadol. Bydd yn rhaid sicrhau, wrth gwrs, bod y system yn system lle, os mae'n rhaid cael newidiadau, bod cefnogaeth drawsbleidiol i'r newidiadau hynny. Ni fyddem yn mo'yn gweld sefyllfa lle byddai'r system etholiadol yn newid yn gyfan gwbl o achos un bleidlais yn y lle hwn, ac rydym wedi siarad o'r blaen am edrych ar system i sicrhau bod mwy nag un blaid yn gorfod pleidleisio o blaid rhywbeth er mwyn iddo ddigwydd. Fodd bynnag, nid oes rheswm pam na ddylem ni fel Cynulliad reoli'r system yn y fan hon a rheoli'r system o ran pwy sy'n gallu eistedd yn y fan hon a phwy sydd yn ffaelu sefyll yn y lle cyntaf i gael eu hethol, a phwy felly fyddai'n gorfod cael gwared o'u diddordebau unwaith maent wedi cael eu hethol. Rwy'n credu bod hynny yn hollol deg ac yn hollol naturiol wrth edrych ar y broses o ddatganoli sydd wedi cymryd lle dros y blynyddoedd diwethaf.

To turn finally to the comments made by Dafydd Elis-Thomas, I agree entirely with him that we as an Assembly should control who can sit in this place and our electoral arrangements. We must ensure, of course, that the system is a system where, if changes are required, there is support for those changes on a cross-party basis. I would not want to see a situation where the electoral system could change entirely because of a single vote in this place, and we have spoken in the past about looking at a system of ensuring that more than one party would have to vote in favour of something in order to ensure that it happens. However, there is no reason why we as an Assembly should not control the system here and control the system in terms of who can sit in this place and who cannot stand for election in the first place, and who would have to dispose of their interests once they had been elected. I think that is entirely fair and natural as we look at the process of devolution that has taken place over the past years.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau, a gobeithio fy mod wedi gwneud yn siwr bod safbwynt y Llywodraeth yn glir.

I thank everyone for their contributions, and I hope I have ensured that the position of the Government is clear.

15:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee to reply to the debate.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymateb i'r ddadl.

15:18 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. May I thank everyone who has taken part in this debate? It was very constructive. I think that there is a deep consensus on the principles that should underpin any proper and appropriate disqualification process. There is some difference of opinion on how that is to be achieved.

Diolch, Gadeirydd. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Roedd yn adeiladol iawn. Credaf fod consensws dwfn ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i unrhyw broses anghymhwyso gywir a phriodol. Mae peth gwahaniaeth barn ynglŷn â sut y cyflawnir hynny.

If I may just refer to some of the key contributions, Simon Thomas emphasised that the starting point should be that it is a good thing that lots of people want to stand for election, and, if lots of people do not want to stand for election, we should do something about it. We want a whole range of talent to be available for election, and the process should be as accommodating as possible. Currently, the barrier that, on nomination, you have to resign from certain posts is a real problem for many people. Kirsty Williams put it very eloquently: how many jobs do you have to resign from just because you have gone for an interview for an alternative job? So, I thought that was powerful.

Os caf i gyfeirio at rai o'r cyfraniadau allweddol, pwysleisiodd Simon Thomas y dylid cychwyn o'r ffaith mai peth da yw bod llawer o bobl yn awyddus i sefyll mewn etholiad, ac os nad oes llawer o bobl yn dymuno sefyll etholiad, dylem wneud rhywbeth am y peth. Rydym am sicrhau bod amrywiaeth eang o dalent ar gael i'w hethol a dylai'r broses fod mor hyblyg ag y bo modd. Ar hyn o bryd, mae'r rhwystr fod yn rhaid ymddiswyddo o rai swyddi wrth gael eich enwebu yn broblem go iawn i lawer o bobl. Nododd Kirsty Williams y peth yn huawdl iawn: faint o swyddi sydd yna sy'n rhaid i chi ymddiswyddo ohonynt yn syml am eich bod wedi mynd i gyfweliad am swydd arall? Felly, roeddwn yn meddwl fod hynny'n bwerus.

Simon also said that we do not want a repeat of the experience of 2011, and then Kirsty Williams really showed the scars on her soul, I thought, from what happened. I think that the whole Assembly was scarred; that is what I would say. It was a very unhappy episode, and it is one that we absolutely do not want to repeat. Kirsty emphasised the need for a simpe and transparent process, and that certainly is not what we have at the moment. So, we really do need to sort this out, and Kirsty thought that the taking of the oath was the key point that should determine disqualification in most cases.

Dywedodd Simon hefyd nad ydym am ailadrodd profiad 2011 ac yna rwy'n credu bod Kirsty Williams wedi dangos y creithiau a adawyd ar ei henaid ar ôl yr hyn a ddigwyddodd. Credaf fod y Cynulliad cyfan wedi'i greithio; dyna beth fyddwn i'n ei ddweud. Roedd yn gyfnod anhapus iawn ac yn un rydym yn bendant am osgoi ei ailadrodd. Pwysleisiodd Kirsty yr angen am broses syml a thryloyw ac yn sicr, nid dyna beth sydd gennym ar hyn o bryd. Felly, mae gwir angen i ni ddatrys hyn, ac roedd Kirsty o'r farn mai cymryd y llw oedd y pwynt allweddol a ddylai bennu anghymhwysiad yn y rhan fwyaf o achosion.

Simon talked a little bit about whatever you want to call it —dual mandate, double-jobbing et cetera—so we did make a recommendation in relation to the position of councillors that that should be looked at.

Siaradodd Simon ychydig am beth bynnag rydych am ei alw—mandad deuol, cyflawni dwy swydd ac ati—felly gwnaethom argymhelliad mewn perthynas â sefyllfa cynghorwyr, y dylid ystyried hynny.

May I thank Dafydd Elis-Thomas for pointing out that the elephant in the Chamber this afternoon is that we should actually now request the devolution of electoral law over our own elections? There are ways that could be achieved. We would need consensus, and the First Minister talked about the sort of level of majority that would be required to determine such law. You know, I think that the case is unanswerable because, frankly, the committee's report has been stymied somewhat by the legislative framework. So, in my speech I had to talk about the legislative framework and then the Order and what we could do, and what we thought we could do. The First Minister thinks that he is a bit more constrained than we think he is in some areas, but it is obviously very, very messy and unsatisfactory.

Hoffwn ddiolch i Dafydd Elis-Thomas am nodi mai'r eliffant yn y Siambr y prynhawn yma yw y dylem ofyn yn awr am ddatganoli cyfraith etholiadol dros ein hetholiadau hunain. Mae yna ffyrdd y gellid cyflawni hynny. Byddai angen consensws arnom, a siaradodd y Prif Weinidog am y math o lefel o fwyafrif y byddai ei angen i benderfynu cyfraith o'r fath. Wyddoch chi, rwyf o'r farn nad oes modd ateb yr achos a dweud y gwir am fod adroddiad y pwyllgor wedi'i rwystro i raddau gan y fframwaith deddfwriaethol. Felly, yn fy araith roedd rhaid i mi siarad am y fframwaith deddfwriaethol ac yna'r Gorchymyn a'r hyn y gallem ei wneud, a'r hyn y credem y gallem ei wneud. Mae'r Prif Weinidog yn meddwl ei fod wedi'i gyfyngu'n fwy nag y credwn ei fod mewn rhai meysydd, ond mae'n amlwg yn anniben ac yn anfoddhaol iawn.

May I thank the First Minister for his response in calling this a well-informed report in which the general principles, the five principles, are agreed? I think that that is a definite step forward. He put it slightly differently, although I think that it still holds, that, for him, the key principle was that there are a certain very limited number of positions where impartiality throughout is critical and therefore that, even at nomination, you should resign a position if you are seeking election to this Assembly. Then, there are probably many more positions where it is the case that a conflict of interest would be created if you came here and did both jobs. Well, that is an unlikely situation but, of course, in terms of getting the law right, we have got to cover for it. It is there, I think, that we want the wider pool of appropriately interested and qualified people to put themselves forward for public office here, should they be so inclined.

Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am ei ymateb yn galw hwn yn adroddiad gwybodus lle cytunir ar yr egwyddorion cyffredinol, y pum egwyddor. Credaf ei fod yn gam pendant ymlaen. Roedd yn ei ddisgrifio ychydig yn wahanol, er fy mod yn meddwl ei fod yn dal yn wir, mai'r egwyddor allweddol iddo ef oedd bod yna nifer cyfyngedig penodol o swyddi lle mae didueddrwydd llwyr yn hollbwysig ac felly y dylech ymddiswyddo o swydd hyd yn oed wrth gael eich enwebu os ydych yn ceisio cael eich ethol i'r Cynulliad hwn. Yna, mwy na thebyg bod llawer mwy o swyddi lle mae'n wir y byddai gwrthdaro buddiannau'n digwydd pe baech yn dod yma a gwneud y ddwy swydd. Wel, mae honno'n sefyllfa annhebygol ond wrth gwrs, o ran cael y gyfraith yn iawn, rhaid i ni roi sylw iddi. Rwy'n credu mai dyma lle rydym am i'r gronfa ehangach o bobl gymwys sydd â diddordeb priodol i gynnig eu hunain ar gyfer swydd gyhoeddus os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

The First Minister then talked a bit about the difficulty in his view of defining two different classes for disqualification under the current legislation. I was pleased to hear that the Welsh Government intends to keep the list of disqualified posts as short as possible—that is obviously in line with the principles that have been outlined this afternoon—and that a draft Order would be prepared by late spring, I think you said, certainly the spring. We did recommend, I think, a full year before the next election. There are reasons why that would be difficult, and I must thank the First Minister for being courteous enough to write to the committee about that, and we do agree with him that, in this instance, exactly a year before for the draft is not quite going to be achieved. However, I think that the timetable that he has outlined, if that is stuck to, will be a great help so that we can get greater public understanding of the situation in terms of disqualification. There was some evidence that that did not exist before the last election, so I welcome his approach.

Yna siaradodd y Prif Weinidog ychydig am yr anhawster yn ei farn ef o ddiffinio dau ddosbarth gwahanol ar gyfer anghymhwyso o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Roeddwn yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r rhestr o swyddi i'w hanghymhwyso mor fyr ag y bo modd—mae hynny'n amlwg yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd y prynhawn yma—ac y byddai Gorchymyn drafft yn cael ei baratoi, erbyn diwedd y gwanwyn a ddywedasoch rwy'n meddwl, y gwanwyn yn sicr. Roeddem wedi argymell blwyddyn lawn cyn yr etholiad nesaf rwy'n credu. Mae yna resymau pam y byddai hynny'n anodd a rhaid i mi ddiolch i'r Prif Weinidog am fod yn ddigon cwrtais i ysgrifennu at y pwyllgor ynglŷn â hynny, ac rydym yn cytuno ag ef na allwn gyflawni drafft ar gyfer flwyddyn union yn gynt yn yr achos hwn. Fodd bynnag, credaf y bydd yr amserlen y mae wedi'i hamlinellu, os glynir ati, yn gymorth mawr i ni allu cael gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o'r sefyllfa o ran anghymhwyso. Roedd peth tystiolaeth nad oedd hynny'n bodoli cyn yr etholiad diwethaf, felly rwy'n croesawu ei agwedd.

I think that, in general, if I may just summarise, the Government's view here is that this is work in progress but that the general principles are agreed. So, I do hope that it is able to deliver, by the means it thinks are available to it, a better system for 2016. However, beyond, we need to do this ourselves and we need to look at the legislative framework so that, by 2021, we have established best practice. We probably could have done it this time, if we had the levers, but certainly for the future that is what our aim should be. May I conclude by thanking once again everyone who took part in this debate for doing so and for its constructive nature? Thank you, Chair.

Os caf grynhoi, credaf yn gyffredinol fod y Llywodraeth o'r farn fod hwn yn waith sy'n dal i fynd rhagddo ond bod yr egwyddorion cyffredinol wedi'u cytuno. Felly rwy'n gobeithio y gall sicrhau system well ar gyfer 2016 drwy'r dulliau y mae'n credu sydd ar gael iddo. Fodd bynnag, y tu hwnt i hynny, mae angen i ni wneud hyn ein hunain ac mae angen i ni edrych ar y fframwaith deddfwriaethol fel ein bod wedi sefydlu arfer gorau erbyn 2021. Gallem fod wedi'i wneud y tro hwn yn ôl pob tebyg pe bai gennym yr ysgogiadau ond yn sicr ar gyfer y dyfodol dyna y dylem anelu ato. Hoffwn gloi drwy ddiolch unwaith eto i bawb a gymerodd ran yn y ddadl hon ac am ei natur adeiladol. Diolch, Gadeirydd.

15:23 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to note the Constitutional and Legislative Affairs Committee report. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Caiff y cynnig ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cronfa Triniaethau Canser

## Welsh Conservatives Debate: Cancer Treatments Fund

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Elin Jones. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.*

15:24 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Darren Millar to move the motion.

Galwaf ar Darren Millar i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5608 Paul Davies

Motion NDM5608 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Cronfa Triniaethau Canser i Gymru.

Calls upon the Welsh Government to establish a Cancer Treatments Fund for Wales.

15:24 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Chair. I move the motion in the name of my colleague, Paul Davies.

Diolch, Gadeirydd. Cynigiaf y cynnig yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies.

The chances are that, at some point, our lives will be touched by cancer, either as a result of our own health or that of a loved one. With this in mind, let us consider the current situation facing us here in Wales. Wales is a country where more than 16,000 new cases of cancer are diagnosed each year, and, if current trends continue, by 2030, 7% of the population will be living either with or after cancer. Tragically, more than 8,000 people lose their battle with cancer each year in Wales, but with the advances in treatments and innovation in medicines, a cancer diagnosis does not have to be the end of the road.

Ar ryw adeg, mae'n debygol y caiff ein bywydau eu heffeithio gan ganser, naill ai yng nghyd-destun ein hiechyd ein hunain neu rywun sy'n annwyl i ni. Gyda hyn mewn golwg, gadewch i ni ystyried y sefyllfa bresennol sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru. Mae Cymru'n wlad lle ceir mwy na 16,000 diagnosis newydd o ganser bob blwyddyn ac os yw'r tueddiadau presennol yn parhau, erbyn 2030, bydd 7% o'r boblogaeth yn byw naill ai gyda chanser neu ar ôl cael canser. Yn drasig, mae mwy na 8,000 o bobl yn colli eu brwydr â chanser bob blwyddyn yng Nghymru ond gyda'r datblygiadau mewn triniaethau ac arloesi ym maes meddyginiaethau, nid oes raid i ddiagnosis o ganser fod yn ddiwedd ar bopeth.

It is absolutely fundamental that the NHS diagnosis, treatment and care pathways are the best that they can be. However, sadly, the truth of the matter is that the system is not serving the people of Wales as well as it could, and cancer continues to be the leading cause of death in our nation.

Mae'n gwbl hanfodol fod ddiagnosis, triniaeth a llwybrau gofal y GIG y gorau y gallant fod. Fodd bynnag, yn anffodus, y gwir amdani yw nad yw'r system yn gwasanaethu pobl Cymru cystal ag y gallai ac mae canser yn parhau i fod yn brif achos marwolaeth yn ein gwlad.

Looking at the amendments that have been tabled in the name of the Liberal Democrats and Plaid Cymru, I am afraid that we will not be able to support these. With regard to the Liberal Democrat amendment, while we welcome any additional investment in the health technologies fund, this cannot ever be a replacement, in our opinion, of the need for a cancer treatments fund for Wales. While we recognise the inconsistencies within Wales that are implied in the Plaid Cymru amendment in relation to access to cancer drugs, it does not adequately address the inequity, not just within Wales, but also between England and Wales, in terms of access to the latest cancer medicines.

O edrych ar y gwelliannau a gyflwynwyd yn enw'r Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru, mae arnaf ofn na fyddwn yn gallu cefnogi'r rhain. O ran gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, er ein bod yn croesawu unrhyw fuddsoddiad ychwanegol yn y gronfa technoleg iechyd, yn ein barn ni fydd byth yn gallu cymryd lle cronfa driniaethau canser yng Nghymru. Er ein bod yn cydnabod yr anghysonderau yng Nghymru sy'n ymhlyg yng ngwelliant Plaid Cymru mewn perthynas â mynediad at gyffuriau canser, nid yw'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r annhegwch, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd rhwng Cymru a Lloegr, o ran mynediad at y meddyginiaethau canser diweddaraf.

It is for these reasons that Wales needs a cancer treatments fund. The fund that we want to see would benefit cancer patients in three ways. First, it would improve access to modern cancer drugs, many of which are now routinely available in England, yet more difficult to access in Wales, if at all. Secondly, it would support improved access to modern radiotherapy treatment, such as stereotactic and intensity modulated radiotherapy. Thirdly, it would facilitate an expansion in the provision of mobile cancer treatment centres to reduce the long distances that many cancer patients face travelling, particularly in rural Wales when they are accessing their chemotherapy and other treatments.

Am y rhesymau hyn, mae angen cronfa triniaethau canser ar Gymru. Byddai'r gronfa rydym am ei gweld o fudd i gleifion canser mewn tair ffordd. Yn gyntaf, byddai'n gwella mynediad at gyffuriau canser modern y mae llawer ohonynt yn awr ar gael fel mater o drefn yn Lloegr, ond yn anos eu cael yng Nghymru, os oes modd eu cael o gwbl. Yn ail, byddai'n cefnogi gwell mynediad at driniaeth radiotherapi fodern megis radiotherapi stereotactig a radiotherapi modiwleiddio arddwysedd. Yn drydydd, byddai'n hwyluso'r broses o ehangu'r ddarpariaeth o ganolfannau triniaethau canser symudol er mwyn lleihau'r pellteroedd maith y mae llawer o gleifion canser yn eu hwynebu yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru er mwyn cael cemotherapi a thriniaethau eraill.

We, on these benches, feel that it is a disgrace that Wales is a nation where millionaires are eligible for free paracetamol, yet cancer patients cannot access the modern drugs recommended by their clinicians. The Rarer Cancers Foundation has indicated that, of the 80 drugs currently available routinely to patients in England via the cancer drugs fund, some 72 are not routinely available here in Wales. It has also suggested that hundreds of patients each year have been denied funding since 2010 for treatments that they would have received had they been patients in England. Its research suggests that, in the year to date, more than half of Welsh cancer patients making a request through the individual patient funding requests mechanism have had their applications rejected. Compare this with the fact that just 4% of applications to the English cancer drugs fund are rejected, and it is easy to see that Welsh patients are getting a raw deal. It is not just the Rarer Cancers Foundation that has flagged up these inequities. Research by the University of Bristol has also concluded that Welsh patients are up to seven times less likely to have access to some cancer drugs than their counterparts in England.

Ar y meinciau hyn, teimlwn ei bod yn warthus bod Cymru'n wlad lle mae miliwnyddion yn gymwys i gael parasetamol rhad ac am ddim, eto ni all cleifion canser gael y cyffuriau modern a argymhellir gan eu clinigwyr. Mae'r Sefydliad Canserau Prin wedi nodi, o'r 80 o gyffuriau sydd ar gael ar hyn o bryd fel mater o drefn i gleifion yn Lloegr drwy gyfrwng y gronfa gyffuriau canser, nid oes tua 72 ohonynt ar gael fel mater o drefn yma yng Nghymru. Mae hefyd wedi awgrymu fod cyllid wedi'i wrthod i gannoedd o gleifion bob blwyddyn ers 2010 ar gyfer triniaethau y byddent wedi'u derbyn pe baent yn gleifion yn Lloegr. Mae ei ymchwil yn awgrymu bod ceisiadau mwy na hanner y cleifion canser yng Nghymru a gyflwynodd gais drwy'r system geisiadau cyllido cleifion unigol yn ystod y flwyddyn hyd yma wedi cael eu gwrthod. Cymharwch hyn â'r ffaith mai dim ond 4% o geisiadau i'r gronfa gyffuriau canser yn Lloegr sy'n cael eu gwrthod ac mae'n hawdd gweld bod cleifion Cymru yn cael cam. Nid y Sefydliad Canserau Prin yn unig sydd wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau hyn. Mae ymchwil gan Brifysgol Bryste hefyd wedi dod i'r casgliad fod cleifion yng Nghymru hyd at saith gwaith yn llai tebygol o gael mynediad at rai cyffuriau canser na'u cymheiriaid yn Lloegr.

The Minister may well retort later in this debate that Wales spends more on cancer treatment per head than England does. However, think about it: this fact is hardly surprising given that Wales has a higher prevalence of cancer than England does. What the Minister no doubt would fail to say in his response is that the truth is that we also spend less per cancer patient than England does, to the tune of over £1,000 per year. Sadly, once a patient has been screened and diagnosed—sometimes after a wait that is too long—there is no guarantee that they can access the treatments that they need.

Efallai'n wir y bydd y Gweinidog yn ateb yn nes ymlaen yn y ddadl hon fod Cymru yn gwario mwy ar driniaeth canser y pen nag y mae Lloegr yn ei wneud. Fodd bynnag, meddyliwch am y peth: prin fod y ffaith hon yn syndod o ystyried bod gan Gymru fwy o achosion o ganser na Lloegr. Yr hyn fyddai'r Gweinidog heb os yn methu â'i ddweud yn ei ymateb yw mai'r gwir yw ein bod hefyd yn gwario llai fesul claf canser nag y mae Lloegr yn ei wneud—dros £1,000 y flwyddyn yn llai. Yn anffodus, ar ôl i glaf gael ei sgrinio a chael diagnosis—weithiau ar ôl aros yn rhy hir—nid oes unrhyw sicrwydd y caiff fynediad at y triniaethau sydd eu hangen arno.

What I do not want to hear today from anybody in the Chamber is that the Welsh Government cannot afford to establish a fund. If the Labour Government can afford to spend £52 million nationalising an airport, millions on refurbishing their own ministerial offices, and hundreds of thousands of pounds on potted plants each year, surely it can afford to spend just £5 million to improve access to treatments for cancer patients and outcomes for cancer patients.

Yr hyn nad wyf am ei glywed heddiw gan unrhyw un yn y Siambr yw na all Llywodraeth Cymru fforddio sefydlu cronfa. Os gall y Llywodraeth Lafur fforddio gwario £52 miliwn ar wladoli'r maes awyr, miliynau ar adnewyddu swyddfeydd ei gweinidogion ei hun a channoedd o filoedd o bunnoedd ar blanhigion mewn potiau bob blwyddyn, yn sicr gall fforddio gwario £5 miliwn yn unig ar wella mynediad at driniaethau a chanlyniadau i gleifion canser.

As a result of the current inequity, some patients have resorted to raiding their life savings to pay privately for their drugs. Some have taken the drastic action of re-mortgaging their homes in order to fund their medication. Others have had to be supported by charitable funds and yet others have gone to the extreme of relocating from Wales to England in order to access the treatments recommended by their clinicians. It is scandalous.

O ganlyniad i'r annhegwch presennol, mae rhai cleifion wedi defnyddio eu cynilion i dalu'n breifat am eu cyffuriau. Mae rhai wedi cymryd y cam difrifol o godi ail forgais ar eu cartrefi er mwyn talu am eu meddyginiaeth. Mae eraill wedi gorfod cael cymorth gan gronfeydd elusennol, ac eraill wedyn wedi cymryd y cam eithaf o symud o Gymru i Loegr er mwyn cael mynediad at y triniaethau a argymhellir gan eu clinigwyr. Mae'n warthus.

People who are battling with cancer should not have to battle with the Welsh NHS in order to get the treatments they need. As we all know, the public cares passionately about the need to level the playing field with other parts of the UK, no matter what the Minister said earlier in this Chamber.

Ni ddylai pobl sy'n brwydro gyda chanser orfod brwydro gyda GIG Cymru i gael y triniaethau sydd eu hangen arnynt. Fel rydym i gyd yn gwybod, mae'r cyhoedd yn ymboeni'n ddwys am yr angen i sicrhau tegwch â rhannau eraill o'r DU, ni waeth beth a ddywedodd y Gweinidog yn gynharach yn y Siambr hon.

I am sure that Members will be aware that, today, a petition initiated by Julie McGowan was presented by her on the Senedd steps, which had 98,000 signatories to it—the largest petition ever presented to a Member of this National Assembly since its establishment. An historic moment. It is calling upon the Welsh Government—pleading with the Welsh Government—to establish a cancer drugs fund. Now, Minister, you may choose to ignore Members on these benches, but you cannot ignore the public outcry against the injustice that cancer patients are suffering. [Interruption.] I am afraid that I do not have time for interventions today.

Rwy'n sicr y bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod deiseb a gychwynnwyd gan Julie McGowan wedi cael ei chyflwyno ganddi heddiw ar risiau'r Senedd. Roedd yn cynnwys llofnod 98,000 o bobl—y ddeiseb fwyaf i'w chyflwyno erioed i Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol hwn ers ei sefydlu. Moment hanesyddol. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru—yn ymbil ar Lywodraeth Cymru—i sefydlu cronfa gyffuriau canser. Yn awr, Weinidog, efallai eich bod yn dewis anwybyddu'r Aelodau ar y meinciau hyn ond ni allwch anwybyddu'r protestiadau cyhoeddus yn erbyn yr anghyfiawnder y mae cleifion canser yn ei ddioddef. [Torri ar draws.] Rwy'n ofni nad oes gennyf amser ar gyfer ymyriadau heddiw.

The story behind why Julie McGowan started the petition is, sadly, all too familiar in Wales. She has been friends with Ann Wilkinson and her husband Allan for over 20 years. Three years ago, Ann, who was on the steps of the Senedd today, was diagnosed with bowel cancer. The evening Ann was told that she would not be given the funding to receive the drug that could extend her life, Allan, her husband, had a heart attack. However, due to the success of Julie's campaign, and her petition, Ann has now been able to access the Avastin that she so desperately needed.

Yn anffodus, mae'r stori sydd wrth wraidd y rheswm pam y dechreuodd Julie McGowan y ddeiseb yn rhy gyfarwydd yng Nghymru. Mae hi wedi bod yn ffrindiau gydag Ann Wilkinson a'i gŵr Allan ers dros 20 mlynedd. Dair blynedd yn ôl, cafodd Ann, a oedd ar risiau'r Senedd heddiw, ddiagnosis o ganser y coluddyn. Ar y noson y dywedwyd wrth Ann na fyddai arian ar gael iddi gael y cyffur a allai ymestyn ei bywyd, cafodd Allan, ei gŵr, drawiad ar y galon. Fodd bynnag, oherwydd llwyddiant ymgyrch Julie a'i deiseb, mae Ann bellach wedi gallu cael gafael ar yr Avastin y mae hi cymaint o'i angen.

Now, while I welcome the change of heart shown by her local health board, it should not have taken the negative publicity that it has suffered and the shaming of the health board to secure such a result. However, unfortunately, Ann's case is not rare. Just yesterday, Rosemary Greenslade, a brave patient from Clydach, who has been battling with ovarian cancer since 2012, had to fund Avastin for herself after she was denied access by Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. After a public campaign, and the support of her Assembly Member, Byron Davies, she thankfully now has access to the drug. However, I am afraid that others have been less successful.

Yn awr, er fy mod yn croesawu'r newid meddwl ar ran ei bwrdd iechyd lleol, ni ddylai fod rhaid wrth y cyhoeddusrwydd negyddol a ddioddefodd a'r codi cywilydd ar y bwrdd iechyd i sicrhau canlyniad o'r fath. Fodd bynnag, yn anffodus, nid yw achos Ann yn brin. Ddoe ddiwethaf, bu'n rhaid i Rosemary Greenslade, claf dewr o Glydach a fu'n brwydro â chanser yr ofari ers 2012, dalu am Avastin iddi ei hun ar ôl i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrthod ei roi iddi. Ar ôl ymgyrch gyhoeddus a chefnogaeth ei Haelod Cynulliad, Byron Davies, mae hi wedi cael y cyffur diolch i'r drefn. Fodd bynnag, mae arnaf ofn fod eraill wedi bod yn llai llwyddiannus.

Annie Mulholland of Cardiff had to relocate to London in order to access her cancer medication, after Cardiff and Vale University Local Health Board denied her funding request. Pamela Northcott from north Wales sadly lost her battle with kidney cancer after being refused access to a drug that would have been available had she lived in England. Her legacy has led to the establishment of the Pamela Northcott fund, a charity that is being run by her daughter, Kate, and which has helped literally dozens of Welsh patients in their plight to access the drugs that they need by getting the health boards to overturn their initial decisions.

Bu'n rhaid i Annie Mulholland o Gaerdydd symud i Lundain er mwyn cael meddyginiaeth at ei chanser ar ôl i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrthod ei chais am gyllid. Collodd Pamela Northcott o ogledd Cymru ei brwydr â chanser yr arennau ar ôl methu â chael cyffur a fyddai wedi bod ar gael iddi pe bai hi'n byw yn Lloegr. Mae ei hetifeddiaeth wedi arwain at sefydlu cronfa Pamela Northcott, elusen sy'n cael ei rhedeg gan ei merch, Kate, ac sydd wedi helpu dwsinau, yn llythrennol, o gleifion sy'n dioddef yng Nghymru i gael mynediad at y cyffuriau sydd eu hangen arnynt drwy gael y byrddau iechyd i wyrdroi eu penderfyniadau gwreiddiol.

Now, time does not permit me to tell the stories of the countless others, including those in my own constituency, many of whom have lost their fight for treatments, and lost precious time with their loved ones as a result. Minister, this postcode lottery has got to come to an end. Welsh cancer patients deserve better, and we stand shoulder to shoulder today with them, and with almost 100,000 other people who are petitioning you, to call upon you to level the playing field for cancer patients in Wales, and to establish a cancer treatments fund as soon as possible. I urge all Members in this Chamber today to support the motion.

Yn awr, nid yw amser yn caniatáu i mi adrodd hanesion eraill am y bobl ddirifedi, yn cynnwys rhai yn fy etholaeth i y collodd llawer ohonynt eu brwydr i gael triniaethau, ac a gollodd amser gwerthfawr gyda'u hanwyliaid o ganlyniad i hynny. Weinidog, mae'n rhaid i'r loteri cod post ddod i ben. Mae cleifion canser Cymru yn haeddu gwell ac rydym yn sefyll ysgwydd wrth ysgwydd heddiw gyda hwy, a'r bron i 100,000 o bobl eraill a lofnododd y ddeiseb atoch, yn galw arnoch i lefelu'r cae chwarae ar gyfer cleifion canser yng Nghymru ac i sefydlu cronfa triniaethau canser cyn gynted ag y bo modd. Rwy'n annog yr holl Aelodau yn y Siambr hon heddiw i gefnogi'r cynnig.

15:33 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Presiding Officer has selected the two amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, then amendment 2 will be deselected. I call on Kirsty Williams to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Mae'r Llywydd wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, yna caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol. Rwy'n galw ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Dileu popeth a rhoi yn ei le:*

*Delete all and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gronfa technolegau iechyd i gynnwys meddyginiaethau ar gyfer canser a chlefydau eraill.*

*Calls on the Welsh Government to expand the health technologies fund to medicines for cancer and other diseases.*

15:33 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

In formally moving the amendment, it is not to diminish the impact on the individual of a diagnosis of cancer, as I am all too familiar with what that means. It is because, if this is a debate about equity within the NHS, it has to be equity for all conditions, and for all patients. It should be noted that eminent cancer specialists, such as Mike Richards in England, have acknowledged that levels of prescriptions for innovative and new treatments for conditions other than cancer are at levels as poor as those outlined today by Darren Millar. I think that it is really important to look at this in the round, and not just at one particular condition.

Wrth gynnig y gwelliant yn ffurfiol, ni wnaf hynny er mwyn lleihau effaith diagnosis o ganser ar yr unigolyn, gan fy mod yn rhy gyfarwydd â'r hyn y mae hynny'n ei olygu, ond yn hytrach oherwydd hyn: os mai dadl am degwch yn y GIG yw hyn, rhaid iddo fod yn degwch ar gyfer pob cyflwr ac ar gyfer pob claf. Dylid nodi bod arbenigwyr canser blaenllaw, megis Mike Richards yn Lloegr, wedi cydnabod bod lefelau presgripsiynau triniaethau arloesol a newydd ar gyfer cyflyrau heblaw am ganser ar lefelau yr un mor wael â'r rhai a amlinellwyd heddiw gan Darren Millar. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni edrych ar bob agwedd o hyn ac nid ar un cyflwr penodol yn unig.

I believe that it is also very important to note that equitable cancer treatment for Welsh patients cannot be achieved by cancer drugs alone. That is why the Welsh Liberal Democrats have consistently lobbied for, and seen the establishment of, the health technologies fund. Because of that health technologies fund, we have been able to see the Welsh Government invest in modern, sophisticated radiotherapy techniques, such as IMRT, intensity-modulated radiation therapy.

Credaf ei bod hefyd yn bwysig iawn nodi na ellir sicrhau triniaeth ganser deg i gleifion Cymru drwy gyffuriau canser yn unig. Dyna pam y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi lobïo'n gyson dros y gronfa technoleg iechyd a'i gweld yn cael ei sefydlu. Oherwydd y gronfa technoleg iechyd, rydym wedi gallu sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn technegau modern, technegau radiotherapi soffistigedig, megis IMRT, sef therapi ymbelydredd modiwleiddio arddwysedd.

I was delighted this summer to hear from the Welsh Government that CIRT, cancer imaging and radiation therapy, will be available in Velindre also. However, I am also aware that access to some techniques still remains challenging, and we are not providing all the best radiotherapy that we should. It should be noted that more cancer patients need radiotherapy input than they need drug and chemotherapy input.

Roeddwn wrth fy modd yn ystod yr haf i glywed gan Lywodraeth Cymru y bydd CIRT, therapi delweddu canser ac ymbelydredd ar gael yn Felindre hefyd. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ymwybodol fod hygyrchedd rhai technegau yn dal i fod yn her ac nid ydym yn cynnig yr holl radiotherapi gorau y dylem eu darparu. Dylid nodi bod mwy o gleifion canser angen mewnbwn radiotherapi nag y maent angen mewnbwn cyffuriau a chemotherapi.

There are also real challenges in some forms of surgery for cancer. Last year, I battled for surgery for one of my constituents who the Welsh Institute for Health and Social Care finally approved funding for. However, I am haunted by the fact that three other people that day were also being put forward for similar surgery and they were turned down. I am haunted by that. What is also depressing is that I know that there are doctors here in the capital city of our nation who are capable and want to be able to provide that service here in Wales, and we need to do something about that. However, most often these issues around surgery and radiotherapy do not draw the media and the public's attention. That is reserved for the issue around drugs. Drugs are important, of course they are—important from an individual patient perspective. However, before turning to that, it is also important to ensure that we have access to the latest cancer treatments, whether they be drugs, radiotherapy or surgery, if we are to recruit and retain the very best cancer specialists in our system.

Hefyd, mae heriau gwirioneddol mewn rhai mathau o lawdriniaethau canser. Y llynedd, brwydrais i sicrhau bod un o fy etholwyr yn cael llawdriniaeth a chymeradwyodd y Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyllid ar ei chyfer yn y diwedd. Fodd bynnag, rwy'n arswydo wrth feddwl fod llawdriniaeth debyg wedi cael ei gwrthod i dri o bobl eraill y diwrnod hwnnw hefyd. Mae hynny'n codi arswyd arnaf. Yr hyn sy'n dorcalonnus hefyd yw fy mod yn gwybod bod meddygon yma ym mhrifddinas ein gwlad sy'n abl ac yn awyddus i ddarparu gwasanaeth o'r fath yma yng Nghymru ac mae angen i ni wneud rhywbeth am hynny. Fodd bynnag, y rhan fwyaf o'r amser nid yw materion sy'n ymwneud â llawfeddygaeth a radiotherapi yn tynnu sylw'r cyfryngau a'r cyhoedd. Caiff hwnnw ei gadw at fater cyffuriau. Mae cyffuriau'n bwysig, wrth gwrs eu bod—yn bwysig o safbwynt y claf unigol. Fodd bynnag, cyn troi at hynny, mae hefyd yn bwysig sicrhau ein bod yn cael mynediad at y triniaethau canser diweddaraf, boed yn gyffuriau, yn radiotherapi neu'n llawdriniaeth, os ydym i recriwtio a chadw'r arbenigwyr canser gorau yn ein system.

Turning to drugs, the current system in Wales for dealing with individual patient funding requests, I believe, is not adequate. At the very least, we need to turn to an all-Wales approach to end the postcode lottery within Wales, and we need to ensure that access to drugs is available when they are approved. There is a significant problem when drugs are approved: they should not just put on a formulary for an individual health board, but should be available for clinicians to prescribe and use. I am grateful to see the Minister's statement today doing exactly what I suggested to the First Minister yesterday, and that the rebate from the drugs fund could be used to prioritise and ensure that we have the best take-up of new and innovative medicines.

Gan droi at gyffuriau, ni chredaf fod y system bresennol yng Nghymru ar gyfer ymdrin â cheisiadau cyllido cleifion unigol yn ddigonol. Fan lleiaf un, mae angen i ni droi at system ar gyfer Cymru gyfan er mwyn rhoi diwedd ar y loteri cod post yng Nghymru ac mae angen i ni sicrhau bod cyffuriau ar gael pan gânt eu cymeradwyo. Mae yna broblem arwyddocaol yn codi pan fydd cyffuriau'n cael eu cymeradwyo. Nid cael eu rhoi ar fformiwlari bwrdd iechyd unigol yn unig y dylid ei wneud: dylent fod ar gael i glinigwyr roi presgripsiwn ar eu cyfer a'u defnyddio. Rwy'n ddiolchgar i weld datganiad y Gweinidog heddiw yn gwneud yn union yr hyn a awgrymais i'r Prif Weinidog ddoe, ac y gellid defnyddio'r ad-daliad o'r gronfa gyffuriau i flaenoriaethu a sicrhau ein bod yn cael y defnydd gorau o feddyginiaethau newydd ac arloesol.

Now, whatever the rights and wrongs of the cancer drugs fund in England—because there are both, rights and wrongs—the issue is that there is a difference between what Welsh patients and English patients can access. As Cancer Research UK states, we simply do not know what that impact is, what the true impact is of access to drugs and the impact of the cancer drugs fund on patient outcomes. We need to do an awful lot more on both sides of the border to assess the impact and outcomes of that particular funding. However, what we do know is that, for individual patients and their families, many of them want to pursue all the options that may be available to them. They often do so in the knowledge that the evidence is not strong for a particular treatment and that the side effects can be brutal, but, for them, that drug represents hope and time.

Yn awr, beth bynnag sy'n briodol neu'n amhriodol am y gronfa gyffuriau canser yn Lloegr—oherwydd mae rhai pethau sy'n briodol ac yn amhriodol yn ei chylch—y ddadl yw bod gwahaniaeth rhwng yr hyn y gall cleifion Cymru a chleifion yn Lloegr gael mynediad ato. Fel y dywed Cancer Research UK, yn syml nid ydym yn gwybod beth yw'r effaith honno, beth yw gwir effaith mynediad at gyffuriau ac effaith y gronfa gyffuriau canser ar ganlyniadau cleifion. Mae angen i ni wneud llawer iawn mwy ar ddwy ochr y ffin i asesu effaith a chanlyniadau'r cyllid penodol hwnnw. Fodd bynnag, yr hyn a wyddom yw bod llawer o gleifion unigol a'u teuluoedd yn awyddus i wneud defnydd o'r holl opsiynau a allai fod ar gael iddynt. Maent yn aml yn gwneud hynny gan wybod nad yw'r dystiolaeth yn gryf am driniaeth benodol ac y gall y sgîl-effeithiau fod yn greulon, ond iddynt hwy, mae'r cyffur yn cynnig gobaith ac amser.

Whatever the Welsh Government likes and does not like, we have to acknowledge that the rules of the game have changed because of the creation of the cancer drugs fund in England, and we need to respond in Wales. It cannot be left to a system that those who have the resources can get access to these treatments, and the poorest in our society cannot. I would urge the Government to look once again to see what we can do to improve access to treatments of all kinds for all patients, to make Wales a beacon rather than to be caught up once again in these debates about what we can get in Wales and what we cannot. There are lessons certainly to be learned from England and I think that we can do better.

Beth bynnag y mae Llywodraeth Cymru yn ei hoffi neu beidio, rhaid i ni gydnabod bod rheolau'r gêm wedi newid yn sgîl creu'r gronfa gyffuriau canser yn Lloegr ac mae angen i ni ymateb yng Nghymru. Ni ellir caniatáu system lle y gall rhai sy'n meddu ar yr adnoddau gael y triniaethau hyn a lle na all y tlotaf yn ein cymdeithas eu cael. Byddwn yn annog y Llywodraeth i edrych unwaith eto i weld beth y gallwn ei wneud i wella mynediad at driniaethau o bob math ar gyfer pob claf, i wneud Cymru yn esiampl yn hytrach na chael ein llesteirio unwaith eto gan ddadleuon am yr hyn y gallwn ei gael yng Nghymru a'r hyn na allwn ei gael. Yn sicr, mae gwersi i'w dysgu gan Loegr ac rwyf o'r farn y gallwn wneud yn well.

15:39 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones to move amendment 2, tabled in her name.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn ei henw.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Dileu popeth ar ôl 'sefydlu' a rhoi 'dull gweithredu Cymru gyfan er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch o ran mynediad at driniaethau canser' yn ei le.*

*Delete all after 'establish' and replace with 'an all Wales approach to ensure consistency and equity in access to cancer treatments'.*

15:39 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 2.

I move amendment 2.

Rwy'n cadarnhau wrth gychwyn fy mod heb fy mherswadio o gwbl bod angen cronfa triniaethau canser, yn enwedig os yw wedi cael ei modelu yn debyg i'r gronfa yn Lloegr. Mae adroddiadau gan Brifysgol Bryste ac yn fwy diweddar gan y King's Fund yn ddadansoddiad gwrthrychol o'r gronfa cyffuriau canser yn Lloegr, ac maent yn nodi nifer o'r gwendidau sydd ynghlwm wrth gronfa o'r fath. Y gwendid pennaf a'r cwestiwn amlycaf yw'r hyn a ofynnodd Kirsty Williams yn gynharach, sef pam cronfa ganser yn unig?

I confirm in beginning that I have not been persuaded at all of the need for a cancer treatments fund, especially if it is to be modeled on the fund in England. Reports from the University of Bristol and more recently from the King's Fund provide an objective analysis of the cancer drugs fund in England, and they identified several of the weaknesses inherent in such a fund. The main weakness and the most obvious question is that asked by Kirsty Williams earlier, namely why a fund for cancer only?

Beth am y triniaethau a'r cyffuriau sydd ar gael ar gyfer cyflyrau eraill—cyflyrau niwrolegol a chyflyrau sy'n ymwneud ag afiechyd y galon hefyd? Mae etholwyr yn dod lan ataf i yn weddol o reolaidd, etholwyr sy'n dioddef, neu sydd â'u teuluoedd yn dioddef, o rai o'r cyflyrau eraill yma, ac maent yn teimlo bod gwleidyddion a Llywodraethau yn rhy barod i roi blaenoriaeth i ganser ar draul cyflyrau fel Parkinson's, sglerosis ymledol ac yn y blaen. Rydym mewn perygl o wneud hynny heddiw.

What about the treatments and drugs that are available for other conditions—neurological conditions and those relating to heart disease also? Constituents come up to me quite frequently, constituents who are suffering, or whose family members are suffering, from some of these other conditions, and they feel that politicians and Governments are too willing to prioritise cancer at the expense of conditions such as Parkinson's, MS and so on. We are in danger of doing that today.

Yr ail wendid, wrth gwrs, o sefydlu cronfa o'r fath gyda'r adnoddau a fyddai'n gysylltiedig â hynny yw'r ffaith bod yna 'opportunity cost' i hynny. Ble mae'r gwariant ar ei fwyaf effeithiol? Dyna sydd angen inni ofyn i ni'n hunain. Ai ar gyffuriau sydd heb eu profi, yn aml iawn, neu ar gyfundrefn ddiagnosis sy'n fwy effeithiol? Gofynnais nifer o gwestiynau y prynhawn yma i'r Gweinidog ynglŷn â rhestrau aros hir am sgan MRI a sgan CT yma yng Nghymru—a'r sgan CT, wrth gwrs, mor bwysig ar gyfer diagnosis o ganser y pancreas. Os ydym yn edrych ar yr ystadegau a'r amserau aros am golonosgopi, sy'n gyfrwng i gael diagnosis o ganser 'colorectal', gwelwn fod 52% o bobl yng Nghymru yn aros dros chwe wythnos am golonosgopi, a dim ond 5% sy'n aros dros chwe wythnos yn Lloegr ac 17% ydyw yn yr Alban. Felly, o fod yn cefnogi sefydlu cronfa gyffuriau canser heddiw, byddai'n rhaid inni i gyd fod yn glir mai dyna ein blaenoriaeth ariannol ni yn hytrach nag adnoddau ar wella perfformiad ar ddiagnosis cynnar—ac, wrth gwrs, mae tystiolaeth yn dangos inni fod cael diagnosis cynnar o ganser yn allweddol er mwyn gwrthsefyll a gwella o ganser.

The second weakness, of course, of establishing such a fund with the resources that would be associated with that is the fact that there are opportunity costs to that. Where is expenditure at its most effective? That is what we need to ask ourselves. Is it best spent on drugs that are, very often, unproven or on a more effective system for diagnosis? I asked a number of questions this afternoon to the Minister on long waiting lists for MRI and CT scans here in Wales—with CT scans so important for diagnosing pancreatic cancer, of course. If we look at the statistics and the waiting times for colonoscopies, which is a method for diagnosing colorectal cancer, we see that 52% of people in Wales are waiting more than six weeks for a colonoscopy, but only 5% are waiting over six weeks in England and it is 17% in Scotland. Therefore, if we were to support the establishment of a cancer drugs fund today, we would all have to be clear that that is our financial priority, rather than putting resources into improving performance on early diagnosis—and, of course, the evidence shows that an early cancer diagnosis is crucial to withstanding and recovering from cancer.

Felly, am amryw o resymau, nid wyf wedi fy mherswadio bod angen cronfa cyffuriau canser benodol, ond rwyf wedi fy mherswadio bod angen cyfundrefn llawer mwy tryloyw a chyson o benderfynu ar 'access' i driniaethau a chyffuriau yma yng Nghymru. Mae penderfyniadau i ariannu cyffuriau a thriniaethau yn amrywio yn ormodol o un bwrdd iechyd i un arall. Rwyf wedi clywed oncolegwyr yn yr adeilad hwn yn dweud eu bod nhw'n peidio â gwneud cais unigol, 'individual patient request', i ambell fwrdd iechyd ar sail y ffaith bod y bwrdd iechyd hwnnw'n llawer llai tebygol nag un arall i awdurdodi'r ariannu. Mae ysbytai canser arbenigol fel Felindre, Singleton a rhai eraill yn gweld cleifion o ardaloedd nifer o fyrddau iechyd, ac mae angen cysondeb triniaeth ar draws y byrddau iechyd hynny y mae'r arbenigwyr yn eu gweld. Dyna pam mae ein gwelliant ni heddiw i sicrhau cyfundrefn benderfynu cyson a chenedlaethol i gael gwared ar y 'postcode lottery' yna sy'n bodoli o fewn Cymru ar hyn o bryd.

Therefore, for several reasons, I am not persuaded that we need a specific cancer drugs fund, but I have been persuaded that we need a much more transparent and consistent arrangement for determining access to treatments and drugs here in Wales. Decisions to fund drugs and treatments vary too much from one health board to another. I have heard oncologists in this building saying that they do not make individual patient requests to certain health boards on the basis of the fact that that health board is far less likely than another to authorise the funding. Specialist cancer treatment hospitals such as Velindre, Singleton and others see patients from a number of health board areas, and there needs to be consistency in treatment across all the health boards that the specialists see. That is why our amendment today ensures a consistent and a national approach to get rid of the postcode lottery that exists within Wales at present.

Mae adroddiad diweddar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ganser yn argymell creu panel cenedlaethol i asesu ceisiadau ariannu cleifion unigol, yn hytrach na phanelau o fewn y byrddau iechyd unigol. Rwyf wedi cael cyfle i ddarllen datganiad y Gweinidog y prynhawn yma, jyst cyn imi godi ar fy nhraed i gyfrannu yn y ddadl, ac nid yw'r Gweinidog wedi'i berswadio, mae'n debyg, o'r angen i symud i lawr y trywydd hwnnw ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cadarnhau y prynhawn yma ei fod yn bwriadu cadw meddwl agored, wrth asesu rhai o'r newidiadau y mae wedi'u cyflwyno heddiw, o ran yr angen am banel sy'n genedlaethol ac sy'n sicrhau y cysondeb hwnnw. Felly, mae digon i'w wneud i wella a chysoni y gyfundrefn triniaethau canser bresennol, yn hytrach na chreu cyfundrefn cwbl newydd, fel sy'n sail i'r cynnig heddiw.

The recent report of the Committee for Health and Social Care on cancer recommends creating a national panel to assess individual patient funding applications, rather than panels within the individual health boards. I have had the opportunity to read the Minister's statement this afternoon, just before I rose to my feet to contribute to the debate, and the Minister has not been persuaded, it seems, of the need to go down that path at this time. However, I hope that the Minister will confirm this afternoon that he intends to keep an open mind, in assessing some of the changes that have been proposed today, as regards the need for a panel that is national and that does ensure that consistency. So, there is plenty to do to improve and standardise the current system for cancer treatments, rather than create an entirely new system, which is the basis of today's motion.

15:44 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am pleased to have the opportunity to take part in this debate. I know that there are a lot of hard-working and dedicated professionals who are doing their best for their patients, and I would like to pay tribute to their commitment and to the energy that they put into their work. It must be heartbreaking for an oncologist to have to turn around to his patient, as I know has happened in the Betsi Cadwaladr health board, and say to them, 'I cannot help you because every application that I have made for Avastin has been turned down, and if you want to access this drug, you are going to have to move to England'. Today's debate is not about the quality of healthcare that professionals deliver, but about scrutinising the policy that Welsh Government has imposed on the NHS in Wales by saying that there will be no cancer drugs fund. We are looking to you today, Minister, and to call on you to look again at your policies. It cannot be right that people in Wales are forced to sell their homes and their possessions and to move across the border in order to access cancer drugs that are not available here. A constituent of mine in Wrexham, who wants to remain anonymous, was encouraged to do this to gain access to tackle bowel cancer, as she was unable to access the drugs that she needed in Wales. The consultant advised them that every single independent patient funding request that that consultant had made to Betsi Cadwaladr health board had been turned down.

Rwy'n falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Gwn fod llawer o bobl broffesiynol weithgar ac ymroddedig yn gwneud eu gorau dros eu cleifion a hoffwn dalu teyrnged iddynt am eu hymroddiad a'r egni y maent yn ei roi i'w gwaith. Rhaid ei bod yn dorcalonnus i oncolegydd orfod dweud wrth ei glaf, fel y gwn sydd wedi digwydd ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, 'nid wyf yn gallu eich helpu am fod pob cais a wneuthum am Avastin wedi cael ei wrthod, ac os ydych am gael gafael ar y cyffur hwn, bydd rhaid i chi symud i Loegr'. Ymwneud â chraffu ar y polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod ar y GIG yng Nghymru drwy ddweud na fydd yna gronfa gyffuriau canser y mae dadl heddiw, nid ag ansawdd y gofal iechyd y mae gweithwyr proffesiynol yn ei ddarparu. Rydym yn troi atoch heddiw, Weinidog, i alw arnoch i edrych eto ar eich polisïau. Ni all fod yn iawn fod pobl yng Nghymru yn cael eu gorfodi i werthu eu cartrefi a'u heiddo a symud dros y ffin er mwyn cael gafael ar gyffuriau canser nad ydynt ar gael yma. Cafodd etholwr i mi yn Wrecsam, sydd am aros yn ddienw, ei hannog i wneud hyn er mwyn cael mynediad at gyffur i drin canser y coluddyn, gan ei bod yn methu â chael gafael ar y cyffuriau roedd eu hangen arni yng Nghymru. Dywedodd yr ymgynghorydd wrthi fod pob cais annibynnol am gyllid i gleifion unigol roedd yr ymgynghorydd wedi'i gyflwyno i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi cael ei wrthod.

I support the Welsh Conservative call for a cancer treatment fund, but I also support the idea that there should be access to other treatment. In particular, what Elin Jones said about early diagnosis is incredibly important. There have been a number of funerals in my small village, which has a population of less than 500, Minister, and most of those who that village is mourning are people who have died under 50, and they are not being picked up in the screening process. I really feel that there is a need for the Welsh Government to look at the screening age range and to reduce it so that cancer diagnosis is being picked up earlier and sooner.

Rwy'n cefnogi galwad y Ceidwadwyr Cymreig am gronfa triniaethau canser ond rwyf hefyd yn cefnogi'r syniad y dylid cael mynediad at driniaethau eraill. Yn benodol, mae'r hyn a ddywedodd Elin Jones ynglŷn â diagnosis cynnar yn hynod o bwysig. Cafwyd nifer o angladdau yn fy mhentref bychan, sydd â phoblogaeth o lai na 500, Weinidog, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai y mae'r pentref yn galaru amdanynt yn bobl a fu farw cyn cyrraedd 50 oed, ac nid ydynt yn cael eu dal gan y broses sgrinio. Rwy'n teimlo'n gryf fod angen i Lywodraeth Cymru edrych ar yr ystod oedran sgrinio a'i ostwng fel bod diagnosis o ganser yn cael ei wneud yn gynharach ac yn gyflymach.

The information that I gained through freedom of information requests that I made to the Betsi Cadwaladr health board earlier this year demonstrates the need for the cancer drugs fund. The Betsi Cadwaladr health board turned down all applications—all applications—for eight vital cancer drugs during the year 2013-14. All applications for Avastin, prescribed for colorectal and ovarian cancers, were unsuccessful, and the reason is this, Minister: under Welsh Government guidelines, patients have to currently show why they should be an exceptional case, and the rejection of these applications, even though they have the support of the patient's consultant, shows that the 'exceptional' test is a huge barrier to access to cancer drugs here in Wales.

Mae'r wybodaeth a gefais drwy geisiadau rhyddid gwybodaeth a wneuthum i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn gynharach eleni yn dangos yr angen am gronfa gyffuriau canser. Mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi gwrthod pob cais—pob cais—am wyth o gyffuriau canser hanfodol yn ystod y flwyddyn 2013-14. Roedd yr holl geisiadau am Avastin, sy'n cael ei bresgripsiynu at ganser y colon a'r rhefr a chanser yr ofari, yn aflwyddiannus, a dyma'r rheswm, Weinidog: dan ganllawiau Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd mae'n rhaid i gleifion ddangos pam y dylent fod yn achos eithriadol ac mae gwrthod y ceisiadau hyn, er eu bod wedi'u cefnogi gan ymgynghorydd y claf, yn dangos bod y prawf 'achos eithriadol' yn rhwystr mawr i gael mynediad at gyffuriau canser yma yng Nghymru.

Patients in England do not have to satisfy those 'exceptional' criteria; they have to satisfy a clinical assessment. Minister, you say that you want to base your judgments on science. If you do, then you need to base that on the clinical assessment of the consultant who knows his patient, who knows the circumstances and who is satisfied, in his professional opinion, that that drug is warranted.

Nid oes raid i gleifion yn Lloegr fodloni'r meini prawf 'achos eithriadol' hyn; rhaid iddynt fodloni asesiad clinigol. Weinidog, rydych yn dweud eich bod am seilio eich barn ar wyddoniaeth. Os ydych, yna mae angen i chi seilio hynny ar asesiad clinigol yr ymgynghorydd sy'n adnabod ei glaf, sy'n gwybod am yr amgylchiadau ac sy'n fodlon, yn ei farn broffesiynol, fod cyfiawnhad dros gael y cyffur.

I can see that I am running out of time and I want to talk about Kate Spall. Kate's mother was Pamela Northcott, and I think that Kate has put it better than me, so I am going to read what she said.

Gallaf weld fy mod yn brin o amser ac rwyf am siarad am Kate Spall. Mam Kate oedd Pamela Northcott a chredaf fod Kate wedi ei roi yn well na mi, felly rwy'n mynd i ddarllen yr hyn a ddywedodd hi.

'In 2008 after a meeting with Edwina Hart—

'Yn 2008, ar ôl cyfarfod gydag Edwina Hart—

the then Welsh Minister for health,

Gweinidog Iechyd Cymru ar y pryd,

'she agreed that all patients in Wales would receive Sutent and Nexavar—I thought the battle had been won and continued my work in England. I expanded my work to all cancer types and was kept busy with english patients. I won treatment for a further 70 english patients and during the years of 2007-2012 was buoyed by the better processes in PCT's thanks to the Richards Review...and now the Cancer Drugs Fund which has made a real difference to english patients. It isn't perfect but it's real progress and most importantly demonstrates that the government understand how important new treatments are to clinicians and patients alike to extend life. This progress has served to highlight how far behind the Welsh are in the battle for better treatments for cancer patients. After the kidney cancer treatment approval the joy was to be short lived. The Welsh Administration backed down only 9 months later and the situation today is dire. In the past year I have been inundated—

'cytunodd y byddai pob claf yng Nghymru yn derbyn Sutent a Nexavar—roeddwn yn meddwl bod y frwydr wedi'i hennill ac euthum ati i barhau fy ngwaith yn Lloegr. Ehangais fy ngwaith i gynnwys pob math o ganser a chefais fy nghadw'n brysur gan gleifion yn Lloegr. Llwyddais i sicrhau triniaeth ar gyfer 70 o gleifion pellach yn Lloegr ac yn ystod y blynyddoedd 2007-2012, cefais hwb gan y prosesau gwell yn yr Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol diolch i Adolygiad Richards... ac yn awr y Gronfa Gyffuriau Canser sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gleifion yn Lloegr. Nid yw'n berffaith, ond mae'n gam go iawn ymlaen ac yn bwysicaf oll yn dangos bod y llywodraeth yn deall pa mor bwysig yw triniaethau newydd i glinigwyr a chleifion fel ei gilydd i ymestyn bywyd. Mae'r cynnydd hwn wedi helpu i amlygu pa mor bell ar ei hôl hi yw Cymru yn y frwydr am well triniaethau i gleifion canser. Ar ôl cymeradwyo'r driniaeth ar gyfer canser yr arennau, nid oedd y llawenydd i bara'n hir. Newidiodd Gweinyddiaeth Cymru ei meddwl naw mis yn unig yn ddiweddarach ac mae'r sefyllfa heddiw yn enbyd. Yn y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cael—'

15:49

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you wind up, please?

A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

15:49

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—'with requests for help by welsh cancer patients refused vital treatments. One oncologist in Wales has disclosed that 75% of his Exceptional Case Applications have been refused'.

[Yn parhau.] —'ceisiadau lu am gymorth gan gleifion canser yng Nghymru y gwrthodwyd triniaethau hanfodol iddynt. Datgelodd un oncolegydd yng Nghymru fod 75% o'i Geisiadau Achosion Eithriadol wedi cael eu gwrthod'.

15:49

## Keith Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not supporting the motion this afternoon, but I support the Plaid Cymru amendment. In terms of cancer treatment, we know the current policy structure: NICE operates in Wales and England, assessing whether drugs are clinically and cost-effective; Wales also has the all-Wales medicines strategy group, which fills the gaps of new drugs not considered by NICE; after that, England has the cancer drugs fund and Wales the individual patient funding request, the differences between which have attracted much scrutiny. The basic principle is right, namely the patients take an active interest and have a voice in their treatment. Every single cancer diagnosis brings with it a life-changing set of circumstances. Many of those who have signed the 98,000-signature petition handed over today will have been affected by a cancer diagnosis, either personally or through a loved one.

Nid wyf yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma, ond rwy'n cefnogi gwelliant Plaid Cymru. O ran triniaethau canser, gwyddom beth yw'r strwythur polisi cyfredol: mae NICE yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr, yn asesu a yw cyffuriau yn effeithiol yn glinigol ac yn gosteffeithiol; mae gan Gymru grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan hefyd, sy'n llenwi bylchau cyffuriau newydd nad ystyriwyd gan NICE; ar ôl hynny, cafodd Lloegr y gronfa gyffuriau canser ac mae gan Gymru'r ceisiadau cyllido cleifion unigol, ac mae'r gwahaniaethau rhwng y rhain wedi denu llawer o sylw. Mae'r egwyddor sylfaenol yn iawn, sef bod cleifion yn cymryd diddordeb gweithredol ac yn cael llais yn eu triniaethau. Mae pob diagnosis unigol o ganser yn dod â set o amgylchiadau yn ei sgîl sy'n newid bywyd. Bydd llawer o'r rhai sydd wedi llofnodi'r ddeiseb 98,000 llofnod a drosglwyddwyd heddiw wedi cael eu heffeithio gan ddiagnosis o ganser, naill ai'n bersonol neu drwy brofiad un o'u hanwyliaid.

Like all Members present here, I have heard the journeys of constituents affected by cancer and their progress in getting the treatment that they need. Cancer remains too big a killer across the UK. A responsible policy must be implemented fairly and equally. What I want for my constituents in Llanelli and for everyone across Wales is a system with a focus on the patient pathway and treatment that will be unique to all. We must remember that cancer treatment and prevention are wider than drugs alone. Treatment targets, holistic care, palliative care and prevention all weave into a larger health delivery framework. It is not enough to leave it to drug prescriptions alone. The assertion that England has better care due to the existence of one disputed fund does not stand up to academic debate. What I am sure that all patients would agree with me on is the necessity that their confidence in and the transparency of the system go right to the core. Patients and clinicians alike have to know how to apply, to be given reasons why drugs are not or are approved and to be supported with the best resources once that outcome has been conveyed.

Fel pob Aelod yma, rwyf wedi clywed am hanesion etholwyr yr effeithiwyd arnynt gan ganser a'u cynnydd o ran cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt. Mae canser yn parhau i ladd gormod o bobl ar draws y DU. Rhaid gweithredu polisi cyfrifol yn deg a chyfartal. Yr hyn rwyf ei eisiau i fy etholwyr yn Llanelli ac i bawb ar draws Cymru yw system gyda ffocws ar lwybr cleifion a thriniaeth sy'n unigryw i bawb. Rhaid i ni gofio bod triniaeth canser ac atal rhag canser yn fwy na chyffuriau'n unig. Mae targedau triniaeth, gofal holistaidd, gofal lliniarol ac atal i gyd yn gwau i mewn i fframwaith darparu iechyd mwy o faint. Nid yw ei adael i bresgripsiynau cyffuriau yn unig yn ddigon. Nid yw'r honiad bod Lloegr â gwell gofal o ganlyniad i fodolaeth un gronfa ddadleuol yn dal dŵr mewn trafodaeth academaidd. Yr hyn rwy'n siŵr y byddai pob claf yn cytuno â mi yn ei gylch yw'r angen i'w hyder yn y system a thryloywder y system fod yn ganolog. Rhaid i gleifion a chlinigwyr fel ei gilydd wybod sut i wneud cais, a chael rhesymau pam nad yw cyffuriau yn cael, neu ddim yn cael eu cymeradwyo, a chael eu cynorthwyo gan yr adnoddau gorau pan fydd y canlyniad hwnnw wedi'i gyfleu.

I noted with interest the new mechanisms announced today by the Minister for monitoring IPFR decisions and the alignment with my views on transparency and patient confidence. I also note the Minister for health's statement this lunch time outlining the IPFR, going forward. There are significant aspects, of course, and an enhanced role for AWMSG in conducting interim appraisals ahead of NICE and health boards making an all-Wales decision on patient cohorts.

Nodais gyda diddordeb y systemau newydd a gyhoeddwyd heddiw gan y Gweinidog ar gyfer monitro penderfyniadau Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol a'r modd y maent yn cyd-fynd â fy safbwyntiau ar dryloywder a hyder cleifion. Nodaf hefyd ddatganiad y Gweinidog Iechyd amser cinio yn amlinellu'r Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol ar gyfer y dyfodol. Mae yna agweddau pwysig, wrth gwrs, a rôl ehangach i AWMSG yn cynnal arfarniadau interim cyn i NICE a'r byrddau iechyd wneud penderfyniad Cymru gyfan ar gohortau cleifion.

What I advocate are responsible conversations, UK-wide, with the pharmaceutical industry over pricing. It is a fitting comment by the Minister for health that, while you cannot put a price on life, you can put a price on the cost of drugs. We all know the extortionate price tags on certain new drugs. Mature and responsible conversations are a cornerstone of addressing cancer treatment policy as a whole, and I want to hear from all Governments across the UK about how they intend to do that.

Yr hyn rwy'n ei argymell yw sgyrsiau cyfrifol ledled y DU gyda'r diwydiant fferyllol ynghylch prisio. Mae'n sylw teilwng gan y Gweinidog iechyd er na allwch roi pris ar fywyd y gallwch roi pris ar gost cyffuriau. Rydym i gyd yn gwybod am brisiau afresymol rhai cyffuriau newydd. Mae sgyrsiau aeddfed a chyfrifol yn un o gonglfeini'r broses o fynd i'r afael â pholisi trin canser yn ei gyfanrwydd ac rwy'n awyddus i glywed gan bob un o lywodraethau'r Deyrnas Unedig ynglŷn â sut y maent yn bwriadu gwneud hynny.

Wales, currently, is home to the most scrutinised health system in the UK. Recent attacks by the 'Daily Mail' are in extremely bad taste, coupled with the Tory-led Westminster Government comments. Thought should be given to hard-working NHS staff and frightened patients. We will not allow our NHS to be used as a political football, and we will not allow these attacks to be extended into cancer treatment.

Ar hyn o bryd, gan Gymru y mae'r system iechyd sy'n cael fwyaf o sylw yn y DU. Mae ymosodiadau diweddar gan y 'Daily Mail' yn gadael blas hynod o gas, ynghyd â'r sylwadau dan arweiniad Llywodraeth Dorïaidd San Steffan. Dylid ystyried staff y GIG sy'n gweithio'n galed a chleifion ofnus. Nid ydym am ganiatáu i'n GIG gael ei ddefnyddio fel pêl-droed wleidyddol ac nid ydym yn caniatáu i'r ymosodiadau hyn gael eu hymestyn i faes trin canser.

I do not doubt that a number of patients have received drugs under the fund, but I want a responsible debate based on good governance and honesty about the way forward for Wales as a nation. It is not political to point out that the fund has attracted criticism from all angles. As Elin said earlier, medical professionals raised concerns over its long-term effect and role in the wider cancer treatment policy, that it pays over the odds to pharmaceutical companies and that cost-effective medicines are taken up faster in Wales. It is a misleading situation when official statistics on an advocated fund show that over 70% of applications to the cancer fund in England are refused.

Nid wyf yn amau bod nifer o gleifion wedi derbyn cyffuriau o dan y gronfa, ond rwyf am gael dadl gyfrifol yn seiliedig ar lywodraethu da a gonestrwydd ynglŷn â'r ffordd ymlaen i Gymru fel cenedl. Nid yw'n wleidyddol i nodi bod y gronfa wedi denu beirniadaeth o bob cyfeiriad. Fel y dywedodd Elin yn gynharach, mynegodd gweithwyr meddygol proffesiynol bryderon ynghylch effaith hirdymor y gronfa a'i rôl yn y polisi triniaeth canser ehangach, ei bod yn talu mwy na'r disgwyl i gwmnïau fferyllol a bod meddyginiaethau costeffeithiol yn cael eu defnyddio'n gyflymach yng Nghymru. Mae'n sefyllfa gamarweiniol pan fo ystadegau swyddogol ar gyfer cronfa sy'n cael ei hyrwyddo yn dangos bod dros 70% o'r ceisiadau i'r gronfa canser yn Lloegr yn cael eu gwrthod.

15:54 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

15:54 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No.

Na wnaf.

There are several other elements to the cancer drugs fund that concern me. My constant point today has been that to look at a fund in isolation is not representative of cancer treatment as a whole. Evidence shows that, in some English regions, 90% of the allocation has gone unused. I accept and endorse that, in a progressive nation, we need to continue leading research, especially in rarer cancers, and that using the new exploratory drugs is a way to do that. However, the cancer drugs fund sometimes uses less-tested treatments. Its own chair admits uncertainty over whether quality of life is improved, and cancer charities have expressed concern about painful side-effects from drugs that are unlikely to work. We have to be honest about the impact of untested or individually unsuitable drugs on the overall care of patients, and we have to recognise that as part of a holistic debate. Diolch yn fawr.

Mae nifer o elfennau eraill ynglŷn â'r gronfa gyffuriau canser sy'n peri pryder i mi. Y pwynt rwy'n ei wneud yn gyson heddiw yw nad yw edrych ar gronfa ar ei phen ei hun yn cynrychioli triniaeth canser yn ei chyfanrwydd. Mae tystiolaeth yn dangos bod 90% o'r dyraniad mewn rhai rhanbarthau yn Lloegr heb ei ddefnyddio. Rwy'n derbyn ac yn cymeradwyo'r ffaith fod angen i ni fel cenedl flaengar barhau i arwain gwaith ymchwil, yn enwedig ar ganserau mwy anghyffredin, a bod defnyddio'r cyffuriau archwiliadol newydd yn ffordd o wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r gronfa gyffuriau canser weithiau'n defnyddio triniaethau na wnaed cymaint o brofion arnynt. Mae ei gadeirydd ei hun yn cyfaddef ansicrwydd ynglŷn â pha un a yw ansawdd bywyd yn gwella ac mae elusennau canser wedi mynegi pryder am sgîl-effeithiau poenus cyffuriau sy'n annhebygol o weithio. Mae'n rhaid i ni fod yn onest am effaith cyffuriau heb eu profi neu anaddas i rai unigolion ar ofal cyffredinol cleifion a rhaid i ni gydnabod hynny fel rhan o ddadl gyfannol. Diolch yn fawr.

15:55 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Every day in Wales, 49 people are delivered the life-changing news that they have cancer. Each day, 24 people die from this disease. The current process that cancer sufferers in Wales must complete in order to obtain the drugs that they need is in dire need of reform. News headlines of late have highlighted that there are currently more than 70 types of advanced cancer drugs and treatments offered to patients in England that are not routinely available in Wales. The comparable difference in cancer medication funding is astonishing, given that this medicine and treatment ensures the best possible care, with some specialist drugs having the power to extend life around 11 months and, as some cases have demonstrated, up to 10 years. Examples of this include Avastin. At a cost of around £25,000, the drug is readily available via the cancer drugs fund in England. However, although it has the potential to extend the lives of patients, it is not as easily accessible in Wales. Velcade, a proven, supported medication for multi-myeloma, shows cases slowing down, or even stopping of the condition. This has led to some cancer sufferers having to make an alarming choice: to spend their savings, if they have any, or to move across the border, where the cancer drugs fund can be accessed, and which has already helped as many as 55,000 cancer sufferers. Take, for example, Rosemary Greenslade from Clydach, who was initially refused Avastin. It was only after she had spent £20,000 that her second application for the drug was successful. Then there are cases such as Annie Mulholland's. She also failed to gain the potentially life-saving drug in Wales, and so was forced to register as a resident of south London. This is the tip of the iceberg. I hear on a regular basis of many people having to move out of Wales. If neither of these options is available, patients must accept their fate in the agonising knowledge that their treatment is not as much of a priority to the Welsh Government as the treatment of English patients is to Ministers at Westminster. That is shocking.

Bob dydd yng Nghymru, mae 49 o bobl yn cael clywed y newyddion sy’n newid eu bywydau, sef bod ganddynt ganser. Bob dydd, mae 24 o bobl yn marw o’r clefyd hwn. Mae taer angen diwygio’r broses gyfredol sy’n rhaid i ddioddefwyr canser yng Nghymru fynd drwyddi er mwyn cael y cyffuriau y maent eu hangen. Mae penawdau newyddion yn ddiweddar wedi amlygu bod mwy na 70 math o gyffuriau a thriniaethau canser datblygedig yn cael eu cynnig i gleifion yn Lloegr nad ydynt ar gael fel mater o drefn yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae’r gwahaniaeth cymharol yn y cyllid ar gyfer meddyginiaeth canser yn syfrdanol o ystyried bod meddyginiaeth a thriniaeth o’r fath yn sicrhau’r gofal gorau posibl, gyda rhai cyffuriau arbenigol yn gallu i ymestyn bywyd tua 11 mis, ac fel y gwelwyd mewn rhai achosion, hyd at 10 mlynedd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys Avastin. Am gost o tua £25,000, mae’r cyffur ar gael yn hwylus drwy’r gronfa gyffuriau canser yn Lloegr. Fodd bynnag, er bod ganddo’r potensial i ymestyn bywydau cleifion, nid yw mor hawdd ei gael yng Nghymru. Mae Velcade, meddyginiaeth gyda chefnogaeth ar gyfer myeloma ymledol, yn arafu achosion o’r cyflwr neu hyd yn oed yn ei stopio. Mae hyn wedi golygu bod rhai dioddefwyr canser yn gorfod gwneud dewis dychrynllyd: gwario eu cynilion, os oes ganddynt rai, neu symud dros y ffin, lle y gallant ddefnyddio’r gronfa gyffuriau canser sydd eisoes wedi helpu cynifer â 55,000 o ddioddefwyr canser. Er enghraifft, cymerwch Rosemary Greenslade o Glydach, y gwrthodwyd Avastin iddi yn wreiddiol. Dim ond ar ôl iddi wario £20,000 y cafodd ei hail gais am y cyffur ei dderbyn. Yna ceir achosion fel un Annie Mulholland. Mae hi hefyd wedi methu â chael y cyffur a allai achub ei bywyd yng Nghymru ac felly, cafodd ei gorfodi i gofrestru fel un o drigolion de Llundain. Dim ond rhan fach o’r stori yw hyn. Rwy’n clywed yn rheolaidd am lawer o bobl yn gorfod symud allan o Gymru. Os nad oes yr un o’r opsiynau hyn ar gael, rhaid i gleifion dderbyn eu tynged gyda’r wybodaeth ddirdynnol nad yw eu triniaeth yn gymaint o flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ag y mae triniaeth cleifion Lloegr i Weinidogion San Steffan. Mae hynny’n syfrdanol.

During the inquiry into the Welsh Government’s cancer delivery plan, I was quite distressed to hear patients describing the individual patient funding request referral process as inconsistent, not fit for purpose, lengthy and confusing. We are living in the twenty-first century. Now, I will give credit to the Minister; I have read your statement today, the IPFR process and the next steps, and the recommendations there, and there is a will here to see this implemented. Please do so.

Yn ystod yr ymchwiliad i gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer canser, roeddwn yn eithaf pryderus i glywed cleifion yn disgrifio proses atgyfeirio ceisiadau cyllido cleifion unigol fel un anghyson, hir a dryslyd nad yw’n addas at y diben. Rydym yn byw yn yr unfed ganrif ar hugain. Yn awr, rwy’n rhoi clod i’r Gweinidog; rwyf wedi darllen eich datganiad heddiw, proses y Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol a’r camau nesaf, a’r argymhellion yno, ac mae ewyllys yma i weld hyn yn cael ei roi ar waith. Gwnewch hynny wir.

At a time when you are battling against all the odds, the issue of access to treatment or potentially life-prolonging drugs should not even register in a person's mind. The IPFR's requirement that doctors must demonstrate a patient's exceptional clinical circumstances is itself contradictory in a culture of equality. Surely, anyone diagnosed with a complex, more specialist condition in itself makes for an exceptional circumstance. When a consultant identifies the necessary treatment requested, they should not be overruled by a panel so far removed from the patient and their needs. Alarmingly, patients in Wales are now more likely to have their IPFR for cancer treatment rejected than approved, and the number of rejections more than trebled between 2010 and 2013. This point has been raised by the Rarer Cancers Foundation, making it clear that its opinion is that the current system in Wales is unsuitable for cancer treatment requests. How can one life be worth more than another? How can the life of someone be valued by which side of the border they live? That is what the Welsh Government is implying by simply refusing to establish a cancer treatment plan or to even look into the establishment of a cancer treatment fund—there is a definite, 'No, we're not going to do it'.

Ar adeg pan fyddwch yn brwydro yn erbyn pob disgwyl, ni ddylai mynediad i driniaeth neu gyffuriau a allai ymestyn bywyd fod yn agos at feddwl rhywun. Mae gofyniad y Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol fod yn rhaid i feddygon ddangos bod amgylchiadau clinigol y claf yn eithriadol ynddo'i hun yn anghyson mewn diwylliant o gydraddoldeb. Onid yw unrhyw un sydd wedi cael diagnosis o gyflwr cymhleth, mwy arbenigol ynddo'i hun yn amgylchiad eithriadol. Pan fydd ymgynghorydd yn nodi'r driniaeth angenrheidiol y gofynnir amdani, ni ddylai gael ei wrthod gan banel sydd mor bell oddi wrth y claf a'i anghenion. Mae'n frawychus fod cleifion yng Nghymru bellach yn fwy tebygol o gael eu Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol am driniaeth canser wedi'u gwrthod yn hytrach na'u cymeradwyo ac mae nifer y gwrthodiadau wedi mwy na threblu rhwng 2010 a 2013. Mae'r Sefydliad Canserau Prin wedi nodi'r pwynt gan ei gwneud yn glir ei fod o'r farn fod y system bresennol yng Nghymru yn anaddas ar gyfer ceisiadau triniaeth canser. Sut y gall un bywyd fod yn werth mwy nag un arall? Sut y gellir rhoi gwerth ar fywyd rhywun yn ôl pa ochr i'r ffin y mae'n byw? Dyna'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei awgrymu drwy wrthod sefydlu cynllun triniaeth canser neu hyd yn oed i ystyried sefydlu cronfa triniaethau canser—mae'n dweud yn bendant, 'Na, nid ydym yn mynd i wneud hynny'.

While we know that there is a cost and pressure surrounding the establishment of this, we know of waste in the system—free prescriptions. Last year, the Welsh NHS spent £4.6 million on paracetamol alone, often to those who have the means to find the 29p to buy it.

Er ein bod yn gwybod bod cost a phwysau ynghlwm wrth sefydlu hyn, gwyddom am wastraff yn y system—presgripsiynau am ddim. Y llynedd, gwariodd y GIG yng Nghymru £4.6 miliwn ar barasetamol yn unig, yn aml i rai sydd â'r modd i ddod o hyd i'r 29c i'w brynu.

15:59 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just wonder why you are advocating the cancer drugs fund, which is being abolished in England next year. I am confused as to why you would want to introduce something that has been found wanting in England.

Rwy'n rhyfeddu pam yr ewch ati i hyrwyddo cronfa gyffuriau canser sy'n cael ei diddymu yn Lloegr y flwyddyn nesaf. Rwy'n ddryslyd ynglŷn â pham y byddech eisiau cyflwyno rhywbeth y gwelwyd ei fod yn ddiffygiol yn Lloegr.

15:59 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With all due respect to the Member, I have actually said the cancer drugs and treatment fund.

Gyda phob dyledus barch i'r Aelod, y gronfa gyffuriau a thriniaethau canser a ddywedais i mewn gwirionedd.

Speak to the pharmacists about the dangers of stockpiling drugs that patients never use. A case in my own constituency involved an old-age pensioner actually being targeted for the constant supply of medication that he was able to obtain—and he was offered money for it. By 2030, Macmillan estimates there will be over 4 million people living with cancer in the United Kingdom as a whole, compared to the 2 million sufferers in 2010. The Welsh Government must take every step possible to end the current postcode lottery system. I thank Ann Wilkinson and Julie McGowan for their determination in obtaining the required treatment and for standing up for those less fortunate. These people do not have the wherewithal of a Minister's portfolio, but they have guts and determination. The people of Wales need a common sense approach. Forget the freebies, forget the gimmicks, and please prioritise a cancer treatments fund for Wales.

Siaradwch â'r fferyllwyr am beryglon pentyrru cyffuriau nad yw cleifion byth yn eu defnyddio. Roedd achos yn fy etholaeth o bensiynwr oedrannus a gafodd ei dargedu oherwydd y cyflenwad cyson o feddyginiaeth y gallai eu cael—a châi gynnig arian amdanynt. Erbyn 2030, mae Macmillan yn amcangyfrif y bydd dros 4 miliwn o bobl yn byw gyda chanser yn y Deyrnas Unedig yn gyfan, o gymharu â'r 2 filiwn o ddioddefwyr yn 2010. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi pob cam posibl ar waith i roi terfyn ar y system loteri cod post gyfredol. Diolch i Ann Wilkinson a Julie McGowan am eu penderfyniad i gael y driniaeth angenrheidiol ac am sefyll dros rai llai ffodus. Nid oes gan y bobl hyn fanteision portffolio Gweinidogol, ond mae ganddynt ddewrder a phenderfyniad. Mae angen i bobl Cymru gael ymagwedd synnwyr cyffredin. Anghofiwch y pethau am ddim, anghofiwch y gimics, ac os gwelwch yn dda rhowch flaenoriaeth i gronfa triniaethau canser i Gymru.

16:00 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to speak in this with some difficulty, because I think that it is a very emotional subject. I think that it is one that we have to look at from a wider perspective, because anyone who has nursed a loved one or has been involved with a loved one, know how they feel, and everyone knows how they feel. I think that the way in which the scaremongering that we are hearing at the moment from certain quarters within the press—[Interruption.] You can have your say later. The scaremongering that we are hearing from the right-wing press, I think, is not just merely inaccurate and irresponsible; it is callous, and people should remember that we are talking about individuals and their families in this.

Rwy'n codi i siarad am hyn gyda rhywfaint o anhawster oherwydd credaf ei fod yn bwnc emosiynol iawn. Rwy'n credu ei fod yn un y mae'n rhaid i ni edrych arno o bersbectif ehangach, gan fod unrhyw un sydd wedi nyrsio rhywun annwyl neu sydd wedi bod yn gysylltiedig â rhywun annwyl, yn gwybod sut y maent yn teimlo, ac mae pawb yn gwybod sut y maent yn teimlo. Rwy'n meddwl bod y ffordd y mae'r codi bwganod rydym yn ei glywed ar hyn o bryd gan rai yn y wasg— [Torri ar draws.] Gallwch ddweud eich dweud yn nes ymlaen. Mae'r codi bwganod rydym yn ei glywed gan y wasg adain dde nid yn unig yn anghywir ac yn anghyfrifol yn fy marn i; mae'n ddideimlad, a dylai pobl gofio ein bod yn sôn am unigolion a'u teuluoedd yn hyn o beth.

The 'Daily Mail' boldly declared recently that there was a mass exodus of Welsh cancer sufferers under way, with 15,000 fleeing to the other side of Offa's Dyke in desperation for cancer treatment. As Darren Millar alluded to, 16,000 people are diagnosed with cancer every year, so I do find that particular 'Daily Mail' truth to be questionable. Of course, these sorts of outright lies that we can expect from this paper are to be listened to, because this is the same paper that, back in 2009, published a serious article claiming that chips, soup and even using Facebook can cause cancer, which could be prevented in their way by upping ones intake of tofu and ketchup. I rest my case with that paper.

Datganodd y 'Daily Mail' yn eofn yn ddiweddar bod ecsodus mawr o ddioddefwyr canser ar y gweill o Gymru gyda 15,000 yn ffoi mewn anobaith i'r ochr arall i Glawdd Offa i gael triniaeth canser. Fel y soniodd Darren Millar, mae 16,000 o bobl yn cael diagnosis o ganser bob blwyddyn, felly rwy'n amheus braidd o'r gwirionedd penodol hwnnw gan y 'Daily Mail'. Wrth gwrs, gallwn ddisgwyl y bydd y mathau hyn o gelwydd noeth gan y papur hwn yn cael eu clywed gan mai dyna'r un papur a gyhoeddodd erthygl ddifrifol yn ôl yn 2009 yn cyhoeddi bod sglodion, cawl a hyd yn oed defnyddio Facebook yn gallu achosi canserau y gellid eu hatal drwy fwyta mwy o tofu a sos coch. Dyna gloi fy nadl ar y papur hwnnw.

The implementation of a cancer drugs fund would almost certainly widen health inequalities in Wales and pit one set of patients against another. Any moneys put into such a fund must be taken away from the treatment of other serious and potentially life-threatening conditions, as is the case—I am sad to say—in England.

Byddai gweithredu cronfa gyffuriau canser bron yn sicr yn ehangu anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru ac yn gosod un set o gleifion yn erbyn y llall. Rhaid i unrhyw arian a roddir mewn cronfa o'r fath gael ei dynnu oddi wrth driniaethau cyflyrau difrifol eraill a chlefydau sy'n bygwth bywyd o bosibl fel sy'n wir—mae'n ddrwg gennyf ddweud —yn Lloegr.

I know that Darren said that he did not want to hear anyone talk about it, but I must remind the Tories that it is their party in London that is making the most drastic cut in a generation in public spending in Wales. The cuts that the Tory UK Government has imposed on the Welsh block grant of £1.7 billion will have to have an effect. So, even if a fund was in the interest of patients and the NHS in Wales, where on earth do the Tories think they will get the money for this, on top of the constant calls from all the Tory spokespeople for extra funding to go on their individual pet projects?

Gwn fod Darren wedi dweud nad oedd am glywed neb yn siarad am y peth ond mae'n rhaid i mi atgoffa'r Torïaid mai eu plaid yn Llundain sy'n gwneud y toriad mwyaf eithafol mewn cenhedlaeth mewn gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y toriadau y mae Llywodraeth Dorïaidd y DU wedi'u gwneud i grant bloc Cymru o £1.7 biliwn yn sicr o gael effaith. Felly, hyd yn oed pe bai cronfa o fudd i gleifion a GIG Cymru, lle ar y ddaear y mae'r Torïaid yn meddwl y byddant yn cael yr arian i wneud hyn ar ben y galwadau cyson gan holl lefarwyr y Torïaid am arian ychwanegol i fwrw ymlaen â'u hoff brosiectau unigol?

The NHS has a duty of care to all citizens in Wales, and a cancer drugs fund would certainly conflict with the founding principles of Nye Bevan.

Mae gan y GIG ddyletswydd gofal i bob dinesydd yng Nghymru a byddai cronfa gyffuriau canser yn sicr yn gwrthdaro ag egwyddorion sylfaenol Nye Bevan.

We need to ensure that all patients have access to good care. Patients with conditions such as MS—incidentally, Wales is the first country in the UK to make Sativex available to patients—also need access to high-quality medicines, and I very much agree with Elin Jones's contribution.

Mae angen i ni sicrhau bod pob claf yn cael mynediad at ofal da. Mae cleifion â chyflyrau megis MS—gyda llaw, Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i sicrhau bod Sativex ar gael i gleifion—angen mynediad at feddyginiaethau o ansawdd uchel hefyd, ac rwy'n cytuno i raddau helaeth iawn â chyfraniad Elin Jones.

Abandoning the evidence-based approach that the Welsh Government has pursued to date for a speculative system, which is a cancer drugs fund like that in England, which its own chair has admitted provides funding for cancer drugs that have 'no impact on survival', and 'uncertainty' as to whether the quality of life is improved or not, would be a disaster for our NHS, for our clinicians and, most importantly, for all of the public who rely on our NHS.

Byddai rhoi'r gorau i'r dull o weithredu ar sail tystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio hyd yn hyn a mabwysiadu system ar hap, sef cronfa gyffuriau canser fel yr un yn Lloegr y mae ei chadeirydd ei hun wedi cyfaddef ei bod yn darparu cyllid ar gyfer cyffuriau canser 'heb ddim effaith ar oroesiad', ac 'ansicrwydd' ynglŷn â pha un a yw ansawdd bywyd yn cael ei wella ai peidio, yn drychineb i'n GIG, i'n clinigwyr ac yn bwysicaf oll, i bawb o'r cyhoedd sy'n dibynnu ar ein GIG.

16:04

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a very important debate, really. Cancer treatment is vital for the sickness that does not have a proper cure. My colleagues have mentioned quite a lot on this subject, but I would like to pass on some of the comments that have been made outside on the placards. This kind Minister did not bother to go to see them. I have the words of those individuals with me here, which I will read one by one, if you have the time, Deputy Presiding Officer. One said, 'We in Wales deserve the same treatment as those in England suffering from cancer. Why a separate Wales? Why are we different? The UK is one.'

Mae'n ddadl wirioneddol bwysig. Mae triniaeth canser yn hanfodol ar gyfer y salwch hwn nad oes iddo iachâd priodol. Mae fy nghydweithwyr wedi sôn cryn dipyn am y pwnc ond hoffwn gyflwyno rhai o'r sylwadau a wnaed y tu allan ar y placardiau. Ni thrafferthodd y Gweinidog caredig hwn i fynd i'w gweld. Mae gen i eiriau'r unigolion hynny yma ac rwyf am eu darllen yn unigol os oes gennych amser, Ddirprwy Lywydd. Dywedodd un, 'Rydym ni yng Nghymru yn haeddu'r un driniaeth â dioddefwyr canser yn Lloegr. Pam y mae Cymru ar wahân? Pam rydym yn wahanol? Un wlad yw'r DU.'

'It is scandalous that Welsh residents are treated like second-class citizens by this Assembly and this Minister.'

'Mae'n warthus bod trigolion Cymru yn cael eu trin fel dinasyddion eilradd gan y Cynulliad hwn a'r Gweinidog hwn.'

'My mother needed Avastin but was not allowed it.'

'Roedd fy mam angen Avastin ond ni chaniatawyd iddi ei gael.'

Minister, these are people from all over Wales—east, west, north and south. I do not have enough time to mention their names and addresses, but they are all here.

Weinidog, dyma bobl o bob rhan o Gymru—dwyrain, gorllewin, gogledd a de. Nid oes gennyf ddigon o amser i ddweud eu henwau a'u cyfeiriadau, ond maent i gyd yma.

'Welsh residents have paid into the NHS all their lives so they deserve parity with those in England.'

'Mae trigolion Cymru wedi talu am y GIG ar hyd eu hoes felly maent yn haeddu bod yn gydradd â thrigolion Lloegr.'

'The postcode lottery is horrendous. Go away, Welsh Assembly. I'm ashamed to be Welsh.'

'Mae'r loteri cod post yn erchyll. Ewch o 'ma Gynulliad Cymru. Mae gen i gywilydd bod yn Gymro.'

That came from a gentleman in Usk.

Cafwyd hynny gan ŵr ym Mrynbuga.

'I want equality with England.'

'Rwyf eisiau cydraddoldeb â Lloegr.'

That is from another individual.

Daw hynny gan unigolyn arall.

'Everyone should have the right to receive cancer drugs, not just selected people.'

'Dylai pawb gael yr hawl i gael cyffuriau canser, nid rhai pobl ddethol yn unig.'

'We thought we paid into the national health service.'

'Roeddem yn meddwl ein bod ni wedi talu am y gwasanaeth iechyd gwladol.'

That is from someone in Welshpool. Another gentleman says, 'I have paid national insurance for over 45 years and believe the latest cancer drug should be available to all.'

Daw hynny gan rywun yn y Trallwng. Mae un gŵr arall yn dweud, 'Rwyf wedi talu yswiriant gwladol ers dros 45 mlynedd ac yn credu y dylai'r cyffur canser diweddaraf fod ar gael i bawb.'

Someone from Pontyclun said, 'My wife passed away not long after being refused funding for Avastin to treat bowel cancer. She was just 30 years old. I'm embarrassed to be Welsh.'

Rhywun o Bont-y-clun a ddywedodd, 'Bu farw fy ngwraig heb fod yn hir ar ôl i gyllid ar gyfer Avastin i drin canser y coluddyn gael ei wrthod iddi. Dim ond 30 oed oedd hi. Mae gen i embaras bod yn Gymro. '

Another one from Cowbridge says, 'I have cancer within my family and to think that they could miss out on vital treatments in a first world country in 2014 upsets me greatly.'

Dywedodd un arall o'r Bont-faen, 'Mae canser yn fy nheulu ac mae meddwl y gallent golli allan ar driniaethau hanfodol mewn gwlad ddatblygedig yn 2014 yn fy ngofidio'n fawr.'

This is another one:

Dyma un arall:

'My husband was denied a capsule that would direct radiotherapy to the cancers in his body. He died a month later.'

'Gwrthodwyd capsiwl i fy ngŵr a fyddai'n cyfeirio radiotherapi at y canserau yn ei gorff. Bu farw fis yn ddiweddarach.'

What a shame, Minister.

Am drueni, Weinidog.

'The Welsh Assembly should be able to look after the people it is supposed to represent, otherwise what is the point of it?'

'Dylai Cynulliad Cymru allu gofalu am y bobl y mae i fod i'w cynrychioli. Fel arall, beth yw ei ddiben?'

That comes from a gentleman in Cardiff.

Daw hynny gan ŵr yng Nghaerdydd.

'Welsh people should have the same right as those in England.'

'Dylai pobl yng Nghymru gael yr un hawl â phobl yn Lloegr.'

'The Welsh health service does not work fairly. I'm moving back to England to get a better deal.'

'Nid yw'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn gweithio'n deg. Rwy'n symud yn ôl i Loegr i gael bargen well.'

Those are from people in Pembrokeshire and places in north Wales. Another one is:

Daw'r sylwadau hynny gan bobl yn Sir Benfro a rhannau o ogledd Cymru. Dyma un arall:

'I'm also fighting for Avastin. I have written to Mark Drakeford on several occasions, but I have got nowhere. We will carry on campaigning.'

'Rwyf i hefyd yn ymladd i gael Avastin. Rwyf wedi ysgrifennu at Mark Drakeford ar sawl achlysur ond nid wyf wedi cael unrhyw lwyddiant. Byddwn yn parhau i ymgyrchu. '

Another gentleman wrote in to say:

Ysgrifennodd gŵr arall:

'This is a disgrace. Sort out the Welsh Government, please.'

'Mae hyn yn warthus. Rhowch drefn ar Lywodraeth Cymru, os gwelwch yn dda. '

This is a plea from those few, out of 98,000 voices in this country, Minister.

Dyna ble gan rai o blith 98,000 o leisiau yn y wlad hon, Weinidog.

Cancer is a disease that affects every family in Wales. You have heard that. We have failed in Wales. For 95% of urgent cancer patients to have a referral to start treatment within 62 days, we have failed that target. We set this target in 2008 and the target for waiting times has also been missed and the cancer treatments fund has not been established. Minister, there is an outcry by hundreds and thousands of people. On this side of the Chamber, we want to ring-fence this funding and make sure that everybody has fair treatment, because there is no cure. We know that. The cure that is available should be given to the people who need it. It should not be about stopping the funding and not giving the treatment. We believe on this side of the Chamber that a £5 million drugs fund should be set up; that £5 million would be a small percentage of the current health budget. That would be a very tiny budget, Minister.

Mae canser yn glefyd sy'n effeithio ar bob teulu yng Nghymru. Rydych wedi clywed hynny. Rydym wedi methu yng Nghymru. Sicrhau bod 95% o gleifion canser brys gael eu hatgyfeirio i ddechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod: rydym wedi methu â chyrraedd y targed hwnnw. Gosodwyd y targed gennym yn 2008 ac mae'r targed ar gyfer amseroedd aros hefyd heb ei gyrraedd, ac nid yw'r gronfa triniaethau canser wedi cael ei sefydlu. Weinidog, mae cannoedd ar filoedd o bobl yn protestio. Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym yn awyddus i'r cyllid gael ei neilltuo a gwneud yn siŵr fod pawb yn cael triniaeth deg, gan nad oes gwellhad. Gwyddom hynny. Dylai'r feddyginiaeth sydd ar gael ei rhoi i'r bobl sydd ei hangen. Nid mater o atal y cyllid a pheidio â rhoi triniaeth yw hyn. Ar yr ochr hon i'r Siambr, credwn y dylid sefydlu cronfa gyffuriau gwerth £5 miliwn; canran fach o'r gyllideb iechyd gyfredol fyddai'r £5 miliwn hwnnw. Byddai'n gyllideb fach iawn, Weinidog.

The people of Wales want Welsh cancer patients to have access rights equal to those in England. Today, as a result of the petition signed by more than 98,000 people in Wales, the Welsh Government must set up this fund. I call upon the Minister to listen to the people of Wales and act accordingly. I know he is a kind-hearted gentleman. I do not know why he is not helping.

Mae pobl Cymru am i gleifion canser yng Nghymru gael hawliau mynediad cyfartal â phobl Lloegr. Heddiw, o ganlyniad i ddeiseb a lofnodwyd gan dros 98,000 o bobl yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu'r gronfa hon. Galwaf ar y Gweinidog i wrando ar bobl Cymru a gweithredu'n unol â hynny. Gwn fod ganddo galon garedig. Nid wyf yn gwybod pam nad yw'n helpu.

16:09

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

16:09

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

I am going to do three things in the time available to me. I am going to explain why a cancer drugs fund or a cancer treatments fund is not supported by the Welsh Government, just as there is no such fund in Scotland or in Northern Ireland. I will then set out some key facts about cancer services here in Wales and, finally, I will set out the basis on which the Government will support the amendment in front of the National Assembly today, in the name of Elin Jones.

Rwy'n mynd i wneud tri pheth yn yr amser sydd ar gael i mi. Rwy'n mynd i esbonio pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi cronfa gyffuriau canser neu gronfa triniaethau canser, yn union fel nad oes cronfa o'r fath yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon. Byddaf wedyn yn nodi rhai ffeithiau allweddol am wasanaethau canser yma yng Nghymru ac yn olaf, byddaf yn nodi ar ba sail y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw, yn enw Elin Jones.

The Welsh Government has no plans to establish a cancer drugs fund or a cancer treatments fund. Just last month, Sir Bruce Keogh, medical director of the NHS in England, told 'The Times' newspaper that the fund must become integrated into the NICE system that it was designed to circumvent. The chief executive of NICE told the same paper that nobody thinks that the present system—that is to say, the cancer drugs fund—is working. It is not working because, as the Bristol study found, the fund is

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i sefydlu cronfa gyffuriau canser neu gronfa triniaethau canser. Fis diwethaf yn unig, dywedodd Syr Bruce Keogh, cyfarwyddwr meddygol y GIG yn Lloegr, wrth bapur newydd 'The Times' fod yn rhaid i'r gronfa gael ei hintegreiddio i mewn i system NICE y'i cynlluniwyd i'w hosgoi. Dywedodd prif weithredwr NICE wrth yr un papur nad oes neb yn credu bod y system bresennol—hynny yw, y gronfa gyffuriau canser—yn gweithio. Nid yw'n gweithio, oherwydd fel y canfu astudiaeth Bryste, mae'r gronfa yn

'ethically dubious, clinically contentious and unpopular with the public'.

'foesegol amheus, yn glinigol ddadleuol ac yn amhoblogaidd gyda'r cyhoedd'.

It is a fund that undermines the work of NICE and provides English patients with increased access to drugs that are neither clinically nor cost effective, while Welsh patients, the Bristol study found, have faster access to drugs that are both.

Mae'n gronfa sy'n tanseilio gwaith NICE ac yn cynyddu mynediad cleifion yn Lloegr at gyffuriau nad ydynt yn effeithiol yn glinigol nac yn gosteffeithiol, tra gwelodd astudiaeth Bryste fod cleifion Cymru yn cael mynediad cyflymach at gyffuriau sy'n effeithiol yn glinigol ac yn gosteffeithiol.

Let me take the ethical issue first, as Kirsty Williams and Elin Jones did. At the end of September, Professor John Appleby, chief economist at the King's Fund, put it this way. The fund raises a fundamental ethical dilemma: should certain NHS patients' lives be valued more highly than others? In effect, the cancer drugs fund undermines the underlying principle that all lives are of equal value. That is what today's motion would seek to create here in Wales. I understand that access to very specialist drugs takes place at very distressing times in people's lives, and that these decisions are made in these most difficult circumstances. That distress is not assisted by the alarmist talk that we have heard here this afternoon.

Gadewch i mi ymdrin â'r mater moesegol yn gyntaf, fel y gwnaeth Kirsty Williams ac Elin Jones. Ddiwedd mis Medi, dywedodd yr Athro John Appleby, prif economegydd gyda Chronfa'r Brenin fod y gronfa yn creu cyfyng-gyngor moesegol sylfaenol: a ddylid gosod mwy o werth ar fywydau rhai o gleifion y GIG nag eraill? I bob pwrpas, mae'r gronfa gyffuriau canser yn tanseilio'r egwyddor sylfaenol bod gwerth cyfartal i bob bywyd. Dyna beth fyddai cynnig heddiw yn ceisio ei greu yma yng Nghymru. Rwy'n deall bod mynediad at gyffuriau arbenigol iawn yn digwydd ar adegau trallodus iawn ym mywydau pobl a bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn yr amgylchiadau mwyaf anodd. Ni chaiff trallod o'r fath ei leddfu gan y codi bwganod a glywsom y prynhawn yma.

However, at least here in Wales, we can be sure that decisions do not differentiate between individual patients by privileging those who suffer from one form of illness over all others. The Welsh Government believes that all patients should receive a comprehensive package of the best, cost-effective, evidence-based NHS treatment and care to meet their clinical needs. To do that, we are guided by recommendations by the National Institute for Health and Care Excellence and the all Wales medicines strategy group. They make their decisions on evidence, on input from clinicians, health professionals and patients. That is the basis on which we proceed here in Wales.

Fodd bynnag, yma yng Nghymru o leiaf, gallwn fod yn sicr nad yw penderfyniadau yn gwahaniaethu rhwng cleifion unigol drwy roi blaenoriaeth i rai sy'n dioddef o un math o salwch dros y lleill i gyd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai pob claf gael pecyn cynhwysfawr o driniaeth a gofal GIG gorau, costeffeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth i ddiwallu eu hanghenion clinigol. I wneud hynny, cawn ein harwain gan argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal a Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Maent yn gwneud eu penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ar sail mewnbwn gan glinigwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a chleifion. Dyna'r sail y byddwn yn symud ymlaen arno yma yng Nghymru.

Let us look at the result of that. On an equivalent basis, we spend more here in Wales on the drugs provided in the cancer drugs fund than the fund provides for patients in England. The fund in July this year listed 31 drugs that it funded. In 2012-13, expenditure on those same drugs by the Welsh NHS was, at the minimum estimate, £15 million. In 2013-14, that spend had risen to £18 million, or £306 million on an equivalent population share, spent here in Wales on drugs that the £200 million cancer drugs fund provides in England. Of course, that is only part of the £361 million spent on cancer services here in Wales—spend through which we provide faster access to treatment on both 62 and 31-day pathways than patients covered by the cancer drugs fund; we secure the fastest improvement in cancer survival rates at one year and five years of all four UK nations; we sustain the highest cervical cancer screening rates and the lowest incidence of cervical cancer in the United Kingdom; we exceed the standard for breast care screening, with the lowest level of breast cancer mortality in Britain; and we implement the recommendations of the all Wales medicines strategy group. It appraised 37 medications last year and recommended 35 of them for use in the Welsh NHS, including medicines not available elsewhere in the United Kingdom. Indeed, of the 19 new cancer medicines available through the AWMSG routinely in Wales, only nine are available through the cancer drugs fund in England. That spend also allows us to invest, through the health technologies fund, in the way that Kirsty Williams described.

Gadewch i ni edrych ar ganlyniad hynny. Ar sail gyfatebol, rydym yn gwario mwy yma yng Nghymru ar y cyffuriau a ddarperir yn y gronfa gyffuriau canser nag y mae'r gronfa yn ei ddarparu ar gyfer cleifion yn Lloegr. Ym mis Gorffennaf eleni, rhestrodd y gronfa 31 o gyffuriau a gyllidwyd ganddi. Yn 2012-13, roedd gwariant GIG Cymru ar yr union gyffuriau hynny yn ôl yr amcangyfrif isaf yn £15 miliwn. Yn 2013-14, roedd y gwariant hwnnw wedi codi i £18 miliwn, neu £306 miliwn fel cyfran gyfatebol o'r boblogaeth, a wariwyd yma yng Nghymru ar gyffuriau y mae'r gronfa ganser £200 miliwn yn eu darparu yn Lloegr. Wrth gwrs, dim ond rhan o'r £361 miliwn a wariwyd ar wasanaethau canser yma yng Nghymru yw hynny—gwariant sy'n ein galluogi i ddarparu mynediad cyflymach at driniaeth ar lwybrau 62 a 31 diwrnod na'r cleifion sy'n cael cymorth y gronfa gyffuriau canser; gennym ni y mae'r gwelliant cyflymaf yn y cyfraddau goroesi canser ar ôl blwyddyn ac ar ôl pum mlynedd o bedair gwlad y DU; ni sydd â'r cyfraddau sgrinio canser ceg y groth uchaf a'r nifer isaf o achosion o ganser ceg y groth yn y Deyrnas Unedig; rydym yn rhagori ar y safon ar gyfer sgrinio'r fron, gyda'r lefel isaf o farwolaethau o ganser y fron ym Mhrydain; ac rydym yn gweithredu argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Arfarnodd y grŵp 37 o feddyginiaethau y llynedd ac argymhellodd 35 ohonynt i'w defnyddio gan y GIG yng Nghymru, yn cynnwys meddyginiaethau nad ydynt ar gael mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Yn wir, o'r 19 o feddyginiaethau canser newydd sydd ar gael drwy'r AWMSG fel mater o drefn yng Nghymru, dim ond naw sydd ar gael drwy'r gronfa gyffuriau canser yn Lloegr. Mae'r gwariant hwnnw hefyd yn ein galluogi i fuddsoddi, drwy'r gronfa technoleg iechyd, yn y modd a ddisgrifiodd Kirsty Williams.

I could say more, but let me end this part of what I have to say by repeating what cancer patients in Wales themselves had to say. The cancer experience survey conducted by Macmillan demonstrated satisfaction levels with cancer services in Wales that put Welsh hospitals at the top of the European league.

Gallwn ddweud rhagor ond gadewch i mi orffen y rhan yma o'r hyn sydd gennyf i'w ddweud drwy ailadrodd yr hyn y mae cleifion canser Cymru eu hunain wedi ei ddweud. Dangosodd yr arolwg profiad canser a gynhaliwyd gan Macmillan fod lefelau boddhad â gwasanaethau canser yng Nghymru yn gosod ysbytai Cymru ar frig y gynghrair Ewropeaidd.

Finally, let me explain why we will support the amendment that calls for an all-Wales approach to ensure consistency and equity in access to cancer treatments. Earlier today, as you have heard, I published the Welsh Government's final response to the review of the individual patient funding requests process that we have here in Wales. We have accepted all of the key recommendations of the review, which will help us to secure a new level of national consistency in the way in which these decisions are made, not solely for cancer sufferers, of course, but for all Welsh patients seeking access to very specialist medicines.

Yn olaf, gadewch i mi egluro pam y byddwn yn cefnogi'r gwelliant sy'n galw am ddull Cymru gyfan i sicrhau cysondeb a thegwch o ran mynediad at driniaethau canser. Yn gynharach heddiw, fel rydych wedi clywed, cyhoeddais ymateb terfynol Llywodraeth Cymru i'r adolygiad o'r broses ceisiadau cyllido cleifion unigol sydd gennym yng Nghymru. Rydym wedi derbyn pob un o argymhellion allweddol yr adolygiad a fydd yn ein helpu i sicrhau lefel newydd o gysondeb cenedlaethol yn y ffordd y caiff y penderfyniadau hyn eu gwneud, nid yn unig ar gyfer dioddefwyr canser, wrth gwrs, ond ar gyfer holl gleifion Cymru sy'n ceisio mynediad at feddyginiaethau arbenigol iawn.

The new arrangements that we have put in place will centre around the all-Wales therapeutics and toxicology centre, which will be chaired by the retiring head of the All Wales Medicines Strategy Group, Professor Phil Rutledge. That centre will provide an expert co-ordinating role; it will undertake rapid reviews to provide the best evidence about new medicines; it will support training to support consistent decision making; it will monitor and analyse the outcomes of IPFR decisions to improve transparency and confidence; it will directly appraise orphan and ultra-orphan drugs to ensure national access to new and innovative medicines where these are clinically effective and cost-effective; and, maybe most importantly of all, it will provide a new focus on outcomes, tracking the difference that all of this makes, or does not make, to the lives of individual patients. All of this amounts, I believe, to an all-Wales approach based on the consistency and equity to which the amendment points and to which we are committed. In that way, we will continue to provide a set of treatments for cancer patients in Wales that does not pit their interests against those of others, which is clinically driven, based on timely and authoritative advice applied in a consistent and coherent manner and which provides a service for patients in Wales of which we and they can be proud.

Bydd y trefniadau newydd rydym wedi'u rhoi ar waith yn canolbwyntio ar ganolfan therapiwteg a thocsicoleg Cymru gyfan, dan gadeiryddiaeth yr Athro Phil Rutledge, pennaeth Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan sy'n ymddeol. Bydd y ganolfan yn darparu rôl gydlynol arbenigol; bydd yn cynnal adolygiadau cyflym i ddarparu'r dystiolaeth orau am feddyginiaethau newydd; bydd yn cefnogi hyfforddiant i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau; bydd yn monitro ac yn dadansoddi canlyniadau penderfyniadau Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol er mwyn gwella tryloywder a hyder; bydd yn arfarnu cyffuriau amddifad a thra-amddifad yn uniongyrchol i sicrhau mynediad cenedlaethol i feddyginiaethau newydd ac arloesol lle mae'r rhain yn glinigol effeithiol ac yn gosteffeithiol; ac efallai'n bwysicaf oll, bydd yn cynnig ffocws newydd ar ganlyniadau, gan olrhain pa wahaniaeth y mae hyn i gyd yn ei wneud i fywydau cleifion unigol. Yn fy marn i, mae hyn i gyd yn creu dull Cymru gyfan yn seiliedig ar gysondeb a thegwch y mae'r gwelliannau a ninnau wedi ymrwymo iddynt. Yn y ffordd hon, byddwn yn parhau i ddarparu set o driniaethau ar gyfer cleifion canser yng Nghymru nad yw'n gosod eu lles yn erbyn lles pobl eraill, triniaethau wedi'u hysgogi'n glinigol yn seiliedig ar gyngor amserol ac awdurdodol wedi'u cymhwyso mewn modd cyson a chydlynol, ac sy'n darparu gwasanaeth i gleifion Cymru y gallwn ninnau a hwythau ymfalchïo ynddo.

16:17

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Nick Ramsay to reply to the debate.

Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

16:17

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

I thank all Members who have contributed to this debate today, and I also thank them for the tone of the debate. I think that all Members have made points that were good and that needed to be aired. However, as you would expect me to say, I am still deeply disappointed, listening to the Minister's response there, that we are still falling short of that commitment that we on the Welsh Conservative benches want to a cancer treatment fund in Wales.

Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon heddiw, a diolch iddynt hefyd am naws y ddadl. Credaf fod yr holl Aelodau wedi gwneud pwyntiau da yr oedd angen eu gwyntyllu. Fodd bynnag, fel y byddech yn disgwyl, rwy'n dal yn siomedig iawn wrth wrando ar ymateb y Gweinidog yn awr ein bod yn dal yn brin o'r ymrwymiad rydym ni ar feinciau'r Ceidwadwyr Cymru ei eisiau i sefydlu cronfa triniaethau canser yng Nghymru.

Of course, the Minister clearly thinks that we are wrong on this. It is not the first time that he has thought that the Welsh Conservatives are wrong. I understand the political prejudice there. You often think that we are saying things that you would not agree with. However, it is not just us, is it? I have here at my feet the petition, signed by 98,230 people. That is not just the 14 of us, but 98,230 people who have said that they want a cancer treatment fund to be implemented in Wales.

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn amlwg yn credu ein bod yn anghywir ynglŷn â hyn. Nid dyma'r tro cyntaf iddo feddwl bod y Ceidwadwyr Cymreig yn anghywir. Rwy'n deall y rhagfarn wleidyddol. Rydych yn aml yn meddwl ein bod yn dweud pethau na fyddech yn cytuno â hwy. Fodd bynnag, nid dim ond ni yw hyn. Yma wrth fy nhraed mae'r ddeiseb a lofnodwyd gan 98,230 o bobl. Nid dim ond y 14 ohonom ni, ond 98,230 o bobl sydd wedi dweud eu bod am weld cronfa triniaethau canser yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru.

I thank the Minister for his statement earlier about the individual patient fund. It is good to see that the ground is moving, if ever so slightly, on this. However, of course, the problem is that—[Interruption.]

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad yn gynharach ynglŷn â'r gronfa cleifion unigol. Mae'n dda gweld bod pethau'n symud, er mor araf, ar hyn. Fodd bynnag, wrth gwrs, y broblem yw bod—[Torri ar draws.]

16:18

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Nick, can you remove the box from the desk? Thank you. Please carry on.

Gorchymyn. Nick, a allwch dynnu'r blwch oddi ar y ddesg? Diolch. Ewch yn eich blaen os gwelwch yn dda.

16:18

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The problem is that it is not moving far enough. It was telling, listening to the muted Labour backbenchers throughout this debate, as I think that many of you have found yourselves in a bit of a quandary—[Interruption.] Well, I think your resolute refusal to take any interventions from us really did show the quandry that you find yourselves in. Ann, you do not believe in your heart of hearts that it is right and acceptable to deny people—respresentatives who some of us saw on the steps of the Senedd earlier—that equal and fair access to cancer treatment that they deserve. How often in the Chamber do we hear the word 'fairness' and how often do we hear about equality? Words are fine, but what is actually happening on the ground? I will give you the courtesy of responding, although you did not allow other interventions.

Y broblem yw nad yw'n symud yn ddigon pell. Roedd gweld y meinciau cefn Llafur yn dawel drwy gydol y ddadl hon yn dweud llawer, gan fy mod yn credu bod llawer ohonoch yn wynebu tipyn o gyfyng-gyngor—[Torri ar draws.] Wel, rwy'n meddwl bod eich gwrthodiad pendant i gymryd unrhyw ymyriadau gennym wir yn dangos eich cyfyng-gyngor. Ann, nid ydych yn credu yn eich calon ei bod hi'n iawn ac yn dderbyniol i wrthod rhoi mynediad teg a chyfartal i bobl—cynrychiolwyr a welodd rhai ohonom ar risiau'r Senedd—at driniaeth canser y maent yn ei haeddu. Pa mor aml yn y Siambr y clywn y gair 'tegwch' a pha mor aml y clywn am gydraddoldeb? Mae geiriau'n iawn ond beth sy'n digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad? Byddaf yn gwrtais a gadael i chi ymateb er na wnaethoch chi ganiatáu ymyriadau gan eraill.

16:19

## Ann Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, and the reason that I did not allow an intervention was because the mover of your motion quite clearly did not allow interventions to start with, and that, to me, set the precedent. Therefore, I will agree with precedent setting in the Chamber. What I have to say to you is: the reason that you may have thought we were muted on this side was not for the reason you thought, it was out of respect for the number of people over there who have been offered false hope by your arguments.

Na, a'r rheswm na wneuthum ganiatáu ymyriadau oedd am ei bod yn ddigon amlwg nad oedd y sawl a gynigiodd eich cynnig yn caniatáu ymyriadau yn y lle cyntaf a hynny, i mi, a ododdodd y cynsail. Felly, rwy'n cytuno â'r cynsail a osodwyd yn y Siambr. Yr hyn sydd gennyf i'w ddweud wrthych yw hyn: nid yw'r rheswm pam y gallech fod wedi meddwl ein bod yn dawel ar yr ochr hon yr hyn roeddech yn ei feddwl. Roeddem yn dawel o barch at y nifer o bobl acw sydd wedi cael cynnig gobaith ffug gan eich dadleuon.

16:20

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To say that they have been offered false hope really does let down some of the points that were made by you earlier, Ann. This is not about offering false hope; this is about offering hope. It is as simple as that. The problem is that you, for some reason—I do not think that, in your heart of hearts, you really are against a cancer treatment fund—are setting yourselves against providing hope to all the people who have signed this petition and others who have not. To talk about the newspapers and the recent campaign, well, it takes a little while to get signatures together of that number on a petition, so this is not due to a recent media spat—this is a long-term ongoing concern about Welsh Government policy in this area.

Mae dweud eu bod wedi cael cynnig gobaith ffug wir yn difwyno rhai o'r pwyntiau a wnaed gennych chi yn gynharach, Ann. Nid yw hyn yn ymwneud â chynnig gobaith ffug; mae hyn yn ymwneud â chynnig gobaith. Mae mor syml â hynny. Y broblem yw eich bod chi, am ryw reswm—nid wyf yn meddwl eich bod chi yn eich calon yn erbyn cronfa triniaethau canser—yn benderfynol o beidio â rhoi gobaith i'r holl bobl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon ac eraill nad ydynt wedi gwneud hynny. A siarad am y papurau newydd a'r ymgyrch ddiweddar, wel, mae'n cymryd ychydig o amser i gasglu cymaint o lofnodion ag sydd ar y ddeiseb, felly nid canlyniad cecru diweddar yn y cyfryngau yw hyn—mae'n bryder hirdymor a pharhaus am bolisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Kirsty Williams spoke of the importance of ending the postcode lottery and the need for drugs to be available for use. There is an issue, as you mentioned, about the difference between what Welsh patients are getting and what English patients can access. You said that we need to know the full extent of the problem. I think that we have had so many debates about this in this Chamber that, yes, it is good to understand the full extent, but I think that we all know that there is a problem there. The cancer sufferers, many of whom we spoke to earlier, do not have time on their side to do it. We may have the time to stand here and prevaricate and to hear endless statements on this, but the time has come to have that cancer treatment fund delivered. I will give way briefly.

Siaradodd Kirsty Williams am bwysigrwydd dod â'r loteri cod post i ben a'r angen i gyffuriau fod ar gael i'w defnyddio. Mae yna broblem, fel y crybwyllwyd gennych, am y gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae cleifion yng Nghymru yn ei gael a'r hyn y mae cleifion yn Lloegr yn ei gael. Dywedasoch fod angen i ni wybod graddau llawn y broblem. Rwy'n credu ein bod wedi cael cymaint o ddadleuon ynglŷn â hyn yn y Siambr hon, fel ei bod hi'n dda gallu deall y graddau llawn, ydy, ond credaf ein bod i gyd yn gwybod bod yna broblem. Nid yw amser yn caniatáu i ddioddefwyr canser, y buom yn siarad â llawer ohonynt yn gynharach, i wneud hynny. Efallai fod gennym amser i sefyll yma ac osgoi ateb a chlywed datganiadau diddiwedd ar hyn ond mae'r amser wedi dod i gyflwyno'r gronfa triniaethau canser. Ildiaf yn fyr.

16:21

## Kirsty Williams [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

They are not just my words, Nick Ramsay, as to whether we know the true extent of the problem; they are the words of Cancer Research UK in Wales, which also says that it does not know the extent of the problem. We need to have a proper analysis of the problem otherwise we are never going to be able to persuade the Welsh Government to act. Would you agree with me that the long-term solution to this problem, which has not been mentioned by your side today, is a move at a UK level to value-based pricing and to a system of stratified medicine? That is the best and most effective way to draw an end to this debate and to ensure that everybody gets what they need.

Nid fy ngeiriau i'n unig ydynt, Nick Ramsay, ynglŷn ag a ydym yn gwybod beth yw gwir raddau'r broblem; geiriau Cancer Research UK yng Nghymru ydynt, sydd hefyd yn dweud nad yw'n gwybod graddau'r broblem. Mae angen i ni gael dadansoddiad priodol o'r broblem, fel arall nid ydym byth yn mynd i allu perswadio Llywodraeth Cymru i weithredu. A fyddech yn cytuno â mi mai'r ateb hirdymor i'r broblem, nad yw wedi ei grybwyll gan eich ochr chi heddiw, yw symud ar lefel y DU at brisio ar sail gwerth a system o feddyginiaeth haenedig? Dyna'r ffordd orau a mwyaf effeithiol o roi diwedd ar y ddadl hon ac i sicrhau bod pawb yn cael yr hyn y maent ei angen.

16:22

## Nick Ramsay [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think the point is, Kirsty, that something is better than nothing. I heard the Minister talking about outcomes earlier. Of course, we can talk day in, day out about the outcomes, but the point is that behind these statistics are people's lives and the families of people suffering from cancer. The point is, Kirsty, is that there is a problem and we need to act swiftly to deal with that. As Julie McGowan and Ann Wilkinson said to me on the steps of the Senedd earlier, and as Mohammad Asghar raised in his comments earlier, the purpose of devolution, at least as we understood it, was to localise decision making and to make the decision-making process and people's lives better. So, you really cannot blame the confusion of people who want to be enthusiastic about the Assembly, but have found themselves in this impossible position where, as Members on the Welsh Conservatives benches mentioned earlier, people now feel that they have to plough their life savings into treatment, sometimes at end of life, or sell their homes and move across the border. The border was never meant to be used like this. The border between England and Wales should be viewed far more positively than saying, 'If you're this side of the border, you cannot get that fairness and equality'. I say it again: fairness and equality. They are mentioned by so many Members here. They are issues that I know that many in the Labour Party believe in. For goodness' sake, let us get this into the decision-making process here and make sure that we can give cancer sufferers in Wales the treatments that they deserve.

Kirsty, rwy'n meddwl mai'r pwynt yw bod rhywbeth yn well na dim. Clywais y Gweinidog yn siarad am ganlyniadau yn gynharach. Wrth gwrs, gallwn siarad ddydd ar ôl dydd am y canlyniadau ond y pwynt yw mai bywydau pobl a theuluoedd pobl sy'n dioddef o ganser sydd y tu ôl i'r ystadegau hyn. Y pwynt, Kirsty, yw bod yna broblem ac mae angen i ni weithredu'n gyflym i ddelio â hynny. Fel y dywedodd Julie McGowan ac Ann Wilkinson wrthyf ar risiau'r Senedd yn gynharach ac fel y nododd Mohammad Asghar yn ei sylwadau yn gynharach, diben datganoli, fel rydym yn ei ddeall o leiaf, oedd lleoleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a gwneud y broses o benderfynu a bywydau pobl yn well. Felly, mewn gwirionedd ni allwch feio pobl sydd am fod yn frwdfrydig ynglŷn â'r Cynulliad, ond sydd wedi cael eu hunain yn y sefyllfa amhosibl hon, am fod yn ddryslyd, pan fo pobl yn teimlo bellach, fel y crybwyllodd Aelodau ar feinciau'r Ceidwadwyr Cymreig yn gynharach, fod yn rhaid iddynt ddefnyddio eu cynilion bywyd er mwyn cael triniaeth, weithiau ar ddiwedd eu hoes, neu werthu eu cartrefi a symud dros y ffin. Nid oedd y ffin erioed i fod i gael ei defnyddio fel hyn. Dylai'r ffin rhwng Cymru a Lloegr gael ei gweld yn llawer mwy cadarnhaol na dweud, 'Os ydych ar yr ochr hon i'r ffin, ni allwch gael tegwch a chydraddoldeb'. Dywedaf eto: tegwch a chydraddoldeb. Maent yn cael eu crybwyll gan gymaint o'r Aelodau yma. Maent yn faterion rwy'n gwybod bod llawer yn y Blaid Lafur yn credu ynddynt. Er mwyn popeth, gadewch i ni gael hyn yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yma a gwneud yn siŵr y gallwn roi'r triniaethau y maent yn eu haeddu i ddioddefwyr canser yng Nghymru.

To finish, as Antoinette Sandbach said, it cannot be right that patients feel that they have to move to get the treatment that they deserve. It is so obvious that I should not have to say it, but unfortunately I do and we do time and time again, because that is the predicament that people in Wales find themselves in. Was it not telling that all of those bids to the individual patient fund that Antoinette Sandbach spoke about were turned down? That is not good enough. We know that it is not good enough, you know that it is not good enough, and the people outside and in the gallery know that it is not good enough. Let us get a cancer treatment fund established in Wales as soon as possible, and let us move on.

I orffen, fel y dywedodd Antoinette Sandbach, ni all fod yn iawn fod cleifion yn teimlo rheidrwydd i symud er mwyn cael y driniaeth y maent yn ei haeddu. Mae mor amlwg fel na ddylai fod yn rhaid i mi ei ddweud, ond yn anffodus, mae rhaid, ac rydym yn ei ddweud dro ar ôl tro, oherwydd dyna yw'r sefyllfa anodd y mae pobl yng Nghymru ynddi. Onid oedd hi'n drawiadol fod pob un o'r ceisiadau i'r gronfa cleifion unigol y soniodd Antoinette Sandbach amdanynt wedi'u gwrthod? Nid yw hynny'n ddigon da. Rydym ni'n gwybod nad yw'n ddigon da, rydych chi'n gwybod nad yw'n ddigon da ac mae'r bobl y tu allan ac yn yr oriel yn gwybod nad yw'n ddigon da. Gadewch i ni sefydlu cronfa triniaethau canser yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd, a gadewch i ni symud ymlaen.

16:24

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection therefore I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly, rwy'n gohirio pleidleisio dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:24.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:24.*

# Dadl Plaid Cymru: Yr Economi

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3, 6 a 7 yn enw Paul Davies, gwelliant 4 yn enw Elin Jones, a gwelliant 5 yn enw Aled Roberts.*

# Plaid Cymru Debate: The Economy

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3, 6 and 7 in the name of Plaid Cymru, amendment 4 in the name of Elin Jones, and amendment 5 in the name of Aled Roberts.*

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Leanne Wood to move the motion.

Cynnig NDM5611 Elin Jones

Motion NDM5611 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod y bwlch anghydraddoldeb rhwng y bobl a'r rhanbarthau tlotaf a'r rhai cyfoethocaf wedi tyfu o dan y naill Lywodraeth y DU ar ôl y llall.

1. Regrets that the inequality gap between the poorest and richest people and regions has grown under successive UK Governments.

2. Yn nodi bod GYC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 62.7% o gyfartaledd y DU tra bod GYC y pen yng nghanol Llundain yn 308.8%.

2. Notes that GVA per capita in West Wales and the Valleys is 62.7% of the UK average while GVA per capita in Inner London is 308.8%.

3. Yn cydnabod yr angen i newid cydbwysedd economi'r DU i ffwrdd o grynodiad o gyfoeth yn ne-ddwyrain Lloegr.

3. Recognises the need for a rebalancing of the UK economy away from a concentration of wealth in the South East of England.

4. Yn nodi ffocws strategaeth economaidd Llywodraeth y DU ar y sector gwasanaethau ariannol ac yn nodi ymhellach, er y gall hwn fod yn sector twf yng Nghymru, fod gweithgynhyrchu, cynhyrchu ac allforion wrth wraidd economi Cymru.

4. Notes the focus of the UK Government's economic strategy on the financial services sector and further notes that whilst this can be a growth sector in Wales, the core of Wales's economy is built around manufacturing, production and exports.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

5. Calls on the Welsh Government to:

a) canolbwyntio ar wireddu ac adeiladu ar botensial economaidd Cymru;

a) focus on realising and building on Wales's economic potential;

b) blaenoriaethu buddsoddiadau seilwaith mewn ardaloedd sydd ei angen fwyaf;

b) prioritise infrastructure investments in areas that need it most;

c) sefydlu banc busnes sy'n eiddo i'r cyhoedd i gynnig cyllid i fusnesau bach ar gyfraddau cystadleuol; a

c) establish a publicly-owned business bank to offer finance to small businesses at competitive rates; and

d) ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i fod yn gymwys i bob busnes sydd â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.

d) extend the small business rate relief scheme to cover all businesses with a rateable value of £15,000 or less.

16:24

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to move this motion on behalf of Plaid Cymru, the Party of Wales. Plaid Cymru's view is that, for too long, power and wealth have been centred in one area of the UK, and concentrated in one sector, with dire consequences. Since our country's intentional de-industrialisation, inequality of opportunity for our people has been exacerbated. In my own home, the Rhondda, once an industrial powerhouse like many other communities, average earnings are nearly £300 less a week than they are in London.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cynnig hwn ar ran Plaid Cymru, the Party of Wales. Barn Plaid Cymru yw bod grym a chyfoeth wedi eu canoli mewn un ardal o'r DU yn rhy hir, a'u crynhoi mewn un sector, gyda chanlyniadau enbyd. Ers y dad-ddiwydiannu bwriadol yn ein gwlad, mae anghydraddoldeb cyfle i'n pobl wedi gwaethygu. Yn fy nghartref fy hun, y Rhondda, a oedd unwaith yn bwerdy diwydiannol fel llawer o gymunedau eraill, mae enillion cyfartalog bron £300 yr wythnos yn is nag yn Llundain.

GVA is one way to measure wealth in our economy. GVA per head in the central Valleys is less than £13,000, while in parts of inner London it is almost £130,000. These figures should shock. They are unacceptable, and yet these statistics are mirrored in the real day-to-day experiences of our friends, families and neighbours. That is why a rebalancing of power and wealth in the UK is not merely desirable but essential.

Mae Gwerth Ychwanegol Gros yn un ffordd o fesur cyfoeth yn ein heconomi. Mae GYC y pen yn y Cymoedd canol yn llai na £13,000 ac mewn rhannau o ganol Llundain mae bron yn £130,000. Dylai'r ffigurau hyn beri syndod. Maent yn annerbyniol, eto caiff yr ystadegau hyn eu hadlewyrchu ym mhrofiadau beunyddiol real ein ffrindiau, ein teuluoedd a'n cymdogion. Dyna pam y mae ailgydbwyso grym a chyfoeth yn y DU nid yn unig yn ddymunol ond yn hanfodol.

In 1997, a quarter of Welsh GVA was generated by activities in manufacturing. By 2011, that had dropped to less than 17%. The UK figures for the same period showed a slump from just under 19% to 10%, and in the decade leading up to the banking crisis, we witnessed rapid increased dependency on the financial services sector, leaving the UK particularly vulnerable once the crisis struck. But even the nature of that dependency on the financial services sector was imbalanced, not just in terms of the economy, but geographically. In 2007, 18% of London's GVA stemmed from banking, while in Wales it was less than 4.5%. That is why Plaid Cymru maintains that rebalancing the economy must also involve rebalancing power and wealth. One follows the other. Until rebalancing occurs, we will continue to witness negative social consequences. Plaid Cymru's plan to rebalance the economy focuses on four primary aims. Firstly, that Wales has a voice at the top table where economic and political decisions are made that have an impact on our prospects. Secondly, that the conditions for employees are improved so that good-quality well-paid work becomes the norm. Thirdly, that we need a one-Wales approach to investment in skills and infrastructure where no community is left behind. Finally, that Wales must be treated fairly in terms of fiscal investment.

Yn 1997, câi chwarter GYC Cymru ei gynhyrchu gan weithgareddau gweithgynhyrchu. Erbyn 2011, roedd wedi gostwng i lai na 17%. Mae ffigurau'r DU ar gyfer yr un cyfnod yn dangos gostyngiad o ychydig o dan 19% i 10% ac yn y degawd yn arwain at yr argyfwng bancio, gwelsom ddibyniaeth cynyddol gyflym ar y sector gwasanaethau ariannol, gan adael y DU yn arbennig o agored i niwed wedi i'r argyfwng ein taro. Ond roedd hyd yn oed natur y ddibyniaeth honno ar y sector gwasanaethau ariannol yn anghytbwys, nid yn unig o ran yr economi, ond yn ddaearyddol. Yn 2007, roedd 18% o GYC Llundain yn deillio o fancio ac yng Nghymru roedd yn llai na 4.5%. Dyna pam y mae Plaid Cymru yn haeru bod yn rhaid i ailgydbwyso'r economi olygu ailgydbwyso pŵer a chyfoeth hefyd. Mae un yn dilyn y llall. Hyd nes y bydd ailgydbwyso'n digwydd, byddwn yn parhau i weld canlyniadau cymdeithasol negyddol. Mae cynllun Plaid Cymru i ailgydbwyso'r economi yn canolbwyntio ar bedwar prif nod. Yn gyntaf, bod gan Gymru lais ar y brig lle y gwneir penderfyniadau economaidd a gwleidyddol sy'n effeithio ar ein rhagolygon. Yn ail, bod amodau gweithwyr yn cael eu gwella fel bod gwaith o ansawdd da sy'n talu'n dda yn dod yn norm. Yn drydydd, bod arnom angen dull Cymru'n un ar gyfer buddsoddi mewn sgiliau a seilwaith lle na chaiff unrhyw gymuned ei gadael ar ôl. Yn olaf, rhaid i Gymru gael ei thrin yn deg o ran buddsoddiad cyllidol.

While there is widespread debate and some agreement on enhanced financial powers to the Welsh Government and the National Assembly, we should not miss any opportunity to ensure that Wales's case is made at the top levels, where macroeconomic decisions are made. That is why, last week, Plaid Cymru reiterated its calls for the Welsh Government to have a nominee on the monetary policy committee of the Bank of England. The banks, and that committee in particular, make decisions that have an impact on communities and people across Wales, and it is an important voice for Wales at the top level, ensuring that the needs of Wales are addressed, rather than a continued concentration on the south-east of England. One of the key debates we need to have at a national and a UK level is how we lock in a Welsh voice on matters that are not devolved. I hope that there are commonalities across all parties and that we can work together to achieve this.

Er bod trafodaeth eang a rhywfaint o gytundeb ar bwerau ariannol gwell i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, ni ddylem golli unrhyw gyfle i sicrhau bod achos Cymru yn cael ei gyflwyno ar y lefelau uchaf, lle y gwneir penderfyniadau macroeconomaidd. Dyna pam, yr wythnos diwethaf, yr ailadroddodd Plaid Cymru ei galwad ar Lywodraeth Cymru i sicrhau enwebai ar bwyllgor polisi ariannol Banc Lloegr. Mae'r banciau, a'r pwyllgor hwnnw'n benodol, yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar gymunedau a phobl ledled Cymru ac mae'n llais pwysig i Gymru ar y lefel uchaf, gan sicrhau bod anghenion Cymru yn cael sylw, yn hytrach na chanolbwyntio'n barhaus ar dde-ddwyrain Lloegr. Un o'r dadleuon allweddol y mae angen i ni eu cael ar lefel genedlaethol a lefel y DU yw sut rydym yn sicrhau llais i Gymru ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli. Gobeithio fod yna elfennau cyffredin ar draws yr holl bleidiau ac y gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni hyn.

The second point on the conditions for employees is particularly timely, given that this week is Living Wage Week. I want to re-emphasise Plaid Cymru's commitment to make the living wage of £7.65 per hour the minimum wage in this country by 2020. That will mean a pay rise for 250,000 Welsh workers, starting our journey to a high-wage economy. A living wage is good for employees, but it is also good for business. It puts more money into our economy and it will help our businesses on the high street. Now that we are told that a UK recovery is under way, it is time that people felt the benefit of the bail-outs that they gave. We also want to see an end to forced zero-hours contracts, and our arguments on this point are well rehearsed here.

Mae'r ail bwynt ar amodau gweithwyr yn arbennig o amserol, gan mai'r wythnos hon yw Wythnos Cyflog Byw. Rwyf am ailbwysleisio ymrwymiad Plaid Cymru i wneud y cyflog byw o £7.65 yr awr yn isafswm cyflog yn y wlad hon erbyn 2020. Bydd hynny'n golygu codiad cyflog i 250,000 o weithwyr yng Nghymru, gan ddechrau ar ein taith i economi cyflog uchel. Mae cyflog byw yn dda i weithwyr, ond mae hefyd yn dda i fusnes. Mae'n rhoi mwy o arian i mewn i'n heconomi a bydd yn helpu ein busnesau ar y stryd fawr. Gyda'r sôn fod adferiad ar y gweill yn y DU, mae'n bryd i bobl deimlo budd ar ôl iddynt achub croen y banciau. Rydym hefyd am weld diwedd ar gontractau dim oriau gorfodol ac mae ein dadleuon ar y pwynt hwn wedi cael eu clywed yn fynych yma.

On the third point of having a one-Wales approach to infrastructure, it is vital that all communities in Wales feel a devolution dividend from capital investment. Connecting our country and all of our communities will not only help to revive and improve prospects for all, but ensure that we do not unintentionally build an unbalanced economy within Wales, as has been done on a UK level.

O ran y trydydd pwynt o gael ymagwedd Cymru'n un tuag at seilwaith, mae'n hanfodol fod pob cymuned yng Nghymru yn teimlo budd buddsoddiadau cyfalaf o ddatganoli. Nid yn unig y bydd cysylltu ein gwlad a phob un o'n cymunedau yn helpu i adfywio a gwella'r rhagolygon ar gyfer pawb, ond bydd hefyd yn sicrhau nad ydym yn anfwriadol yn adeiladu economi anghytbwys yng Nghymru, fel sydd wedi digwydd ar lefel y DU.

Aside from skills, infrastructure is one of the most crucial and decisive factors in determining a country's economic prospects. That is why Plaid Cymru could never support blowing our country's entire borrowing capacity on one project in one corner of the nation at the expense of all others.

Ar wahân i sgiliau, seilwaith yw un o'r ffactorau mwyaf allweddol a phendant sy'n pennu rhagolygon economaidd gwlad. Dyna pam na allai Plaid Cymru byth gefnogi gwario gallu benthyca cyfan ein gwlad ar un prosiect mewn un cornel o'r genedl ar draul pawb arall.

The broader theme of investment brings me on to our fourth and final point. The gross underinvestment in Wales as a result of the current funding arrangements must now come to an end. The talk must stop, and fairness must follow. If Wales were treated on an equal footing to Scotland, we would receive an additional £1.2 billion a year to invest in Wales. Would that be an unreasonable ask? It is not a high price for a country that has contributed over a century of industry. It is not a high price for one of Europe's poorest areas. There is nothing inevitable about our economic prospects, but the course that we take now will determine the fate of future generations. It is up to us to ensure that they inherit thriving communities and a prosperous Wales.

Mae thema ehangach buddsoddi yn dod â mi at ein pedwerydd pwynt, a'r olaf. Mae'n rhaid rhoi diwedd yn awr ar y tanfuddsoddi eithafol yng Nghymru yn sgîl y trefniadau ariannu presennol. Rhaid rhoi diwedd ar y siarad, a rhaid i degwch ddilyn. Pe bai Cymru yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Alban, byddem yn derbyn £1.2 biliwn yn ychwanegol bob blwyddyn i fuddsoddi yng Nghymru. A fyddai hynny'n afresymol? Nid yw'n bris uchel i wlad sydd wedi cyfrannu dros ganrif o ddiwydiant. Nid yw'n bris drud am un o ardaloedd tlotaf Ewrop. Nid oes dim yn anochel am ein rhagolygon economaidd, ond bydd y llwybr a gymerwn yn awr yn penderfynu tynged cenedlaethau'r dyfodol. Mater i ni yw sicrhau eu bod yn etifeddu cymunedau ffyniannus a Chymru lewyrchus.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the seven amendments to the motion. I call on William Graham to move amendments 1, 2, 3, 6 and 7, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliannau 1, 2, 3, 6 a 7 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ym mhwynt 1, ar ôl DU mewnosoder 'a Llywodraeth Cymru'.*

*In point 1, after UK insert 'and Welsh'.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:*

*Insert at end of point 3:*

*ac yn cydnabod hefyd yr angen i newid cydbwysedd economi Cymru i ffwrdd o grynodiad o gyfoeth ar hyd coridor de Cymru (yr M4).*

*and also recognises the need for a rebalancing of the Welsh economy away from a concentration of wealth along the south Wales (M4) corridor.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 4 and replace with:*

*Yn cydnabod y sefydlogrwydd economaidd sy'n deillio o bolisïau Llywodraeth y DU sydd yn ysgogi twf economaidd ledled y DU.*

*Acknowledges the economic stability arising from the UK Government's policies which are stimulating UK-wide economic growth.*

*Gwelliant 6—Paul Davies*

*Amendment 6—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu cynigion y Ceidwadwyr Cymreig sy'n cynnwys cael gwared ar Cyllid Cymru a sefydlu Buddsoddi Cymru yn ei le.*

*Calls on the Welsh Government to adopt the Welsh Conservative proposals which include replacing Finance Wales with Invest Wales.*

*Gwelliant 7—Paul Davies*

*Amendment 7—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y dirywiad yn GYC Cymru o dan 15 mlynedd o Lywodraeth Lafur yng Nghymru.*

*Regrets the decline in Wales's GVA under fifteen years of Labour Government in Wales.*

16:32 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1, 2, 3, 6 and 7 in the name of Paul Davies.

Cynigiaf welliannau 1, 2, 3, 6 a 7 yn enw Paul Davies.

After 15 years of successive Labour-dominated Welsh Governments, Wales remains the poorest part of the United Kingdom, with a rate of economic inactivity consistently above the United Kingdom average. Parts of Wales remain among the poorest parts of Europe, and are set to qualify for a third round of EU aid, despite £4 billion of European funds having been spent by Labour since 2000. Indeed, the Welsh economy has failed to achieve its potential under Labour, despite two rounds of European funding and significant investment from the UK Government. Despite the Welsh Government's pledge to make jobs and the economy overriding priorities, GVA per head in Wales is still the lowest among the devolved countries at 72% of the United Kingdom average in 2012, compared with 94% in Scotland and 76% in Northern Ireland.

Ar ôl 15 mlynedd o Lywodraethau Cymru olynol wedi'u dominyddu gan Lafur, Cymru yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig o hyd, gyda chyfradd anweithgarwch economaidd sy'n gyson uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae rhannau o Gymru yn parhau i fod ymhlith y rhannau tlotaf o Ewrop ac yn mynd i fod yn gymwys ar gyfer y trydydd cylch o gymorth yr UE, er gwaethaf y ffaith fod Llafur wedi gwario £4 biliwn o gyllid Ewropeaidd ers 2000. Yn wir, mae economi Cymru wedi methu â chyflawni ei photensial o dan Lafur er gwaethaf dau gylch o arian Ewropeaidd a buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y DU. Er gwaethaf addewid Llywodraeth Cymru i wneud swyddi a'r economi yn brif flaenoriaethau, mae GYC y pen yng Nghymru yn dal i fod yr isaf o blith y gwledydd datganoledig ar 72% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig yn 2012, o'i gymharu â 94% yn yr Alban a 76% yng Ngogledd Iwerddon .

While the Welsh Government still no doubt disputes the use of GVA and GDP as indicators of economic performance, it is a fact that these indicators are used on a pan-European basis and are well-established benchmarks for economic performance. The key macro-economic indicators all illustrate that Wales is falling behind the rest of the United Kingdom. Labour has simply failed to stimulate the Welsh economy.

Er bod Llywodraeth Cymru, mae'n siŵr, yn dal i amau'r defnydd o GYC a CMC fel dangosyddion perfformiad economaidd, mae'n ffaith fod y dangosyddion hyn yn cael eu defnyddio ledled Ewrop ac yn feincnodau sefydledig ar gyfer mesur perfformiad economaidd. Mae'r dangosyddion macroeconomaidd allweddol oll yn dangos bod Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Yn syml, mae Llafur wedi methu ag ysgogi economi Cymru.

16:33 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

You read from the Eurostat numbers. If you read the whole of that data sheet, you will see that GVA for the UK as a whole has fallen by a far greater proportion than GVA in Wales.

Rydych yn darllen o rifau Eurostat. Os darllenwch y daflen ddata gyfan, gwelwch fod GYC y DU yn gyfan wedi gostwng o gyfran lawer mwy na GYC yng Nghymru.

16:33 **William Graham** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I accept that GVA has fallen, but the point is that the United Kingdom Government is doing its very best to address those things that your Government has consistently failed to.

Derbyniaf fod GYC wedi gostwng ond y pwynt yw bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud ei gorau glas i fynd i'r afael â'r pethau hynny y mae eich Llywodraeth chi wedi methu'n gyson â'u gwneud.

The Welsh Government must start addressing the real economic problems facing Wales rather than blaming the indicators as problems themselves for persistent failures. The Welsh Government needs to emulate the United Kingdom Conservative-led coalition Government. The United Kingdom Government has created over 1.6 million new private sector jobs and is taking the necessary action to rectify the financial morass left by the last Labour Government, which doubled our national debt and took us to the brink of bankruptcy. Indeed, central Government gross interest—not capital repayment—as a result of Labour's legacy, is the fourth largest area of Government's spending, currently at £47 billion.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau mynd i'r afael â'r problemau economaidd gwirioneddol sy'n wynebu Cymru yn hytrach na beio'r dangosyddion fel problemau ynddynt eu hunain am fethiannau cyson. Mae angen i Lywodraeth Cymru efelychu Llywodraeth y glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi creu mwy na 1.6 miliwn o swyddi newydd yn y sector preifat ac mae'n cymryd y camau angenrheidiol i unioni'r trafferthion ariannol a adawyd ar ôl gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf a ddyblodd ein dyled genedlaethol a mynd â ni at ddibyn methdaliad. Yn wir llog gros y Llywodraeth ganol—nid ad-daliad cyfalaf—o ganlyniad i'r hyn a adawyd ar ôl gan Lafur yw pedwerydd maes gwariant mwyaf y Llywodraeth, sef £47 biliwn ar hyn o bryd.

16:34 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

So, do you agree with me that, at the time of the international financial collapse in 2007, Labour's borrowing after 10 years was only 0.1% different from that which started in 1997, as a percentage of GDP?

Felly, a ydych yn cytuno â mi fod benthyca Llafur ar ôl 10 mlynedd ar adeg y cwymp ariannol rhyngwladol yn 2007 ond 0.1% yn wahanol i'r hyn a oedd yn 1997, fel canran o'r Cynnyrch Domestig Gros?

16:34

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It still remains the largest deficit in United Kingdom history. Our party is reducing the debt to secure a stronger economy and a better future for all of Britain. By taking difficult decisions, we have reduced the deficit by more than a third since 2010. We are safeguarding our economy for the long term, so future generations are not left with huge debts.

Mae'n dal i fod y diffyg mwyaf yn hanes y Deyrnas Unedig. Mae ein plaid yn lleihau'r ddyled i sicrhau economi gryfach a gwell dyfodol i Brydain gyfan. Drwy wneud penderfyniadau anodd, rydym wedi gostwng y diffyg fwy na thraean ers 2010. Rydym yn diogelu ein heconomi ar gyfer y tymor hir fel nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn wynebu dyledion enfawr.

You will have all seen the figures, released on Monday, that show that British manufacturing orders are rising. This is further evidence that our long-term economic plan is working and, despite problems across the eurozone, a rise in manufacturing orders is a sign of the growing resilience of the economy in the United Kingdom. These are not just numbers on a Government graph. A rise in manufacturing orders means economic security for Britain, that business is expanding, people are getting into work, and our country is recovering financially. Contrast this success, sadly, with the situation in parts of west Wales and the Valleys, which now, incredibly, find themselves below parts of Bulgaria and Romania in the EU wealth league. Indeed, west Wales's average income is two thirds of the average in northern Europe.

Byddwch i gyd wedi gweld y ffigurau a ryddhawyd ddydd Llun sy'n dangos bod archebion gweithgynhyrchu Prydain ar gynnydd. Mae'n dystiolaeth bellach fod ein cynllun economaidd hirdymor yn gweithio ac er gwaethaf y problemau ar draws ardal yr ewro, mae cynnydd mewn archebion gweithgynhyrchu yn arwydd o wytnwch cynyddol yr economi yn y Deyrnas Unedig. Nid rhifau ar graff y Llywodraeth yn unig yw'r rhain. Mae cynnydd mewn archebion gweithgynhyrchu yn golygu sicrwydd economaidd i Brydain, fod busnes yn ehangu, fod pobl yn cael gwaith a bod ein gwlad yn gwella yn ariannol. Cyferbynnwch y llwyddiant hwn gyda'r sefyllfa drist yn rhannau o orllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd bellach, yn anhygoel, yn is na rhannau o Fwlgaria a Romania yng nghynghrair cyfoeth yr UE. Yn wir, dwy ran o dair o'r cyfartaledd yng ngogledd Ewrop yw incwm cyfartalog gorllewin Cymru.

Welsh Conservatives recognise the need for rebalancing the Welsh economy away from a concentration of wealth along the south Wales corridor. A report released yesterday by the Welsh Government entitled 'Evaluation of the Severn Valley Strategic Regeneration Programme' found in its key findings that under half of the businesses rated the local area as a good or a very good place to run a business or organisation. The United Kingdom Government is doing its best and its utmost to concentrate minds in Wales on a genuine rebalancing of the economy, with an increase in manufacturing and engineering, allowing poorer areas to prioritise infrastructure spending and investment, bringing jobs and growth.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod yr angen i ailgydbwyso economi Cymru fel nad yw cyfoeth wedi'i grynhoi ar hyd coridor de Cymru. Yn ei brif gasgliadau, canfu adroddiad a gyhoeddwyd ddoe gan Lywodraeth Cymru, 'Gwerthusiad o'r Rhaglen Adfywio Strategol Dyffryn Hafren', fod llai na hanner y busnesau yn ystyried bod yr ardal leol yn lle da neu dda iawn i redeg busnes neu sefydliad. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud ei gorau glas i ganolbwyntio meddyliau yng Nghymru ar ailgydbwyso'r economi go iawn, gyda chynnydd mewn gweithgynhyrchu a pheirianneg, a chan ganiatáu i ardaloedd tlotach flaenoriaethu gwariant ar seilwaith a buddsoddiad, gan greu swyddi a thwf.

Our Government has also made significant infrastructure investments in Wales—£69 million for broadband roll-out and the electrification of the Great Western main line, which has been hailed as the greatest investment in the railway in Wales for more than 150 years. Two weeks ago, you will have heard that plans for a gas-fired power station in Pembrokeshire have been given approval by the United Kingdom Government. The South Hook power plant proposal near Milford Haven will be capable of providing electricity and power to 900,000 homes and will create hundreds of jobs during construction. It is this forward thinking that will bring Wales out of the doldrums. Further forward planning is a new £8 billion replacement for the Wylfa power station on Anglesey, which has been provisionally approved by the UK Secretary for energy. It is estimated that the electricity generated from this plant until the end of 2050 will be worth around £785 billion. It is our commitment to leading these projects that will secure a better future for Wales.

Mae ein Llywodraeth hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith o bwys yng Nghymru—£69 miliwn ar gyflwyno band eang a thrydaneiddio prif reilffordd y Great Western a ddisgrifiwyd fel y buddsoddiad mwyaf yn y rheilffyrdd yng Nghymru ers dros 150 o flynyddoedd. Bythefnos yn ôl, byddwch wedi clywed bod cynlluniau ar gyfer gorsaf ynni nwy yn Sir Benfro wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd cynnig gorsaf pŵer South Hook ger Aberdaugleddau yn gallu darparu trydan a phŵer i 900,000 o gartrefi ac yn creu cannoedd o swyddi yn ystod y gwaith adeiladu. Meddwl tuag at y dyfodol yn y ffordd hon fydd yn tynnu Cymru allan o'r felan. Enghraifft arall o flaengynllunio yw gorsaf newydd gwerth £8 biliwn yn lle gorsaf bŵer Wylfa ar Ynys Môn, a gafodd gymeradwyaeth amodol gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros ynni. Amcangyfrifir y bydd y trydan a gynhyrchir o'r orsaf hon tan ddiwedd 2050 yn werth tua £785 biliwn. Ein hymrwymiad i arwain y prosiectau hyn sy'n mynd i sicrhau dyfodol gwell i Gymru.

16:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to move amendment 4, tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 4—Jane Hutt*

*Amendment 4—Jane Hutt*

*Dileu is-bwynt 5(d).*

*Delete sub-point 5(d).*

16:37

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I move amendment 4.

Cynigiaf welliant 4.

16:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Eluned Parrott to move amendment 5, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 5, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 5—Aled Roberts*

*Amendment 5—Aled Roberts*

*Cynnwys fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:*

*Insert as new subpoint at the end of point 5:*

*Paratoi strategaeth allforio glir i Gymru i uno dyfeisgarwch sector preifat â chefnogaeth sector cyhoeddus.*

*Produce a clear export strategy for Wales to match private sector ingenuity with public sector support.*

16:37

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 5, tabled in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliant 5, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I would like to thank Plaid Cymru for giving us the opportunity to discuss the issues here today in what, on the surface, is a very interesting and wide-ranging debate. However, for me, the wording of the motion and the fact that the opening speech suggested a different set of issues and policy asks to the ones written in the motion raise more questions than answers in terms of what the fundamental issue that we want to discuss here is, and how, with the economic levers that we have at our disposal, we are going to respond to it.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am roi'r cyfle i drafod materion yma heddiw sydd ar yr wyneb yn ddadl ddiddorol a phellgyrhaeddol iawn. Fodd bynnag, i mi mae geiriad y cynnig a'r ffaith bod yr araith agoriadol wedi awgrymu set wahanol o faterion a gofynion polisi i'r rhai a ysgrifennwyd yn y cynnig yn codi mwy o gwestiynau nag o atebion o ran beth yw'r mater sylfaenol rydym am ei drafod yma a sut rydym yn mynd i ymateb iddo, gyda'r ffactorau ysgogi economaidd sydd ar gael i ni.

We open, for example, in point 1, with a truism about the growth of inequality in the UK. I say 'truism' because I am frustrated that the wording of this is too vague and blurred to lead us into a meaningful debate on what we can do about it. First, in this point, you lump regions and individuals together as if there is no difference between people and populations, as if it is all the same thing. Well, no, it is not. Do you want to reduce inequality between individuals within a single population, reduce inequality between regional populations as a whole, or are you comparing individuals within populations with individuals in a different population, and, if so, are the data sets truly comparable? Well, no, frankly, they are not. If the point that you wish to demonstrate is that the nation of Wales has lost out as a result of the UK Government's policies, you are going to have to learn to use data more accurately to enable useful comparisons here.

Rydym yn agor, er enghraifft, ym mhwynt 1, gyda gwireb am dwf anghydraddoldeb yn y DU. Dywedaf 'gwireb' am fy mod yn rhwystredig fod geiriad hwn yn rhy amwys ac aneglur i'n harwain mewn dadl ystyrlon ar yr hyn y gallwn ei wneud am y peth. Yn gyntaf, yn y pwynt hwn, rydych yn gosod rhanbarthau ac unigolion gyda'i gilydd fel pe na bai unrhyw wahaniaeth rhwng pobl a phoblogaethau, fel pe bai'r cyfan yr un peth. Wel na, nid yw hynny'n wir. A ydych chi eisiau lleihau anghydraddoldeb rhwng unigolion o fewn un boblogaeth, lleihau anghydraddoldeb rhwng poblogaethau rhanbarthau cyfan neu a ydych yn cymharu unigolion o fewn poblogaethau ag unigolion mewn poblogaeth wahanol, ac os felly, a oes modd cymharu'r setiau data mewn gwirionedd? Wel na, a bod yn onest, nid oes modd eu cymharu. Os mai'r pwynt rydych am ei ddangos yw bod y genedl Gymreig ar ei cholled o ganlyniad i bolisïau Llywodraeth y DU, rydych yn mynd i orfod dysgu sut i ddefnyddio data yn fwy cywir er mwyn gallu creu cymariaethau defnyddiol.

Secondly, in the motion, you do not define what it is that has become more unequal. Is it health outcomes? Is it life expectancy? Is it educational attainment levels? What? If it is economic measures of inequality, is it pay, asset holdings or wealth? Is it disposable income? Is it all of those things? What are you measuring them on? An analysis of these things gives you very different results and very different policy asks as well. If it is, in fact, income that you are talking about, then I hate to tell you that, while the 20-year trend in the UK is up, the most recent figures that I have seen show a fall in inequality between 2010-11 and 2011-12 in the UK. I will return to that point in a little while.

Yn ail, yn y cynnig, nid ydych yn diffinio beth sydd wedi mynd yn fwy anghyfartal. Ai canlyniadau iechyd? Ai disgwyliad oes? Ai lefelau cyrhaeddiad addysgol? Beth? Os mai mesurau economaidd o anghydraddoldeb yw'r hyn a olygwch, ai cyflog, daliadau asedau neu gyfoeth? Ai incwm gwario? Ai pob un o'r pethau hyn? Sut rydych chi'n eu mesur? Mae dadansoddiad o'r pethau hyn yn rhoi canlyniadau gwahanol iawn i chi a gofynion polisi gwahanol iawn hefyd. Os mai am incwm rydych chi'n sôn mewn gwirionedd, mae'n gas gen i ddweud wrthych, er bod y duedd 20 mlynedd yn y DU ar i fyny, mae'r ffigurau diweddaraf a welais yn dangos gostyngiad mewn anghydraddoldeb rhwng 2010-11 a 2011-12 yn y DU. Dychwelaf at y pwynt hwnnw yn y man.

Thirdly, by blaming 'successive UK Governments', you imply that there has been a policy failure at a UK Government level over a period of years that has led to this specific situation as if it is a uniquely British problem. It is not. According to the OECD, most member nations in the OECD have experienced exactly the same trend. It is a global phenomenon. If we want to tackle it head on, we cannot afford to be myopic about what the problems actually are. If you honestly want to overcome it, you have to be honest about what the causal factors are, so that you can act on those causal factors specifically. Glibly using a statistic—well, actually, not a statistic, because you have not cited one—to make a political point is hardly going to help to raise the economic, education or health outcomes of our poorest citizens. So, partially because you conflate people and populations, partially because you are not specific about what you are trying to achieve, and partially because you have taken your starting points from a political position, and not an analysis of the causal factors behind inequality, the measures you call for are not in fact the ones identified by the likes of the OECD as being the most likely to have a positive impact on income inequality within a population, if that is what you are trying to achieve—and I think that that is what most of us would wish to achieve.

Yn drydydd, drwy feio 'Llywodraethau olynol y DU', rydych yn awgrymu fod methiant polisi ar lefel Llywodraeth y DU dros gyfnod o flynyddoedd wedi arwain at y sefyllfa benodol hon fel pe bai'n broblem unigryw i Brydain. Nid yw hynny'n wir. Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), mae'r rhan fwyaf o'r gwledydd sy'n aelodau o'r OECD wedi profi'r un duedd yn union. Mae'n ffenomen fyd-eang. Os ydym am fynd i'r afael â hi'n uniongyrchol, ni allwn fforddio bod yn gibddall ynglŷn â beth yw'r problemau mewn gwirionedd. Os ydych eisiau ei oresgyn mewn difrif, rhaid i chi fod o ddifrif ynglŷn â beth yw'r ffactorau achosol er mwyn i chi allu gweithredu ar y ffactorau achosol hynny'n benodol. Go brin y bydd lluchio ystadegyn—nid ystadegyn mewn gwirionedd, gan nad ydych wedi rhoi un—i wneud pwynt gwleidyddol yn mynd i helpu i wella canlyniadau economaidd, canlyniadau addysgol neu ganlyniadau iechyd ein dinasyddion tlotaf. Felly, yn rhannol am eich bod yn cyfuno pobl a phoblogaethau, yn rhannol am nad ydych yn benodol ynglŷn â'r hyn rydych yn ceisio ei gyflawni ac yn rhannol am eich bod wedi cychwyn o safbwynt gwleidyddol yn hytrach na dadansoddiad o'r ffactorau achosol sydd wrth wraidd anghydraddoldeb, nid y mesurau y galwch amdanynt mewn gwirionedd yw'r rhai a nodwyd gan bobl fel yr OECD fel y rhai mwyaf tebygol o gael effaith gadarnhaol ar anghydraddoldeb incwm mewn poblogaeth, os mai dyna rydych yn ceisio ei gyflawni—ac rwy'n meddwl mai hynny y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn dymuno ei gyflawni.

Now, those measures and policy asks that you should be asking for, if that is what you want, are commonly cited as things like reducing regulatory barriers to domestic competition, supporting increased export activity, and upskilling and providing more careers advice, particularly careers advice to the population as a whole. This is why, in my amendment, I call for a renewed focus on supporting an innovation-led export kind of strategy, because, if we want to reduce income inequality, we must build an outward-facing economy that competes on the quality of its products and the skills of its people. While support for small businesses is an important part of that—although not one mentioned in the opening speech, I note—we need to help our smaller businesses to grow by finding the confidence to address that international market that they need to find. It is not only about finding the money; it is about helping them to find support, advice, mentoring, and peer support. That is what is going to help our micro businesses to grow to become small businesses, our small businesses to grow to become medium-sized businesses ones, and medium-sized businesses to become successful, Welsh, international businesses that give good quality and well-paid work to the people of Wales. If we want to tackle what is essentially a global problem—that is, economic inequality for the people of Wales—we have two lift our eyes, frankly, above the narrow bickering between the UK and Wales and use the evidence that is available to us and be specific about what it is we are hoping to achieve, and you have singularly failed to do that in this debate today.

Yn awr, yn gyffredinol bydd y mesurau a'r gofynion polisi hynny y dylech fod yn gofyn amdanynt, os mai dyna beth rydych ei eisiau, yn cynnwys pethau fel lleihau'r rhwystrau rheoleiddiol i gystadleuaeth ddomestig, cefnogi mwy o weithgarwch allforio a gwella sgiliau a darparu mwy o gyngor ar yrfaoedd, yn enwedig cyngor gyrfaol i'r boblogaeth gyfan. Dyma pam rwy'n galw yn fy ngwelliant am ffocws o'r newydd ar gefnogi math o strategaeth allforio wedi'i harwain gan arloesedd oherwydd, os ydym am leihau anghydraddoldeb incwm, rhaid i ni adeiladu economi sy'n wynebu tuag allan ac sy'n cystadlu ar ansawdd ei chynhyrchion a sgiliau ei phobl. Er bod cefnogaeth i fusnesau bach yn rhan bwysig o hynny—er y nodaf nad oedd yn un a grybwyllwyd yn yr araith agoriadol—mae angen i ni helpu ein busnesau llai o faint i dyfu drwy sicrhau'r hyder i fynd i'r afael â'r farchnad ryngwladol sydd angen iddynt ddod o hyd iddi. Nid yw'n ymwneud yn unig â dod o hyd i'r arian; mae'n ymwneud â'u helpu i ddod o hyd i gymorth, cyngor, mentora a chefnogaeth cymheiriaid. Dyna beth sy'n mynd i helpu ein busnesau micro i dyfu i fod yn fusnesau bach, ein busnesau bach i dyfu i fod yn fusnesau canolig eu maint a busnesau canolig eu maint i ddod yn fusnesau llwyddiannus, rhyngwladol Cymreig sy'n cynnig ansawdd da a gwaith sy'n talu'n dda i bobl Cymru. Os ydym am fynd i'r afael â'r hyn sydd yn ei hanfod yn broblem fyd-eang—hynny yw, anghydraddoldeb economaidd i bobl Cymru—rhaid i ni godi ein llygaid, a bod yn onest, yn uwch na'r cecru cul rhwng y Deyrnas Unedig a Chymru a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i ni a bod yn benodol am yr hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni, ac rydych chi wedi methu'n llwyr â gwneud hynny yn y ddadl hon heddiw.

16:42

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am quite amazed, actually, that the Liberal Democrats would use the past five minutes to deny the inequality that is so clearly in existence in the UK. Maybe that is what being in Government with the Conservatives for the past four years does to you.

Rwy'n synnu mewn gwirionedd fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi defnyddio'r pum munud diwethaf i wadu'r anghydraddoldeb sy'n bodoli mor amlwg yn y DU. Efallai mai dyna beth y mae bod mewn Llywodraeth gyda'r Ceidwadwyr dros y pedair blynedd diwethaf yn ei wneud i chi.

Rydym ni ym Mhlaid Cymru wedi siarad yn aml am yr angen i newid cydbwysedd economi'r Deyrnas Unedig. Mae'n braf cael y cyfle heddiw i egluro ychydig bach mwy beth yr ydym yn ei feddwl am hynny. Rwy'n meddwl bod y ffordd y mae'r Deyrnas Unedig, ac yn benodol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, wedi ymateb i'r cwymp ariannol yn niwedd y degawd diwethaf yn rhoi cliwiau i ni ynglŷn â'r math o beth sydd o'i le ar hyn o bryd. Ydym, yr ydym ni, diolch byth, yn gweld twf eto ar ôl un o'r cyfnodau hiraf erioed o grebachu economaidd. Mae twf yn digwydd ar draws Prydain, yn cynnwys Cymru, ond nid oes ond angen ichi ymweld â Llundain a gweld drosoch eich hun y twf rhyfeddol sy'n digwydd yno—y gorboethi unwaith eto—i weld nad twf cyfartal yw hwn. Yr hyn yr ydym yn ei weld yn Llundain yw bod gorddibyniaeth yn digwydd eto ar y sector ariannol, ac mi ddylai larymau mawr fod yn canu o'r herwydd.

We in Plaid Cymru have spoken often about the need to change the balance of the economy of the United Kingdom. It is good to have this opportunity today to explain a little bit more about what we mean by that. I think that the way that the United Kingdom, and specifically the Government of the United Kingdom, has responded to the financial crisis at the end of the last decade gives us clues about the kind of things that are wrong at present. Yes, we are, thank goodness, seeing growth again after one of the longest periods of recession. Growth is happening across Britain, including Wales, but you only have to visit London to see for yourself the extraordinary growth that is happening there—the overheating once again—to see that that is not equal growth. What we are seeing in London is an overdependence once again on the financial services sector, and alarm bells should be ringing as a result.

Gadewch inni chwilio am wersi o sut y gwnaeth gwledydd eraill ymateb i'r cwymp. Aeth y ddirprwyaeth o dîm trysorlys Plaid Cymru i gyfarfod llysgennad Gwlad yr Iâ i Brydain yr wythnos diwethaf i weld sut y gwnaeth y wlad honno ddysgu o brofiadau'r cwymp ariannol. Nid oes angen imi egluro'r niwed y gwnaeth y cwymp ariannol i Wlad yr Iâ, wrth gwrs—gwnaeth gorddibyniaeth y wlad honno ar y sector ariannol droi 'crisis' ariannol rhyngwladol yn drychineb ariannol yn Reykjavík. Yr hyn y maen nhw wedi ei wneud yw bachu ar y cyfle i roi cydbwysedd cwbl newydd i'w heconomi nhw. Maen nhw wedi ailgynllunio eu heconomi nhw. Mae diweithdra yn disgyn, ac mae'r rhagolygon yn dda. Mi wnaethon nhw hynny drwy sylweddoli bod angen gwrthod yr obsesiwn â seilio economïau rhyngwladol ar y sectorau ariannol yn unig. Maen nhw wedi cydbwyso drwy roi sylw o'r newydd i'w cryfderau nhw, sef pysgodfeydd, pŵer hydro a geothermal ac ati yn eu hachos nhw. Wrth gwrs bod y diwydiant ariannol yn bwysig o hyd. Mae'n bwysig iawn ym Mhrydain, ac mae'n bwysig iawn i Gymru. Rwy'n edrych ymlaen at weld twf yn y sector hwnnw, ac rwy'n llongyfarch y grŵp sector ar y gwaith y mae'n ei wneud, ac mae'n cael cryn lwyddiant ar hyn. Y gorddibyniaeth sy'n berygl, ac mae'n digwydd eto. Ni yng Nghymru sy'n beryg o orfod talu'r pris eto.

Let us look for lessons from how other countries responded to the recession. A deputation from the treasury team of Plaid Cymru visited Iceland's ambassador to Britain last week to see how that country learned from its experiences of the recession. I do not have to explain the damage that the recession did to Iceland, of course—the overdependence of that country on the financial services sector turned a financial crisis into a disaster in Reykjavík. What they have done is to take the opportunity to give a new balance to their economy. They have redesigned their economy. Unemployment is falling, and the forecasts are good. They did that by realising that there is a need to reject the obsession with basing international economies on the financial services sectors alone. They have rebalanced by giving new attention to their strengths, that is, fisheries, hydro power and geothermal power and so on in their case. Of course, the financial sector is still important. It is very important in Britain, and it is very important to Wales. I look forward to seeing growth in that sector and I congratulate the sector group on work that it is doing, and it is having a great deal of success in this. It is the overdependence that is the issue, and it is happening again. We in Wales are the ones likely to pay the price again.

Yn achos Gwlad yr Iâ, wrth gwrs, mae'n wlad fach sydd â phoblogaeth tebyg i Gaerdydd, sef rhyw ddegfed ran o boblogaeth Cymru. Gwnaeth y gymysgedd honno o boblogaeth fach a'i chyfoeth o adnoddau naturiol eu galluogi i fod yn hyblyg iawn ac ymateb yn gyflym i dwll economaidd dirfawr. Mae'n bryd, rwy'n meddwl, i Lywodraeth Cymru hefyd weld bod ein poblogaeth fach ni yng Nghymru, ynghyd â'n hadnoddau naturiol ni hefyd, yn ased yn hytrach nag yn esgus.

Iceland is a small country, of course, and it has a similar population to that of Cardiff, which is around a tenth of the population of Wales. That combination of having a small population and its wealth of natural resources enabled the country to be very flexible and to respond very quickly to an economic black hole. It is time for the Welsh Government, I think, to view our small population in Wales, as well as our natural resources, as an asset rather than an excuse.

Nid mater o weld bai ar Lywodraeth Prydain, wrth gwrs, ydy hyn i gyd wrth inni chwilio am ailddiffinio'r cydbwysedd yn yr ynysoedd hyn. Rhaid i ni yng Nghymru roi trefn ar bethau yma. Un o'n cryfderau ni, wrth gwrs, yw allforio. Mae'n hallforion ni'n werth £7 biliwn yn fwy na'n mewnforion ni, a hynny'n cymharu efo 'deficit' masnach yn y Deyrnas Gyfuno o £107 biliwn. Yn oes y Llywodraeth hon, yn anffodus, mae'n hallforion wedi gostwng. Ni allwn feio'r dirwasgiad achos yn yr Alban yn yr un cyfnod mae allforion wedi cynyddu.

This is not a matter of blaming the UK Government, of course, as we look for opportunities to redress the balance in these islands. We in Wales have to put our own house in order. One of our strengths, of course, is exports. Our exports are worth £7 billion more than our imports, which compares with a commercial deficit in the United Kingdom of £107 billion. In the time of this Government, unfortunately, our exports have fallen. We cannot blame the recession because, in Scotland over the same period, exports have increased.

Mater arall y mae'n rhaid inni ei ddatrys yw'r cwestiwn o ran trethi busnes fel ffordd o hybu ein busnesau bach a chanolig eu maint. Rwy'n edrych ymlaen at helpu Llywodraeth Plaid Cymru i ddefnyddio ei phwerau newydd i sicrhau mai Cymru ydy'r lle gorau ym Mhrydain i fusnes allu gweithredu. Mae sut yr ydym yn delio â'r cwestiwn hwn o ran trethi busnes yn ganolog i hynny. Mae'n rhaid torri costau er mwyn galluogi ac annog busnesau i fuddsoddi ar gyfer twf.

Another matter that we have to resolve is this problem of business rates as a means of promoting our small and medium-sized enterprises. I look forward to helping a Plaid Cymru Government to use its new powers to ensure that Wales is the best place in Britain for businesses to operate. How we deal with this question of business rates is a central part of that. We must cut costs so that we can enable and encourage businesses to invest for growth.

Mae'n rhaid inni ddatrys y sefyllfa lle mae cymaint o'n harian cyhoeddus ni'n llifo allan o Gymru oherwydd methiannau yn y system gaffael. Mae hwnnw'n rhywbeth yr wyf wedi siarad amdano droeon.

We must also resolve the situation where so much of our public funding flows out of Wales because of failings in the procurement system. That is something that I have spoken about many times.

Yn olaf, gwnaf grybwyll y syniad hwn wnaeth ddeillio ac sydd wedi'i arwain gan Blaid Cymru, ond sydd â chefnogaeth ar draws y Siambr erbyn hyn o gael banc buddsoddi ar gyfer busnesau yng Nghymru. Byddai nid yn unig yn ffynhonnell bwysig o gyllid er mwyn galluogi busnesau i fuddsoddi, ond hefyd yn flanced ddiogelwch rhag cwymp fel y gwelsom yn 2008.

Finally, I will mention this idea that has come from and that has been led by Plaid Cymru, but which now has cross-party support across the Chamber, namely that of having an investment bank for businesses in Wales. It would be not only an important source of finance to enable businesses to invest, but also a security blanket against such a decline as we saw in 2008.

Felly, i gloi, mae dyfodol economaidd gwahanol iawn yn bosibl i Gymru i'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Yn y byr dymor, mae'n rhaid i Lywodraeth Prydain weld y tu hwnt i ffiniau Llundain. Yn yr hirdymor, mae'n rhaid i ni gael y pwerau i ddiffinio a chynllunio ein heconomi ein hunain.

Therefore, to conclude, a very different economic future is possible for Wales, compared with what we have at present. In the short term, the UK Government must look beyond the boundaries of London. In the long term, we must have the powers to define and design our own economy.

16:47

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome this debate today, which I think is a vital debate for Wales. As we have heard, the whole of the world, really, is wrestling with these issues of inequality and what can be done about them, but they are, in some ways, at least, particularly marked within the UK. It is a very important issue for Wales because of the relative lack of strength in the Welsh economy, which has been an issue for very many years and is very difficult to redress.

Croesawaf yn fawr iawn y ddadl hon heddiw, a chredaf ei bod yn ddadl hanfodol i Gymru. Fel y clywsom, mae'r byd i gyd mewn gwirionedd yn ymrafael â'r materion hyn o anghydraddoldeb a beth y gellir ei wneud yn eu cylch, ond mewn rhai ffyrdd o leiaf, maent yn arbennig o amlwg yn y DU. Mae'n fater pwysig iawn i Gymru oherwydd diffyg cryfder cymharol economi Cymru, sydd wedi bod yn broblem ers blynyddoedd lawer ac mae'n anodd iawn ei unioni.

The Welsh Government, of course, does need to work very closely with the UK Government, local government, and indeed the European Union and other key stakeholders if we are to make the sort of progress that we need to see. I do think that fresh impetus and focus has been given to this debate by the referendum in Scotland, which was such an amazing exercise in terms of engaging the people of Scotland, and, by extension, I think, the people of the UK as a whole, including people here in Wales. People are very interested in rebalancing the UK, not just in terms of political power but in terms of the economy as well, and indeed other aspects. So, it is a very live debate at the moment, and I think that there is a particular opportunity to redress some of these issues across the UK. As I said, that is absolutely vital for us here in Wales.

Wrth gwrs, mae angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU, llywodraeth leol a'r Undeb Ewropeaidd yn wir, a rhanddeiliaid allweddol eraill os ydym am wneud y math o gynnydd sydd angen i ni ei weld. Rwy'n credu bod ysgogiad a ffocws o'r newydd wedi'i roi i'r ddadl hon gan y refferendwm yn yr Alban a oedd yn ymarferiad mor anhygoel o ran ymgysylltu â phobl yr Alban, a thrwy estyniad yn fy marn i, â phobl y DU yn gyfan, yn cynnwys pobl yma yng Nghymru. Mae pobl yn awyddus iawn i ailgydbwyso'r DU, nid yn unig o ran grym gwleidyddol ond o ran yr economi hefyd, ac agweddau eraill yn wir. Felly, mae'n ddadl fyw iawn ar hyn o bryd ac rwy'n meddwl bod yma gyfle arbennig i unioni rhai o'r materion hyn ar draws y DU. Fel y dywedais, mae hynny'n gwbl hanfodol i ni yma yng Nghymru.

We know that many things can be done. In Newport, for example, we have benefited from a dispersal policy for UK Government jobs and UK Government agency jobs over many years. We have the patent office, the statistics office, the prison service and others, and much more could be done in that regard. There are many important infrastructure projects that could be taken forward in Wales with UK Government help. The metro system, for example, I think is a very important one that perhaps could go forward earlier if there were not that restriction on access to early borrowing powers for the Welsh Government, which currently are focused on an M4 relief road rather than other possible solutions. We know that the Welsh Government is to have new taxation powers and the sooner they come about, the better. There could be more help with inward investment and, indeed, growing indigenous firms from UK Government. I do think that it is absolutely vital that the UK parties put forward ideas on these matters for the general election next year, and flesh out exactly what they will do in their manifestos, so that the people of Wales can have the clearest possible idea of what they will be voting for.

Rydym yn gwybod bod llawer o bethau y gellir eu gwneud. Yng Nghasnewydd, er enghraifft, rydym wedi elwa o bolisi gwasgaru swyddi Llywodraeth y DU a swyddi asiantaethau Llywodraeth y DU ers nifer o flynyddoedd. Mae gennym y swyddfa batent, y swyddfa ystadegau, y gwasanaeth carchardai ac eraill, a gellid gwneud llawer mwy yn hynny o beth. Mae llawer o brosiectau seilwaith pwysig y gellid eu datblygu yng Nghymru gyda chymorth Llywodraeth y DU. Rwy'n credu bod y system metro, er enghraifft, yn un bwysig iawn y gellid ei datblygu yn gynt oni bai am y cyfyngiad ar allu Llywodraeth Cymru i arfer pwerau benthyca cynnar sy'n canolbwyntio ar hyn o bryd ar ffordd liniaru'r M4 yn hytrach nag atebion eraill posibl. Gwyddom fod Llywodraeth Cymru i gael pwerau trethu newydd a gorau po gyntaf y byddant yn digwydd. Gellid cael mwy o help gyda denu buddsoddiadau gan Lywodraeth y DU ac yn wir, ar gyfer tyfu cwmnïau cynhenid. Credaf ei bod yn gwbl hanfodol fod y pleidiau yn y DU yn cyflwyno syniadau ar y materion hyn gogyfer â'r etholiad cyffredinol y flwyddyn nesaf ac yn rhoi cnawd ar esgyrn beth yn union y byddant yn ei wneud yn eu maniffestos fel y gall pobl Cymru gael y syniad cliriaf posibl o'r hyn y byddant yn pleidleisio drosto.

Of course, the Welsh Government has many levers available to it and will have other levers in due course—in the short term, I hope. Personally, I would very much like to see the metro system as one of the real priorities for Welsh Government in terms of short-term development, as well as beyond that. I would like to see the Ebbw Vale passenger rail link going to Newport at the earliest possible opportunity, and I would like to see projects such as the linking of the canal in Newport and the River Usk with a marina. I know that there are countless really important infrastructure projects right across Wales that Members here would like to see. We have to make sure that the levers to enable those projects come about as quickly as possible.

Wrth gwrs, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ysgogiadau ar gael iddo a bydd ganddo ysgogiadau eraill maes o law—yn y tymor byr, rwy'n gobeithio. Yn bersonol, hoffwn yn fawr weld y system metro'n dod yn un o'r blaenoriaethau go iawn i Lywodraeth Cymru o ran datblygu yn y tymor byr, yn ogystal â thu hwnt i hynny. Hoffwn weld cyswllt trenau Glynebwy i deithwyr yn mynd i Gasnewydd ar y cyfle cyntaf posibl, a hoffwn weld prosiectau megis cysylltu'r gamlas yng Nghasnewydd ac afon Wysg â marina. Rwy'n gwybod bod prosiectau seilwaith pwysig dirifedi ledled Cymru y byddai'r Aelodau yma'n hoffi eu gweld. Rhaid i ni wneud yn siŵr fod yr ysgogiadau ar gyfer galluogi'r prosiectau hynny i ddigwydd yn eu lle cyn gynted ag y bo modd.

It is absolutely clear, is it not, what countries and societies gain from greater equality? It has fleshed out with a lot of research recently and over a number of years. Books like 'The Spirit Level' make it clear just what greater equality brings to a country in terms of overall quality of life. I think that people see that very clearly. Just this week, we had the Living Wage campaign come to the Assembly. There are many things that we can do to build Wales as a living wage country. I hope that we will see Welsh Government leading that campaign, now that we have had that event here, working with the Living Wage Foundation, trade unions, employers and others.

Mae'n gwbl amlwg, onid yw, beth y mae gwledydd a chymdeithasau yn ei elwa o fwy o gydraddoldeb? Mae'r maes wedi datblygu gyda llawer o waith ymchwil yn ddiweddar a thros nifer o flynyddoedd. Mae llyfrau fel 'The Spirit Level' yn ei gwneud yn glir yn union beth y mae mwy o gydraddoldeb yn ei roi i wlad o ran ansawdd bywyd yn gyffredinol. Credaf fod pobl yn gweld hynny'n glir iawn. Yr wythnos hon, daeth yr ymgyrch Cyflog Byw i'r Cynulliad. Mae yna lawer o bethau y gallwn eu gwneud i wneud Cymru yn wlad cyflog byw. Rwy'n gobeithio y byddwn yn gweld Llywodraeth Cymru yn arwain yr ymgyrch honno, yn awr ein bod wedi cael y digwyddiad hwnnw yma, gan weithio gyda'r Sefydliad Cyflog Byw, undebau llafur, cyflogwyr ac eraill.

In Newport, I have seen many important developments, such as the Admiral offices in the city centre and the important city centre redevelopment that is under way. There is the ReNewport conference this Friday to flesh out very important ideas. However, none of this will come about, and we will not deal with inequality effectively, if we do not have this lining up of UK Government, Welsh Government taking the lead here in Wales, the European Union, local government and key stakeholders. I think it is that coming together and collaboration that we need to see for the future.

Yng Nghasnewydd, gwelais lawer o ddatblygiadau pwysig, megis swyddfeydd Admiral yng nghanol y ddinas a'r gwaith ailddatblygu pwysig sydd ar y gweill ar ganol y ddinas. Cynhelir cynhadledd ReNewport ddydd Gwener yma ar gyfer datblygu syniadau pwysig iawn. Fodd bynnag, ni fydd dim o hyn digwydd ac ni fyddwn yn delio'n effeithiol ag anghydraddoldeb os na allwn sicrhau cytundeb ar hyn rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru yn cymryd yr awenau yma yng Nghymru, yr Undeb Ewropeaidd, llywodraeth leol a rhanddeiliaid allweddol. Rwy'n credu mai dod at ein gilydd a chydweithio yn y ffordd hon sydd angen i ni ei wneud ar gyfer y dyfodol.

16:53

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Clywsom yn gynharach gan Rhun ap Iorwerth ynglŷn ag ymweliad grŵp o gynrychiolwyr Plaid Cymru a llysgenhadaeth Gwlad yr Iâ yn Llundain yr wythnos diwethaf er mwyn dysgu o'u profiadau nhw. Rwy'n meddwl bod yna, fel y clywsom, wers bwysig i ni yn hynny o beth. Poblogaeth o ryw 300,000 sydd yno, a'r economi wedi'i hadeiladu o gwmpas y sector bancio a'r sector gwasanaethau ariannol.

We heard earlier from Rhun ap Iorwerth about the visit by a delegation from Plaid Cymru and the Iceland embassy in London last week to learn from their experience. As we heard, I think that there is an important lesson for us in that regard. It has a population of some 300,000 people, and an economy built around the banking sector and financial services sector.

Ar ddiwedd ail chwarter 2008, roedd dyled allanol sector bancio Gwlad yr Iâ gyfystyr â 471% o GDP y wlad. 'Nawr, ers hynny, fel y clywsom, maent wedi ailffocysu eu heconomi, yn bennaf o gwmpas eu hadnoddau naturiol a'u hallforion. Wrth gwrs, mae hynny, efallai o safbwynt yr adnoddau naturiol sydd gennym ni yng Nghymru, yn tanlinellu'r potensial sydd yn y fan hon.

At the end of the second quarter of 2008, the external debt of the Icelandic banking sector was akin to 471% of the country's GDP. Now, since then, as we have heard, they have refocused their economy, mainly around their natural resources and their exports. Of course, in terms of the natural resources that we have here in Wales, that underlines the potential that we have here.

Mae Gwlad yr Iâ yn cynhyrchu pum gwaith y trydan y mae'n ei ddefnyddio. O ganlyniad i hynny, wrth gwrs, mae'r biliau yn sylweddol iawn is ar gyfer yr ynni hwnnw. 'Nawr, mae Cymru hefyd yn cynhyrchu mwy o drydan na'r ydym yn ei ddefnyddio—bron dwbl yr hyn yr ydym yn ei ddefnyddio, mewn gwirionedd—ac eto, rydym yn talu mwy am yr ynni hwnnw na'n cymdogion sy'n ei fewnforio dros y ffin. Y pwynt yn y fan hon, wrth gwrs, yw mai potensial yr adnoddau naturiol sy'n arwyddocaol.

Iceland produces five times as much electricity as it uses. As a result of that, of course, the energy bills are significant lower. Now, Wales also produces more electricity than we use— almost double what we use, if truth be told— and yet we are paying more for that energy than our neighbours who import it over the border. The point here, of course, is that it is the potential of the natural resources that we have that is significant.

Roedd adroddiad gan RenewableUK Cymru yn 2012 yn amcangyfrif y byddai'r prosiectau gwynt ar y tir a oedd yn y 'pipeline' bryd hynny yn cynhyrchu tua £2.3 biliwn o GVA a mwy na 2,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn bob blwyddyn. Roedd hynny, wrth gwrs, cyn inni weld yr ychwanegiadau i'r prosiectau sydd yn y 'pipeline' hwnnw erbyn hyn.

A report by RenewableUK Cymru in 2012 estimated that the onshore wind projects tjat were in the pipeline at that time would generate some £ 2.3 billion of GVA and more than 2,000 full-time equivalent jobs each year. That was before we saw the enhancements that there have been to the projects that were in the pipeline, of course.

Mae gennym hefyd, wrth gwrs, 1,200 km o arfordir ac mae'n porthladdoedd môr dwfn ni, a'r arbenigedd sydd gennym yn ein prifysgolion yn y de a'r gogledd, yn gwneud moroedd Cymru yn arbennig o werthfawr o safbwynt diwydiant ynni'r môr. Mae amcangyfrif y bydd y diwydiant hwnnw'n werth tua £3.7 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig erbyn 2020. Felly, mae'n allweddol bod Cymru nid yn unig yn cael ein siâr ond yn cael mwy na'n siâr o'r potensial hwnnw, o gofio'r addewid sydd o safbwynt yr arfordir yng Nghymru.

Of course, we also have 1,200 km of coastline and our deep sea ports and the expertise that we have in our universities in south and north Wales make the Welsh seas particularly valuable in terms of the offshore energy industry. It is estimated that that industry will be worth some £ 3.7 billion to the UK economy by 2020. Therefore, it is crucial that Wales not only has its fair share but gets more than its share of that potential, bearing in mind the potential that that coastline has in Wales.

Dim ond yr wythnos diwethaf, roeddwn i a rhai Aelodau eraill o'r Cynulliad hwn yn lansiad cwmni newydd, Ynni Llanw Gogledd Cymru, sy'n edrych i ddatblygu'r potensial hwnnw o ran ynni'r llanw. Mae gennym ni rai o'r 'tidal drops' mwyaf yn Ewrop, wrth gwrs, oddi ar ein harfordir ni yn y fan hon. Rydym yn gwybod am y cynllun i ddatblygu lagŵn llanw Abertawe, sy'n fenter gyffrous iawn, nid dim ond o safbwynt ynni. Mae yna botensial ychwanegol i greu cynnig hamdden a thwristiaeth cyffrous, yn ogystal â mentrau dyframaeth, yn gysylltiedig â'r prosiect hwnnw.

Just last week, I attended, along with some other Members of this Assembly, the launch of a new company, North Wales Tidal Energy, which is looking to exploit the potential in terms of tidal energy. We have some of the greatest tidal drops in Europe, of course, just off our coastline here. We are aware of a proposal to develop a tidal lagoon in Swansea, which is a very exciting development, and not only in terms of energy. Associated with that project, there is additional potential to create an exciting leisure and tourism offer, as well as aquaculture projects.

Neithiwr ddiwethaf, roedd nifer ohonom mewn digwyddiad yn y fan hon a gynhaliwyd gan Ystadau'r Goron, lle'r oedd cyfle inni gyfarfod â rhai o'r bobl y mae'r ystâd yn ymwneud â nhw. Un ohonynt—a chefais sgwrs gyda chynrychiolwr o'r cwmni hwnnw—oedd Tidal Energy Limited, ac mae nifer ohonom yn gwybod am y cwmni hwnnw o sir Benfro, ac am ddatblygiad cyffrous y tyrbin DeltaStream, sy'n arloesedd Cymreig ac sydd â photensial byd-eang. Dyna'n union y math o fentrau y dylem fod yn eu cefnogi—ac rydym yn eu cefnogi. Ond un neu ddwy enghraifft yw'r rhain. Dylai fod dwsinau o enghreifftiau tebyg i gyfateb i'r uchelgais sydd gan bob un ohonom, rwy'n siŵr, o safbwynt y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Just last night, many of us attended an event here hosted by the Crown Estates, where we had an opportunity to meet some of the people that they deal with. One of them —and I had a conversation with a representative from that company—was Tidal Energy Limited, and many of us will be aware of that company from Pembrokeshire, and of the exciting development of the DeltaStream turbine, which is a Welsh innovation that has global potential. Those are precisely the kinds of initiatives we should be supporting— and we are supporting. But those are just a few examples. There should be dozens of similar examples to match the ambition that we all have, I am sure, in terms of the renewable energy sector here in Wales.

Felly, oni ddylem fod yn edrych i wledydd fel Gwlad yr Iâ, sydd wedi manteisio ar ei hadnoddau naturiol i ddiwygio ei heconomi er budd ei thrigolion, ac i ailgydbwyso'r economi hefyd er lles ei dinasyddion? Er na fyddai pawb am weld Cymru yn wlad annibynnol, rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno nad ydym am i'n heconomi fod mor ddibynnol ag y mae hi ar flaenoriaethau economaidd gwlad arall, yn enwedig pan fydd y bwlch anghyfartaledd rydym wedi clywed amdano yn y drafodaeth yn barod rhwng y bobl dlotaf a'r cyfoethog ac, yn wir, y rhanbarthau tlotaf a'r cyfoethog mor eang ag ydyw. Fel y dywedodd Leanne Wood yn ei sylwadau agoriadol, nid mater o ailgydbwyso economaidd yn unig yw hwn. Nid yw hynny'n ddigon ar ei ben ei hun. Mae angen ailgydbwyso pwerau hefyd. Yng nghyd-destun y sector ynni—wel, dyna ichi enghraifft yn union o ble mae'r diffyg o safbwynt pwerau yn ein dal ni yn ôl mewn gwirionedd.

Therefore, should we not be looking to nations such as Iceland, which have taken advantage of their natural resources to rebalance their economy for the benefit of their people, and to rebalance the economy for the benefit of their citizens? Although not everyone would want to see Wales as an independent nation, I am sure that we would all agree that we do not want our economy to be as dependent as it is on the economic priorities of another nation, particularly when the inequality gap that we have heard about in the discussion between the poorest and the wealthy and, indeed, the poorest and wealthiest regions is so vast. As Leanne Wood said in her opening remarks, it is not just a matter of rebalancing the economy. That is not enough on its own. Powers also need to be rebalanced. In the context of the energy sector—well, that is an excellent example of how the lack of powers is holding us back.

16:57

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will start by very much agreeing with much of what has just been said by Llyr Huws Gruffydd and also by Leane Wood in her opening speech. There are significant questions over economic inequality that need to be addressed as a function of Government policy and must be addressed as a purpose of Government policy as well. I very much agree with what was said last week on the issues around the Bank of England as well. Those are issues that we need to address.

Dechreuaf drwy gytuno'n bendant â llawer o'r hyn a ddywedodd Llyr Huws Gruffydd yn awr a hefyd Leanne Wood yn ei haraith agoriadol. Mae cwestiynau arwyddocaol yn codi ynghylch anghydraddoldeb economaidd ac mae angen mynd i'r afael â hwy fel un o swyddogaethau polisi Llywodraeth a rhaid mynd i'r afael â hwy fel un o ddibenion polisi Llywodraeth hefyd. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedwyd yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â Banc Lloegr hefyd. Mae'r rheiny'n faterion y mae angen i ni roi sylw iddynt.

I have to say that it has been a while since we heard Plaid Cymru talking about Iceland as an example of economic activity in this Chamber. I think that we all welcome the return of Iceland to our political debates here. Can I say, though, that I think it is important that, in addressing the very real issues facing the Welsh economy, we do so recognising where the economy is and understanding the numbers that we are seeing in economic debate in Wales at the moment? William Graham opened his contribution by listing some of our GVA numbers, and they are correct, of course. However, we need a wider understanding of what GVA is doing. If you look at the GVA numbers for the United Kingdom as a whole and for different regions within the United Kingdom, what we are seeing are statistically significant declines in all parts of the United Kingdom and for the UK as a whole, relative to its performance in the European Union or EU-27.

Rhaid i mi ddweud bod cryn amser ers i ni glywed Plaid Cymru yn siarad am Wlad yr Iâ fel enghraifft o weithgarwch economaidd yn y Siambr hon. Credaf ein bod i gyd yn croesawu dychweliad Gwlad yr Iâ i'n dadleuon gwleidyddol yma. Wrth fynd i'r afael â'r materion real iawn sy'n wynebu economi Cymru, fodd bynnag, a gaf fi ddweud fy mod yn credu ei bod yn bwysig i ni wneud hynny gan gydnabod lle mae'r economi arni a chan ddeall y rhifau a welwn mewn dadleuon economaidd yng Nghymru ar hyn o bryd? Agorodd William Graham ei gyfraniad drwy restru rhai o'n rhifau GYC ac maent yn gywir, wrth gwrs. Fodd bynnag, mae angen dealltwriaeth ehangach o'r hyn y mae GYC yn ei wneud. Os edrychwch ar y rhifau GYC ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gyfan ac ar gyfer gwahanol ranbarthau'r Deyrnas Unedig, yr hyn a welwn yw dirywiad arwyddocaol yn ystadegol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ac ar gyfer y DU yn gyfan, o gymharu â'i pherfformiad yn yr Undeb Ewropeaidd neu'r UE-27.

My view is that, while that does reflect differences of economic perfomance, it also reflects a deeper issue about those statistics themselves. I think we need to look beyond simply Eurostat to understand what is happening in the economy. When we do so, we see very different things. We see that unemployment is falling, but employment is also falling. We know that average earnings are increasing, but from an extraordinarily low level. That is why I think—like my friend, John Griffiths, with whom I agree very much—that we do need to ensure that we have a living wage in Wales, and that we as a Government here in Cardiff ensure that the living wage is a part of all public sector organisations in Wales.

Yn fy marn i, er bod hynny'n adlewyrchu gwahaniaethau o ran perfformiad economaidd, mae hefyd yn adlewyrchu mater dyfnach ynghylch yr ystadegau hynny eu hunain. Rwy'n credu bod angen i ni edrych y tu hwnt i Eurostat i ddeall yr hyn sy'n digwydd yn yr economi. O wneud hynny, gwelwn bethau gwahanol iawn. Gwelwn fod lefelau diweithdra'n gostwng, ond mae lefelau cyflogaeth hefyd yn gostwng. Gwyddom fod enillion cyfartalog yn cynyddu, ond o lefel eithriadol o isel. Dyna pam rwy'n credu—fel fy ffrind, John Griffiths, y cytunaf yn llwyr ag ef—fod angen i ni sicrhau bod gennym gyflog byw yng Nghymru a'n bod ni fel Llywodraeth yma yng Nghaerdydd yn sicrhau bod y cyflog byw yn rhan o bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru.

However, we also know that we are seeing GVA in Wales increasing as a proportion of the UK average, and we are seeing greater increases in GVA in Wales than is being seen in many other regions of the United Kingdom. That, of course, is a very good thing, because it does mean that we are seeing improvements in the relative performance of the Welsh economy in UK terms.

Fodd bynnag, gwyddom hefyd ein bod yn gweld GYC yng Nghymru yn cynyddu fel cyfran o gyfartaledd y DU ac rydym yn gweld cynnydd mwy mewn GYC yng Nghymru nag a welir yn llawer o ranbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Mae hynny, wrth gwrs, yn beth da iawn am ei fod yn golygu ein bod yn gweld gwelliannau ym mherfformiad cymharol economi Cymru yn nhermau'r DU.

I want to address an issue that we have addressed on many occasions in the Chamber, namely the impact of European funding. This was addressed by William Graham in his opening remarks, and I think that Leanne also mentioned it. We need to understand what convergence funding can do and what it is capable of doing. I have never believed, not for a moment, those people who have said that we will be able to address almost a century of economic decline in the south Wales Valleys with a decade of funding from the European Union of something like £2 billion in an economy that is of far greater value. That simply was never going to happen; it is not going to happen, and we need to be very clear about that.

Rwyf am i fynd i'r afael â mater rydym wedi'i drafod ar sawl achlysur yn y Siambr, sef effaith cyllid Ewropeaidd. Cafodd hyn sylw gan William Graham yn ei sylwadau agoriadol, ac rwy'n meddwl bod Leanne wedi ei grybwyll hefyd. Mae angen i ni ddeall beth y mae cyllid cydgyfeirio yn ei wneud a'r hyn y byddai'n gallu ei wneud. Nid wyf erioed wedi credu am eiliad y bobl hynny sydd wedi dweud y gallwn fynd i'r afael â bron ganrif o ddirywiad economaidd yng Nghymoedd y de gyda degawd o arian gan yr Undeb Ewropeaidd gwerth tua £2 biliwn mewn economi sy'n werth llawer mwy. Nid oedd hynny byth yn mynd i ddigwydd; nid yw'n mynd i ddigwydd ac mae angen i ni fod yn glir iawn ynglŷn â hynny.

If you want an example of an economy that has seen very real changes in the last few years, you need to look at what happened when East Germany was united with West Germany. If you look at many of the population statistics and many of the economic indicators there, you see that that border lies as clearly today as it did when you had the iron curtain guarded by Russian tanks. If you take any economic indicator or any population indicator and compare that between East Germany and West Germany, you will see that, despite some of the greatest financial transfers we have seen in Europe in any of our lifetimes, those issues facing the eastern German economy are as great today as they were then. Therefore, we will not be able to address these issues in a decade; they will take far greater interventions and far deeper interventions.

Os ydych chi eisiau enghraifft o economi sydd wedi gweld newidiadau go iawn dros y blynyddoedd diwethaf, mae angen i chi edrych ar yr hyn a ddigwyddodd pan unwyd Dwyrain yr Almaen a Gorllewin yr Almaen. Os edrychwch ar lawer o'r ystadegau poblogaeth a llawer o'r dangosyddion economaidd yno, gwelwch fod y ffin yr un mor amlwg heddiw ag oedd hi pan oedd y llen haearn yn cael ei gwarchod gan danciau Rwsia. Os defnyddiwch unrhyw ddangosydd economaidd neu unrhyw ddangosydd poblogaeth a'i gymharu rhwng Dwyrain yr Almaen a Gorllewin yr Almaen, er gwaethaf rhai o'r trosglwyddiadau ariannol mwyaf a welwyd yn Ewrop yn oes neb ohonom, gwelwch fod y materion hynny sy'n wynebu economi dwyrain yr Almaen mor fawr heddiw ag yr oeddent bryd hynny. Felly, ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn mewn degawd; byddant yn galw am lawer mwy o ymyriadau ac ymyriadau llawer dyfnach.

I hope that those interventions will be driven by a belief in green growth and creating green economic growth here in Wales. The IPCC report over the weekend on climate change showed us that the current economic model is broken. It has been broken for social reasons, as we have already heard, and many of us will agree, but it will not create economic growth that is sustainable in the long term and sustainable for our people in the long term. Therefore, we need to create a model—and it is not sufficient simply to say that we will carry on doing in the future what we have done in the past and that we will simply do it better; we need a new model of economic growth and an economic growth model that is based on sustainability.

Gobeithiaf y bydd yr ymyriadau hynny yn cael eu hysgogi gan gred mewn twf gwyrdd a chreu twf economaidd gwyrdd yma yng Nghymru. Mae adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) dros y penwythnos yn dangos i ni fod y model economaidd presennol wedi torri. Mae wedi torri am resymau cymdeithasol, fel rydym eisoes wedi clywed, a bydd llawer ohonom yn cytuno, ond nid yw'n mynd i greu twf economaidd sy'n gynaliadwy yn y tymor hir ac sy'n gynaliadwy i'n pobl yn y tymor hir. Felly, mae angen i ni greu model—ac nid yw'n ddigon dweud yn syml y byddwn yn parhau i wneud yn y dyfodol yr hyn rydym wedi'i wneud yn y gorffennol ond y byddwn yn ei wneud yn well; mae arnom angen model newydd o dwf economaidd a model twf economaidd sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd.

17:02 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Wrth ymateb i Araith y Frenhines eleni, galwodd Plaid Cymru am Fil tegwch economaidd a fyddai'n mynd i'r afael â statws y Deyrnas Unedig fel gwladwriaeth fwyaf anghyfartal Ewrop, i gydbwyso'r economi fel nad yw'r holl gyfoeth yn aros yn Llundain a'r de-ddwyrain. Gwrandawais ar Eluned Parrott a'i dadansoddiad hi o'r cynnig a'r angen i fod yn fwy manwl o ran yr hyn yr oeddem yn ei feddwl; credaf fod pawb yn deall bod anghyfartaledd economaidd dybryd, nid yn unig ar raddfa ranbarthol, ond hefyd yn unigol, fel cyfoeth y pen, rhwng y de-ddwyrain a Chymru, ond hefyd a'r rhanbarthau eraill yn Lloegr, a bod yn hollol deg.

In response to the Queen's Speech this year, Plaid Cymru called for an economic fairness Bill that would address the status of the United Kingdom as the most unequal state in Europe, to rebalance the economy so that all the wealth does not remain in London and the south-east of England. I listened to Eluned Parrott and her analysis of the motion and the need to be more detailed in terms of our thinking; I think that everyone understands that there is serious economic inequality, not just on a regional basis, but on an individual basis in terms of per capita wealth between the south-east of England and Wales, and the other regions of England, to be fair.

Byddai Plaid Cymru am ddeddfu i roi dyletswydd gyfreithiol ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i greu polisi economaidd sy'n lefelu cyfoeth y pen ac a fyddai'n creu economi decach o ran ffyniant ac o ran cyfle. Y gwir amdani, dan Lywodraethau Llafur a Cheidwadol yn Llundain, yw bod cyfoeth wedi ei bolareiddio ar lefel yr unigolyn ac ar lefel ranbarthol. Rydym i gyd yn gwybod mai canol Llundain yw'r ardal gyfoethocaf yn yr Undeb Ewropeaidd, tra bod rhai cymunedau Cymreig bellach yn dlotach na gwledydd cyn-gomiwnyddol. Er bod Eluned Parrott, unwaith eto, yn dweud bod yr un patrwm i'w weld mewn gwledydd eraill, mae'r patrwm yn fwy amlwg yma yn y Deyrnas Gyfunol, a dyna'r hyn rydym yn ceisio ymateb iddo yn y cynnig hwn, a gyda'r awgrym o greu Bil tegwch economaidd.

Plaid Cymru would want to legislate to put a legal duty on the United Kingdom Government to create an economic policy that would rebalance per capita wealth and which would create a fairer economy in terms of prosperity and opportunity. The fact of the matter is that, under Labour and Conservative Governments in London, wealth has been polarised at an individual level and on a regional level. We all know that central London is the richest area in the European Union, while some Welsh communities are now poorer than some former communist countries. Again, although Eluned Parrott says that the same pattern is to be seen in other countries, the pattern is more pronounced here in the United Kingdom, and that is what we are trying to respond to in this motion, and with the suggestion of creating an economic fairness Bill.

Rydym wedi clywed bod y gwasanaeth bancio wedi ei ganoli yn Llundain a'r de-ddwyrain, ond mae hwnnw wedi ei atgyfnerthu ar ôl y cwymp economaidd yn 2008, tra bod cryfderau traddodiadol yr economi Cymreig yn parhau i fod yn wan—mae cynnyrch diwydiannol 15% yn is a gweithgynhyrchu 10% yn is na'r lefelau cyn y cwymp. Mae'r ffeithiau hyn yn feirniadaeth ddamniol o fethiannau economaidd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a derbyn y cyd-destun rhyngwladol.

We have heard that the banking service has been centralised in London and the south-east, but that has been reinforced after the economic recession in 2008, while the traditional strengths of the Welsh economy remain weak—industrial output is 15% lower and manufacturing 10% lower than the levels prior to the recession. These statistics are a damning indictment of the economic failings of the United Kingdom Government, bearing in mind the international context.

Cyfeiriodd Alun Davies at y sefyllfa yn yr Almaen, ac, yn sicr, tra bod gwahaniaethau rhwng yr hyn a oedd yn ddwyrain yr Almaen a gorllewin yr Almaen yn dal i fod yno, mae polisi bwriadol gan y Llywodraeth yno i geisio cydbwyso'r economi ac i geisio rhoi mantais i'r hen ardaloedd ôl-ddiwydiannol hynny yn y dwyrain. Nid ydym wedi gweld y math hwnnw o feddylfryd yn gweithredu ym Mhrydain, a dyna'r hyn y byddem ni am weld Deddf neu Fil fel hyn yn ceisio ei wneud. Heb ymdrechu, nid ydych yn mynd i lwyddo.

Alun Davies referred to the situation in Germany, and it is most certainly the case the, while the differences between what were East Germany and West Germany remain, the Government there has an intentional policy of trying to rebalance the economy and giving an advantage to those post-industrial areas in the east. We have not seen that kind of thinking in operation here in Britain, and that is what we would want to see an Act or a Bill such as this trying to achieve. Without trying, you will not succeed.

Yn amlwg, byddai Bil fel hwn yn ceisio symud pwyslais yr economi oddi wrth y gwasanaethau ariannol a thuag at gynhyrchu a pheirianneg, gan dderbyn eto y pwynt a wnaethpwyd ynglŷn â'r economi werdd gan Alun Davies, a hefyd yn cyfeirio gwariant a buddsoddiad mewn isadeiledd at yr ardaloedd hynny lle mae'r GVA isaf.

Clearly, a Bill such as this would attempt to move the emphasis in the economy from financial services to manufacturing and engineering, bearing in mind the point made by Alun Davies about the green economy, and to direct expenditure and investment in infrastructure towards those area where GVA is at its lowest.

Mae'r mater hwn o dargedu buddsoddiad cyfalaf ar yr ardaloedd sydd ei angen fwyaf yn fater pwysig ac allweddol, achos rydym yn gweld gwariant ar hyn o bryd yn cael ei gyfeirio at Lundain, gwariant anferthol fel y cynlluniau ar gyfer rheilffordd HS2, sy'n cael ei ystyried yn wariant Prydeinig efo dim 'consequential' i Gymru. Eto, mae'r budd yn dod, hyd y gwelwn ni ac fel sy'n digwydd dro ar ôl tro, i un ardal yn unig, sef Llundain a'r de-ddwyrain. Dyna yw un o'r pethau y mae'n rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig—tra bod Cymru yn rhan o'r Deyrnas Unedig—fynd i'r afael ag ef.

This matter of targeting capital investment at areas that need this investment most is an crucially important matter, because we are currently seeing expenditure being directed towards London, and this is huge expenditure, such as that planned for the HS2 railway and which is viewed as British expenditure with no consequential for Wales. However, the benefit, as far as we see and as happens time and again, will go to one area, namely London and the south-east of England. That is one of the issues that the Government of the United Kingdom—while Wales remains a part of the United Kingdom—has to get to grips with.

Rwyf am wneud un sylw pellach cyn fy mod yn gorffen. Mae'r anghyfartaledd a welwn yn yr economi Brydeinig hefyd yn dueddol o ddigwydd yng Nghymru, lle mae tuedd i ganolbwyntio ar goridor yr M4, lle mae'n gymharol hawdd—neu'n haws o leiaf—i greu twf economaidd. Rydym am weld polisi Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio dod â thegwch i bob rhan o Gymru, ac yn sicr yn peidio ag ailgreu y methiant sydd wedi digwydd ar lefel Brydeinig. Rydym am weld twf felly yn cael ei ymestyn y tu hwnt i'r de-ddwyrain yng Nghymru hefyd.

I want to make one further comment before I conclude. The inequality that we see in the British economy also tends to happen in Wales, where there is a tendency to focus on the M4 corridor, where it is relatively easy—or easier, at least—to create economic growth. We want to see Welsh Government policy trying to bring fairness to every part of Wales, and to certainly not recreate the failings that have happened on a British level. We want to see growth being extended beyond the south-east here in Wales, too.

17:08

## Edwina Hart [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I very much welcome the debate today about the economy in Wales and the contributions that have been made by Members. There was much that I could agree with in Leanne Wood's opening remarks on the issue, particularly about fair funding and rebalancing across the whole of the UK, which I think is very important.

Rwy'n croesawu'r ddadl heddiw am yr economi yng Nghymru a chyfraniadau'r Aelodau yn fawr iawn. Cafwyd llawer y gallwn gytuno ag ef yn sylwadau agoriadol Leanne Wood ar y mater, yn enwedig ynglŷn â chyllid teg ac ailgydbwyso ar draws y DU gyfan sy'n bwysig iawn yn fy marn i.

As a Government, we are delivering against our programme for government and helping business to deliver real and lasting benefits for the Welsh economy in terms of jobs and growth. Our programme for government sets out actions in support of the economy in Wales. However, we are not accountable for the outcome in other parts of the UK. We have to concentrate on the levers that we have available to us, and if we do not like what is happening elsewhere, we then have to make our representations on those issues that will benefit the Welsh economy.

Fel Llywodraeth, rydym yn cyflawni yn erbyn ein rhaglen lywodraethu ac yn helpu busnesau i sicrhau manteision gwirioneddol a pharhaol i economi Cymru o ran swyddi a thwf. Mae ein rhaglen lywodraethu yn nodi camau gweithredu i gefnogi'r economi yng Nghymru. Fodd bynnag, nid ydym yn atebol am y canlyniadau mewn rhannau eraill o'r DU. Rhaid i ni ganolbwyntio ar yr hyn sydd ar gael i ni ac os nad ydym yn hoffi'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill, yna rhaid i ni gyflwyno sylwadau ar y materion hynny a fydd o fudd i economi Cymru.

There is also an increasing income gap between the poorest and richest individuals in many economies, as Eluned Parrott pointed out. We can all look at statistics as to what is happening in different economies, and I think that Alun Davies made a very good point about what is happening in Germany on that issue. While GVA per head can be a useful measure—I appreciate that, William—it is not a complete indicator of economic progress, especially in the context of the economy in Wales. For example, it takes no account of demographic structure. As Wales has a relatively elderly population, this automatically subtracts from our relative GVA per head. It is for this reason that we will not be supporting amendment 7. We need to look at the longer term trends over a wider range of indicators to get a fuller and more accurate picture of how we are performing.

Hefyd mae yna fwlch incwm cynyddol rhwng yr unigolion tlotaf a'r cyfoethocaf mewn llawer o economïau, fel y dywedodd Eluned Parrott. Gall pob un ohonom edrych ar yr ystadegau o ran yr hyn sy'n digwydd mewn gwahanol economïau ac rwy'n credu bod Alun Davies wedi gwneud pwynt da iawn am yr hyn sy'n digwydd yn yr Almaen ar y mater hwnnw. Er y gall GYC y pen fod yn ddull defnyddiol o fesur—rwy'n sylweddoli hynny, William—nid yw'n ddangosydd cyflawn o gynnydd economaidd, yn enwedig yng nghyd-destun yr economi yng Nghymru. Er enghraifft, nid yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i strwythur demograffig. Gan fod gan Gymru boblogaeth gymharol oedrannus, mae hynny'n syth yn tynnu oddi ar ein GYC y pen cymharol. Am y rheswm hwn, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 7. Mae angen i ni edrych ar y tueddiadau tymor hwy dros ystod ehangach o ddangosyddion i gael darlun llawnach a mwy cywir o sut rydym yn perfformio.

In terms of the original motion, GVA per capita in west Wales and the Valleys is now a higher percentage of the UK average than it was in 1999, at 62.7% versus 60.9%, and it is higher than it was before the financial crisis, at 62.7% versus 61.8% in 2007. When we talk about issues across the UK, I have always considered in recent years London to be almost another country in terms of what I see as prosperity and wealth. However, when you look at the considerable variation in income among the individual areas, for example, in parts of England, they have some of the highest poverty rates in the UK. So, we cannot take a blanket approach to these and make assumptions. I cannot support amendment 2 as our programme for government prioritises jobs and growth across all parts of Wales. For example, our enterprise zones are focused on seven locations representing our priority sectors and balancing opportunities across Wales. Further examples include our support for local growth, for instance in the more rural parts of Wales, and our significant investment in superfast broadband. William alluded to the investment from the UK Government, but I think that we know how much money we have put in here as well for investment.

O ran y cynnig gwreiddiol, mae GYC y pen yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd bellach yn ganran uwch o gyfartaledd y DU nag yr oedd yn 1999, sef 62.7% o'i gymharu â 60.9%, ac mae'n uwch nag yr oedd cyn yr argyfwng ariannol, ar 62.7% yn hytrach na 61.8% yn 2007. Wrth sôn am faterion ar draws y Deyrnas Unedig, rwyf bob amser wedi ystyried yn y blynyddoedd diwethaf fod Llundain bron yn wlad arall o ran y ffyniant a'r cyfoeth a welaf. Fodd bynnag, pan edrychwch ar yr amrywiaeth sylweddol mewn incwm ymhlith yr ardaloedd unigol, mae gan rannau o Loegr, er enghraifft, rai o'r cyfraddau tlodi uchaf yn y DU. Felly, ni allwn gyffredinoli ynglŷn â'r rhain a gwneud rhagdybiaethau. Ni allaf gefnogi gwelliant 2 am fod ein rhaglen lywodraethu yn blaenoriaethu swyddi a thwf ym mhob rhan o Gymru. Er enghraifft, mae ein hardaloedd menter yn canolbwyntio ar saith lleoliad sy'n cynrychioli ein sectorau blaenoriaeth ac yn cydbwyso cyfleoedd ar draws Cymru. Mae enghreifftiau pellach yn cynnwys ein cefnogaeth i dwf lleol, er enghraifft yn y rhannau mwy gwledig o Gymru a'n buddsoddiad sylweddol mewn band eang cyflym iawn. Cyfeiriodd William at fuddsoddiad Llywodraeth y DU, ond rwy'n meddwl ein bod yn gwybod faint o arian ar gyfer buddsoddi rydym wedi'i roi i mewn yma hefyd.

We continue to pursue areas with the greatest potential for growth and to create jobs by identifying priority sectors. That actually follows on from the development of a policy agenda on industrial policy that was started in the One Wales Government in terms of the development of sectors. This approach is broad enough, I believe, to encourage a more sustainable economy, but targeted enough to ensure that our support is focused on areas with growth potential. Significant steps have been taken to improve the position of businesses in Wales and the environment within which they operate. We already have a programme of support that identifies and helps to build companies' capacity to export. I think that Rhun alluded to export figures, and exports are really essential for us in terms of the manufacturing economy.

Rydym yn parhau i fynd ar drywydd ardaloedd sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer twf a chreu swyddi drwy nodi sectorau blaenoriaeth. Mae hynny mewn gwirionedd yn dilyn datblygu agenda bolisi ar bolisi diwydiannol a ddechreuwyd gan Lywodraeth Cymru'n Un o safbwynt datblygu sectorau. Mae'r dull hwn yn ddigon eang, rwy'n credu, i hyrwyddo economi fwy cynaliadwy, ond mae wedi'i dargedu digon i sicrhau bod ein cefnogaeth yn canolbwyntio ar ardaloedd sydd â'r potensial i dyfu. Mae camau sylweddol wedi cael eu rhoi ar waith i wella sefyllfa busnesau yng Nghymru a'r amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo. Mae gennym raglen gymorth eisoes sy'n nodi ac yn helpu i ddatblygu gallu cwmnïau i allforio. Credaf fod Rhun wedi cyfeirio at ffigurau allforio, ac mae allforion yn wirioneddol hanfodol i ni o safbwynt yr economi weithgynhyrchu.

As a Government, we have a key role to play in supporting businesses to trade internationally, and this is a key priority that is embedded across our strategies for entrepreneurship, start-up, micro-businesses and, of course, the key sectors. Our Explore Export event being held next week will have commercial officers from over 60 markets providing one-to-one advice to companies on exporting. We are hosting the UK investment conference, 'Embracing technology for competitive advantage', later this month, and we continue to build on the success of the NATO summit. As a Government, we also have a key role to play in ensuring that the right infrastructure is in place to support businesses. The prime example of that is obviously the superfast programme, with a number of households and businesses now connected.

Fel Llywodraeth, mae gennym ran allweddol i'w chwarae wrth gefnogi busnesau i fasnachu yn rhyngwladol, ac mae hon yn flaenoriaeth allweddol sy'n sylfaen i'n holl strategaethau ar gyfer entrepreneuriaeth, dechrau busnesau, microfusnesau ac, wrth gwrs, y sectorau allweddol. Fel rhan o'n digwyddiad Archwilio Allforion sy'n cael ei gynnal yr wythnos nesaf, bydd swyddogion masnachol o dros 60 o farchnadoedd yn darparu cyngor wyneb yn wyneb i gwmnïau ar allforio. Rydym yn cynnal cynhadledd buddsoddi'r DU, 'Embracing technology for competitive advantage', yn ddiweddarach y mis hwn, ac rydym yn parhau i adeiladu ar lwyddiant Uwchgynhadledd NATO. Fel Llywodraeth, mae gennym gyfraniad allweddol i'w wneud hefyd at sicrhau bod y seilwaith priodol ar waith i gefnogi busnesau. Y brif enghraifft o hynny yn amlwg yw'r rhaglen gyflym iawn, gyda nifer o gartrefi a busnesau wedi'u cysylltu bellach.

I also plan to publish a new national transport plan by the end of March 2015. It will set out future planned investments in transport infrastructure. John Griffiths alluded to the metro. Of course, the money has already been put in the budget lines in respect of the early work on the metro. It is also very important that we continue with the programme of infrastructure investment, which aids construction and connectivity on major transport infrastructure projects. Also, some excellent points were made about the green economy and the potential for growth within the green economy.

Rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Bydd yn nodi'r buddsoddiadau yn y seilwaith trafnidiaeth sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd John Griffiths at y metro. Wrth gwrs, mae'r arian eisoes wedi cael ei roi yn y llinellau cyllideb ar gyfer y gwaith cynnar ar y metro. Mae hefyd yn bwysig iawn ein bod yn parhau â'r rhaglen buddsoddi mewn seilwaith, sy'n cynorthwyo gwaith adeiladu a chysylltedd ar brosiectau seilwaith trafnidiaeth mawr. Hefyd, cafodd rhai pwyntiau ardderchog eu gwneud am yr economi werdd a'r potensial ar gyfer twf yn yr economi werdd.

However, moving on to access for businesses, in 2013, I commissioned an independent review. The review recommended that the Welsh Government create a development bank for Wales. Earlier this year, I established an expert independent panel to explore the feasibility of establishing a development bank for Wales under Professor Jones-Evans. That work is ongoing and should be submitted to me early in 2015. So, I think that it would be premature to accept any one solution until this panel has had the chance to give its views on the most effective way of helping SMEs. So, I will not be supporting amendment 6.

Fodd bynnag, gan symud ymlaen at fynediad ar gyfer busnesau, yn 2013, euthum ati i gomisiynu adolygiad annibynnol. Argymhellodd yr adolygiad y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu banc datblygu i Gymru. Yn gynharach eleni, sefydlais banel annibynnol o arbenigwyr i archwilio dichonoldeb sefydlu banc datblygu i Gymru o dan yr Athro Jones-Evans. Mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo a dylai gael ei gyflwyno i mi yn gynnar yn 2015. Felly, rwy'n meddwl y byddai'n rhy gynnar derbyn unrhyw ateb unigol nes bod y panel hwn wedi cael cyfle i fynegi ei safbwyntiau ar y ffordd fwyaf effeithiol o helpu busnesau bach a chanolig. Felly, ni fyddaf yn cefnogi gwelliant 6.

Another area of support to business is business rates policy, which has been a key issue. However, we have tabled a Government amendment to delete the point on business rates in the original motion as we have taken action by introducing a number of schemes to help the Welsh economy. For example, we capped business rates at 2% and successfully pressed the UK Government to extend small business rate relief. The devolution of business rates is something we supported, and it will be an important economic tool for us in future. It will give us some real policy flexibility and allow us to develop the business rates model that is right for Wales.

Maes arall o gefnogaeth i fusnesau yw polisi ardrethi busnes, sydd wedi bod yn fater allweddol. Fodd bynnag, rydym wedi cyflwyno gwelliant y Llywodraeth i ddileu'r pwynt ar ardrethi busnes yn y cynnig gwreiddiol oherwydd ein bod wedi gweithredu drwy gyflwyno nifer o gynlluniau i helpu economi Cymru. Er enghraifft, rydym wedi pennu uchafswm o 2% ar gyfer ardrethi busnes ac wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar Lywodraeth y DU i ymestyn rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach. Roeddem o blaid datganoli ardrethi busnes, a bydd hwn yn arf economaidd pwysig i ni yn y dyfodol. Bydd yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd polisi gwirioneddol i ni a'n galluogi i ddatblygu model ardrethi busnes sy'n briodol i Gymru.

Finally, turning to the remaining amendments, we will not be supporting amendment 5. I will be publishing my response to the Enterprise and Business Committee report on its inquiry into the promotion of trade and inward investment shortly. This will address the issue of producing a clear export strategy for Wales. We will also not be supporting amendment 3. The UK Government has cut public investment too far and too fast, and this has had an impact on economic recovery and living standards. As a Government, we have made, I believe, progress on a range of actions to help businesses through these very challenging times. These include actions to make it easier for business to access finance, making it easier to start and grow business, reviewing business policy in Wales, developing infrastructure and supporting international trade and investment. I have been particularly interested in the conversation about Iceland. We used to hear an awful lot, I think, from Alex Salmond about Iceland before the crash, but I have never visited myself, so I will take it that they are on the road to success with the economy.

Yn olaf, gan droi at y gwelliannau sydd ar ôl, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 5. Byddaf yn cyhoeddi fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi yn fuan. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r mater o gynhyrchu strategaeth allforio glir ar gyfer Cymru. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 3 chwaith. Mae Llywodraeth y DU wedi torri buddsoddiad cyhoeddus yn rhy ddwfn ac yn rhy gyflym, ac mae hyn wedi cael effaith ar adferiad economaidd a safonau byw. Fel Llywodraeth, rydym wedi gwneud, rwy'n credu, cynnydd ar ystod o gamau gweithredu i helpu busnesau trwy'r cyfnod heriol iawn ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys camau i'w gwneud yn haws i fusnesau gael gafael ar gyllid, ei gwneud yn haws i ddechrau a thyfu busnes, adolygu polisi busnes yng Nghymru, datblygu seilwaith a chefnogi masnach a buddsoddi rhyngwladol. Mae'r sgwrs am Wlad yr Iâ wedi bod o ddiddordeb penodol i mi. Roeddem yn arfer clywed llawer iawn, rwy'n meddwl, gan Alex Salmond am Wlad yr Iâ cyn y cwymp, ond nid wyf erioed wedi ymweld â'r wlad, felly rwy'n cymryd eu bod ar y ffordd i lwyddiant gyda'r economi.

Also, with regard to other contributions, people were concerned, as John Griffiths said, about the length and strength of the Welsh economy. I refute that. I look at automotive, aerospace, creative and life sciences; there is enormous ability within the Welsh economy to produce products that can be exported all over the world. When I look generally at the contributions that have been made today, they have been exceptionally useful. I do not think that we all agree, but it is nice to see that the three opposition parties cannot agree with each other either. We will be opposing the motion.

Hefyd, mewn perthynas â chyfraniadau eraill, mae pobl yn pryderu, fel y dywedodd John Griffiths, am hyd a chryfder economi Cymru. Rwy’n gwrthod hynny. Rwy'n edrych ar y sectorau modurol ac awyrofod, y gwyddorau creadigol a gwyddorau bywyd; mae gallu enfawr yn economi Cymru i gynhyrchu nwyddau y gellir eu hallforio ledled y byd. Pan edrychaf yn gyffredinol ar y cyfraniadau a wnaethpwyd heddiw, maent wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol. Nid wyf yn credu ein bod i gyd yn cytuno, ond mae'n braf gweld na all y tair gwrthblaid gytuno â'i gilydd chwaith. Byddwn yn gwrthwynebu'r cynnig.

17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Leanne Wood to reply to the debate.

Rwy'n galw Leanne Wood i ymateb i'r ddadl.

17:15 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to thank all Members for their contributions today. It is clear that, while there is disagreement on the depth of the problem and the solutions—even an element of denial in some cases—there is, at least, a concession that this is not as good as it gets for Wales.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau heddiw. Mae'n amlwg, er bod anghytuno ynglŷn â dyfnder y broblem a'r atebion—hyd yn oed elfen o wadu mewn rhai achosion—bod cyfaddefiad o leiaf y gall pethau gwella i Gymru o hyd.

I would like to address some of the amendments now. Plaid Cymru welcomes the amendment from the Welsh Liberal Democrats to our motion today and we will be supporting it. Plaid Cymru has led calls for boosting exports. This will be essential if we are to get back to basing our economy on manufacturing and to building on our reputation as an exporter of high-quality goods. Of course, it is important that we help to create the environment in this country for businesses to flourish. One way to create such conditions, in our view, is to alleviate the burden of business rates. That is why Plaid Cymru is committed to taking 70,000 Welsh businesses out of rates altogether, and that is why we will not support the Government amendment today. Good business conditions and fair working conditions go hand in hand. Often, these two issues are presented as being incompatible. For Plaid Cymru, they are not incompatible.

Hoffwn drafod rhai o'r diwygiadau yn awr. Mae Plaid Cymru yn croesawu gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i’n cynnig heddiw, a byddwn yn ei gefnogi. Mae Plaid Cymru wedi arwain y galw am roi hwb i allforion. Bydd hyn yn hanfodol os ydym am ddychwelyd at seilio ein heconomi ar weithgynhyrchu, ac ar gyfer datblygu ein henw da fel allforiwr o nwyddau o ansawdd uchel. Wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn helpu i greu'r amgylchedd yn y wlad hon lle mae busnesau yn gallu ffynnu. Un ffordd o greu amodau o'r fath, yn ein barn ni, yw lleddfu baich ardrethi busnes. Dyna pam mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad yw 70,000 o fusnesau Cymru yn talu unrhyw ardrethi o gwbl, a dyna pam na fyddwn yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth heddiw. Mae amodau busnes da ac amodau gwaith teg yn mynd law yn llaw. Yn aml, mae’r ddau fater hwn yn cael eu cyflwyno fel rhai anghydnaws. I Blaid Cymru, nid ydynt yn anghydnaws.

The amendments from the Conservative Party are selective at best in their presentation and insufficient in others. One of its amendments, on Wales as a business destination, while we have some sympathy with it, does not go far enough.

Mae'r diwygiadau gan y Blaid Geidwadol yn ddetholus ar y gorau o ran eu cyflwyniad ac yn annigonol mewn agweddau eraill. Er ein bod yn cyd-fynd i ryw raddau ag un o’i diwygiadau, ynglŷn â Chymru fel cyrchfan busnes, nid yw'n mynd yn ddigon pell.

As our economy spokesperson, Rhun ap Iorwerth, said, Plaid Cymru has advocated a national business bank for Wales. We envisage this as being an all-encompassing body, bringing together expertise for financing business and working to expand the reach of Welsh business in international markets. The new Strategic Banking Corporation of Ireland, which was formed just in the last few days, shows that we can no longer talk about these matters; it is time to act.

Fel y dywedodd ein llefarydd ar yr economi, Rhun ap Iorwerth, mae Plaid Cymru wedi galw am fanc busnes cenedlaethol i Gymru. Rydym yn rhagweld y bydd hwn yn gorff hollgynhwysol, gan ddwyn ynghyd arbenigedd ar gyfer ariannu busnesau a gweithio i ehangu cyrhaeddiad busnesau Cymru mewn marchnadoedd rhyngwladol. Mae Corfforaeth Bancio Strategol newydd Iwerddon, a sefydlwyd yn ystod y dyddiau diwethaf, yn dangos na allwn siarad am y materion hyn bellach; mae'n amser gweithredu.

Today, from business rates to exports to rights for employees, Plaid Cymru has outlined our vision not just for a prosperous Wales but for a prosperity based on justice and balance. Let us not forget why we want Wales to be a success story economically. It is because, if we can end poverty and revitalise our economy, we will see higher wages, job security and a better quality of life for all of our people. By having more people economically active in well-paid work, Wales can boost its tax take, which means more resources for our public services, for decent social protection and to create the conditions for business to flourish. The point is that we use our economic success to build a fair and just society. I look forward to your support for Plaid Cymru's motion today. Diolch yn fawr.

Heddiw, o ardrethi busnes i allforion i hawliau gweithwyr, mae Plaid Cymru wedi amlinellu ein gweledigaeth nid yn unig ar gyfer Cymru ffyniannus, ond ar gyfer ffyniant sy'n seiliedig ar gyfiawnder a chydbwysedd. Gadewch inni beidio ag anghofio pam ein bod am i Gymru fod yn stori o lwyddiant economaidd. Y rheswm yw, os gallwn roi terfyn ar dlodi ac adfywio ein heconomi, byddwn yn gweld cyflogau uwch, yn sicrhau bod swyddi'n ddiogel ac yn gwella ansawdd bywyd ar gyfer pob un o'n pobl. Drwy sicrhau bod mwy o bobl yn economaidd weithgar mewn swyddi sy'n talu'n dda, gall Cymru gynyddu ei hincwm o drethi, sy'n golygu mwy o adnoddau ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus, gan greu diogelwch cymdeithasol o safon a'r amodau i fusnesau ffynnu. Y pwynt yw ein bod yn defnyddio ein llwyddiant economaidd i greu cymdeithas deg a chyfiawn. Edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth i gynnig Plaid Cymru heddiw. Diolch yn fawr.

17:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. We will defer voting under this item until the voting time, which now follows.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Byddwn yn gohirio'r pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, sy'n dilyn yn awr.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Votes deferred until voting time.*

17:19

# Cyfnod Pleidleisio / Voting Time

Y Senedd.tv Fideo Video

## Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5608.

Result of the vote on motion NDM5608.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5608.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5608.

*Gwrthodwyd gwelliant: O blaid 6, Yn erbyn 44, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 6, Against 44, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5608.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5608.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 40, Against 10, Abstain 0.*

Cynnig NDM5608 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5608 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu dull gweithredu Cymru gyfan er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch o ran mynediad at driniaethau canser.

Calls upon the Welsh Government to establish an all Wales approach to ensure consistency and equity in access to cancer treatments.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5608 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5608 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5608 fel y'i diwygiwyd: O blaid 40, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Motion NDM5068 as amended agreed: For 40, Against 10, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5611.

Result of the vote on motion NDM5611.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5611.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5611.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5611.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5611.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5611.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5611.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5611.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5611.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 20, Ymatal 5.*

*Amendment agreed: For 25, Against 20, Abstain 5.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5611.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5611.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 25, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 25, Against 25, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5611.

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5611.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 10, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 10, Against 40, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnig NDM5611.

Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5611.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 35, Abstain 0.*

Cynnig NDM5611 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5611 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu at y ffaith bod y bwlch anghydraddoldeb rhwng y bobl a'r rhanbarthau tlotaf a'r rhai cyfoethocaf wedi tyfu o dan y naill Lywodraeth y DU ar ôl y llall.

1. Regrets that the inequality gap between the poorest and richest people and regions has grown under successive UK Governments.

2. Yn nodi bod GYC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 62.7% o gyfartaledd y DU tra bod GYC y pen yng nghanol Llundain yn 308.8%.

2. Notes that GVA per capita in West Wales and the Valleys is 62.7% of the UK average while GVA per capita in Inner London is 308.8%.

3. Yn cydnabod yr angen i newid cydbwysedd economi'r DU i ffwrdd o grynodiad o gyfoeth yn ne-ddwyrain Lloegr.

3. Recognises the need for a rebalancing of the UK economy away from a concentration of wealth in the South East of England.

4. Yn nodi ffocws strategaeth economaidd Llywodraeth y DU ar y sector gwasanaethau ariannol ac yn nodi ymhellach, er y gall hwn fod yn sector twf yng Nghymru, fod gweithgynhyrchu, cynhyrchu ac allforion wrth wraidd economi Cymru.

4. Notes the focus of the UK Government's economic strategy on the financial services sector and further notes that whilst this can be a growth sector in Wales, the core of Wales's economy is built around manufacturing, production and exports.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

5. Calls on the Welsh Government to:

a) canolbwyntio ar wireddu ac adeiladu ar botensial economaidd Cymru;

a) focus on realising and building on Wales's economic potential;

b) blaenoriaethu buddsoddiadau seilwaith mewn ardaloedd sydd ei angen fwyaf;

b) prioritise infrastructure investments in areas that need it most;

c) sefydlu banc busnes sy'n eiddo i'r cyhoedd i gynnig cyllid i fusnesau bach ar gyfraddau cystadleuol.

c) establish a publicly-owned business bank to offer finance to small businesses at competitive rates.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5611 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5611 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5611 fel y'i diwygiwyd: O blaid 35, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Motion NDM5611 as amended agreed: For 35, Against 15, Abstain 0.*

17:23

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber, please do so quickly and quietly?

A fydd yr Aelodau sy'n gadael y Siambr yn gwneud hynny'n gyflym ac yn dawel?

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 17:24.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 17:24.*

17:24

# Dadl Fer: Gwella Bywydau Pobl Hŷn

# Short Debate: Improving the Lives of Older People

Senedd.tv Fideo Video

## Mike Hedges

Bywgraffiad Biography

I have given a minute in this short debate to Janet Finch-Saunders, Aled Roberts and Ann Jones.

Rwyf wedi caniatáu munud yn y ddadl fer hon i Janet Finch-Saunders, Aled Roberts ac Ann Jones.

I could today produce a high-cost list of potential improvements and while the amount spent seems to concentrate the minds of most Members, I want to concentrate on improving the lives of elderly people without spending large sums of money. An awful lot of things that can be done do not mean that a lot of money needs to be spent. A lot of it just means that you have to have a change in emphasis and a change in the way that things are done. Staying well, feeling good and remaining as independent as possible are of vital importance to everyone in Wales. All older people should be supported to make informed choices about maintaining and improving their health and independence. Being able to take part in community life, with good access to local services and facilities, is a lifeline for many older people. If an older person cannot get out and about locally, they are at risk of poor health, less social contact with others and a reduced quality of life overall, and they will almost certainly end up spending a lot of time in the health system.

Heddiw gallwn lunio rhestr gost uchel o welliannau posibl, ac er bod y rhan fwyaf o Aelodau fel pe baent yn canolbwyntio ar y swm sy'n cael ei wario, rwyf am ganolbwyntio ar wella bywydau pobl oedrannus heb wario symiau mawr o arian. Mae'n bosibl gwneud llawer iawn o bethau heb orfod gwario llawer o arian. Mae llawer ohono'n gofyn am newid y pwyslais a newid y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud. Mae cadw'n iach, teimlo'n dda a byw mor annibynnol â phosibl yn hanfodol bwysig i bawb yng Nghymru. Dylai pob unigolyn hŷn gael ei gefnogi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â chynnal a gwella ei iechyd a'i annibyniaeth. Mae'r gallu i gymryd rhan ym mywyd y gymuned, gyda mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau lleol, yn hollbwysig i lawer o bobl hŷn. Os na all person hŷn fynd allan yn lleol, mae mewn perygl o gael iechyd gwael, cael llai o gyswllt cymdeithasol ag eraill a chael ansawdd bywyd gwaeth yn gyffredinol, ac mae bron yn sicr y bydd yn y pen draw yn treulio llawer o amser yn y system iechyd.

May I first talk about public toilets? Public toilets play a vital role in ensuring that places are accessible to people of all ages. They can be a lifeline for older people, providing them with freedom, independence and the confidence they need to lead fulfilling and active lives. Adequate public toilet provision—more importantly, not just in number, but their location—is vital to enable older people to maintain their dignity and to participate in community life. In the community I live in, in Morriston, we have very good public toilet. It is at exactly the wrong end of the street compared to where the doctor's surgery is and where the chemists are. It is literally two bus rides away. The Welsh Government-funded community toilet grant scheme, launched in 2008, provides local authorities with grant funding to encourage local businesses to open their facilities to the public. I believe that the scheme, together with the provision of toilet facilities for public use within all public buildings, must be better publicised and promoted. There are an awful lot of public buildings where the public do not realise that they can, if they can, use the public toilet. They are public buildings; the toilets in them should be available for the public. There must be clear and visible branding and signage—that is, notices in the windows of the premises taking part in the scheme—if they are to form a solution to toilet provision, alongside public toilets provided by the local authority. I welcome proposals in the Welsh Government's public health Bill to strengthen the role of public authorities in planning for the provision of, and access to, their toilets for public use to meet the needs of their communities, but it is not just public toilets; it is making toilets available in communities where they are needed.

A gaf fi siarad am doiledau cyhoeddus yn gyntaf? Mae toiledau cyhoeddus yn chwarae rôl hanfodol wrth sicrhau bod llefydd yn hygyrch i bobl o bob oed. Gallant fod yn hollbwysig i bobl hŷn, gan roi rhyddid, annibyniaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn ac egnïol. Mae darpariaeth toiledau cyhoeddus ddigonol—nid yn unig o ran nifer, ond yn bwysicach o ran eu lleoliad—yn hanfodol i alluogi pobl hŷn i gadw eu hurddas a chymryd rhan ym mywyd y gymuned. Yn y gymuned rwy'n byw ynddi, yn Nhreforys, mae gennym doiled cyhoeddus da iawn. Mae wedi'i leoli ym mhen anghywir y stryd o gymharu â lleoliad y feddygfa a'r fferyllfeydd. Mae'n ddwy daith i ffwrdd ar y bws yn llythrennol. Mae'r cynllun grant toiledau cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a lansiwyd yn 2008 yn darparu arian grant ar gyfer awdurdodau lleol i annog busnesau lleol i agor eu cyfleusterau i'r cyhoedd. Credaf fod angen gwella cyhoeddusrwydd y cynllun a'i hyrwyddo'n well, a gwneud yr un peth ar gyfer darpariaeth cyfleusterau toiled at ddefnydd y cyhoedd ym mhob adeilad cyhoeddus. Mae llawer iawn o adeiladau cyhoeddus lle nad yw'r cyhoedd yn sylweddoli eu bod yn gallu defnyddio'r toiled cyhoeddus os ydynt yn abl i wneud hynny. Maent yn adeiladau cyhoeddus; dylai'r toiledau ynddynt fod ar gael i'r cyhoedd. Mae'n rhaid cael brandio ac arwyddion clir a gweladwy—hynny yw, hysbysiadau yn ffenestri'r adeiladau sy'n cymryd rhan yn y cynllun—os ydynt am fod yn rhan o'r ateb ar gyfer darpariaeth toiledau, ochr yn ochr â thoiledau cyhoeddus a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Rwy'n croesawu cynigion ym Mil Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru i gryfhau rôl awdurdodau cyhoeddus wrth gynllunio ar gyfer darparu, a sicrhau mynediad at, eu toiledau at ddefnydd y cyhoedd i ddiwallu anghenion eu cymunedau, ond mae'r mater hwn yn ymwneud â mwy na thoiledau cyhoeddus yn unig; mae'n ymwneud â sicrhau bod toiledau ar gael mewn cymunedau lle mae eu hangen.

On voluntary meeting places, I believe that local authorities have a vital role in supporting community facilities and activities through working in partnership with voluntary and community groups and exploring core design and delivery of such services. Such facilities can also promote intergenerational activities. Older people have said that local authorities could do more to support and facilitate informal interest groups and clubs, and have suggested that public buildings such as community centres and libraries could be used more than they are now. An example of a good practice initiative to improve the quality of life for older people is Age Cymru Gwynedd and Môn's age well centres. Six dedicated centres have been opened in Gwynedd and Anglesey, utilising funding from the Big Lottery, Gwynedd Council and lifelong health and wellbeing funding in partnership with Bangor University. The benefit of these centres, which are hubs for the community, is to introduce people back into their communities and to help older people to overcome isolation and loneliness. Isolation and loneliness are probably the two greatest enemies of elderly people and are probably the greatest cause of their ill health in later life.

O safbwynt mannau cyfarfod gwirfoddol, rwy'n credu bod gan awdurdodau lleol rôl hanfodol wrth gefnogi cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol drwy weithio mewn partneriaeth â grwpiau gwirfoddol a chymunedol ac archwilio'r prosesau cynllunio a darpariaeth graidd ar gyfer gwasanaethau o'r fath. Gall cyfleusterau o'r fath hyrwyddo gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau hefyd. Mae pobl hŷn wedi dweud y gallai awdurdodau lleol wneud mwy i gefnogi a hwyluso grwpiau diddordeb a chlybiau anffurfiol, ac wedi awgrymu y gallai adeiladau cyhoeddus megis canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd gael eu defnyddio yn fwy nag y maent ar hyn o bryd. Enghraifft o fenter arfer da i wella ansawdd bywyd ar gyfer pobl hŷn yw canolfannau heneiddio'n dda Age Cymru Gwynedd a Môn. Mae chwe chanolfan benodedig wedi cael eu hagor yng Ngwynedd a Môn, gan ddefnyddio arian gan y Loteri Fawr, Cyngor Gwynedd a chyllid iechyd a lles gydol oes mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor. Mantais y canolfannau hyn, sy'n ganolfannau ar gyfer y gymuned, yw cyflwyno pobl yn ôl i'w cymunedau a helpu pobl hŷn i oresgyn arwahanrwydd ac unigrwydd. Mae'n debyg mai arwahanrwydd ac unigrwydd yw dau elyn pennaf pobl oedrannus, ac yn ôl pob tebyg, y ffactorau hyn sy'n bennaf gyfrifol am afiechyd yn ddiweddarach mewn bywyd.

The age well work has had a major impact on the lives of individuals who have attended in a cognitive, physical or spiritual sense. Research has shown that participants at the age well centre in Nefyn gained positive benefits over a 12-month period, and reported that it was possible for over-50s to make meaningful changes in lifestyle that can help to improve health and wellbeing, given suitable community resources and a small amount of support. Participants showed improvement in aspects of mental fitness, physical health and physical fitness. The age well centre model is inclusive and is based on social engagement, with a choice of activities based on members' preferences and interests. It is the ideal vehicle for improving health and wellbeing, and it draws people into a community that offers support to maintain positive changes.

Mae gwaith heneiddio'n dda wedi cael effaith fawr o safbwynt gwybyddol, corfforol neu ysbrydol ar fywydau'r unigolion sydd wedi mynychu. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod y rhai a fynychodd y ganolfan heneiddio'n dda yn Nefyn wedi elwa dros gyfnod o 12 mis, gan nodi ei bod yn bosibl i bobl dros 50 oed wneud newidiadau ystyrlon i'w ffordd o fyw, sy'n gallu helpu i wella eu hiechyd a'u lles, os oes adnoddau cymunedol addas ac ychydig bach o gefnogaeth ar gael. Dangosodd y rhai a gymerodd ran welliant mewn agweddau ar ffitrwydd meddyliol, iechyd corfforol a ffitrwydd corfforol. Mae model y canolfannau heneiddio'n dda yn gynhwysol ac yn seiliedig ar ymgysylltu cymdeithasol, gyda dewis o weithgareddau sy'n seiliedig ar ddewisiadau a diddordebau'r aelodau. Hwn yw'r cyfrwng delfrydol ar gyfer gwella iechyd a lles, ac mae'n denu pobl i mewn i gymuned sy'n cynnig cymorth i gynnal newidiadau cadarnhaol.

On nutrition in care settings, in recent years, the public health agenda has focused resources on tackling the obesity crisis, with much less attention being paid to people suffering from malnutrition. This is despite the economic burden of malnutrition in the UK being estimated at around £7.3 billion a year—equivalent to obesity. Over half of these costs are expended on people over the age of 65. It is important to stress that while work has been done to try to tackle malnutrition and dehydration in hospitals, they unfortunately still remain a problem in some wards. The recent 'Trusted to Care' report—an independent review of the quality of care for older people at the Princess of Wales Hospital in Bridgend and the Neath Port Talbot Hospital—identified some very specific areas where there were failings in the care of older people. These include failure to ensure that patients are kept hydrated. The report issued a number of recommendations for Welsh Government, including the commissioning of a strategic campaign to increase public and professional understanding that regular hydration and feeding are as important as hand cleaning for older people in hospitals. Therefore, further work is required in hospitals, as well as in care homes, to improve nutrition and hydration. Hydration standards are particularly welcome, as we often hear—at least anecdotally—that in care homes, and sometimes in hospitals, people do not have constant access to fluids, and, often, if you miss the tea trolley run, you may not be offered a drink for several hours.

O safbwynt maeth mewn lleoliadau gofal, yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r agenda iechyd cyhoeddus wedi canolbwyntio adnoddau ar fynd i'r afael â'r argyfwng gordewdra, gyda llawer llai o sylw yn cael ei roi i bobl sy'n dioddef o ddiffyg maeth. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod baich economaidd diffyg maeth yn y DU tua £7.3 biliwn y flwyddyn—sy'n gyfateb i faich economaidd gordewdra. Mae dros hanner y costau hyn yn cael eu gwario ar bobl dros 65 oed. Mae'n bwysig pwysleisio, er bod gwaith wedi cael ei wneud i geisio mynd i'r afael â diffyg maeth a diffyg hylif mewn ysbytai, yn anffodus maent yn parhau'n broblem mewn rhai wardiau. Llwyddodd yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal'—adolygiad annibynnol o ansawdd y gofal ar gyfer pobl hŷn yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot—i nodi rhai meysydd penodol iawn lle'r oedd diffygion yng ngofal pobl hŷn. Mae'r rhain yn cynnwys methu â sicrhau bod cleifion yn cael eu hydradu'n gyson. Cyhoeddodd yr adroddiad nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan gynnwys comisiynu ymgyrch strategol i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol bod hydradiad a bwydo rheolaidd cyn bwysiced â glanhau â llaw ar gyfer pobl hŷn mewn ysbytai. Felly, mae angen gwneud rhagor o waith mewn ysbytai, yn ogystal â mewn cartrefi gofal, i wella maeth a hydradu. Mae croeso arbennig i safonau hydradu, gan ein bod yn clywed yn aml—o leiaf yn anecdotaidd—nad yw hylifau ar gael i bobl yn gyson mewn cartrefi gofal, ac weithiau mewn ysbytai, ac, yn aml, os byddwch yn colli'r troli te, mae'n bosibl na fyddwch yn cael cynnig diod am nifer o oriau.

A balanced diet is also clearly important for good health, but I know that standards must be careful to avoid restricting individual preferences and the right to choice of food. People, especially those with dementia, often experience a change in their taste and preference, and flexibility must be incorporated to allow for this. Having good-quality broccoli and cabbage is of no good to the individual if all that it does is go from their plate to the bin. Therefore, I think that it really is important that people are fed food that they are going to eat.

Mae deiet cytbwys hefyd yn bwysig ar gyfer iechyd da yn amlwg, ond rwy'n gwybod bod rhaid i safonau fod yn ofalus er mwyn osgoi cyfyngu ar ddewisiadau unigol a'r hawl i ddewis bwyd. Mae pobl, yn enwedig y rhai sydd â dementia, yn aml yn profi newid yn eu chwaeth a'u dewisiadau, ac mae'n rhaid cynnwys hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer hyn. Nid yw cael broccoli a bresych o ansawdd da yn dda i ddim i'r unigolyn os yw'n mynd yn syth o'i blât i'r bin. Felly, credaf ei bod yn bwysig iawn bod pobl yn cael bwyd y maent yn mynd i'w fwyta.

I really want to come back again to the importance of making sure that people are kept hydrated. That is one of the problems, especially with elderly people, who do not have mobility. If they do not have access to drinks being brought to them, they do not have access to drink.

Rwy'n awyddus iawn i ddychwelyd unwaith eto at bwysigrwydd sicrhau bod pobl yn cael eu hydradu. Dyna un o'r problemau, yn enwedig gyda phobl hŷn, nad oes ganddynt symudedd. Os nad yw pobl yn mynd â diod atynt, nid oes ganddynt fynediad at ddiodydd.

I am calling on the Welsh Government and local authorities in Wales to examine the case for drastically increasing the scope and scale of no-cold-calling zones to protect older people from rogue traders and high-pressure sales people on their doorsteps. I would like to see no-cold-calling zones extended to cover all of Wales, preferably with an exemption for political candidates. I have seen how well they have been received in my own constituency. A relatively new one in Clasemont park has brought great relief to a number of elderly people living there. Research among 1,000 individuals across demographic groups showed that 86% of all respondents were in favour. This rose to 93% among older people. The zones that are currently in existence are not legally enforceable. Traders calling in these zones are not committing offence, and an offence is only committed if a cold caller persists in trying to sell goods or services after they have been asked to leave. This is regarded as harassment. I believe that we need a change in the law that will give the zones legal enforceability, and I would like to see the whole of Wales being a no-cold-calling zone.

Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru i ystyried yr achos o blaid cynyddu cwmpas a graddfa ardaloedd dim galw diwahoddiad er mwyn amddiffyn pobl hŷn yn erbyn masnachwyr twyllodrus a gwerthwyr sy'n rhoi llawer o bwysau arnynt ar y stepen drws. Hoffwn weld ardaloedd dim galw diwahoddiad yn cael eu hymestyn i gynnwys Cymru gyfan, gan eithrio ymgeiswyr gwleidyddol os yn bosibl. Rwyf wedi gweld pa mor dda y maent wedi eu derbyn yn fy etholaeth fy hun. Mae ardal gymharol newydd ym mharc Clasemont wedi dod â rhyddhad mawr i nifer o bobl hŷn sy'n byw yno. Mae gwaith ymchwil ymysg 1,000 o unigolion ar draws y grwpiau demograffig wedi dangos bod 86% o'r holl ymatebwyr o blaid y syniad. Roedd hyn yn codi i 93% ymysg pobl hŷn. Ni ellir gorfordi'r ardaloedd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn gyfreithiol. Nid yw masnachwyr sy'n galw yn yr ardaloedd hyn yn cyflawni trosedd, ac nid yw trosedd yn cael ei chyflawni nes bod galwr digroeso yn parhau i geisio gwerthu nwyddau neu wasanaethau ar ôl i'r sawl sydd wrth y drws ofyn iddo adael. Mae hyn yn cael ei ystyried yn aflonyddu. Credaf fod angen newid y gyfraith er mwyn sicrhau bod gan yr ardaloedd grym cyfreithiol, a hoffwn weld Cymru gyfan yn ardal dim galw diwahoddiad.

Far too many elderly people are preyed on by people who knock on their door and say, 'You have a slate missing. I can put it right; it will only cost you a couple of hundred pounds', and several £1,000 later the house is either in the same state as it was, or it is sometimes in a less good state because people have been preyed on and taken advantage of. This cold calling is a blight on our society and something, I think, that we all agree needs to be stopped.

Mae llawer gormod o bobl hŷn yn cael eu targedu gan bobl sy'n curo ar eu drws ac yn dweud, 'Mae gennych lechen ar goll. Gallaf ei thrwsio; bydd ond yn costio ychydig o gannoedd o bunnoedd i chi', a sawl £1,000 yn ddiweddarach mae'r tŷ naill ai yn yr un cyflwr ag o'r blaen, neu weithiau mae mewn cyflwr gwaeth oherwydd bod pobl wedi targedu'r unigolyn dan sylw ac wedi manteisio arno. Mae'r galw diwahoddiad hwn yn difetha ein cymdeithas ac mae'n rhywbeth, rwy'n credu, ein bod i gyd yn cytuno sydd angen ei stopio.

Low-cost adaptation is the last thing that I want to talk about. Substantial progress has been made on this since I first started promoting it in the 1990s. But, again, more needs to be done. More hand rails, especially in gardens, and replacing lino with carpets to reduce slip hazards would improve people's lives, rather than expensive disabled facilities grants, when many elderly people do not want the disruption and mess of large-scale work and do not want to deal with the result of a slip with long-term hospitalisation. There are a lot of very simple and very easy things that can be done. I must pay credit to Tend and Mend, which has done a tremendous job doing this across Wales. There are a number of small things. Sometimes getting a carpet put in seems to be more difficult than it is to actually get hand rails installed throughout the house. A £30,000 job is quite often something for which the occupational therapist will tick all of the boxes, when the person living there tends not to want that much work done. They just want something to be done to make them able to move around the house without falling.

Addasu cost isel yw'r peth olaf rwyf am ei drafod. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn y cyswllt hwn ers i mi ddechrau ei hyrwyddo am y tro cyntaf yn y 1990au. Ond, unwaith eto, mae angen gwneud mwy. Byddai rhagor o ganllawiau, yn enwedig mewn gerddi, a disodli leino â charpedi i leihau peryglon llithro yn gwella bywydau pobl, yn hytrach na grantiau cyfleusterau i'r anabl drud, pan nad yw llawer o bobl hŷn eisiau wynebu gwaith ar raddfa fawr oherwydd y llanastr a'r ffaith ei fod yn tarfu arnynt, ac nad ydynt am ymdopi â chanlyniadau llithro a gorfod aros yn yr ysbyty am gyfnod hir. Mae llawer o bethau syml iawn a hawdd iawn y gellir eu gwneud. Mae'n rhaid i mi ganmol Twtio a Thrwsio, sydd wedi gwneud gwaith gwych yn y cyswllt hwn ledled Cymru. Mae nifer o bethau bach. Weithiau mae'n ymddangos bod gosod carped yn fwy anodd mewn gwirionedd na chael canllawiau wedi'u gosod drwy'r holl dŷ. Yn aml iawn, bydd y therapydd galwedigaethol yn ticio'r holl focsys ar gyfer gwaith gwerth £30,000, pan na fydd y person sy'n byw yno yn tueddu i fod eisiau cymaint â hynny o waith. Unig ddymuniad yr unigolyn yw bod rhywbeth yn cael ei wneud fel ei fod yn gallu symud o gwmpas y tŷ heb syrthio.

In conclusion, these are five relatively cheap ways of improving the lives and health of elderly people. It is not the headline-grabbing spending of hundreds of millions of pounds extra on dealing with the consequences of not carrying out what I described. Really, we do owe it to the elderly people of this country to try to bring in some relatively cheap and, in many cases, zero-cost options that will improve their lives dramatically.

I gloi, dyma bum ffordd gymharol rad o wella bywydau ac iechyd pobl hŷn. Ni fyddant yn cyrraedd y penawdau gan na fydd angen gwario cannoedd o filiynau o bunnoedd yn ychwanegol ar fynd i'r afael â chanlyniadau peidio â chyflawni'r hyn a ddisgrifiais. O ddifrif, mae gennym ddyletswydd i bobl hŷn yn y wlad hon i geisio cyflwyno rhai dewisiadau cymharol rad ac, mewn llawer o achosion, dewisiadau nad ydynt yn costio unrhyw beth a fydd yn gwella eu bywydau yn ddramatig.

17:33 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Over 0.5 million people in Wales are aged 65 and over, which is 18% of the population. Now, there are more people of this age than there are children under the age of 16. The number of people aged 65 and above in Wales is projected to rise to one in four by 2030, and it can be particularly difficult to find a new job once you are over 50. PRIME Cymru is concerned that the vast majority of programmes, projects and employability schemes are targeted at young people. I would like to thank the Member, Mike Hedges, for bringing this here. Too often we hear of policy write ups now, mainly aimed at the young. We hear of rural poverty, and we hear of rural exclusion and digital exclusion. So many times now our older people are feeling excluded. I would really like to ask the Welsh Government now whether we can start putting forward some strong proposals to support, safeguard and protect our older people living here in Wales. So, today, really, is an opportunity to value our older people and ensure that they are a fundamental inclusion in any of the policies that we are writing up. Thank you, Mike.

Mae dros 0.5 miliwn o bobl yng Nghymru yn 65 oed a throsodd, sef 18% o'r boblogaeth. Yn awr, mae mwy o bobl o'r oedran hwn nag sydd o blant dan 16 oed. Rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn codi i un o bob pedwar erbyn 2030, ac mae'n gallu bod yn arbennig o anodd dod o hyd i swydd newydd pan eich bod dros 50 oed. Mae PRIME Cymru yn pryderu bod y mwyafrif helaeth o raglenni, prosiectau a chynlluniau cyflogadwyedd yn cael eu targedu at bobl ifanc. Hoffwn ddiolch i'r Aelod, Mike Hedges, am ddod â'r mater yma. Yn rhy aml, rydym yn clywed am bolisïau yn cael eu llunio'n bennaf ar gyfer pobl ifanc. Rydym yn clywed am dlodi gwledig, ac rydym yn clywed am allgáu gwledig ac allgáu digidol. Mae pobl hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu hallgáu yn aml iawn erbyn hyn. Byddwn yn wir yn hoffi gofyn i Lywodraeth Cymru yn awr a allwn ddechrau cyflwyno rhai cynigion cryf i gefnogi, diogelu ac amddiffyn ein pobl hŷn sy'n byw yma yng Nghymru. Felly, mae heddiw yn gyfle gwirioneddol i werthfawrogi ein pobl hŷn a sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn rhan sylfaenol o unrhyw un o'r polisïau rydym yn eu llunio. Diolch i chi, Mike.

17:35 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am not quite sure whether we have one person or two persons left who do not meet the definition of an older person, as far as local authorities are concerned. [Laughter.] The truth is that, in Wales, we follow the British rule and we actually compartmentalise people, and certainly, at local authority level, an elderly person is dealt with by social services. I want to make the point that that is not necessarily the case. The vast majority of older people that I know are not dependent on social services; they are very active. One of the lessons that I think we need to learn is the lesson from Scandinavia, where there is much greater emphasis on intergenerational stuff, so that people do not, in fact, go to a luncheon club, but have their meal in the local school, with people they can share their experiences with. I agree totally with a lot of the points that Mike Hedges has made here this afternoon.

Nid wyf yn hollol siŵr a oes gennym un person neu ddau berson ar ôl nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o berson hŷn, cyn belled ag y mae awdurdodau lleol yn y cwestiwn. [Chwerthin.] Y gwir yw, yng Nghymru, ein bod yn dilyn y rheol Brydeinig ac mewn gwirionedd yn gosod pobl mewn adrannau, ac yn sicr, ar lefel awdurdod lleol, y gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymdrin â phobl hŷn. Rwyf am wneud y pwynt nad yw hynny o reidrwydd yn wir. Nid yw'r mwyafrif helaeth o bobl hŷn rwy'n eu hadnabod yn ddibynnol ar y gwasanaethau cymdeithasol; maent yn egnïol iawn. Un o'r gwersi rwy'n credu y mae angen i ni ei dysgu yw'r wers o Sgandinafia, lle mae llawer mwy o bwyslais ar faterion rhwng y cenedlaethau, fel nad yw pobl, mewn gwirionedd, yn mynd i glwb cinio, ond yn cael eu pryd bwyd yn yr ysgol leol, gyda phobl y gallant rannu eu profiadau â hwy. Cytunaf yn llwyr â llawer o'r pwyntiau y mae Mike Hedges wedi'u gwneud yma'r prynhawn hwn.

17:35 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to thank Mike for raising very sensible and practical solutions, which are basically common sense, to keep older people staying well and feeling good. I, too, wanted to mention economic activity, and I was going to mention PRIME Cymru as well, so I am glad that Janet has mentioned it. PRIME Cymru has now opened an office in north Wales to assist those of senior years—I will use 'senior years', given that I now have a senior extra year on mine—to retrain or to utilise their vast skillset, or even to acquire some skills, to give them some competency to be able to go back into the workplace. That, for me, is a very important part of making people feel that they are still able to offer something to the community. So, I would like to say to PRIME Cymru that I will work with it, and I am sure that it will take on many of the issues that Mike has raised about how we want to value our older people.

Hoffwn ddiolch i Mike am godi atebion synhwyrol ac ymarferol iawn, sydd yn y bôn yn synnwyr cyffredin, i gadw pobl hŷn yn iach ac yn teimlo'n dda. Roeddwn innau, hefyd, yn awyddus i sôn am weithgarwch economaidd, ac roeddwn yn mynd i sôn am PRIME Cymru hefyd, felly rwy'n falch bod Janet wedi gwneud hynny. Erbyn hyn, mae PRIME Cymru wedi agor swyddfa yng ngogledd Cymru i gynorthwyo'r rhai o uwch-flynyddoedd—byddaf yn defnyddio'r term 'uwch flynyddoedd', o gofio bod gennyf uwch flwyddyn ychwanegol ar fy oedran—i ailhyfforddi neu ddefnyddio eu set sgiliau helaeth, neu hyd yn oed ddysgu rhai sgiliau newydd, er mwyn rhoi rhywfaint o gymhwysedd iddynt allu dychwelyd i'r gweithle. Mae hynny, i mi, yn rhan bwysig iawn o wneud i bobl deimlo eu bod yn gallu cynnig rhywbeth i'r gymuned o hyd. Felly, hoffwn ddweud wrth PRIME Cymru y byddaf yn gweithio gydag ef, ac rwyf yn siŵr y bydd yn mynd i'r afael â llawer o'r materion y mae Mike wedi'u codi ynglŷn â sut rydym am werthfawrogi ein pobl hŷn.

17:36

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i ymateb i’r ddadl—Vaughan Gething.

I call on the Deputy Minister for Health to reply to the debate—Vaughan Gething.

17:37

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank Mike Hedges for bringing the debate forward today and I particularly thank Members for a series of constructive contributions.

Hoffwn ddiolch i Mike Hedges am ddod â'r ddadl hon gerbron heddiw, a diolchaf yn arbennig i'r Aelodau am gyfres o gyfraniadau adeiladol.

There is commonality in each party across Wales that here, in this country, we want to value the contribution that older people make to their families and communities. We are all committed to making Wales a great place to grow old. Significant work has already been undertaken since the launch in 2003 of the first strategy for older people, and we continue to engage widely with older people right across Wales. We have put in place a number of structures at both the national and local level to try to ensure that the voices of older people are heard. More importantly, we have taken action on things that older people have told us are important to them.

Mae pob plaid yng Nghymru yn cytuno bod yma, yn y wlad hon, rydym eisiau gwerthfawrogi’r cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud at eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym i gyd wedi ymrwymo i wneud Cymru yn lle gwych i dyfu'n hen. Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei wneud ers lansio’r strategaeth gyntaf ar gyfer pobl hŷn yn 2003, ac rydym yn parhau i ymgysylltu'n eang â phobl hŷn ledled Cymru. Rydym wedi sefydlu nifer o strwythurau ar lefel genedlaethol a lleol i geisio sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed. Yn bwysicach, rydym wedi gweithredu ar y pethau y mae pobl hŷn wedi dweud wrthym sy'n bwysig iddynt.

The focus of today's debate is helpfully on simple things that could be done to make the lives of older people better. When we were developing the strategy for older people we asked them what was important and what would make their lives better. They said they wanted to remain active in and connected to their local communities, to build on the point that Aled Roberts made. They also said that they wanted to feel safe and comfortable in their own home or the place that they called home and that they were concerned that they could become lonely. They specifically told us about the availability of public toilets and accessible public transport being really important to them. They also said that they wanted someone to talk to and something to look forward to. Many of the themes have been set out in Mike's opening contribution.

Mae’r ddadl heddiw yn canolbwyntio mewn ffordd ddefnyddiol ar bethau syml y gellid eu gwneud i wella bywydau pobl hŷn. Pan oeddem yn datblygu'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn, gofynasom iddynt beth oedd yn bwysig a beth fyddai'n gwneud eu bywydau yn well. Dywedasant eu bod eisiau parhau i fod yn egnïol a chadw mewn cysylltiad â'u cymunedau lleol, er mwyn adeiladu ar y pwynt a wnaeth Aled Roberts. Dywedasant hefyd eu bod eisiau teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yn eu cartref eu hunain, neu yn y lle y maent yn galw’n gartref, a’u bod yn pryderu y gallent fod yn unig. Dywedasant yn benodol bod argaeledd toiledau cyhoeddus a thrafnidiaeth gyhoeddus yn wirioneddol bwysig iddynt. Dywedasant hefyd eu bod eisiau rhywun i siarad ag ef a rhywbeth i edrych ymlaen ato. Mae llawer o'r themâu wedi cael eu nodi yng nghyfraniad agoriadol Mike.

That is why the public health White Paper ‘Listening to you: your health matters’ contains a proposal in relation to public toilets. I well remember this issue coming to the health committee, when I was a member of it, and understanding the impact that not having access to a public toilet has on older people in particular and their ability to go out to undertake what we would consider to be normal everyday tasks. We are considering the proposal to place a duty on each local authority to develop a strategy on the provision of and access to toilets for public use. This should be based on community need and will be consulted upon and reviewed on a regular basis.

Dyna pam y mae'r Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd, 'Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig' yn cynnwys cynnig yn ymwneud â thoiledau cyhoeddus. Rwy’n cofio’r mater hwn yn dod gerbron y pwyllgor iechyd, pan oeddwn yn aelod ohono, ac yn deall yr effaith y mae peidio â chael mynediad at doiledau cyhoeddus yn ei chael ar bobl hŷn yn arbennig, ac ar eu gallu i fynd allan i gyflawni’r hyn y byddem yn ei ystyried yn dasgau arferol bob dydd. Rydym yn ystyried y cynnig i osod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i ddatblygu strategaeth ar ddarpariaeth a mynediad at doiledau i’r cyhoedd. Dylai hyn fod yn seiliedig ar anghenion y gymuned a bydd yn destun ymgynghoriad ac adolygiad rheolaidd.

We also recognise the importance of effective and affordable public transport. We are taking forward a range of actions and investment to improve services for older people. We continue to support the hugely successful concessionary bus travel scheme for more than 720,000 older or disabled people, seriously injured service veterans and seriously injured service personnel. The concessionary fare rail scheme complements this scheme and is intended to provide concessionary access to public transport where bus services are limited. In addition to a commitment to introduce additional services in mid Wales, on the Cambrian and Heart of Wales lines, from May next year, this year has seen a continuation of extra services to north Pembrokeshire through to the end of the current rail franchise in 2018.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol a fforddiadwy. Rydym yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o gamau gweithredu a buddsoddiad i wella gwasanaethau i bobl hŷn. Rydym yn parhau i gefnogi'r cynllun teithio rhatach ar fysiau hynod lwyddiannus ar gyfer mwy na 720,000 o bobl hŷn neu bobl anabl, cyn-filwyr a anafwyd yn ddifrifol ac aelodau o'r lluoedd arfog a anafwyd yn ddifrifol. Mae'r cynllun teithio rhatach ar y rheilffordd yn ategu'r cynllun hwn a'i fwriad yw darparu mynediad rhatach i drafnidiaeth gyhoeddus lle mae gwasanaethau bws yn gyfyngedig. Yn ogystal ag ymrwymiad i gyflwyno gwasanaethau ychwanegol yng nghanolbarth Cymru, rheilffordd y Cambrian a rheilffordd Calon Cymru o fis Mai'r flwyddyn nesaf, eleni mae gwasanaethau ychwanegol i ogledd sir Benfro wedi parhau hyd at ddiwedd y fasnachfraint rheilffyrdd presennol yn 2018.

Loneliness and isolation can pose a real risk to people’s health and wellbeing—again, a point that was made by Mike Hedges in opening this debate. We recognise that befriending schemes can be really beneficial in preventing loneliness and enabling people to remain active within their own communities. There are a number of befriending schemes right across Wales. The example in Newport—the Good Neighbours scheme—provides company and help with small practical things that can make a difference, from small jobs around the home, to help with shopping, collecting pensions, going on outings and being around when workmen or tradespeople visit or officials stop by, or just having a chat. Simple and practical help provided by volunteers can make a significant difference to the lives of older people. It can help to maintain independence and enable them to remain active within their local communities.

Gall unigrwydd ac arwahanrwydd fod yn risg wirioneddol i iechyd a lles pobl—unwaith eto, cododd Mike Hedges y pwynt hwn wrth agor y ddadl hon. Rydym yn cydnabod y gall cynlluniau cyfeillio fod o fudd gwirioneddol wrth atal unigrwydd a galluogi pobl i barhau i fod yn egnïol yn eu cymunedau eu hunain. Mae nifer o gynlluniau cyfeillio ledled Cymru. Mae'r enghraifft yng Nghasnewydd—y cynllun Cymdogion Da—yn darparu cwmni a chymorth gyda phethau bach ymarferol sy’n gallu gwneud gwahaniaeth, o dasgau bach o gwmpas y cartref, i helpu gyda siopa, casglu pensiwn, mynd allan ar deithiau a bod yn bresennol pan fydd gweithwyr neu grefftwyr yn ymweld neu pan fydd swyddogion yn galw, neu dim ond galw i gael sgwrs. Gall cymorth syml ac ymarferol gan wirfoddolwyr wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl hŷn. Gall helpu i gynnal annibyniaeth a’u galluogi i aros yn egnïol yn eu cymunedau lleol.

On cold calling, Mike Hedges has been nothing if not consistent and persistent in raising this issue in and around the Chamber. We know the point about older people feeling safe, and no-cold-calling zones can be a really important part of ensuring that they do feel safe. We provided about £35,000 to 12 authorities in Wales to create more no-cold-calling zones, and the feedback has indicated that that investment has been successful, and has had a positive impact on communities. Other authorities that did not receive that funding have, nevertheless, recognised the benefits and gone ahead and introduced no-cold-calling zones. It is something that local authorities could already do something about now, without changing the law. We also provide funding to support the production of promotional awareness-raising materials and leaflets. For example, South Wales Police provides a range of materials, including DVDs and leaflets, about cold-calling scams, and Age Cymru has developed a scams awareness project.

O ran galw diwahoddiad, mae Mike Hedges wedi bod yn gyson ac yn ddyfal wrth godi'r mater hwn yn y Siambr ac o’i chwmpas. Rydym yn ymwybodol o’r pwynt ynglŷn â phobl hŷn yn teimlo'n ddiogel, a gall ardaloedd dim galw diwahoddiad fod yn rhan bwysig iawn o sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel. Rydym wedi darparu tua £35,000 i 12 awdurdod yng Nghymru sefydlu mwy o ardaloedd dim galw diwahoddiad, ac mae'r adborth wedi dangos bod y buddsoddiad hwnnw wedi bod yn llwyddiannus, ac wedi cael effaith gadarnhaol ar gymunedau. Mae awdurdodau eraill na dderbyniasant gyllid wedi cydnabod y manteision serch hynny, gan fynd ati i gyflwyno ardaloedd dim galw diwahoddiad. Mae'n rhywbeth y gallai awdurdodau lleol wneud rhywbeth yn ei gylch eisoes, heb newid y gyfraith. Rydym hefyd yn darparu cyllid i gefnogi’r gwaith o gynhyrchu deunyddiau a thaflenni hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth. Er enghraifft, mae Heddlu De Cymru yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau, gan gynnwys DVDs a thaflenni, ynglŷn â thwyll galw diwahoddiad, ac mae Age Cymru wedi datblygu prosiect ymwybyddiaeth o dwyll.

I hope that everyone has heard and listened to the Minister for Health and Social Services talking about prudent healthcare and how this could help to provide better outcomes for patients and better value for our healthcare system. One of the principles is to utilise community resource and make more effective use of the voluntary and third sectors. The Llanelli community resource team is a good example. The results in that town have been striking and have led to a reduction in new residential care placements, domiciliary home care and the need for meals on wheels. The number of hospital readmissions has reduced, and the referral times for assessment have reduced from one month to two days. There has been improved feedback on services and a significant reduction in complaints. Organising around prudent healthcare principles should help to ensure that everyone, including older people, is able to access safe, sustainable and high-quality healthcare, and to contribute to health and wellbeing across Wales.

Gobeithio fod pawb wedi clywed ac wedi gwrando ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn siarad am ofal iechyd doeth a sut y gallai hyn helpu i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer cleifion a sicrhau mwy o werth ar gyfer ein system gofal iechyd. Un o'r egwyddorion yw defnyddio adnoddau cymunedol a gwneud defnydd mwy effeithiol o'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector. Mae tîm adnoddau cymunedol Llanelli yn enghraifft dda. Mae'r canlyniadau yn y dref honno wedi bod yn drawiadol ac wedi arwain at ostyngiad yn nifer y lleoliadau gofal preswyl newydd, gofal cartref a'r angen am bryd ar glud. Mae nifer yr aildderbyniadau i'r ysbyty wedi lleihau, ac mae'r amseroedd atgyfeirio ar gyfer asesiad wedi gostwng o un mis i ddau ddiwrnod. Mae adborth ar wasanaethau wedi gwella a bu gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion. Dylai trefnu ar sail egwyddorion gofal iechyd doeth helpu i sicrhau bod pawb, gan gynnwys pobl hŷn, yn gallu cael mynediad at ofal iechyd diogel, cynaliadwy o ansawdd uchel, ac yn cyfrannu at iechyd a lles ledled Cymru.

Members will, of course, recall that, following a lengthy period of voting, the landmark Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 was passed this year. Key elements of the Act focus on prevention and early intervention, and the transformation of services to meet the needs of people and improve wellbeing. We are clear that good integrated services must focus on delivering care and support that meet the needs of the individual—a genuinely person-centred approach.

Bydd yr Aelodau, wrth gwrs, yn cofio, yn dilyn cyfnod hir o bleidleisio, bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, deddf bwysig iawn, wedi'i phasio eleni. Mae elfennau allweddol o'r Ddeddf yn canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, ac ar drawsnewid gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl a gwella lles. Rydym yn glir bod yn rhaid i wasanaethau integredig da ganolbwyntio ar ddarparu gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion yr unigolyn—dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddifrif.

In March this year, we published our integration framework for older people with complex needs. The focus of that framework is ensuring the development and delivery of integrated services, care and support for older people, particularly those who are frail. We continue to encourage collaborative work between social services, health and housing, along with the third and independent sector partners, to help to transform services through the use of the intermediate care fund. We want to see that as a transformative part of changing the way that services are delivered in Wales. The fund has focused on the use of innovation and new models to support older people to maintain their independence and remain at home. It aims to reduce unnecessary hospital admissions and prevent delayed discharges from hospital, as well as inappropriate admission to residential care. Often, it can be that simple things really do make a difference to the lives of older people. Falls account for a significant proportion of hospital admissions, and the intermediate care fund has already been used to ensure that there are aids and adaptations to people's homes to minimise the risk of them falling. The Ageing Well in Wales programme, launched last month, has a work stream that focuses on the prevention of falls. It will look at what older people and their carers can do to reduce the risk of falling and ensure that fall prevention is mainstreamed across all health and social services provision.

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddwyd ein fframwaith integreiddio ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r fframwaith hwnnw yn canolbwyntio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau integredig, a gofal a chefnogaeth ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n eiddil. Rydym yn parhau i annog gwaith ar y cyd rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, ynghyd â phartneriaid yn y trydydd sector a'r sector annibynnol, er mwyn helpu i weddnewid gwasanaethau drwy ddefnyddio'r gronfa gofal canolraddol. Rydym eisiau gweld hynny fel rhan weddnewidiol o newid sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru. Mae'r gronfa wedi canolbwyntio ar ddefnyddio arloesi a modelau newydd i gefnogi pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi. Ei nod yw lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty ac osgoi oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn ogystal â mynediad amhriodol i ofal preswyl. Yn aml, gall pethau syml wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl hŷn. Mae cyfran sylweddol o dderbyniadau i ysbytai yn deillio o bobl yn syrthio, ac mae'r gronfa gofal canolraddol eisoes wedi cael ei defnyddio i ddarparu cymhorthion ac addasiadau i gartrefi pobl er mwyn lleihau'r risg y byddant yn syrthio. Mae gan y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a lansiwyd y mis diwethaf, ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar atal cwympiadau. Bydd yn edrych ar yr hyn y gall pobl hŷn a'u gofalwyr ei wneud i leihau'r perygl o syrthio ac yn sicrhau bod y gwaith o atal cwympiadau yn cael ei brif ffrydio ar draws yr holl ddarpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

While our aim is, of course, to support older people to maintain their independence and to remain at home for as long as possible, there are many people who live in care homes. We need to recognise that these are people’s homes, and we need to focus on the quality of life that people have as well as the safety of people living in those homes. That includes ensuring that people have the same access to services as they would in their own homes, for example, to primary care services.

Er mai ein nod, wrth gwrs, yw cefnogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi am gyfnod mor hir â phosibl, mae llawer o bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae angen i ni gydnabod mai cartrefi pobl yw’r rhain, ac mae angen i ni ganolbwyntio ar ansawdd bywyd pobl yn ogystal â diogelwch pobl sy'n byw yn y cartrefi hynny. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod gan bobl yr un mynediad at wasanaethau ag y byddai ganddynt yn eu cartrefi eu hunain, er enghraifft, mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol.

The forthcoming regulation and inspection Bill will ensure that our regulatory regime not only focuses on services being safe, but also will focus on the quality of services. That is why we have established a care homes task and finish group, which includes external representation from health boards, local authorities, the Care Council for Wales and Care Forum Wales. We look forward to receiving the report next week from the commissioner for older people on her review of residential care.

Bydd y Bil rheoleiddio ac arolygu arfaethedig yn sicrhau nid yn unig bod ein cyfundrefn reoleiddio yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel, ond bydd yn canolbwyntio hefyd ar ansawdd y gwasanaethau. Dyna pam rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen cartrefi gofal, sy'n cynnwys cynrychiolaeth allanol gan fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, Cyngor Gofal Cymru a Fforwm Gofal Cymru. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad y comisiynydd pobl hŷn ar ei hadolygiad o ofal preswyl yr wythnos nesaf.

I note the point that was well made in the previous debate by Aled Roberts about ensuring that meal options in hospitals and care homes meet the needs of the population, and Mike Hedges makes the same point in relation to older people, and that point is well made and, in particular, the point about ensuring hydration—that drinks are available for people when in hospital. That is an issue that has been highlighted in some spot checks and an issue that the health service recognises there is a need to keep on top of and ensure that that is made real.

Nodaf y pwynt a wnaed yn dda yn y ddadl flaenorol gan Aled Roberts ynglŷn â sicrhau bod dewisiadau prydau mewn ysbytai a chartrefi gofal yn diwallu anghenion y boblogaeth, ac mae Mike Hedges yn gwneud yr un pwynt yng nghyswllt pobl hŷn, ac mae’r pwynt hwnnw yn cael ei wneud yn dda ac, yn enwedig, y pwynt ynglŷn â sicrhau hydradiad—bod diodydd ar gael i bobl pan eu bod yn yr ysbyty. Mae’r mater hwnnw wedi dod i’r amlwg mewn rhai archwiliadau dirybudd ac mae’n fater y mae'r gwasanaeth iechyd yn cydnabod bod angen cadw golwg arno a sicrhau bod hynny'n digwydd.

I also note the points made about the disabled facilities grant and the potential for smaller renovations and smaller changes that could make a big difference to keeping an older person at home. I will ask the relevant Minister to consider what Mike Hedges has had to say today on that matter and respond to him directly.

Nodaf hefyd y pwyntiau a wnaed ynglŷn â’r grant cyfleusterau i'r anabl a'r potensial ar gyfer gwaith adnewyddu llai a newidiadau llai a allai wneud gwahaniaeth mawr i gadw person hŷn yn ei gartref. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog perthnasol ystyried yr hyn y mae Mike Hedges wedi’i ddweud heddiw ynglŷn â’r mater hwn ac ymateb iddo yn uniongyrchol.

I have highlighted just some of the work that is under way to improve the lives of older people in Wales. As I have said, it is based on what older people themselves have told us is important to them. We are committed to continuing to work to improve the quality of life and the health and wellbeing of older people in Wales. We will achieve this by continuing to listen and to involve older citizens in the development of services and community facilities that impact upon them and make best use of a healthy and happy retirement.

Rwyf wedi tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith yn unig sy’n mynd rhagddo i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru. Fel rwyf wedi'i ddweud, mae’n seiliedig ar yr hyn y mae pobl hŷn eu hunain wedi dweud wrthym sy'n bwysig iddynt. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio i wella ansawdd bywyd ac iechyd a lles pobl hŷn yng Nghymru. Byddwn yn cyflawni hyn drwy barhau i wrando a chynnwys dinasyddion hŷn wrth ddatblygu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol sy'n effeithio arnynt ac yn gwneud y defnydd gorau o ymddeoliad iach a hapus.

17:47

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

That brings today’s proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:47.*

*The meeting ended at 17:47.*